

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

06/05/2015

Cynnwys Contents

- [1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)
[1. Questions to the Minister for Education and Skills](#)
- [2. Cwestiynau i Weiniidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)
[2. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport](#)
- [3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ysbytai](#)
[3. Welsh Conservatives Debate: Hospitals](#)
- [4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cynllun Economaidd Hirdymor](#)
[4. Welsh Conservatives Debate: Long-term Economic Plan](#)
- [5. Dadl Plaid Cymru: Plismona](#)
[5. Plaid Cymru Debate: Policing](#)
- [6. Cyfnod Pleidleisio](#)
[6. Voting Time](#)
- [7. Dadl Fer: Wynebu Her Tlodi Tanwydd](#)
[7. Short Debate: Meeting the Fuel Poverty Challenge](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:31 **1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first item this afternoon is questions to the Minister for Education and Skills, and question 1 is Llyr Gruffydd.

1. Questions to the Minister for Education and Skills **Y**

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, a daw cwestiwn 1 gan Llyr Gruffydd.

Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Pupils with Additional Learning Needs

13:31 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysgol i ddisgyblion ysgol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? OAQ(40571)(ESK)

1. Will the Minister make a statement on educational provision for school pupils with additional learning needs? OAQ(4)0571(ESK)

13:31 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Yes, of course. The Welsh Government is committed to meeting the needs of all pupils with additional learning needs. Through our ambitious education reform programme, aimed at raising standards, and our support for professional development through the New Deal, we will ensure education providers are equipped to deliver high-quality education provision to all learners.

Gwnaf, wrth gwrs. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Drwy ein rhaglen uchelgeisiol i ddiwygio addysg, gyda'r nod o godi safonau, a'n cefnogaeth i ddatblygiad proffesiynol drwy'r Fargen Newydd, byddwn yn sicrhau bod darparwyr addysg wedi'u cyfarparu i gyflwyno darpariaeth addysg o ansawdd uchel i bob dysgwyr.

13:31 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i chi am eich ateb. Rwy'n deall bod yna Fil arfaethedig ar anghenion dysgu ychwanegol. A gaf i ofyn pa ddarpariaeth, os o gwbl, fydd yna yn y Bil hwnnw i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y gefnogaeth a'r gwasanaeth y mae hawl ganddyn nhw i'w gael, ym mhob rhan o Gymru?

Thank you for that response. I understand that there is a proposed Bill on additional learning needs. Can I ask you what provision, if any, will be included in that Bill to ensure that Welsh speakers with additional learning needs receive the support and service that they have a right to, in all parts of Wales?

13:32 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, Presiding Officer, as I said, this additional learning needs Bill is a Bill for all of Wales's children that are covered by the term 'additional learning needs'. This will be a system that is simpler, that is more person-centred on the child and their needs, and that will institute a fairer and more transparent system for resolving concerns and appeals. Now, the consultation on the proposals ended last July, and I do intend to introduce the Bill before the summer recess.

Wel, wrth gwrs, Lywydd, fel y dywedais, mae'r Bil anghenion dysgu ychwanegol hwn yn Fil ar gyfer holl blant Cymru sydd wedi'u cynnwys gan y term 'anghenion dysgu ychwanegol'. Bydd hon yn system symlach, sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn a'i anghenion, a bydd hynny'n cyflwyno system decach a mwy tryloyw ar gyfer datrys pryderon ac apeladau. Nawr, daeth yr ymgynghoriad ar y cynigion i ben fis Gorffennaf diwethaf, ac rwy'n bwriadu cyflwyno'r Bil cyn toriad yr haf.

13:32 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A all y Gweinidog ddweud pa gamau y mae'n eu cymryd ar hyn o bryd i sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu haddysgu heblaw am yn yr ysgol yn derbyn eu hawl statudol i addysg, ac a oes ganddo unrhyw dystiolaeth bod plant sy'n siarad Cymraeg yn llai tebygol o dderbyn eu hawl lawn? Diolch.

Can the Minister tell us what steps he's taking at present to ensure that children with additional learning needs who are educated other than in school receive their statutory right to education, and does he have any evidence that Welsh-speaking children are less likely to receive their full rights or entitlements? Thank you.

13:33 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm not aware of any specific evidence around the question of Welsh-medium provision other than at school. If the Member is aware of evidence, then I would gladly take a look at it. As I say, this Bill, as we develop it through this place, is intended to be holistic and inclusive, and all these important questions are ones that I will, of course, consider, and that we should all consider, through the scrutiny process that we will embark upon.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth benodol ynghylch y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg heblaw am yn yr ysgol. Os yw'r Aelod yn ymwybodol o dystiolaeth, yna byddwn yn falch o edrych arni. Fel y dywedais, bwriedir i'r Bil hwn, wrth i ni ei ddatblygu drwy'r lle hwn, fod yn gyfannol ac yn gynhwysol, ac mae'r holl gwestiynau pwysig hyn yn rhai y byddaf yn eu hystyried, wrth gwrs, ac yn rhai y dylem i gyd eu hystyried, drwy'r broses graffu y byddwn yn cychwyn arni.

13:33 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, change and uncertainty associated with school reorganisation can be difficult for all schoolchildren, but particularly for those with special learning needs, such as autism. With this in mind, Minister, can you please reassure the house that you're working closely with your colleague, the Minister for Health and Social Services, to ensure that all relevant Welsh Government policies, such as the anticipated interim autism delivery strategy, and, indeed, any future ALN changes, are worked in with the grain of those particular difficulties in mind?

Weinidog, gall newid ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag addreftu ysgolion fod yn anodd i bob plentyn ysgol, ond yn enwedig i rai sydd ag anghenion dysgu arbennig, megis awtistiaeth. Gyda hyn mewn golwg, Weinidog, a allwch roi sicrwydd i'r tŷ, os gwelwch yn dda, eich bod yn gweithio'n agos gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i sicrhau bod holl bolisiau perthnasol Llywodraeth Cymru, megis y strategaeth gyflawni interim arfaethedig ar gyfer awtistiaeth, ac yn wir, unrhyw newidiadau yn y dyfodol o ran anghenion dysgu ychwanegol, yn cael eu gweithredu gyda'r anawsterau penodol hynny mewn golwg?

13:34

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the child remains at the centre of all our concerns—both my concerns, and the concerns of the Minister for health. Our autistic spectrum disorder strategic action plan for Wales was, of course, as the Member will be aware, published back in 2008 now, and it set a direction for statutory authorities to follow in terms of assessing people on the autism spectrum and providing the services and support necessary to meet their needs. Of course, at times of school reorganisation, we have to have a mind, in local authorities particularly—and health services within those local authorities need to have a mind—to the central importance of the wellbeing of the young people concerned.

Wrth gwrs, mae'r plentyn yn dal i fod yn ganolog i'n holl ystyriaethau—fy ystyriaethau i, ac ystyriaethau'r Gweinidog iechyd. Cyhoeddwyd cynllun gweithredu strategol Cymru ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig, fel y gŵyr yr Aelod, yn ôl yn 2008 erbyn hyn wrth gwrs, a gosododd gyfeiriad i awdurdodau statudol ei ddilyn o ran asesu pobl ar y sbectrwm awtistiaeth a darparu'r gwasanaethau a'r cymorth angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth gwrs, mewn cyfnodau o ad-drefnu ysgolion, mae'n rhaid i ni gofio, mewn awdurdodau lleol yn arbennig—ac mae'n rhaid i wasanaethau iechyd o fewn yr awdurdodau lleol hynny gofio—pwysigrwydd canolog lles y bobl ifanc dan sylw.

Addysg Bellach (Cwm Cynon)

Further Education (the Cynon Valley)

13:35

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu i gyflwyno addysg bellach yn y dyfodol yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0569(ESK)

2. What actions is the Welsh Government taking to support the future delivery of further education in the Cynon Valley? OAQ(4)0569(ESK)

13:35

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology

I recognise the enormous value of investment in further education, both for our learners and the wider community. With this in mind, I've made an allocation in principle of £11 million for a new campus in Aberdare to ensure continued further education provision in the Cynon Valley.

Rwy'n cydnabod gwerth enfawr buddsoddi mewn addysg bellach, ar gyfer ein dysgwyr a'r gymuned ehangach. Gyda hyn mewn golwg, rwyf wedi gwneud dyraniad mewn egwyddor o £11 miliwn ar gyfer campws newydd yn Aberdâr i sicrhau darpariaeth addysg bellach barhaus yng Nghwm Cynon.

13:35

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. We know that the further education sector is facing enormous financial challenges over the coming period, so I was very pleased to hear that the Welsh Government is looking to commit to the long-term delivery of further education in my constituency by supporting plans for a new campus in Aberdare for Coleg y Cymoedd. What will be the next steps in taking this ambitious vision for further education, fit for the twenty-first century, forward, and what is the likely timescale for delivery of this project?

Diolch yn fawr, Weinidog. Gwyddom fod y sector addysg bellach yn wynebu heriau ariannol enfawr dros y cyfnod i ddod, felly roeddwn yn falch iawn o glywed bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymrwymo i ddarpariaeth addysg bellach hirdymor yn fy etholaeth drwy gefnogi cynlluniau ar gyfer campws newydd yn Aberdâr i Goleg y Cymoedd. Beth fydd y camau nesaf o ran bwrw ymlaen â'r weledigaeth uchelgeisiol hon ar gyfer addysg bellach, sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a beth yw'r amserlen debygol ar gyfer cyflawni'r prosiect?

13:36

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We'd like to see this project delivered as quickly as possible, as I'm sure the Member appreciates, and she's worked very hard indeed in supporting this project. We're now working with the college to support them in submitting the final business case. We understand that they'll be seeking planning approval for the project by December 2015, so we're anticipating a start on site in January, with the new campus opening for August 2017, in readiness for the September 2017 academic year.

Byddem yn hoffi gweld y prosiect yn cael ei gyflawni cyn gynted â phosibl, fel y mae'r Aelod, rwy'n siŵr, yn ei werthfawrogi, ac mae hi wedi gweithio'n galed iawn yn wir yn cefnogi'r prosiect hwn. Rydym yn awr yn gweithio gyda'r coleg i'w cynorthwyo i gyflwyno'r achos busnes terfynol. Rydym yn deall y byddant yn ceisio am gymeradwyaeth gynllunio i'r prosiect erbyn mis Rhagfyr 2015, felly rydym yn rhagweld cychwyn ar y safle ym mis Ionawr, gyda'r campws newydd yn agor ym mis Awst 2017, yn barod ar gyfer blwyddyn academaidd Medi 2017.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the spokespeople, and first this afternoon we have the Welsh Conservative spokesperson, Paul Davies.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan y llefarwyr, a llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Paul Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:36 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Minister, poor acoustics in schools can create a barrier to learning for all children, but, of course, it presents a particular barrier for children with a hearing loss. Now, the National Deaf Children's Society Cymru tell us that there are 2,700 deaf children in schools in Wales, and, for many, their school buildings and classrooms are inaccessible. Can you tell us what specific action the Welsh Government is taking to improve acoustics in schools for deaf children?

Diolch, Lywydd. Weinidog, gall acwsteg wael mewn ysgolion greu rhwystr rhag dysgu i bob plentyn, ond wrth gwrs, mae'n golygu rhwystr arbennig i blant sydd â nam ar eu clyw. Nawr, mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn dweud wrthym fod 2,700 o blant byddar mewn ysgolion yng Nghymru, a bod adeiladau ac ystafelloedd dosbarth eu hysgolion yn anhygyrch i lawer ohonynt. A allwch ddweud wrthym ba gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella acwsteg mewn ysgolion ar gyfer plant byddar?

13:37 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a very important question and I'm very glad that Paul Davies has chosen to raise this today. It is, of course, the case that, as we move through our twenty-first century schools rebuilding and refurbishment programme—almost £2 billion of investment in the bricks and mortar of our educational estate and probably the biggest single investment since 1944—all of us remain very vigilant around the guidance that has been provided to local education authorities around design, which, of course, as everyone is aware, touches upon things like energy efficiency, but also touches upon the design of classroom spaces in particular as regards acoustics and so on. The guidance is there; we need to make sure that each and every local education authority acts upon it.

Mae hwn yn gwestiwn pwysig iawn ac rwy'n falch iawn bod Paul Davies wedi dewis codi hyn heddiw. Mae'n wir, wrth i ni symud drwy ein rhaglen o ailadeiladu ac ailwampio ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain—bron i £2 biliwn o fuddsoddiad ym mrics a mortar ein haddysg, a'r buddsoddiad unigol mwyaf, mae'n debyg, ers 1944—ein bod i gyd yn parhau i fod yn wylidwrs iawn ynghylch y canllawiau sydd wedi cael eu darparu i awdurdodau addysg lleol ynglŷn â chynllunio, sydd, wrth gwrs, fel y mae pawb yn ymwybodol, yn cyffwrdd ar bethau fel effeithlonrwydd ynni, ond hefyd yn cyffwrdd ar gynllun ystafelloedd dosbarth yn benodol o ran acwsteg ac yn y blaen. Mae'r canllawiau yno; mae angen i ni sicrhau bod pob awdurdod addysg lleol yn gweithredu arnynt.

13:38 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we know that there is a direct link between the school environment and standards, and so improving school buildings to actually meet the needs of deaf children is extremely important. Now, just 51 per cent of students with a hearing problem gained at least five GCSEs at A* to C, including English or Welsh and maths, which is, of course, below the national benchmark of 55.4 per cent. In light of this figure, what additional support are you providing to learners with a hearing problem to ensure that the delivery of additional learning provision is much more focused on the learners' individual needs?

Weinidog, gwyddom fod cysylltiad uniongyrchol rhwng amgylchedd ysgolion a safonau, ac felly mae gwella adeiladau ysgol i ddiwallu anghenion plant byddar yn hynod o bwysig. Nawr, 51 y cant yn unig o fyfyrwyr â phroblem clyw a lwyddodd i gael o leiaf pum TGAU graddau A* i C, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, sy'n is na'r meincnod cenedlaethol o 55.4 y cant wrth gwrs. Yng ngoleuni'r ffigur hwn, pa gefnogaeth ychwanegol yr ydych yn ei darparu i ddysgwyr sydd â phroblem clyw i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn canolbwyntio llawer mwy ar anghenion unigol y dysgwyr?

13:38 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, the forthcoming legislation that we will begin to discuss before the summer recess will open up questions, both fundamental questions and detailed questions, about how we can strengthen the regime around issues like this one. And the intent of the legislation, as Members know, is very much to centre our concerns to begin with the pupils' eye view, to begin with the concerns around the individual child and their needs, and that will include all those issues around how decisions are made, not just in terms of policy and in terms of teaching practice, but, as Paul Davies has said, in terms of capital spend and how we can make sure that is fitted as well as it possibly can be to the needs of all our pupils.

Wel, wrth gwrs, bydd y ddeddfwriaeth sydd ar y ffordd y byddwn yn dechrau ei thrafod cyn toriad yr haf yn codi cwestiynau sylfaenol a manwl ynglŷn â sut y gallwn gryfhau'r drefn gyda materion fel hyn. A bwriad y ddeddfwriaeth, fel y gwyr yr Aelodau, yw sicrhau ein bod yn canolbwyntio o'r dechrau ar safbwynt y disgyblion, gan ddechrau gyda chanolbwyntio ar y plentyn unigol a'i anghenion, a bydd hynny'n cynnwys yr holl faterion ynglŷn â sut y mae penderfyniadau yn cael eu gwneud, nid yn unig o ran polisi ac o ran arferion addysgu, ond fel y mae Paul Davies wedi'i ddweud, o ran gwariant cyfalaf a sut y gallwn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ein disgyblion yn y modd gorau posibl.

13:39

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for that response, Minister. The National Deaf Children's Society have said that it's crucial that the Welsh Government takes action to increase investment in provision and services for them. Can you therefore tell us what additional resources the Welsh Government will be providing to students with a hearing problem in the next academic year to ensure that they have the best possible support when studying their GCSEs?

Diolch am eich ymateb, Weinidog. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar wedi dweud ei bod yn hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn rhoi camau gweithredu ar waith i gynyddu buddsoddiad yn y ddarpariaeth a'r gwasanaethau ar eu cyfer. Felly, a allwch ddweud wrthym pa adnoddau ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu darparu i fyfyrwyr sydd â phroblem clyw yn y flwyddyn academaidd nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth orau bosibl wrth astudio ar gyfer eu TGAU?

13:40

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, I do not, at present, Presiding Officer, have with me here any budget figures around issues like this, but I can assure the Member that I will write to him with those details and also assure him that I'm in regular contact with my colleague, the Minister for Health and Social Services, concerning the joined-upness most particularly between the provision of, for example, equipment and kit that may be necessary for a child to flourish and succeed at school. I think there is an issue here between our educational services and the broader social services and health services and how they tie their actions together for the benefit of the child. We need to improve that interface.

Wel, wrth gwrs, nid yw ffigurau'r gyllideb ar gyfer materion fel hyn gyda mi ar hyn o bryd, Lywydd, ond gallaf sicrhau'r Aelod y byddaf yn ysgrifennu ato gyda'r manylion ac yn ei sicrhau hefyd fy mod mewn cysylltiad rheolaidd â fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghylch y cydgyssylltiad penodol, er enghraifft, rhwng darparu cyfarpar a chit a all fod yn angenrheidiol i blentyn ffynnu a llwyddo yn yr ysgol. Credaf fod problem yma rhwng ein gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd ehangach a sut y maent yn cydgyssylltu eu gweithredoedd er lles y plentyn. Mae angen i ni wella'r rhyngwyneb hwnnw.

13:41

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

13:41

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, when breaking the link between poverty and educational attainment, what does the evidence tell us is the best stage for effective intervention?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, wrth dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrrhaeddiad addysgol, beth, yn ôl y dystiolaeth, yw'r cam gorau ar gyfer ymyrraeth effeithiol?

13:41

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The earlier, the better—the evidence is very clear. On early years investment in closing the gap between the least well off and the rest, the evidence clearly shows us that every pound we spend in the early years has an effect that transmits itself throughout the educational journey of that child. That is why I work very closely together with the Deputy Minister responsible, for instance, for Flying Start, to ensure that the co-working between Flying Start and the foundation phase is as good as it possibly can be. Of course, the Welsh Government is expanding—doubling—the provision of Flying Start across Wales, and it's imperative that we stick to that.

Gorau po gyntaf—mae'r dystiolaeth yn glir iawn. O ran buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar i gau'r bwlch rhwng y tlotaf a'r gweddill, mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir fod pob punt a wariwn yn y blynyddoedd cynnar yn cael effaith sy'n trosglwyddo drwy gydol taith addysgol y plentyn. Dyna pam rwy'n gweithio'n agos iawn â'r Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am Dechrau'n Deg, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod y cydweithio rhwng Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen gystal ag y gall fod. Wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru yn ehangu—yn dyblu—darpariaeth Dechrau'n Deg ledled Cymru, ac mae'n hanfodol ein bod yn dal i wneud hynny.

13:42 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, and I do agree with you. We can't disagree with the facts, can we, that that is the evidence? Can you explain why so many local authorities in Wales, including Labour authorities, are cutting nursery education and why you have cut non-statutory school funding, which includes the funding that goes to the under-fives? While you are trying to address the attainment gap in secondary schools through Schools Challenge Cymru, isn't that 10 years too late in a pupil's life according to what you've just replied?

Diolch i chi, Weinidog, ac rwy'n cytuno â chi. Ni allwn anghytuno â'r ffeithiau, allwn ni, mai dyna'r dystiolaeth? A allwch egluro pam y mae cymaint o awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau Llafur, yn torri addysg feithrin, a pham eich bod wedi torri cyllid anstatudol i ysgolion, sy'n cynnwys yr arian ar gyfer plant dan bump oed? Er eich bod yn ceisio mynd i'r afael â'r bwllch cyrhaeddiad mewn ysgolion uwchradd drwy Her Ysgolion Cymru, onid yw hynny 10 mlynedd yn rhy hwyr ym mywyd y disgybl yn ôl yr hyn rydych chi newydd ei ddweud yn eich ateb?

13:42 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it's never too late; of course it's not too late. Great strides will be made. I can assure the party spokesperson for Plaid Cymru that great strides will be made through Schools Challenge Cymru. Every stage of a child's journey through the educational system should concern us and we should be striving to reform it for the better at each and every stage. In terms of the budgetary constraints around local authorities, the reason for that is well known. The people of Britain go to the polls tomorrow, and I hope they will have issues like this one at the forefront of their mind and will not forget what the coalition Government in Westminster has delivered in terms of budget cuts that have put so much pressure upon local authorities in Wales, which do not relish, I know, having to make difficult decisions like this one. Heaven help us if we have another round of austerity coming from those people.

Wel, nid yw byth yn rhy hwyr; wrth gwrs nad yw'n rhy hwyr. Bydd camau breision ymlaen yn cael eu gwneud. Gallaf sicrhau llfarydd Plaid Cymru y bydd camau breision ymlaen yn cael eu gwneud drwy Her Ysgolion Cymru. Dylai pob cam o daith plentyn drwy'r system addysg fod o bwys i ni a dylem fod yn ymdrechu i ddiwygio pob cam er gwell. O ran y cyfyngiadau cyllidebol ar awdurdodau lleol, mae'r rheswm am hynny yn dra chyfarwydd. Mae pobl Prydain mynd i bleidleisio yfory, ac rwy'n gobeithio y bydd problemau fel hyn ar flaenau eu meddyliau ac na fyddant yn anghofio'r hyn y mae'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan wedi'i gyflawni o ran y toriadau yn y gyllideb sydd wedi rhoi cymaint o bwysau ar awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn hoffi gorfod gwneud penderfyniadau anodd fel hwn, rwy'n gwybod. Duw a'n helpo os cawn rownd arall o galedi gan y bobl hyn.

13:43 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly agree on another round of austerity, but I'm not convinced that Labour are going to offer us anything significantly different. But, do I welcome any changes and improvements that will happen as a result of Schools Challenge Cymru? I'm asking about the most effective method of bridging this gap. In this election, which you've just mentioned, you're offering to the people of Wales 10 hours per week of nursery education and then topped up with 10 hours of childcare. However, I note that the Labour Party in England is offering 25 hours per week in total. We in Plaid Cymru are clear that we should move, actually, to make an extra year's education available to three to four-year-olds in the foundation phase. Isn't that really what is needed to bridge the attainment gap?

Rwy'n sicr yn cytuno ynglŷn â mwy o galedi, ond nid wyf yn argyhoeddedig y bydd Llafur yn cynnig unrhyw beth i ni sy'n sylweddol wahanol. Ond a wyf i'n croesawu unrhyw newidiadau a gwelliannau a fydd yn digwydd o ganlyniad i Her Ysgolion Cymru? Rwy'n gofyn am y dull mwyaf effeithiol o gau'r bwllch hwn. Yn yr etholiad rydych chi newydd ei grybwyll, rydych chi yn cynnig 10 awr yr wythnos o addysg feithrin i bobl Cymru a 10 awr o ofal plant ar ben hynny. Fodd bynnag, nodaf fod y Blaid Llafur yn Lloegr yn cynnig 25 awr yr wythnos. Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn glir y dylem sicrhau bod blwyddyn ychwanegol o addysg ar gael i blant tair i bedair oed yn y cyfnod sylfaen. Onid hynny sydd ei angen mewn gwirionedd i bontio'r bwllch cyrhaeddiad?

13:44 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very glad there is a debate around what we should do in terms of expanding and deepening the level of offer around those early years in terms of childcare for parents because of the undeniable effect it has on the prospects of that child. These are questions that have been thrashed out out there now for the electorate, and I hope that each and every voter will have the prospects of our younger citizens close to the forefront of their mind. I'm not going to dispute the merits of various manifestos with Plaid Cymru at the moment, but I think that people ought to remember that, through voting Labour and getting a Labour Government, they will not have the situation where we would sit on our hands and allow a Tory Queen's Speech to pass through the House of Commons.

Rwy'n falch iawn fod dadl ynglŷn â'r hyn y dylem ei wneud o ran ehangu a dyfnhau'r lefel o ofal plant i rieni yn y blynyddoedd cynnar oherwydd yr effaith ddiymwad y mae hynny'n ei chael ar ragolygon y plentyn hwnnw. Mae'r rhain yn gwestiynau sydd wedi cael eu gwyntyllu yn awr ar gyfer yr etholwyr, ac rwy'n gobeithio y bydd gan bob pleidleisiwr ragolygon ein dinasyddion ieuengaf yn agos at flaen eu meddwl. Nid wyf am ddadlau ynglŷn â rhinweddau gwahanol fanifestos gyda Phlaid Cymru ar hyn o bryd, ond rwy'n meddwl y dylai pobl gofio, drwy bleidleisio dros Lafur a chael Llywodraeth Lafur, na fyddent yn wynebu sefyllfa lle y byddem yn eistedd ar ein dwylo a chaniatáu i Araith y Frenhines Doriaidd basio drwy Dŷ'r Cyffredin.

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I did remind people the other day—I know it's very tempting and we do have an election tomorrow, but I would appreciate it if you could keep to matters here and not the UK election, which is happening tomorrow. We now move to the Welsh Liberal Democrats, who I'm sure will abide by that regulation. Aled Roberts.

Fe wnes i atgoffa pobl y dydd o'r blaen—gwn fod y demtasiwn yn fawr a bod gennym etholiad yfory, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadw at faterion y fan hon ac nid etholiad y DU sy'n digwydd yfory. Symudwn yn awr at Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac rwy'n siŵr y byddant yn cadw at y rheol honno. Aled Roberts.

13:45 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Rwy'n meddwl hefyd fod pobl Cymru yn awyddus i weld beth yn union yr ydym ni'n mynd i'w wneud ynglŷn ag addysg yng Nghymru, yn hytrach na thrafod y sefyllfa yn Llundain.

Thank you, Presiding Officer. I also think that the people of Wales are eager to see exactly what we're going to do about education in Wales rather than discussing the situation in London.

Ym mis Rhagfyr, gwnes i ofyn i chi a oeddech chi'n pryderu ynglŷn â nifer y prifathrawon ac athrawon arweiniol a oedd yn cael eu secondio o'n hysgolion ar fyr rybudd i mewn i'r consortia. Roeddech chi'n dweud nad oedd y darlun y gwnes i ei roi i chi yn un yr oeddech chi'n ei adnabod, felly, a allwch chi ddweud wrthym ni yn union beth ydy'r sefyllfa ar hyn o bryd ynglŷn â swyddi gwag o fewn y consortia addysg rhanbarthol?

In December, I asked you whether you were concerned about the number of headteachers and teachers in leadership roles who were seconded from our schools at short notice into the consortia. You stated that the picture I painted wasn't one that you recognised. So, can you tell us exactly what the situation is at present in terms of vacant posts within the regional education consortia?

13:46 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I do not have those figures to hand this afternoon. I can get them in writing to the Member as soon as I possibly can. I am aware, of course, that there are issues, most particularly in some areas of Wales, in terms of recruitment, but I think it's important not to conflate this issue with the issue of co-working within the consortia, particularly co-working between headteachers. That is an imperative, an indispensable element of how we are going to raise standards in our schools, and we cannot return to a situation where headteachers become islands unto themselves. That is a recipe for stagnating standards, and we must never return to that sort of system.

Wel, nid yw'r ffigurau hynny gennyf wrth law y prynhawn yma. Gallaf eu rhoi mewn ysgrifen i'r Aelod cyn gynted ag y gallaf. Rwy'n ymwybodol, wrth gwrs, fod yna broblemau, yn fwyaf arbennig mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, o ran recriwtio, ond credaf ei bod yn bwysig peidio â chyfuno'r mater hwn â mater cydweithio o fewn y consortia, yn enwedig cydweithio rhwng penaethiaid. Mae hynny'n hollbwysig, yn elfen anhepgor o sut rydym yn mynd i godi safonau yn ein hysgolion, ac ni allwn ddychwelyd at sefyllfa lle y mae penaethiaid yn troi'n ynysoedd ynddynt eu hunain. Mae hynny'n sicr o olygu bod safonau'n aros yn eu hunfan, ac mae'n rhaid i ni beidio â dychwelyd at system fel honno.

13:46 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n meddwl erbyn hyn ei bod hi'n amser inni ofyn cwestiynau ynglŷn â pherfformiad y consortia rhanbarthol yma. Ym mis Rhagfyr, gwnaethoch chi roi cyngor imi i ohebu â'r consortia fy hun i weld beth yn union oedd y sefyllfa. Felly, gwnes i ofyn cwestiynau drwy'r Gwasanaeth Ymchwil ym mis Ionawr i'r pedwar consortiwm, yn gofyn beth oedd y sefyllfa o fewn eu rhanbarthau nhw ynglŷn â swyddi gwag a beth yn union yr oedden nhw'n ei wneud ynglŷn â'r broblem honno. Mae'n rhaid imi ddweud wrthyh chi, ers imi fod yn aros, ers mis Ionawr, nid oes yr un o'r consortia yna wedi ymateb i'r Gwasanaeth Ymchwil. Felly, sut mae'r consortia yn disgwyl i ni fel Aelodau Cynulliad gael hyder yn yr hyn y maen nhw'n ei wneud os ydyn nhw'n ein hanwybyddu ni fel aelodau etholedig?

I think that it is now time for us to ask questions about the performance of these regional consortia. In December, you advised me to correspond with the consortia myself to see exactly what the situation was. So, I asked questions through the Research Service back in January to the four consortia, asking them what the situation was within their own regions as regards vacant posts and what exactly they were doing about that particular problem. I have to tell you that, since I've been waiting, since January, not a single one of the consortia has responded to the Research Service. So, how can the consortia expect us as Assembly Members to have confidence in what they are doing if they ignore us as elected representatives?

13:47

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm sorry for the Member's experience as regards his correspondence, but, of course, local authorities remain statutorily responsible for recruitment and human resources issues in the schools within their areas. I don't deny the recruitment of a headteacher is something that a consortium should be concerned about if it's becoming a problem, for instance in terms of filling a vacant post, but the organisations directly responsible remain the local authorities. I think that the Member should bear that in mind when he gets research services to try and get to the bottom of exactly the extent, breadth and depth of the problem.

Wel, mae'n ddrwg gennyf am brofiad yr Aelod o ran ei ohebiaeth, ond wrth gwrs, mae awdurdodau lleol yn dal i fod yn statudol gyfrifol am faterion recriwtio ac adnoddau dynol yn yr ysgolion o fewn eu hardaloedd. Nid wyf yn gwadu bod recriwtio pennaeth yn rhywbeth y dylai consortiwm fod yn pryderu yn ei gylch os yw'n dod yn broblem, er enghraifft o ran llenwi swydd wag, ond yr awdurdodau lleol yw'r sefydliadau sy'n uniongyrchol gyfrifol yn dal i fod. Credaf y dylai'r Aelod gadw hynny mewn cof pan fydd yn gofyn i wasanaethau ymchwil geisio darganfod union raddau, ehangder a dyfnder y broblem.

13:48

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Onid ydych chi'n derbyn os ydym ni fel Aelodau i graffu ar berfformiad y consortia yma na ddylen nhw anwybyddu unrhyw gais gan Aelod etholedig? A gaf i hefyd ofyn i chi, er mwyn imi wybod yn union a gaf i edrych ymlaen efo hyder ynglŷn â sut mae'r consortia yma yn mynd i berfformio, a ydych chi mewn sefyllfa y prynhawn yma i ddweud yn union sut mae'r consortia yna yn gwario'r £3.9 miliwn sydd wedi cael ei roi iddyn nhw fel rhan o Her Ysgolion Cymru yn hytrach na gwariant ar lawr gwlad o fewn ein hysgolion ni?

Don't you accept that, if we as Members are to scrutinise the performance of these consortia, they shouldn't be ignoring any requests from an elected Member? Can I also ask you, for me to know exactly whether I can look forward with confidence in terms of how the consortia are going to perform, whether you're in a position this afternoon to tell us exactly how the consortia spend the £3.9 million that has been allocated to them as part of Schools Challenge Cymru rather than expenditure at the grass roots within our schools?

13:49

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, I can only agree with Aled Roberts concerning elected Members having the right to a reply. Any citizen has the right to a reply from a publicly funded body. Elected Members in this Chamber should have a prompt, accurate and full response as soon as is humanly possible, and I will pass on that message to the consortia concerned. Of course, the £3.9 million—let's remember this is, overall, a £20 million intervention, Schools Challenge Cymru—is there for very necessary issues, particularly in terms of the indispensable services of advisers, for instance, whom we have out there working with our Schools Challenge Cymru schools and so on at the moment. There are, clearly, and there always are, elements of spend that are best taken higher up the decision-making tree, if you like, in terms of the savings of economy of scale that we can obtain because of that. I'll write to the Member with a full breakdown of how the £3.9 million is spent.

Wel, wrth gwrs, ni allaf ond cytuno gydag Aled Roberts ynghylch yr hawl i Aelodau etholedig gael ymateb. Mae gan unrhyw ddinesydd yr hawl i gael ymateb gan gorff a ariennir yn gyhoeddus. Dylai Aelodau Etholedig yn y Siambur hon dderbyn ymateb prydlon, cywir a llawn cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl, a byddaf yn trosglwyddo'r neges honno i'r consortia dan sylw. Wrth gwrs, mae'r £3.9 miliwn—gadewch i ni gofio bod Her Ysgolion Cymru, rhwng popeth, yn ymyrraeth gwerth £20 miliwn—yno ar gyfer materion angenrheidiol iawn, yn enwedig o ran gwasanaethau angenrheidiol ymgynghorwyr, er enghraifft, sy'n gweithio gyda'n hysgolion Her Ysgolion Cymru ac yn y blaen ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae yna elfennau bob amser o wariant sy'n well eu cadw'n uwch i fyny'r goeden gwneud penderfyniadau, os mynnwch chi, o ran yr arbedion maint y gallwn eu sicrhau oherwydd hynny. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda dadansoddiad llawn o sut y caiff y £3.9 miliwn ei wario.

13:50

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. We now move back to questions on the paper and it's question 3, Paul Davies.

Diolch yn fawr. Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur a daw cwestiwn 3 gan Paul Davies.

Blaenoriaethau ar gyfer Ysgolion Uwchradd Sir Benfro

Priorities for Pembrokeshire Secondary Schools

13:50

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd yn sir Benfro? OAQ(4)0564(ESK)

3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for secondary schools in Pembrokeshire? OAQ(4)0564(ESK)

13:50

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My priority is to see the best possible provision and outcomes for pupils. This underpins our approach to support via regional consortia, which support schools to improve learner outcomes. Consortia challenge advisers will provide the necessary challenge to schools and broker the support that is needed for and between schools.

Fy mlaenoriaeth yw gweld y ddarpariaeth a'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn ategu ein hymagwedd at gefnogi drwy gonsortia rhanbarthol, sy'n cynorthwyo ysgolion i wella canlyniadau dysgwyr. Bydd cynghorwyr herio'r consortia yn darparu'r her angenrheidiol i ysgolion ac yn sicrhau'r cymorth sydd ei angen ar gyfer ysgolion a rhwng ysgolion.

13:51

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of your Government's priorities is to promote sciences in our schools. However, there are concerns that some schools are planning to stop offering GCSE triple science, which is in total contradiction to the Welsh Government's Qualified for Life—Focus on Science campaign. In the circumstances, can you tell us what guidance the Welsh Government offers to local authorities and, indeed, to schools to ensure that they are promoting and developing the study of a full range of science subjects?

Weinidog, un o flaenoriaethau eich Llywodraeth yw hyrwyddo'r gwyddorau yn ein hysgolion. Fodd bynnag, mae pryderon fod rhai ysgolion yn bwriadu rhoi'r gorau i gynnyg TGAU gwyddoniaeth driphlyg, sy'n hollol groes i ymgyrch Cymwys am Oes—Ffocws ar Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru. O dan yr amgylchiadau, a allwch ddweud wrthym pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnyg i awdurdodau lleol, ac yn wir i ysgolion, er mwyn sicrhau eu bod yn hyrwyddo ac yn datblygu astudiaeth o'r ystod lawn o bynciau gwyddonol?

13:51

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the guidance is clear there. We have the current national curriculum, which gives detailed guidance to schools, as well as the Assembly guidance that supplements that. I am not aware, as it's not been brought to my attention, that there are schools in Preseli Pembrokeshire that are considering this move in terms of triple science. I'd welcome further information on exactly where that is the case.

Wrth gwrs, mae'r canllawiau yn glir o ran hynny. Mae gennym y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol, sy'n rhoi canllawiau manwl i ysgolion, yn ogystal â chanllawiau'r Cynulliad sy'n ychwanegu at hynny. Nid wyf yn ymwybodol, gan nad yw wedi'i ddwyn i fy sylw, fod ysgolion ym Mhreseli Sir Benfro sy'n ystyried y newid hwn o ran gwyddoniaeth driphlyg. Byddwn yn croesawu rhagor o wybodaeth ynglŷn â ble yn union y mae hynny'n wir.

I would say this: there is, to my mind, a danger of Chinese whispers, really, within the educational system at the moment, as regards the reform to GCSEs, in mathematics for instance, and the coming reforms around the Welsh baccalaureate. There seems to be a Chinese whisper going around that, somehow, this entails the necessity of narrowing the curriculum. It does not. Schools that are making decisions like this should really be interrogated as to the actual benefit to the young people concerned and the reasons as to why they are considering moves like this one. Our commitment is to a broad and balanced curriculum.

Dywedaf hyn: mae perygl, yn fy marn i, o sibrydion Tseineiaidd, mewn gwirionedd, o fewn y system addysg ar hyn o bryd, o ran diwygio TGAU, mewn mathemateg er enghraifft, a'r diwygio sydd i ddod ar fagloraeth Cymru. Mae'n ymddangos bod sibrydion Tseineiaidd y bydd hynny, rywsut, yn golygu bod angen cyfyngu ar y cwricwlwm. Nid yw'n golygu hynny. Dylai ysgolion sy'n gwneud penderfyniadau fel hyn gael eu holi ynglŷn â'r budd i'r bobl ifanc dan sylw a'r rhesymau pam y maent yn ystyried newidiadau fel hyn. Rydym wedi ymrwymo i gwricwlwm eang a chytbwys.

13:52

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, efallai y byddwch chi'n ymwybodol bod yna fwradau a chynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd yn sir Benfro. Nid wyf eisiau gofyn ichi'n benodol am y manylion hynny, achos rwyf i wedi cysylltu â'r bobl leol ac wedi dweud mai mater i'r cyngor sir yw hwn, ac iddynt ymwneud â'r cyngor sir. Ond un peth sydd wedi codi lot o bryderon ymysg nifer o lywodraethwyr yw'r ffaith bod y chweched dosbarth yn cael ei symud oddi ar yr ysgol, yn benodol, ac yn mynd i'r coleg, Coleg Sir Benfro, felly. A oes gan y Llywodraeth bolisi ar y chweched dosbarth, ac a oes yna unrhyw ganllawiau cenedlaethol ynglŷn â rôl y chweched dosbarth y tu fewn i'r system addysg?

Minister, you may be aware that there are plans and proposals to reorganise secondary schools in Pembrokeshire. I don't want to ask you specifically about those details, because I have been in touch with the local people and have said that this is a matter for the county council, and they should deal with the county council. But one thing that's caused a great deal of concern among a number of governors is the fact that the sixth form will be removed from the school, in particular, and is to be transferred to the college, namely Pembrokeshire College. Does the Government have a policy on sixth forms, and are there any national guidelines on the role of sixth forms within the education system?

13:53

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Simon Thomas is aware that proposals around reorganisation in Pembrokeshire are not yet a matter for me. There is an open and clear consultation system, which has just come to an end, and now there is a clear procedure that has to be gone through as regards those very important decisions that need to be made in the county.

I don't promulgate a one-size-fits-all policy as regards sixth forms across Wales as a whole. The Member may be aware that we went through a very lively debate in my own constituency regarding sixth form provision, and I've been very pleased with the outcome. It suits that particular part of Wales, in my view. But that one-size-fits-all question is something that I would reject. I think there are parts of Wales with different geography and more sparsely populated, perhaps, where a different model would suit the needs of the pupils better. As I said in my reply to Paul Davies, it is the provision and outcomes for pupils that concern me.

Gwella Safleoedd Prifysgolion Cymru

Oes. Mae Simon Thomas yn ymwybodol nad yw cynigion ynghylch ad-drefnu yn Sir Benfro yn fater i mi eto. Mae yna system ymgynghori agored a chliir, sydd newydd ddod i ben, ac yn awr mae gweithdrefn glir y mae'n rhaid mynd drwyddi o ran y penderfyniadau pwysig iawn sydd angen eu gwneud yn y sir.

Nid wyf yn hyrwyddo polisi un-maint-i-bawb o ran dosbarthiadau chwech ledled Cymru gyfan. Efallai bod yr Aelod yn ymwybodol ein bod wedi cael trafodaeth fywiog iawn yn fy etholaeth fy hun ynglŷn â'r ddarpariaeth chweched dosbarth, ac rwyf wedi bod yn falch iawn gyda'r canlyniad. Mae'n addas i'r rhan benodol honno o Gymru, yn fy marn i. Ond mae'r cwestiwn un-maint-i-bawb yn rhywbeth y byddwn yn ei wrthod. Rwy'n meddwl bod rhannau o Gymru â gwahanol ddaearyddiaeth a phoblogaethau teneuach, efallai, lle byddai model gwahanol yn fwy addas i anghenion y disgyblion. Fel y dywedais yn fy ateb i Paul Davies, y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer disgyblion sy'n bwysig i mi.

Improving the Rankings of Welsh Universities

13:55

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Pa strategaethau sydd gan y Gweinidog ar waith i sicrhau bod prifysgolion yng Nghymru yn parhau i wella eu safleoedd o gymharu â sefydliadau addysg uwch ar draws y DU? OAQ(4)0568(ESK)

4. What strategies does the Minister have in place to ensure that universities in Wales continue to improve their rankings compared with higher education institutions across the UK? OAQ(4)0568(ESK)

13:55

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Member for Cardiff North for the question? The policy statement on higher education that was published in June 2013 set out our vision and priorities for higher education. Through our partnerships with HE providers and the Higher Education Funding Council for Wales, we are able to monitor progress towards achieving our shared aim of a world-class, accessible and sustainable HE system.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y cwestiwn? Nododd y datganiad polisi ar addysg uwch a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013 ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer addysg uwch. Drwy ein partneriaethau gyda darparwyr AU a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, rydym yn gallu monitro cynnydd tuag at gyflawni ein nod cyffredin o system AU hygyrch a chynaliadwy o safon fyd-eang.

13:55

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. In the recently published, 'Complete University Guide', Cardiff University maintained its ranking in top place amongst Welsh universities, but can I draw the Minister's attention to the fact that Cardiff Metropolitan University, which, this year, marked its hundred-and-fiftieth anniversary, has leapt up 19 places in the ranking? What strategy does the Minister have in place to ensure that universities in Wales continue to improve?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Yn y 'Complete University Guide' a gyhoeddwyd yn ddiweddar, cadwodd Prifysgol Caerdydd ei safle fel yr uchaf ymysg prifysgolion Cymru, ond a gaf fi dynnu sylw'r Gweinidog at y ffaith fod Prifysgol Metropolitan Caerdydd, sy'n dathlu ei phen-blwydd yn gant a hanner oed eleni, wedi neidio 19 lle i fyny yn y safleoedd? Pa strategaeth sydd gan y Gweinidog ar waith i sicrhau bod prifysgolion yng Nghymru yn parhau i wella?

13:56

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Overall, we have a very good-news situation, really, regarding Welsh higher education at the moment, and I do congratulate, of course, Cardiff Met and our other institutions that are moving up the rankings, if you like. This is not disconnected to the fact, obviously, that we have a stable financial regime around our universities here in Wales, which is in contrast to the picture across the border in England. I could just supplement this point by drawing Members' attention to the fact that overall results through the research education framework within Wales are showing us now that 75 per cent of the research submitted by universities in Wales is either world leading or internationally excellent, according to the criteria there. That is a tremendous leap forward—unique in the United Kingdom, in fact—in terms of the rate of progress.

At ei gilydd, mae'r newyddion o ran addysg uwch yng Nghymru yn dda iawn ar hyn o bryd, mewn gwirionedd, ac rwy'n llongyfarch Met Caerdydd, wrth gwrs, a'n sefydliadau eraill sy'n symud i fyny yn y safleoedd, os mynnwch. Mae'n amlwg fod cysylltiad rhwng hyn â'r ffaith fod gennym gyfundrefn ariannol sefydlog mewn perthynas â'n prifysgolion yma yng Nghymru, sy'n wahanol i'r darlun dros y ffin yn Lloegr. Gallaf ategu'r pwynt drwy dynnu sylw'r Aelodau at y ffaith fod canlyniadau cyffredinol drwy'r fframwaith addysg ymchwil yng Nghymru yn dangos i ni yn awr fod 75 y cant o'r ymchwil a gyflwynir gan brifysgolion yng Nghymru naill ai o'r radd flaenaf neu'n rhagorol yn rhyngwladol, yn ôl y meini prawf hynny. Mae'n gam aruthrol ymlaen—yn un na welwyd ei debyg yng ngweddill y Deyrnas Unedig, mewn gwirionedd—o ran graddau'r cynnydd.

13:57

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Despite what you say, Minister, only one Welsh university is in the Russell Group, which is Cardiff, and that is really a poor show. What are you going to do to really make sure—I mean, we have excellent universities in Wales—that they retain a real global ranking?

Er gwaethaf yr hyn a ddywedwch, Weinidog, dim ond un brifysgol yng Nghymru sydd yn y Grŵp Russell, sef Caerdydd, ac mae hynny'n wirioneddol siomedig. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i sicrhau'n iawn—hynny yw, mae gennym brifysgolion rhagorol yng Nghymru—eu bod yn cadw ar safle gwirioneddol fyd-eang?

13:57

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I don't know that William Graham can hold me responsible for the very long history behind what constitutes a Russell Group university and what might not. What is the case, and what is my concern, is that we continue a forward momentum in terms of quality and that we continue our commitment to fair access and the best financial support for students, particularly the least well-off students. It's clear that Wales has the best system within the United Kingdom in that regard. We, in the Welsh Government, make sure that we promote an environment within which our higher education institutions can prosper and continue their forward momentum. I am not responsible for the red-brick expansion of the 1960s. It's all very interesting, but we are here and now, and our concern should be the future.

Wel, nid wyf yn gwybod os gall William Graham fy nal yn gyfrifol am hanes hirfaith yr hyn sy'n golygu a yw prifysgol yn y Grŵp Russell ai peidio. Yr hyn sy'n wir, a'r hyn sy'n bwysig i mi, yw ein bod yn parhau â'n momentwm o ran ansawdd a'n bod yn parhau â'n hymrwymiad i fynediad teg a'r cymorth ariannol gorau ar gyfer myfyrwyr, yn arbennig y myfyrwyr tlotaf. Mae'n amlwg mai gan Gymru y mae'r system orau yn y Deyrnas Unedig yn y cyswllt hwnnw. Rydym ni yn Llywodraeth Cymru yn sicrhau ein bod yn hyrwyddo amgylchedd lle gall ein sefydliadau addysg uwch ffynnu a pharhau â'u momentwm. Nid fi sy'n gyfrifol am ehangu brics coch y 1960au. Mae hyn i gyd yn ddi-ddorol iawn, ond rydym yn y presennol, a'r dyfodol ddylai fod yn bwysig i ni.

13:58

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A fydddech chi'n ymuno â mi i longyfarch undeb myfyrwyr Prifysgol Bangor ar ennill gwobr ar draws gwledydd Prydain fel yr undeb mwyaf gweithgar ac effeithiol ymhlith holl brifysgolion Prydain, sy'n dwyn clod i Fangor, wrth gwrs, a budd mawr i'r myfyrwyr eu hunain ac i'r gymdeithas yn ehangach?

Would you join me in congratulating Bangor University's student union on winning an award across all the nations of Britain for being the most active and effective union amongst all the universities of Britain? That brings credit to Bangor, of course, and great benefit to the students themselves and the wider society.

13:58

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would, and I would say, actually, I was not aware that that award had been obtained. I think we often, as we move on in life, forget just how indispensable the services of student unions can be for the student body, not just in terms of the representation of the young people involved—or mainly young people, as there are, of course, not-so-young students, too—but most particularly for those students who hit difficulties in terms of their studies, whether they're financial or health difficulties. An active, switched-on student union is the best possible support mechanism that can be delivered by the people who really understand the situation that their fellow students can find themselves in.

Gwnaf, a dywedaf, mewn gwirionedd, nad oeddwn yn ymwybodol fod y wobwr wedi ei hennill. Rwy'n credu ein bod yn aml yn anghofio, wrth i ni symud ymlaen mewn bywyd, pa mor hanfodol y gall gwasanaethau'r undebau myfyrwyr fod ar gyfer myfyrwyr, nid yn unig o ran cynrychioli'r bobl ifanc—neu bobl ifanc yn bennaf, gan fod rhai myfyrwyr heb fod mor ifanc hefyd, wrth gwrs—ond yn enwedig ar gyfer myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau o ran eu hastudiaethau, boed yn anawsterau ariannol neu'n anawsterau iechyd. Undeb myfyrwyr gweithredol ac ymatebol yw'r mecanwaith cymorth gorau posibl y gellid ei ddarparu gan y bobl sy'n gwir ddeall y sefyllfa y gallai eu cyd-fyfyrwyr fod ynddi.

Diwygio'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Reforming the National Curriculum

13:59

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. *A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar ddiwygio'r cwricwlwm cenedlaethol? OAQ(4)0570(ESK)*

5. *Will the Minister provide an update on reforming the national curriculum? OAQ(4)0570(ESK)*

13:59

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will. Following the publication of Professor Donaldson's report, 'Successful Futures', I launched a great debate, asking people across Wales to consider whether the vision and purposes of education suggested in the report are right for our children and young people. After considering the evidence, I will respond formally in the summer.

Gwnaf, fe wnaif. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Athro Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus', lansiais sgwrs fawr, yn gofyn i bobl ledled Cymru ystyried a yw'r weledigaeth a'r dibenion addysg a awgrymir yn yr adroddiad yn iawn ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, byddaf yn ymateb yn ffurfiol yn yr haf.

14:00

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wrth gwrs, yn gosod dyletswyddau newydd ar y Llywodraeth a'r sector gyhoeddus ehangach nawr parthed datblygu cynaliadwy, a nodau llesiant hefyd, y bydd disgwyd i bob corff cyhoeddus eu hyrwyddo. Allech chi ddweud wrthyf sut y bydd y dyletswydd newydd yma yn dylanwadu ar, ac, yn wir, yn cael ei adlewyrchu mewn unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol?

The Well-being of Future Generations Act 2015, of course, places new responsibilities on the Government and the public sector more broadly now in terms of sustainable development, and wellbeing goals also, that all public bodies will be expected to promote. Can you tell us how this new duty will have an impact upon and, indeed, be reflected in any changes to the national curriculum?

14:00

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, in very profound ways, I think, is the answer to that. I don't want to describe, although I might have my own enthusiasms about, how the curriculum might address not just awareness but also Wales's particular situation in terms of our economy and our future. We all know that the future generations Act places great store by the input of young people into the decision-making process, and that's also something we need to consider in terms of what the new curriculum looks like. But I'm not going to construct that curriculum. I'm not going to dictate it from my office. I think that's been tried in some parts of the United Kingdom, and it's self-evidently a wrongheaded way of approaching a complex issue like this one. It will be, most particularly, for the professionals involved to work through what this implies for what is actually delivered in the classroom, both in terms of the input for the young person and the outputs that the young people might want to make in terms of their contribution to the debate around sustainability.

Wel, mewn ffyrdd dwys iawn, rwy'n meddwl, yw'r ateb i hynny. Er efallai fod gennyf ddiddordeb brwd yn hynny, nid wyf am ddisgrifio sut y gallai'r cwricwlwm fynd i'r afael nid yn unig ag ymwybyddiaeth, ond hefyd â sefyllfa benodol Cymru o ran ein heconomi a'n dyfodol. Rydym i gyd yn gwybod bod Deddf cenedlaethau'r dyfodol yn rhoi pwyslais mawr ar fewnbwn pobl ifanc i'r broses o wneud penderfyniadau, ac mae hynny'n rhywbeth sydd angen i ni ei ystyried hefyd o ran sut beth fydd y cwricwlwm newydd. Ond nid wyf am adeiladu'r cwricwlwm hwnnw. Nid wyf am bennu ei gynnwys yn fy swyddfa. Credaf fod ymgais i wneud hynny wedi bod mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig, ac mae'n amlwg fod honno'n ffordd annoeth o fynd i'r afael â mater cymhleth fel hwn. Yn benodol, mater i'r gweithwyr proffesiynol sydd ynghlwm wrtho fydd gweithio drwy beth y mae'n ei olygu o safbwynt yr hyn a ddarperir yn yr ystafell ddosbarth mewn gwirionedd, o ran y mewnbwn ar gyfer y person ifanc a'r allbynnau y gallai'r bobl ifanc fod eisiau eu gwneud i gyfrannu at y drafodaeth ynghylch cynaliadwyedd.

14:01 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, from visits to schools in my constituency, and indeed during many of the debates that we've heard coming up to the general election, more and more young people are asking for a youth assembly here, but also other young people are asking for more information and knowledge of the democratic process here in Wales to be added to the curriculum. What changes to the curriculum do you have in regard of this?

Weinidog, o ymweliadau ag ysgolion yn fy etholaeth, ac yn wir yn ystod llawer o'r dadleuon a glywsom wrth agosáu at yr etholiad cyffredinol, mae mwy a mwy o bobl ifanc yn gofyn am gynulliad ieuencid yma, ond hefyd mae pobl ifanc eraill yn dymuno gweld rhagor o wybodaeth am y broses ddemocrataidd yma yng Nghymru yn cael ei hychwanegu at y cwricwlwm. Pa newidiadau i'r cwricwlwm sydd gennych mewn perthynas â hyn?

14:02 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it's right there within the four basic purposes of the curriculum that Professor Donaldson has put before us. As I say, I've yet to respond to the Great Debate consultation that we've gone through, but I can tell Members that we've had a record response in terms of numbers of people and organisations that have responded in terms of that call for a great debate. I'm not aware of any individual organisation within those responses that would disagree with you—with the Member—in terms of the imperative of improving the system of making our young people active and informed citizens. Citizenship forms the basis of one of those key, bedrock four purposes that Professor Donaldson has outlined for us. Now it is for us to construct a curriculum that answers that basic call in terms of what happens in various subject areas, what happens across the curriculum, and what happens between the school and the wider community.

Wel, mae yno ym mhedwar diben sylfaenol y cwricwlwm a roddodd yr Athro Donaldson ger ein bron. Fel y dywedais, rwyf eto i ymateb i'r ymgynghoriad a gawsom ar y Sgwrs Fawr, ond gallaf ddweud wrth yr Aelodau ein bod wedi cael ymateb gwell nag erioed o ran y nifer o bobl a sefydliadau sydd wedi ymateb ynghylch y galw am sgwrs fawr. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw sefydliad unigol o blith yr ymatebion hynny a fyddai'n anghytuno â chi—â'r Aelod—o ran y rheidrwydd i wella'r system ar gyfer gwneud ein pobl ifanc yn ddinasyddion gweithgar a gwybodus. Mae dinasyddiaeth yn sail i un o'r pedwar diben allweddol a sylfaenol y mae'r Athro Donaldson wedi eu hamlinellu ar ein cyfer. Nawr, ein cyfrifoldeb ni yw llunio cwricwlwm sy'n ateb y galw sylfaenol hwnnw o ran yr hyn sy'n digwydd mewn gwahanol feysydd pwnc, beth sy'n digwydd ar draws y cwricwlwm, a beth sy'n digwydd rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach.

14:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 6, OAQ(4)0573(ESK), is withdrawn. Question 7, Rhun ap Iorwerth.

Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ(4)0573(ESK), yn ôl. Cwestiwn 7, Rhun ap Iorwerth.

Cymwysterau Prentisiaeth

Apprenticeship Qualifications

14:03 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A oes gan y Gweinidog gynlluniau ar gyfer sicrhau ansawdd cymwysterau prentisiaeth yng Nghymru?
OAQ(4)0574(ESK)

7. Does the Minister have any plans to ensure the quality of apprenticeship qualifications in Wales?
OAQ(4)0574(ESK)

14:03 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. The Welsh Government-funded apprenticeships are inspected by Estyn, and their outcomes are monitored by officials, along with learner satisfaction rates. Apprenticeship success rates have consistently exceeded 80 per cent since the year 2010-11.

Oes. Mae'r prentisiaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu harolygu gan Estyn, ac mae eu canlyniadau yn cael eu monitro gan swyddogion, ynghyd â chyfraddau boddhad dysgwyr. Mae cyfraddau llwyddiant prentisiaethau wedi bod dros 80 y cant yn gyson ers y flwyddyn 2010-11.

14:03 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Plaid Cymru yn credu y dylai cymwysterau prentisiaethau yng Nghymru dod o dan adain y corff newydd, Cymwysterau Cymru. Rwy'n gwybod bod gwelliannau gennym i ganiatáu i hynny ddigwydd wedi cael eu gwrthod, ond a yw'r Dirprwy Weinidog yn agored i edrych eto ar ffyrdd o wneud yn siŵr bod y cymwysterau y mae prentisiaid yn eu cael yn berthnasol ac o safon uchel?

Plaid Cymru believes that apprenticeship qualifications in Wales should be under the auspices of the new body, Qualifications Wales. I know that amendments by us to allow that to happen were rejected, but is the Deputy Minister open to looking again at ways of ensuring that the qualifications that apprentices gain are relevant and of a high standard?

- 14:04 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Yes, absolutely. We've just finished the consultation on the shape and form of apprenticeships in Wales. We've had a lot of response. We'll be publishing a set of the responses towards the end of June, and then some proposals to go with them in the autumn, around October time. In the meantime, of course, Qualifications Wales will be going along its path. I'm not ruling out that they should take it over, but I'm not ruling it in at this stage either. We want to have a look at the apprenticeship shape, the system, what comes out of the consultation, the shape of it afterwards, and then consider what the best way of ensuring that it's consistent and well-administered is. If that's Qualifications Wales, so be it, but it may be that we have some other system in place.
- Ydw, yn bendant. Rydym newydd gwblhau'r ymgynghoriad ar siâp a ffurf prentisiaethau yng Nghymru. Rydym wedi cael llawer o ymateb. Byddwn yn cyhoeddi set o ymatebion tua diwedd mis Mehefin, a chynigion i gyd-fynd â hwy wedyn yn yr hydref, oddeutu mis Hydref. Yn y cyfamser, wrth gwrs, bydd Cymwysterau Cymru yn parhau. Nid wyf yn diystyru'r posibilrwydd y gallent ysgwyddo'r gwaith, ond nid wyf yn ei ystyried ar hyn o bryd ychwaith. Rydym yn awyddus i gael golwg ar siâp prentisiaeth, y system, beth sy'n dod allan o'r ymgynghoriad, siâp pethau wedyn, ac yna ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y cyfan yn gyson ac wedi'i weinyddu'n dda. Os mai Cymwysterau Cymru all wneud hynny, felly y bo, ond mae'n bosibl y gallwn gael system arall ar waith.
- 14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Nick Ramsay. Nick Ramsay.
- 14:05 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Diolch. I thought my question was to— Diolch. Roeddwn i'n meddwl bod fy nghwestiwn i ar gyfer —
- 14:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Your supplementary. Eich cwestiwn atodol.
- 14:05 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Oh, okay. Thank you. O, iawn. Diolch yn fawr.
- 14:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Come on now, Nick Ramsay. Keep up. Keep up. Dewch nawr, Nick Ramsay. Dewch ymlaen. Dewch ymlaen.
- 14:05 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I'll do my best. It's been a long week, Presiding Officer. [Interruption.] This and that. [Laughter.] Fe wnaif fy ngorau. Mae wedi bod yn wythnos hir, Lywydd. [Torri ar draws.] Hyn a'r llall. [Chwerthin.]
- It's getting on for three years since the Enterprise and Business Committee published our report on apprenticeships in Wales, Minister. Recommendation 7 of that report identified a mismatch in supply and demand for higher level apprenticeships and called for a more targeted approach to provision, mapping apprenticeships with labour markets. How have you liaised with the business Minister over the last few years to ensure that skills and opportunities in the labour market go hand in hand?
- Mae bron i dair blynedd ers i'r Pwyllgor Menter a Busnes gyhoeddi ein hadroddiad ar brentisiaethau yng Nghymru, Weinidog. Nododd argymhellad 7 yr adroddiad nad oedd y cyflenwad a'r galw am brentisiaethau lefel uwch yn cyfateb â'i gilydd a galwodd am dargedu'r ddarpariaeth yn well, gan fapio prentisiaethau yn ôl y marchnadoedd llafur. Sut ydych chi wedi bod yn cysylltu â'r Gweinidog busnes dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn sicrhau bod sgiliau a chyfleoedd yn y farchnad lafur yn mynd law yn llaw?
- 14:05 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 We have constant dialogue between the Department for Education and Skills and the Economy, Science and Transport department in terms of departmental liaison and also I frequently meet with various Ministers about skills needs in Wales. Part of the purpose of our apprenticeship consultation is to realign the apprenticeship model with the needs of the emerging industries in Wales and we've done that in consultation with those industries. And, as I've just said in response to the previous question, we have a process for that and, obviously, we'll be keeping the Assembly informed of the outcomes.
- Mae gennym ddeialog gyson rhwng yr Adran Addysg a Sgiliau ac Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o ran cyswllt adrannol ac rwy'n aml yn cyfarfod ag amryw o Weinidogion ynglŷn ag anghenion sgiliau yng Nghymru. Rhan o bwrpas ein hymgyngoriad ar brentisiaethau yn sicrhau bod y model prentisiaeth yn cyd-fynd ag anghenion y diwydiannau sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru ac rydym wedi gwneud hynny mewn ymgynghoriad â'r diwydiannau hynny. Ac fel rwyf newydd ei ddweud mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol, mae gennym broses ar gyfer hynny, ac yn amlwg, byddwn yn rhoi gwybod i'r Cynulliad am y canlyniadau.

14:06 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Deputy Minister, I very much welcomed the announcement that there would be a big expansion in the number of apprenticeship places offered through EU funding. But, clearly, in terms of the quality of the experience that a person has when they're on an apprenticeship, it's critical to make sure they're on the right apprenticeship for them. What plans does the Welsh Government have to introduce a schools liaison scheme for apprenticeships to ensure that young people are well-informed about the choices available to them?

Ddirprwy Weinidog, croesawais y cyhoeddiad y byddai nifer y prentisiaethau a gynigir drwy arian yr UE yn cynyddu'n fawr. Ond yn amlwg, o ran ansawdd profiad yr unigolyn pan fydd ar brentisiaeth, mae'n hanfodol sicrhau eu bod ar y brentisiaeth sy'n iawn iddynt hwy. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cyswllt ysgolion ar gyfer prentisiaethau er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc wybodaeth dda am y dewisiadau sydd ar gael iddynt?

14:06 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We've put in place a series of regional learning partnerships across Wales. There are three covering the whole of Wales under their auspices. They generate labour-market intelligence and employer engagement and we expect them to feed, via Careers Wales, into the schools programme for that. We'll also shortly be announcing an enhanced employer engagement programme, which allows the schools better liaison with a large number of the smaller companies in Wales, with a view to making sure that that labour-market intelligence feeds directly into schools. We also want to feed the ambition of our schoolchildren, so we want them to know both about local labour-market intelligence, regional labour-market intelligence, Wales-wide, the UK and the world, and so on, because we want our youngsters to have the best springboard into both vocational and academic qualifications.

Rydym wedi sefydlu cyfres o bartneriaethau dysgu rhanbarthol ledled Cymru. Mae tair yn cwmpasu Cymru gyfan. Maent yn cynhyrchu gwybodaeth am y farchnad lafur ac ymgysylltu â chyflogwyr, a thrwy Gyrfya Cymru rydym yn disgwyl iddynt fwydo i mewn i'r rhaglen ysgolion ar gyfer hynny. Cyn bo hir, byddwn hefyd yn cyhoeddi rhaglen well ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr i alluogi'r ysgolion i gysylltu'n well â nifer fawr o'r cwmnïau llai yng Nghymru, gyda'r bwriad o sicrhau bod y wybodaeth am y farchnad lafur yn bwydo'n uniongyrchol i ysgolion. Rydym hefyd yn awyddus i fwydo uchelgais ein plant ysgol, felly rydym am iddynt wybod am y farchnad lafur leol, y farchnad lafur ranbarthol, ledled Cymru, y DU a'r byd, ac yn y blaen, oherwydd rydym am roi'r sbardun gorau i'n pobl ifanc i ennill cymwysterau galwedigaethol ac academaidd.

14:07 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Deputy Minister, what's crucial, of course, with apprenticeships is that it's recognised that they are a framework of qualifications and, indeed, other experiences and opportunities that may be difficult to quantify as a qualification. So, what's really important, of course, is not necessarily who recognises them in terms of a qualification, but that their value to industry and to employers and to the young person is paramount.

Ddirprwy Weinidog, yr hyn sy'n hanfodol, wrth gwrs, gyda phrentisiaethau yw eu bod yn cael eu cydnabod fel fframwaith cymwysterau, ac yn wir, fframwaith profiadau a chyfluoedd eraill a allai fod yn anodd eu mesur fel cymhwyster. Felly, yr hyn sy'n bwysig mewn gwirionedd, wrth gwrs, yw nid o reidrwydd pwy sy'n eu cydnabod fel cymhwyster, ond bod eu gwerth i'r diwydiant ac i gyflogwyr ac i'r person ifanc o'r pwys mwyaf.

14:08 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I couldn't agree with the Member more. He makes a very important point. It's extremely important, both from the point of view of industry and the individual, that they are fit for purpose, and that they benefit your individual curriculum vitae as well as enhance your employer's ability to compete in the markets. Indeed, he's summed it up more nicely than I could have myself.

Rwy'n cytuno'n llwyr gyda'r Aelod. Mae'n gwneud pwynt pwysig iawn. Mae'n eithriadol o bwysig, o safbwynt y diwydiant a'r unigolyn, eu bod yn addas at y diben, a'u bod o fudd i'ch curriculum vitae unigol yn ogystal â gwella gallu eich cyflogwr i gystadlu yn y marchnadoedd. Yn wir, mae wedi ei grynhoi'n daclusach nag y gallwn wneud fy hun.

Cyllido Addysg Bellach Ôl-16

Post-16 Further Education Funding

14:08 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido addysg bellach ôl-16 yng Nghymru? OAQ(4)0575(ESK)

8. Will the Minister make a statement on post-16 further education funding in Wales? OAQ(4)0575(ESK)

- 14:08 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- We recognise the importance of post-16 further education. The reductions in funding have been very challenging and we've been very open with the colleges about the challenges ahead of us. It's now more important than ever that we focus not just on the resources available but how we use them and what they can achieve.
- Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw addysg bellach ôl-16. Mae'r gostyngiadau yn y cyllid wedi bod yn heriol iawn ac rydym wedi bod yn agored iawn gyda'r colegau am yr heriau sydd o'n blaenau. Mae'n bwysicach nag erioed nad ydym yn canolbwyntio'n unig ar yr adnoddau sydd ar gael ond hefyd ar sut rydym yn eu defnyddio a'r hyn y gallant ei gyflawni.
- 14:08 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Thank you for that answer. Deputy Minister, I appreciate that, as a result of the cuts imposed on Wales by the Conservative and Lib Dem coalition at Westminster, the Welsh Government has had to make very difficult decisions. Last week I met with members of the University and College Union's Coleg Gwent Crosskeys branch, who were understandably concerned about the impact that the cuts will have on education and training provision and the threats to jobs, pay and conditions of college staff. Deputy Minister, how will the Government support further education providers to manage the impact of reduced funding?
- Diolch am eich ateb. Ddirprwy Weinidog, rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru, yn sgil y toriadau a orfodwyd ar Gymru gan glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan, wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn. Yr wythnos diwethaf cyfarfwm ag aelodau cangen Coleg Gwent Crosskeys o'r Undeb Prifysgolion a Cholegau, a oedd yn bryderus am yr effaith y bydd y toriadau yn ei chael ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a'r bygythiadau i swyddi, cyflogau ac amodau staff y coleg. Ddirprwy Weinidog, sut y bydd y Llywodraeth yn cynorthwyo darparwyr addysg bellach i reoli effaith llai o gyllid?
- 14:09 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- My officials are working very closely with the colleges via Welsh Government convened working groups to evaluate all the options and minimise the impact of any reductions on learning. We have some very good examples of how the FE sector and Welsh Government can work together in these difficult times. One example, for example, is Cardiff and Vale College, which has recently introduced a business development team, led by a very inspirational woman, who has levered an enormous amount of employer funding into the college in order to help them withstand some of the public sector funding cuts. We are looking at sharing good practice examples of that sort right across the colleges.
- Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r colegau drwy weithgorau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r holl opsiynau a lleihau effaith unrhyw ostyngiadau ar ddysgu. Mae gennym rai enghreifftiau da iawn o sut y gall y sector AB a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd yn y cyfnod anodd hwn. Un enghraifft, er enghraifft, yw Coleg Caerdydd a'r Fro, a gyflwynodd dîm datblygu busnes, dan arweiniad menyw ysbrydoledig iawn, sydd wedi denu llawer iawn o arian cyflogwyr i mewn i'r coleg er mwyn eu helpu i wrthsefyll rhai o'r toriadau i gyllid y sector cyhoeddus. Rydym yn edrych ar rannu enghreifftiau o arferion da o'r fath ar draws y colegau.
- 14:09 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- As a result of the funding cuts to post-19 education, further education colleges will be looking to get rid of post-16 courses with low numbers, including Welsh-medium courses, in order to use the savings to shore up the post-19 courses that they value. How is that going to affect the 14-19 learning pathway, which is supposed to extend the choice of subjects available to learners in that age group?
- O ganlyniad i'r toriadau ariannol i addysg ôl-19, bydd colegau addysg bellach eisiau cael gwared ar gysiau ôl-16 lle y mae'r niferoedd yn isel, gan gynnwys cysiau cyfrwng Cymraeg, er mwyn defnyddio'r arbedion i gynnal y cysiau ôl-19 y maent yn eu gwerthfawrogi. Sut y mae hynny'n mynd i effeithio ar y llwybr dysgu 14-19, sydd i fod i ymestyn y dewis o bynciau sydd ar gael i ddysgwyr yn y grŵp oedran hwnnw?
- 14:10 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- We've protected the under-19 funding for colleges. We will be keeping a close eye on any impact such as you outline. We are making sure that the pathways stay intact. There is specific funding for some of the pathways. For example, we've protected English for speakers of other languages, learners with moderate or profound learning difficulties courses are protected, and so on. I understand the point that you're making, but we are monitoring it very closely indeed, and, if you have any specific concerns, I'd be more than happy to look at them.
- Rydym wedi diogelu'r cyllid dan-19 ar gyfer colegau. Byddwn yn cadw llygad barcud ar unrhyw effaith o'r math rydych yn ei amlinellu. Rydym yn sicrhau bod y llwybrau'n aros yn gyfan. Ceir cyllid penodol ar gyfer rhai o'r llwybrau. Er enghraifft, rydym wedi diogelu Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill, mae cysiau i ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol neu ddwys yn cael eu diogelu, ac yn y blaen. Rwy'n deall y pwynt rydych yn ei wneud, ond rydym yn ei fonitro'n agos iawn yn wir, ac os oes gennych unrhyw bryderon penodol, rwy'n fwy na pharod i edrych arnynt.

14:10 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rŷm ni i gyd yn ymwybodol o'r cefndir i'r penderfyniad i dorri ar gyllideb addysg bellach yng Nghymru. Serch hynny, fe wnaethpwyd y penderfyniad gan Gabinet Llywodraeth Cymru y byddai addysg bellach yn dioddef yn fwy nag unrhyw sector arall o fewn addysg, unrhyw sector arall o fewn y gyllideb yn gyffredinol. Ar ba sail y gwnaethpwyd hyn, a pha ddadleuon a gynigoch chi, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am addysg bellach, yn erbyn y math yma o doriad?

Minister, we're all aware of the background to the decision to cut back on further education budgets in Wales. However, the decision was taken by the Welsh Government Cabinet that further education would suffer more than any other sector within education or within the budget generally. On what basis was this decision taken, and what arguments did you offer, as the Minister responsible for further education, against this kind of cut?

14:11 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, actually, I took over this portfolio in September, after the announcement of the cuts, but the way that we've organised it is that we've decided to protect the most vulnerable in society. There have been no easy choices here, and I make no pretences that they were easy choices, but we've decided to protect young people, under-19 cohorts, unemployed provision for both youngsters and others, and then, higher level apprenticeships, which fuel a growth in the economy, so that we don't have a hollowed-out economy with people on minimum wage at one end and high earners at the other and nobody in the middle. So, it's essential for a holistic economy to have people right across the spectrum, and that's why we've emphasised what we have, but I couldn't agree more that these choices have not been—. There have been no good choices here.

Wel, mewn gwirionedd, cymrais gyfrifoldeb dros y portffolio hwn ym mis Medi, ar ôl y cyhoeddiad am y toriadau, ond ein ffordd o drefnu pethau oedd ein bod wedi penderfynu diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Ni fu unrhyw ddewisiadau hawdd yma, ac nid wyf yn esgus eu bod yn ddewisiadau hawdd, ond rydym wedi penderfynu diogelu pobl ifanc, carfannau dan-19, darpariaeth ddiweithdra i bobl ifanc ac eraill, ac yna, prentisiaethau lefel uwch, sy'n danwydd i dwf yn yr economi, er mwyn osgoi economi wag gyda phobl ar yr isafswm cyflog ar un pen a rhai ar gyflogau uchel ar y pen arall, gyda neb yn y canol. Felly, mae cael pobl ar draws y sbectrwm yn hanfodol er mwyn sicrhau economi gyfannol, a dyna pam ein bod wedi pwysleisio'r hyn sydd gennym, ond rwy'n cytuno'n llwyr nad yw'r dewisiadau hyn wedi bod yn—. Ni fu unrhyw ddewisiadau da yma.

14:12 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, the decisions that you've made have impacted on post-19 and part-time courses and that is going to have an impact on many areas in terms of skills, training and people's employability. Can I ask you what monitoring is going on of those particular groups, in terms of your Government's skills agenda, and how it impacts upon, particularly, areas where there are quite a lot of unemployment and deprivation?

Yn amlwg, mae'r penderfyniadau rydych wedi eu gwneud wedi effeithio ar gyrsiau ôl-19 a rhan-amser ac mae hynny'n mynd i gael effaith ar lawer o feysydd o ran sgiliau, hyfforddiant a chyflogadwyedd pobl. A gaf fi ofyn i chi pa fonitro sy'n digwydd mewn perthynas â'r grwpiau penodol hynny, o ran agenda sgiliau eich Llywodraeth, a sut y mae'n effeithio'n benodol ar ardaloedd lle y ceir cryn dipyn o ddiweithdra ac amddifadedd?

14:12 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. What we've actually done, of course, is target the skills agenda at currently unemployed people, and, yes, I agree with you that it has impacted those groups, but almost all of those groups are actually in employment. Now, whilst I absolutely agree that many people in employment need skills enhancement, our priority has been to get people into employment in the first place, because of the really appalling effects that unemployment has, especially on young people, over a long period of time. We are monitoring the effects. Many colleges have weathered the storm better than others. We are in a process of mentoring the colleges that are in more difficulty and we are sharing good practice across the piece, and we will be in a position to roll out some good-practice examples across the sector shortly. I am meeting with the new chair of ColegauCymru in June, and we will be discussing various options at that meeting.

Cewch. Yr hyn rydym wedi'i wneud mewn gwirionedd, wrth gwrs, yw targedu'r agenda sgiliau at bobl sy'n ddi-waith ar hyn o bryd, ac ydw, rwy'n cytuno â chi ei fod wedi effeithio ar y grwpiau hynny, ond mae bron bob un o'r grwpiau hynny, mewn gwirionedd, mewn cyflogaeth. Nawr, er fy mod yn cytuno'n llwyr fod angen gwella sgiliau llawer o bobl sydd mewn cyflogaeth, ein blaenoriaeth oedd sicrhau cyflogaeth i bobl yn y lle cyntaf, oherwydd yr effeithiau gwirioneddol ofnadwy y mae diweithdra'n eu cael, yn enwedig ar bobl ifanc, dros gyfnod hir o amser. Rydym yn monitro'r effeithiau. Mae llawer o golegau wedi gwrthsefyll y storm yn well nag eraill. Rydym yn y broses o fentora colegau sy'n ei chael hi'n anos ac rydym yn rhannu arferion da yn gyffredinol, a byddwn mewn sefyllfa i gyflwyno rhai enghreifftiau o arferion da drwy'r sector yn fuan. Byddaf yn cyfarfod â chadeirydd newydd ColegauCymru ym mis Mehefin, a byddwn yn trafod gwahanol opsiynau yn y cyfarfod hwnnw.

Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg

Welsh in Education Strategic Plans

- 14:13 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 9. A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gyflwyno cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg? OAQ(4)0566(ESK)
- 14:13 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 My thanks to the Member for Llanelli. All 22 local authorities have submitted revised Welsh in education strategic plans. I have approved, with or without modifications, 20 of them.
- 14:13 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Diolch, Weinidog. Weinidog, mae cynlluniau strategol y Gymraeg yn statudol nawr ac yn gam ymlaen i sicrhau addysg Gymraeg i bob plentyn yng Nghymru sydd ei heisiau hi. Yn anffodus, rwyf wedi clywed fod rhai plant yn cael eu hamddifadu o'r gallu i drosglwyddo o ysgol gynradd Gymraeg i ysgol uwchradd Gymraeg oherwydd diffyg trafniadaeth rad. A ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'ch cyd-Weinidogion sydd â chyfrifoldebau am drafniadaeth a chynghorau lleol ar y mater hwn, er mwyn ei ddatrys?
- 14:14 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I have. I have, indeed, met with my colleague the Minister for Economy, Science and Transport—it was actually on 22 April—to explore the matters around this important issue. Whilst it is required, within the Welsh in education strategic plans, that a local authority must indicate how it is going to discharge its statutory duty under section 10 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008—and this, Members will be aware, is the one that refers to the nearest suitable school, free of charge. Whilst that duty is there, I am aware of pressures now within the system, and I will be working jointly with my colleague the Minister for Economy, Science and Transport. We've asked our officials to, first of all, determine the nature and extent of those pressures within the system, and then we will work together as best we can in partnership to try and address some of those specific pressures.
- 14:15 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Weinidog, ar ôl colli adolygiad barnwrol oherwydd yr ymgynghori gwael ar y newidiadau ysgol, roedd yn rhaid i gyngor yn fy rhanbarth i anghofio cynlluniau ar gyfer ysgol gynradd newydd gyda mwy o leoedd cyfrwng Gymraeg a mynd yn lle am gynllun gwahanol ar gyfer adeilad newydd heb unrhyw leoedd ychwanegol. Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r dyheadau hynny mewn cynlluniau statudol sy'n dibynnu ar ddarparu lleoedd cyfrwng Gymraeg ychwanegol trwy raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain?
- 14:16 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Well, of course the strategic plans contain targets for each local authority area, which they have committed to, and have built those commitments through consultation with local people. It is not for me to dictate precisely how those targets are met, but it is for me to hold that local authority to account, and to ensure that they do address their commitments within their strategic plan.
9. Will the Minister provide an update on the submission of Welsh in education strategic plans? OAQ(4)0566(ESK)
- Diolch i'r Aelod dros Lanelli. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cyflwyno cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg wedi'u diwygio. Rwyf wedi cymeradwyo 20 ohonynt, gyda neu heb addasiadau.
- Thank you, Minister. Minister, the Welsh in education strategic plans are statutory now and a step forward in ensuring Welsh-medium education for all children in Wales who want that education. Unfortunately, I've heard that some children are deprived of the ability to transfer from a Welsh-medium primary school to a Welsh-medium secondary school because of the absence of free transport. Have you had any discussion with your fellow Ministers with responsibility for transport and local councils on this particular issue, in order to resolve it?
- Do. Yn wir, cyfarfûm â'm cyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth—ar 22 Ebrill mewn gwirionedd—i archwilio'r mater pwysig hwn. Er ei bod yn ofynnol, yn y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, i awdurdod lleol ddangos sut y mae'n mynd i gyflawni ei ddyletswydd statudol o dan adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008—ac fel y bydd yr Aelodau'n gwybod, dyma'r un sy'n cyfeirio at yr ysgol addas agosaf, yn rhad ac am ddim. Er bod y ddyletswydd honno yno, rwy'n ymwybodol o'r pwysau o fewn y system yn awr, a byddaf yn gweithio ar y cyd gyda fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Rydym wedi gofyn i'n swyddogion, yn gyntaf oll, i benderfynu ar natur a maint y pwysau yn y system, a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd cystal ag y gallwn mewn partneriaeth i geisio mynd i'r afael â rhai o'r pethau penodol sy'n achosi'r pwysau.
- Minister, having lost a judicial review because of flawed consultation on school changes, a council in my own region had to set aside plans for a new primary school with more Welsh-medium places, and instead go for an alternative proposal for a new building without any additional places. How does the Welsh Government monitor those aspirations in statutory plans that are reliant on providing additional Welsh-medium places through the twenty-first century schools programme?
- Wel, wrth gwrs, mae'r cynlluniau strategol yn cynnwys targedau y mae pob ardal awdurdod lleol wedi ymrwymo iddynt, ac wedi datblygu'r ymrwymadau hynny drwy ymgynghori â phobl lleol. Nid fy lle i yw pennu'n union sut y caiff y targedau eu cyrraedd, ond fy lle i yw gwneud yr awdurdod lleol yn atebol, a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r ymrwymadau yn ei gynllun strategol.

14:16 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Pan fyddwch chi'n sôn am dargedau yn y cynlluniau hyn, Weinidog, byddwch chi'n ymwybodol nad yw'r targedau wedi'u cymryd gyda'i gilydd yn y 22 cynllun—er bod dau gynllun heb eu cymeradwyo eto—yn ddigon i chi gyrraedd eich targed ar gyfer nifer y bobl ifanc sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac sy'n dod yn siaradwyr Cymraeg. A ydych chi o'r farn erbyn hyn, felly, o weld y broses yma'n gweithio, bod angen unrhyw gamau statudol pellach i gryfhau'r cynlluniau hyn?

When you talk of targets within these plans, Minister, you will be aware that the targets taken together in the 22 plans—although two are yet to be approved—aren't sufficient for you to reach your own target for the number of young people who receive their education through the medium of Welsh and become Welsh speakers. Are you of the opinion now, having seen this process in action, that further statutory steps are required to strengthen these plans?

14:17 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'm not convinced, Presiding Officer, that any further statutory steps might be necessary, although I'm always prepared to listen to a reasoned case around that. What I am enthused by, as a result of the first round of this process, if you like, is that, overall, the process works. It does hold local authorities' feet to the fire, if you like, in terms of making sure that they make open and public commitments, and my ambition is that the Welsh in education strategic plan should act as a policy ratchet over time so that we can address these insufficiencies within our system in terms of opportunities for young people to pursue their education 'yn Gymraeg'.

Nid wyf yn argyhoeddedig, Lywydd, y gallai fod angen unrhyw gamau statudol pellach, er fy mod bob amser yn barod i wrando ar achos rhesymegol dros hynny. Yr hyn sy'n galonogol i mi, o ganlyniad i gylch cyntaf y broses hon, os mynnwch, yw bod y broses, ar y cyfan, yn gweithio. Mae'n cynnal y pwysau ar awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gwneud ymrwymadau agored a chyhoeddus, a fy uchelgais yw sicrhau bod cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg yn gweithredu fel hwb polisi dros amser er mwyn i ni allu mynd i'r afael â'r diffygion yn ein system o ran cyfleoedd i bobl ifanc gael eu haddysg yn Gymraeg.

14:18 **2. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

2. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Economy, Science and Transport. Question 1 is Rhodri Glyn Thomas.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Daw cwestiwn 1 gan Rhodri Glyn Thomas.

Prosiect Morlyn Llanw Bae Abertawe

Swansea Bay Tidal Lagoon Project

14:18 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiect morlyn llanw bae Abertawe? OAQ(4)0563(EST)

1. Will the Minister make a statement on the Swansea bay tidal lagoon project? OAQ(4)0563(EST)

14:18 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Securing the project is primarily dependent upon decisions that are being made by the UK Government. The Swansea bay tidal lagoon development consent order application is currently being considered by the Department for Energy and Climate Change.

Mae'r broses o sicrhau'r prosiect yn dibynnu'n bennaf ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU. Mae'r cais am orchymyn cydsynio ar gyfer datblygiad morlyn llanw bae Abertawe yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd.

14:18 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n derbyn, Weinidog, mai Llywodraeth San Steffan fydd yn gwneud y penderfyniad hollbwysig ar y prosiect hwnnw. Serch hynny, mae llawer iawn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i hwyluso nid yn unig y prosiect yma, ond mae yna bosibiliadau o gael cynlluniau tebyg yng Nghasnewydd, Caerdydd ac ym Mae Colwyn, hefyd. A yw Llywodraeth Cymru wedi trafod yn feunol sut y gallen nhw gynorthwyo, yn enwedig gyda'r isadeiledd, er mwyn sicrhau bod y prosiectau yma yn mynd yn eu blaen ac yn sicrhau ynni adnewyddadwy i Gymru am ddegawdau i ddod?

I accept, Minister, that it is the Westminster Government that will take the crucial decision on this project. However, there's a great deal that the Welsh Government can do to facilitate not only this project, but there is the possibility of having similar schemes in Newport, Cardiff and in Colwyn Bay, too. Has the Welsh Government had an internal discussion on how they can assist, particularly with the infrastructure, in order to ensure that these projects proceed and secure renewable energy for Wales for centuries to come?

14:19 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, of course. A cross-governmental group has been established, chaired by the energy Wales unit, to ensure a co-ordinated WG response to tidal range developments across Wales. Department for Economy, Science and Transport officials have got a tidal lagoon sector working group that is looking at the needs of the workforce, and the needs for training et cetera, and we are very committed to ensuring that any benefits arising from these—potential economic benefits—are maximised across the Welsh supply chain.

Do, wrth gwrs. Mae grŵp trawslywodraethol wedi cael ei sefydlu, dan gadeiryddiaeth uned ynni Cymru, er mwyn sicrhau ymateb cydgyssylltiedig gan Lywodraeth Cymru i ddatblygiadau amrediad llanw ledled Cymru. Mae gan swyddogion Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth weithgor sector môr-lynnuoedd llanw sy'n edrych ar anghenion y gweithlu, ac anghenion hyfforddiant ac yn y blaen, ac rydym yn ymrwymedig iawn i sicrhau cymaint o fuddiannau â phosibl o'r rhain—buddiannau economaidd posibl—ar draws y gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

14:19 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am convinced that wave power as a sustainable, renewable energy will become much more successful than wind power. We in Wales have a unique opportunity to become world leader in this form of renewable energy. Is there anything more that the Welsh Government can do to help make this happen in Swansea bay, so that we can get the economic benefits of it, not just in Swansea bay but throughout Wales, when more come on stream, and, more importantly, so that we can be seen as a place that knows how to do it and we can be an exporter of what I think is going to become a very important technology?

Weinidog, rwy'n argyhoeddedig y bydd ynni'r tonnau fel ynni cynaliadwy, adnewyddadwy yn dod yn llawer mwy llwyddiannus nag ynni gwynt. Mae cyfle unigryw gennyf i yng Nghymru i fod ar flaen y gad o ran y math hwn o ynni adnewyddadwy. A oes unrhyw beth yn rhagor y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i wireddu hyn ym mae Abertawe, er mwyn i ni sicrhau buddiannau economaidd ohono, nid yn unig ym mae Abertawe, ond ledled Cymru, pan ddaw mwy o'r cynlluniau'n weithredol, ac yn bwysicach, er mwyn i ni gael ein gweld fel lle sy'n gwybod sut i'w wneud ac fel gwlad sy'n allforio'r hyn sy'n mynd i fod yn dechnoleg bwysig iawn yn fy marn i?

14:20 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government is working closely with the developers in order to ensure that, if consented, all of these projects will bring the maximum benefits to Wales. I had the opportunity to meet representatives of another scheme in north Wales today, where we had a discussion about the opportunities for north Wales from the various developments. It is important for us to recognise that we also need to engage with the UK Government to understand the implications and opportunities, and, of course, we are working well with the Crown Estate, which has recently published a statement on the tidal range that acknowledged that the Crown Estate continues to work closely with the UK Government, the Welsh Government and other key stakeholders. So I think work is in hand on these issues, which I know Members across the Chamber support.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r datblygwyr er mwyn sicrhau y bydd pob un o'r prosiectau hyn yn sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i Gymru os ceir cydsyniad. Cefais gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o gynllun arall yng ngogledd Cymru heddiw, lle y cawsom drafodaeth am y cyfleoedd ar gyfer gogledd Cymru sy'n deillio o'r datblygiadau amrywiol. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod yr angen i ni ymgysylltu hefyd â Llywodraeth y DU i ddeall y goblygiadau a'r cyfleoedd, ac wrth gwrs, rydym yn gweithio'n dda gydag Ystâd y Goron, a gyhoeddodd ddatganiad yn ddiweddar ar yr amrediad llanw, yn cydnabod bod Ystâd y Goron yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Felly, rwy'n meddwl bod gwaith yn mynd rhagddo ar y materion hyn, a gwn fod Aelodau ar draws y Siambr yn ei gefnogi.

14:20

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree, Minister, that the lagoon is a pioneering project that, really, provides an amazing opportunity to develop the sort of specialist supply chain, manufacturing and service businesses that we can sell through expertise to the rest of the world. It seems to have the support of both Governments and, critically, local residents as well, and I don't think you can say the same about the kind of large onshore and offshore windfarms that we've seen applications for in recent times. Do you think, then, that you could put forward a strong economic argument for revising technical advice note 8, so that we can take economic advantage of a better-balanced renewables policy?

Rwy'n cytuno, Weinidog, fod y morlyn yn brosiect arloesol sy'n rhoi cyfle gwyh i ddatblygu'r math o fusnesau cadwyn gyflenwi, gweithgynhyrchu a gwasanaeth arbenigol y gallwn eu gwerthu drwy arbenigedd i weddill y byd. Mae'n ymddangos bod y ddwy Lywodraeth yn ei gefnogi, a'r trigolion lleol yn ogystal, sy'n hanfodol, ac nid wyf yn credu y gallwch ddweud yr un peth am y mathau o ffermydd gwynt mawr ar y tir ac ar y môr y gwelsom geisiadau amdanynt yn ddiweddar. A ydych yn meddwl, felly, y galloch gyflwyno dadl economaidd gref dros ddiwygio nodyn cyngor technegol 8, er mwyn i ni allu manteisio'n economaidd ar bolisi ynni adnewyddadwy mwy cytbwys?

14:21

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, energy policy is one of the issues that I have to deal with in Government, and we will certainly be looking at the implications of getting a very robust energy policy in future.

Yn amlwg, mae polisi ynni yn un o'r materion y mae'n rhaid i mi ymdrin â hwy yn y Llywodraeth, a byddwn yn sicr yn edrych ar oblygiadau cael polisi ynni cadarn iawn yn y dyfodol.

14:21

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I heard your response to Rhodri Glyn Thomas in terms of training around the development of the lagoon. Could you give more details of what work is under way to ensure that, if this lagoon is given the go-ahead, and if subsequent lagoons go ahead, the Welsh Government is prepared to make sure that we maximise the opportunities for apprenticeships and training amongst those people who will be helping to build those lagoons?

Weinidog, clywais eich ymateb i Rhodri Glyn Thomas o ran hyfforddiant ar gyfer datblygu'r morlyn. A allech roi mwy o fanylion ynglŷn â pha waith sydd ar y gweill i sicrhau, pe bai'r morlyn yn cael sêl bendith, a phe bai môr-lynnedd dilynol yn mynd yn eu blaenau, fod Llywodraeth Cymru yn barod i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau a hyfforddiant ymysg y bobl a fydd yn helpu i adeiladu'r môr-lynnedd hynny?

14:22

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes; I know my colleague Julie James is actively engaged in discussions about the training needs. We've got a group now that's focused, initially, on modelling the tidal lagoon in Swansea—that development—and what skills will be required, but we will use the labour market intelligence to plan for other jobs for the future to get the training offer absolutely correct, in terms of exploiting all of the opportunities that will be available.

Gallaf; rwy'n gwybod bod fy nghyd-Aelod Julie James yn rhan o drafodaethau ar yr anghenion hyfforddi. Mae gennym grŵp bellach sy'n canolbwyntio, i ddechrau, ar fodelu'r morlyn llanw ym mae Abertawe—y datblygiad hwnnw—a pha sgiliau fydd eu hangen, ond byddwn yn defnyddio'r wybodaeth am y farchnad lafur i gynllunio ar gyfer swyddi eraill yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y cynnig hyfforddiant yn hollol gywir, o ran manteisio ar yr holl gyfleoedd a fydd ar gael.

Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau

Safe Routes in Communities

14:22

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau? OAQ(4)0554(EST)

2. Will the Minister make a statement on the future of Safe Routes in Communities? OAQ(4)0554(EST)

14:22

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The bids from local authorities across Wales are currently being considered against the criteria for the Safe Routes in Communities funding. I will shortly be announcing—in fact, if I sign off the submission this afternoon, I will announce it to you in the next few days—my decision on which schemes will receive funding.

Diolch yn fawr. Mae'r cynigion gan awdurdodau lleol ledled Cymru yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yn erbyn y meini prawf ar gyfer cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Cyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi fy mhenderfyniad ynglŷn â pha gynlluniau fydd yn cael arian—mewn gwirionedd, os byddaf yn cymeradwyo'r cyflwyniad y prynhawn yma, byddaf yn ei gyhoeddi i chi yn yr ychydig ddyddiau nesaf.

14:23 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch, Weinidog. Yn sicr, mae'r cynllun yma wedi bod yn fodd o ddatrys llawer o'r problemau mwyaf syml i'w datrys yng Nghymru, ac rydym, o bosib, yn symud ymlaen rŵan at gyfnod o broblemau mwy cymhleth. Mae yna un achos felly wedi dod i'm sylw i yn y Fali, yn Ynys Môn, lle mae yna fater o berchnogaeth tir angen ei ddatrys; mae'n broblem allai gymryd peth amser i'w datrys. A all Llywodraeth Cymru ystyried cronfa sy'n fwy hyblyg, yn galluogi cyngorau i wario arian yn wahanol, efallai cyllido prosiectau mwy, efo'r caniatâd i wario'r arian dros gyfnod hirach, hefyd, yn hytrach na'r un flwyddyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd?

Thank you, Minister. Certainly, this scheme has been a means of resolving many of the simplest problems to resolve in Wales, and we may now be moving to a more complex phase. One such case has come to my attention in Valley, on Anglesey, where there's an issue of land ownership that needs to be resolved. It's a problem that could take some time to resolve. Can the Welsh Government consider a fund that's more flexible, enabling councils to spend moneys in different ways, perhaps funding larger projects with permission to spend the money over a longer period of time, rather than the single year, which is the requirement at present?

14:23 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It's interesting that you've raised this issue with me, because I'm looking at existing Safe Routes to School projects and trying to give a rolling funding stream, so that everybody knows when they can be dealt with. So, I will certainly take on board the point you made to me, because I think we are evolving to a different stage and, probably, have to look at more sophisticated ways of drawing together not just Safe Routes to School but other issues around how people get around.

Mae'n ddiddorol eich bod wedi dwyn y mater hwn i fy sylw oherwydd rwy'n edrych ar brosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol presennol ac yn ceisio cyflwyno ffrwd gyllido dreigl, fel bod pawb yn gwybod pryd y gellir ymdrin â hwy. Felly, byddaf yn sicr yn ystyried y pwynt y wnaethoch, gan fy mod yn credu ein bod yn esblygu i gam gwahanol, ac yn ôl pob tebyg, bydd yn rhaid i ni edrych ar ffyrdd mwy soffistigedig nid yn unig o grynhoi Llwybrau Diogel i'r Ysgol, a materion eraill hefyd sy'n ymwneud â sut y mae pobl yn teithio o gwmpas.

14:24 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
In awarding funding to specific projects under the Safe Routes in Communities programme, what assessment has the Minister made of how well local authorities are effectively engaging with schools and with children in the schools? Would that be a measurement that she could use to evaluate the projects?

Wrth ddyfarnu cyllid i brosiectau penodol o dan y rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n effeithiol gydag ysgolion a phlant yn yr ysgolion? A fyddai hwn yn ddull o fesur y gallai ei ddefnyddio i werthuso prosiectau?

14:24 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes; I've recently written to local authorities to ask them what mechanisms they have in place to speak to schools, because, last year, I worked with the office of the children's commissioner to ensure that children's voices are heard and their concerns are heard. Sometimes, their concerns are very different to the concerns of adults, and that is one of the issues I look at when I approve schemes.

Ydy; rwyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol i ofyn iddynt pa fecanweithiau sydd ganddynt ar waith i siarad gydag ysgolion, oherwydd y llynedd, gweithiais gyda swyddfa'r comisiynydd plant i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed a'u pryderon yn cael eu clywed. Weithiau, mae eu pryderon yn wahanol iawn i bryderon oedolion, a dyna un o'r materion rwy'n edrych arnynt pan fyddaf yn cymeradwyo'r cynlluniau.

14:24 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Nid wyf eisiau dylanwadu ar eich penderfyniad chi o gwbl, ond, yn dilyn eich ymateb i Julie Morgan, fe wnaeth Emma Pryce, disgybl blwyddyn 10 yn Ysgol Uwchradd Argoed yn sir y Fflint gasglu 1,200 o lofnodion i'w deiseb hi. Rhan o'r broblem oedd bod gan y cyngor sir restr o flaenoriaethau roeddent wedi bod yn gaeth iddynt am ryw 15 mlynedd ac nid oeddent yn fodlon rhannu'r wybodaeth yna efo'r ysgol na'r plant. Felly, a ydych yn barod i roi canllawiau newydd i'r cyngorau sir yma, er mwyn i bawb wybod yn union pa fath o gynlluniau sydd ar y gweill?

I don't wish to influence your decision at all, but, following your response to Julie Morgan, Emma Pryce, a pupil in year 10 in Argoed High School in Flintshire, collected 1,200 signatures on her petition. Part of the problem was that the county council had a list of priorities that they had stuck to for about 15 years and they weren't willing to share that information with either the school or the children. So, are you willing to issue new guidelines to the county councils, so that everyone knows exactly what schemes are in the pipeline?

- 14:25 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Yes. What I will try to do when I make my decision on this is list all the schemes I've already got that are in the pipeline, so that there's a degree of transparency about how they are going to be undertaken in the future. I'm very concerned if local authorities are not taking into account or being helpful when children are involved in consultations, because it is the child, at the end of the day, that we're trying to protect in the main on the Safe Routes in Communities, and I will certainly look further into the points you've raised with me today.
- Ydw. Pan fyddaf yn gwneud fy mhenderfyniad ar hyn byddaf yn ceisio rhestru'r holl gynlluniau sydd gennyf eisoes ar y gweill, fel bod elfen o dryloywder ynglŷn â sut y maent yn mynd i gael eu cyflawni yn y dyfodol. Rwy'n bryderus iawn os nad yw awdurdodau lleol yn ystyried plant neu'n bod o gymorth pan fo plant yn rhan o ymgynghoriadau, gan mai'r plentyn rydym yn ceisio'i ddiogelu'n bennaf drwy'r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn y pen draw, a byddaf yn sicr yn edrych ymhellach ar y pwyntiau rydych wedi eu dwyn i fy sylw heddiw.
- 14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Did we miss your supplementary, Suzy Davies? A ydym wedi methu eich cwestiwn atodol, Suzy Davies?
- 14:26 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Yes, I'm supposed to have one on this, if it's still possible. Do, mae un i fod gennyf ar hyn, os yw'n dal yn bosibl.
- 14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I beg your pardon. Would you like to ask your supplementary now? Sorry. Mae'n ddrwg gennyf. A hoffech ofyn eich cwestiwn atodol yn awr? Mae'n ddrwg gennyf.
- 14:26 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Diolch, Lywydd; I know I've been asking lots of questions today. Diolch, Lywydd; rwy'n gwybod fy mod wedi gofyn llawer o gwestiynau heddiw.
- Minister, I'm very pleased to hear your answers to the other questioners on this particular subject. It's been almost a year since you issued the new guidance to local education authorities about how best to assess safe walking or cycling routes to school. Do you know how many local authorities have already used that to reassess routes that they've already assessed as safe under the new rules, but particularly those schools that have applications in for twenty-first century school funding at the moment?
- Weinidog, rwy'n falch iawn o glywed eich atebion i'r holwyr eraill ar y pwnc penodol hwn. Mae bron i flwyddyn ers i chi gyhoeddi'r canllawiau newydd i awdurdodau addysg lleol ynglŷn â'r ffordd orau o asesu llwybrau cerdded neu feicio diogel i'r ysgol. A wyddoch faint o awdurdodau lleol sydd eisoes wedi eu defnyddio i ailasesu'r llwybrau y maent eisoes wedi asesu eu bod yn ddiogel o dan y rheolau newydd, ond yn enwedig yr ysgolion sydd wedi cyflwyno ceisiadau am arian ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ar hyn o bryd?
- 14:26 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 To be honest, I haven't got that information to hand, and I don't know whether it'll be contained in my submission from officials, but I can certainly look at that point and write to the Member, because it is important that they do take into account the guidance we've given, and it's very important that we look at all developments in terms of schools. I fod yn onest, nid yw'r wybodaeth honno wrth law gennyf, ac nid wyf yn gwybod a fydd yn cael ei chynnwys yn fy nghyflwyniad gan swyddogion, ond yn sicr gallaf edrych ar y pwynt hwnnw ac ysgrifennu at yr Aelod, gan ei bod yn bwysig eu bod yn ystyried y canllawiau a roesom, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar yr holl ddatblygiadau o ran ysgolion.
- Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau** **Questions Without Notice from Party Spokespeople**
- 14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 We now move to questions from the party spokespeople. First this afternoon is the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth. Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma mae llefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

14:27

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Minister, you will know that the business rates scheme is cited as one of the attractions of Wales's seven enterprise zones. I quote from the Business Wales website

'The...Scheme provides financial support for business rates liabilities incurred by small and medium-sized businesses located in the seven Enterprise Zones in Wales. The scheme which, was launched in 2013, will run until 2015/2016 and will target support at boosting job creation and business growth.'

Can the Minister confirm whether this is a scheme that is actually still open to businesses wishing to relocate or establish in an enterprise zone?

Diolch, Lywydd. Weinidog, byddwch yn gwybod bod y cynllun ardrethi busnes yn cael ei nodi fel un o atyniadau saith ardal fenter Cymru. Dyfynnaf o wefan Busnes Cymru

'Mae'r Cynllun...yn cynnig cymorth ariannol gyda'u hardrethi busnes i fusnesau bach a chanolig a leolwyd yn un o saith Ardal Fenter Cymru. Bydd y cynllun a lanswyd yn 2013 yn para tan 2015/2016 a'i nod yw helpu busnesau i dyfu ac i greu rhagor o swyddi.'

A all y Gweinidog gadarnhau a yw hwn yn gynllun sy'n dal ar agor mewn gwirionedd i fusnesau sy'n dymuno adleoli neu sefydlu mewn ardal fenter?

14:27

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, obviously, the enterprise zones scheme was brought online to ensure that we could encourage businesses within it to undertake it. I will have to check the rules of the scheme before answering fully to the Member.

Wel, yn amlwg, daethpwyd â'r cynllun ardaloedd menter ar-lein i sicrhau y gallem annog busnesau o'i fewn i'w fabwysiadu. Bydd yn rhaid i mi edrych ar reolau'r cynllun cyn ateb yr Aelod yn llawn.

14:27

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, two businesses that have relocated to the Anglesey enterprise zone say business rate relief worth, perhaps, £8,000 between them was the main attraction of relocating and those two companies are rapidly expanding and taking on staff, and now they're told that they can't apply. In fact, Anglesey council's economic development department says that no company has been able to apply for enterprise zone rates relief since May 2014. That means that, for two-thirds of the initial three-year life of the project, a key attraction of the enterprise zones has been unavailable, apart from one window in the Haven zone in February this year. Does the Minister share the disappointment of those businesses, which had been led to believe that this was going to be available to them, but now find that that lifeline isn't there?

Wel, Weinidog, mae dau fusnes sydd wedi adleoli yn ardal fenter Ynys Môn yn dweud mai rhyddhad ardrethi busnes o oddeutu £8,000 rhyngddynt oedd y prif atyniad dros adleoli ac mae'r ddau gwmni'n ehangu'n gyflym ac yn cyflogi rhagor o staff, ac yn awr dywedir wrthynt na allant wneud cais. Yn wir, mae adran datblygu economaidd cyngor sir Ynys Môn yn dweud nad oes unrhyw gwmni wedi gallu gwneud cais am ryddhad ardrethi ardal fenter ers mis Mai 2014. Mae hynny'n golygu nad yw un o atyniadau allweddol yr ardaloedd menter wedi bod ar gael am ddwy ran o dair o dair blynedd gychwynnol y prosiect, ar wahân i un cyfnod yn ardal y Ddau Gleddau ym mis Chwefror eleni. A yw'r Gweinidog yn rhannu siom y busnesau hynny, a oedd wedi cael eu harwain i greu bod y rhyddhad yn mynd i fod ar gael iddynt, ond sy'n darganfod yn awr nad yw'r rhaff achub honno ar gael?

14:28

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say that none of these issues has been raised with me individually by any companies or through anything that I've received via my officials. I will obviously deal with the matters that you have raised with me in the Chamber, because I don't want anybody not to have the opportunity to locate businesses in the enterprise zones and bring good business into Wales. So, if the Member's happy to leave that matter with me, I will certainly respond.

A gaf fi ddweud nad oes yr un o'r materion hyn wedi cael eu dwyn i fy sylw yn unigol gan gwmnïau na dim a gefais drwy fy swyddogion? Yn amlwg, byddaf yn delio â'r materion rydych wedi'u dwyn i fy sylw yn y Siambr, oherwydd nid wyf am i neb gollir cyfle i leoli busnesau yn yr ardaloedd menter a dod â busnes da i Gymru. Felly, os yw'r Aelod yn hapus i adael y mater hwnnw gyda mi, byddaf yn sicr o ymateb.

14:29 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, and the Minister will know that I've been supportive of the principle of enterprise zones, and anything that helps business growth is to be welcomed, but, whilst I realise the business rates scheme is only a part of the offer, the principle is nothing unless it is acted on. So, I'm grateful for the response today; I'm grateful also, in correspondence, that you said your director general will look at matters relating to this. Will the Minister agree now that this is an urgent case and that enterprise zones, if they are to reach their potential, have to keep the promises that they have made to businesses in Wales?

Diolch, a bydd y Gweinidog yn gwybod fy mod wedi cefnogi egwyddor ardaloedd menter, a dylid croesawu unrhyw beth sy'n helpu twf busnes, ond er fy mod yn sylweddoli mai rhan o'r cynnig yn unig yw'r cynllun ardrethi busnes, nid yw'r egwyddor yn ddim oni weithredir arni. Felly, rwy'n ddiolchgar am yr ymateb heddiw; rwy'n ddiolchgar hefyd eich bod dweud mewn gohebiaeth y bydd eich cyfarwyddwr cyffredinol yn edrych ar faterion yn ymwneud â hyn. A wnaiff y Gweinidog gytuno yn awr fod hwn yn achos brys a bod yn rhaid i ardaloedd menter gadw'r addewidion y maent wedi'u gwneud i fusnesau yng Nghymru os ydynt am gyflawni eu potensial?

14:29 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think it's very important, if any promise is made to any company in Wales or any company coming into Wales, that the promises are kept, because at the end of the day it is not good business for us if promises are not kept. My director general in correspondence will look at these particular matters, and I am meeting enterprise zone chairs shortly and will discuss this issue with them also.

Os oes unrhyw addewid yn cael ei wneud i unrhyw gwmni yng Nghymru neu unrhyw gwmni sy'n dod i mewn i Gymru, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn fod yr addewidion hynny'n cael eu cadw, oherwydd yn y pen draw, nid yw'n fusnes da i ni os nad yw addewidion yn cael eu cadw. Bydd fy nghyfarwyddwr cyffredinol yn edrych ar y materion penodol yn yr ohebiaeth, a byddaf yn cyfarfod â chadeiryddion ardaloedd menter yn fuan ac yn trafod y mater gyda hwythau hefyd.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Eluned Parrott.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

14:30 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Minister, I'm sure we'd all welcome the fact that Flybe's new routes from Cardiff Airport begin in less than a month. And I hope that any Members inexplicably not holidaying in Wales this year will at least choose to use one of those routes. Can you perhaps confirm for me though, Minister, how the airport will be using these new routes to build a secure, long-term base for future growth?

Diolch, Lywydd. Weinidog, rwy'n siŵr ein bod i gyd yn croesawu'r ffaith fod llwybrau newydd Flybe o Faes Awyr Caerdydd yn dechrau mewn llai na mis. A gobeithaf y bydd unrhyw Aelodau nad ydynt, am ryw reswm, yn cael gwyliau yng Nghymru eleni o leiaf yn dewis defnyddio un o'r llwybrau hynny. Ond a allwch gadarnhau i mi, Weinidog, sut y bydd y maes awyr yn defnyddio'r llwybrau newydd hyn i adeiladu sylfaen gadarn, hirdymor ar gyfer twf yn y dyfodol?

14:30 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think you're pre-empting a 'Western Mail' question about where we're all going on holiday this year, by indicating that you're staying in Wales, but, obviously, if you're not staying in Wales, can you please use the new routes from the airport. Obviously, the airport will hope that these new routes will start to embed the company, and that will be good for business. I'm sure these were questions that were raised in discussions in the airport briefing by Members with the airport board.

Wel, credaf eich bod yn achub y blaen ar un o gwestiynau'r 'Western Mail' ynglŷn â ble rydym i gyd yn mynd ar ein gwyliau eleni, drwy nodi eich bod yn aros yng Nghymru, ond yn amlwg, os nad ydych yn aros yng Nghymru, a allwch ddefnyddio'r llwybrau newydd o'r maes awyr os gwelwch yn dda? Yn amlwg, bydd y maes awyr yn gobeithio y bydd y llwybrau newydd hyn yn dechrau rhoi sylfaen gadarn i'r cwmni, a bydd hynny'n dda i fusnes. Rwy'n sicr fod y rhain yn gwestiynau a godwyd gan yr Aelodau mewn trafodaethau â'r bwrdd yng nghyfarfod briffio'r maes awyr.

14:30

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed. Thank you, Minister. On 18 November last year, after the announcement of the £13 million support package for route development at the airport, the First Minister told the Chamber that the future of Cardiff Airport lay in attracting long-haul flights, and you confirmed that statement the following week. How are the airport's management team, and the airport enterprise zone, working together to deliver these long-haul routes?

Yn wir. Diolch yn fawr, Weinidog. Ar 18 Tachwedd y llynedd, wedi'r cyhoeddiad am y pecyn cymorth £13 miliwn ar gyfer datblygu llwybrau teithio yn y maes awyr, dywedodd y Prif Weinidog wrth y Siambwr fod dyfodol Maes Awyr Caerdydd yn dibynnu ar ddenu hediadau pellter hir, ac fe wnaethoch chi gadarnhau'r datganiad hwnnw yr wythnos ganlynol. Sut y mae tîm rheoli'r maes awyr, ac ardal fenter y maes awyr, yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r llwybrau teithio pellter hir hyn?

14:31

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, obviously, there are discussions, I am aware, going on within the board of the airport, and, obviously, the enterprise zone boards have a relationship with the airport as well. But the important thing, I think, is to recognise they've been successful now in terms of the short-haul routes, but there's a lot of further work to be done on long-haul routes. It's a very competitive market we're in, as an airport, and, of course, what airlines require off you, if they wish to run routes from you.

Wel, yn amlwg, rwy'n ymwybodol bod trafodaethau'n digwydd ar lefel bwrdd y maes awyr, ac yn amlwg, mae gan fyrddau'r ardaloedd menter berthynas â'r maes awyr hefyd. Ond y peth pwysig, rwy'n credu, yw cydnabod eu bod wedi bod yn llwyddiannus o ran y llwybrau teithio pellter byr, ond bod llawer o waith pellach i'w wneud ar lwybrau pellter hir. Rydym mewn marchnad gystadleuol iawn, fel maes awyr, ac wrth gwrs, o ran yr hyn y mae cwmnïau hedfan ei angen gennyh os ydynt yn dymuno sefydlu llwybrau teithio o'ch maes awyr.

14:31

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I recognise that, Minister. You will be aware that the First Minister has been speculating in the press that he'd like to see routes to China, the far east, and America, from, well, way back in March 2013. But, back in May 2013, the airport's enterprise zone board was approached for help by a company looking for support in establishing a transatlantic route from Cardiff. They actually have a firm offer of support from an airport in the New York area. The written response from the chair of the enterprise zone board was,

Rwy'n cydnabod hynny, Weinidog. Fe wyddoch fod y Prif Weinidog wedi bod yn dweud yn y wasg y byddai'n hoffi gweld llwybrau i Tsieina, i'r dwyrain pell, ac i America, ers, wel, ymhell yn ôl ym mis Mawrth 2013. Ond ym mis Mai 2013, gofynnwyd i fwrdd ardal fenter y maes awyr am gymorth gan gwmni a oedd yn chwilio am gymorth i sefydlu llwybr dros yr Iwerydd o Gaerdydd. Mae ganddynt gynnig cadarn o gefnogaeth gan faes awyr yn ardal Efrog Newydd. Yr ymateb ysgrifenedig gan gadeirydd bwrdd yr ardal fenter oedd,

'It is our understanding that Cardiff Airport is working up a business plan which will initially concentrate on short-haul flights',

'Deallwn fod Maes Awyr Caerdydd yn datblygu cynllun busnes a fydd yn canolbwyntio i ddechrau ar deithiau pellter byr',

and their request for support was therefore turned down. Now, you've been talking up long-haul business for two years plus, but when the opportunity was presented to your enterprise zone board, covering that airport, you turned it down. How are we to believe that the enterprise zone board, and Cardiff Airport's management, are working effectively together to deliver your stated priority of bringing long-haul flights to Cardiff, when they are directly contradicting you, in writing, in their dealings with business?

ac o'r herwydd, gwrthodwyd eu cais am gymorth. Nawr, rydych wedi bod yn siarad am fusnes pellter hir ers dros ddwy flynedd, ond pan gyflwynwyd y cyfle i fwrdd eich ardal fenter, sy'n cynnwys y maes awyr, fe wrthodoch y cynnig. Sut y gallwn gredu bod bwrdd yr ardal fenter, a rheolaeth Maes Awyr Caerdydd, yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gyflawni eich blaenoriaeth ddatganedig o ddod â hediadau pellter hir i Gaerdydd, â hwythau'n eich gwrth-ddweud yn llwyr, yn ysgrifenedig, yn eu hymwneud â'r busnes?

14:32

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think we have to understand that enterprise board chairs have correspondence with various parties, and the devil is always in the detail of any offers that are made about long-haul routes.

Wel, rwy'n credu bod yn rhaid i ni ddeall bod cadeiryddion y byrddau menter yn gohebu â gwahanol bartïon, ac mae'n rhaid edrych yn fanwl ar unrhyw gynigion a wneir ynghylch llwybrau pellter hir.

14:32

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, William Graham.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, William Graham.

- 14:32 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Presiding Officer. Minister, what consideration have you given to super-city regions, and, in particular, the merits of cross-border initiatives for the Severn and Dee estuaries?
- 14:33 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I have been taking a particular interest—and I thank you for this question—in the relationships now between Cardiff, Bristol, and Newport. I think there is obviously an opportunity for closer working together, because Bristol is a very packed region, if I may say, and there might be the opportunity, perhaps, for further developments to come over with linkages. So, I think it's perfectly proper that Cardiff and Newport councils are looking at this as a possible new initiative.
- 14:33 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister. Now, the Welsh chambers of commerce have indicated that businesses in Wales are responding to the UK's strong economic growth and the resulting increase in sales by demonstrating increasing confidence by recruiting more permanent staff. So, Minister, what measures are you going to take now to make sure that the economic growth arising from UK Government policies is sustained throughout Wales?
- 14:33 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, obviously, we have policies in Wales that we believe have actually helped in terms of economic confidence. I think we have to be able to support businesses in the best way we can, whether this is through grants, whether this is through loans, whether this is through training, and also to be fleet of foot and keep, I think, to the promises we make—as was outlined by Rhun ap Iorwerth—in terms of what we say to businesses. And I think then that confidence will grow. And you are right, we are seeing increased confidence, particularly by exporters, but there are some difficulties still within the economy.
- 14:34 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister. The chair of the Institute of Welsh Affairs says that Wales will not be able to catch up England economically unless it is more ambitious—something we'd all agree with. So, would you agree that, while we need to be more competitive within the UK, our key priority is to raise our trading status on the global market?
- 14:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
When you see some of the companies that we have in Wales that are trading on the global market, I don't think our status is an issue. But, I think we can all work harder, better and faster to ensure a genuine economic recovery within Wales.
- Diolch, Lywydd. Weinidog, pa ystyriaeth ydych chi wedi'i roi i uwch ddinas-ranbarthau ac yn arbennig, i rinweddau mentrau trawsffiniol ar gyfer aberoedd Hafren a Dyfrdwy?
- Rwyf wedi bod yn cymryd diddordeb penodol—a diolch i chi am y cwestiwn hwn—yn y berthynas erbyn hyn rhwng Caerdydd, Bryste, a Chasnewydd. Rwy'n credu bod cyfle amlwg iddynt weithio'n agosach gyda'i gilydd, gan fod Bryste yn rhanbarth llawn iawn, os caf ddweud, ac efallai i daw'r cyfle, o bosibl, i ddatblygiadau pellach ddod drwy gysylltiadau. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn gwbl briodol i gynghorau Caerdydd a Chasnewydd edrych ar hon fel menter newydd bosibl.
- Diolch yn fawr, Weinidog. Nawr, mae siambrau masnach Cymru wedi nodi bod busnesau yng Nghymru yn ymateb i dwf economaidd cryf y DU a'r cynnydd mewn gwerthiant yn ei sgil drwy arddangos hyder cynyddol drwy recriwtio mwy o staff parhaol. Felly, Weinidog, pa fesurau rydych am eu rhoi ar waith yn awr i sicrhau bod y twf economaidd sy'n deillio o bolisiau Llywodraeth y DU yn cael ei gynnal ledled Cymru?
- Wel, yn amlwg, mae gennym bolisiau yng Nghymru y credwn eu bod wedi helpu o ran hyder economaidd. Credaf fod yn rhaid i ni allu cefnogi busnesau yn y ffordd orau y gallwn, boed drwy grantiau, drwy fenthyciadau neu drwy hyfforddiant, a hefyd i fod yn barod a chadw, rwy'n credu, at yr addewidion a wnawn—fel yr amlinellwyd gan Rhun ap Iorwerth—o ran yr hyn a ddywedwn wrth fusnesau. Ac rwy'n meddwl wedyn y bydd hyder yn tyfu. Ac rydych yn gywir, rydym yn gweld mwy o hyder, yn enwedig ymhlith allforwyr, ond ceir rhai anawsterau o fewn yr economi o hyd.
- Diolch yn fawr, Weinidog. Mae cadeirydd y Sefydliad Materion Cymreig yn dweud na fydd Cymru yn gallu dal i fyny â Lloegr yn economaidd, oni bai ei bod yn fwy uchelgeisiol—rhywbeth y byddem i gyd yn cytuno ag ef. Felly, a fyddech yn cytuno, er bod angen i ni fod yn fwy cystadleuol yn y DU, mai ein prif flaenoriaeth yw codi ein statws masnachu yn y farchnad fyd-eang?
- Pan edrychwch ar rai o'r cwmnïau sydd gennym yng Nghymru sy'n masnachu yn y farchnad fyd-eang, nid wyf yn credu bod ein statws yn broblem. Ond rwy'n meddwl y gallwn i gyd weithio'n galetach, yn well ac yn gyflymach er mwyn sicrhau adferiad economaidd gwirioneddol yng Nghymru.

Cau Banciau

Bank Closures

- 14:34 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
3. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith cau banciau ar fusnesau bach a chanolig yn sir Drefaldwyn? OAQ(4)0559(EST)
- 14:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I've made no specific assessment of the impact that bank closures are having on SMEs in Wales.
- 14:35 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Thank you, Minister, for your answer. There have been several bank closures in my constituency over the past 12 months and, of course, this has a particularly negative impact on SMEs. There's also evidence to show that a bank closure has an effect on the town centre in a negative way. I would be grateful if you would have discussions with your colleague the communities Minister to facilitate discussions between all interested parties. I am thinking of all the banks working together with post offices and police station front counters, coming together to work from one location, so a rural solution to deal with this particular problem.
- 14:35 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Can I say that I appreciate the difficulties that you're outlining for rural areas, but bank closures also impact, I have to say, in the Valleys areas within south Wales and elsewhere, and old industrial areas as well? It does have an impact on the community. Unfortunately, banking is not devolved. We all know the issues now with HSBC considering moving out of the UK. Banks are obviously looking at mobile banking; they're looking at new technologies, et cetera, but I'm more than happy to discuss these matters with my colleague.
- 14:36 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 We have indeed come a long way since the friendly bank manager cared for the community in which he, as it was in those days, tended to live. Now, they're only concerned about their bottom line and they demonstrate that in the way that they treat the communities that they were once so central to. But I've asked you in the past, Minister, and I'd like to ask again, if the Government is doing anything to support SMEs in alternative forms of lending, for example, peer to peer lending, and support from credit unions as well, as an alternative to some of this. Very often, SMEs want quite small loans that actually don't feature in the banks' business plans at all, and it could be a way of getting more SMEs to support each other in Wales, which might actually be the alternative that the Member was looking for, for rural areas.
- 3. What assessment has the Minister made of the impact of bank closures on small and medium-sized enterprises in Montgomeryshire? OAQ(4)0559(EST)*
- Nid wyf wedi gwneud unrhyw asesiad penodol o effaith cau banciau ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.
- Diolch am eich ateb, Weinidog. Mae nifer o fanciau yn fy etholaeth wedi cau yn ystod y 12 mis diwethaf, ac wrth gwrs, mae hyn yn effeithio'n arbennig o negyddol ar fusnesau bach a chanolig. Ceir tystiolaeth sy'n dangos hefyd fod cau banc yn cael effaith negyddol ar ganol y dref. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cael trafodaethau gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog cymunedau, i hwyluso trafodaethau rhwng pawb sydd â diddordeb. Rwy'n meddwl am yr holl fanciau yn cydweithio gyda swyddfeydd post a chownteri blaen gorsafoedd heddlu, yn dod at ei gilydd i weithio o un lleoliad, gan greu ateb gwledig felly i fynd i'r afael â'r broblem benodol hon.
- A gaf fi ddweud fy mod yn derbyn bod yna anawsterau mewn ardaloedd gwledig fel yr amlinellwyd gennych, ond mae cau banciau hefyd yn cael effaith, mae'n rhaid i mi ddweud, ar ardaloedd y Cymoedd yn ne Cymru ac mewn mannau eraill, a hen ardaloedd diwydiannol hefyd? Mae'n cael effaith ar y gymuned. Yn anffodus, nid yw bancio yn fater wedi'i ddatganoli. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r problemau gyda HSBC yn awr yn ystyried symud allan o'r DU. Mae banciau'n amlwg yn edrych ar fancio symudol; maent yn edrych ar dechnolegau newydd, ac yn y blaen, ond rwy'n fwy na pharod i drafod y materion hyn gyda fy nghyd-Aelodau.
- Rydym wedi dod yn bell iawn yn wir ers oedd y rheolwr banc cyfeillgar yn malio am y gymuned y tueddai i fyw ynddi, fel roedd pethau yn y dyddiau hynny. Yn awr, diwedd y gân yn unig sydd o bwys iddynt ac maent yn dangos hynny drwy'r ffordd y maent yn trin y cymunedau yr oeddent unwaith yn rhan mor ganolog ohonynt. Ond gofynnais i chi yn y gorffennol, Weinidog, a hoffwn ofyn eto, a yw'r Llywodraeth yn gwneud unrhyw beth i gefnogi busnesau bach a chanolig drwy ddulliau amgen o fenthyca, er enghraifft, benthyca rhwng cymheiriaid, a chefnogaeth gan undebau credyd hefyd, fel dewis amgen i beth o hyn. Yn aml iawn, mae busnesau bach a chanolig yn dymuno cael benthyciadau eithaf bach nad ydynt yn ymddangos mewn gwirionedd yng nghynlluniau busnes y banciau o gwbl, a gallai hynny fod yn ffordd o gael mwy o fusnesau bach a chanolig i gefnogi ei gilydd yng Nghymru, ac efallai mai hynny mewn gwirionedd yw'r dewis amgen roedd yr Aelod yn chwilio amdano ar gyfer ardaloedd gwledig.

14:37

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, we've done work on the 'Lending Ready Review', which I think has been quite useful in terms of its 10 recommendations and its action plan. Also as well what I have been looking at is community banking, and I do think there is an issue when we go through the establishment of a development bank and we move on; I think there might also be a role for community banking linked into that, so we actually have a bank that people can invest in that is a Welsh bank and they'll be able to have small loans from. But we have been doing work obviously in doing the links to credit unions. I wouldn't say that those links are particularly impressive at the moment, but I'd be delighted to report back on what further work officials have been undertaking in that area.

Yn amlwg, rydym wedi gwneud gwaith ar yr 'Adolygiad Parod i Fenthyca' a chredaf ei fod wedi bod yn eithaf defnyddiol o ran ei 10 argymhelliad a'i gynllun gweithredu. Rwyf hefyd wedi bod yn edrych ar fanciau cymunedol, a chredaf fod problem wrth i ni fynd drwy'r broses o sefydlu banc datblygu a symud ymlaen; rwy'n credu y gallai fod rôl ar gyfer bancio cymunedol yn gysylltiedig â hynny, fel bod gennym fanciau y gall pobl fuddsoddi ynddo a hwnnw'n fanciau Cymreig y byddant yn gallu cael benthyciadau bychain ganddo. Ond yn amlwg, rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar ffurfio'r cysylltiadau ag undebau credyd. Ni fuaswn yn galw'r cysylltiadau hynny'n rhai arbennig o drawiadol ar hyn o bryd, ond plaser fyddai adrodd yn ôl ar y gwaith pellach y mae swyddogion wedi bod yn ei wneud yn y maes hwnnw.

Cefnogi Busnesau (Gorllewin Cymru)

Supporting Businesses (West Wales)

14:37

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0551(EST)

4. What is the Welsh Government doing to support businesses in west Wales? OAQ(4)0551(EST)

14:37

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are progressing a range of priorities, including the provision of business support through Business Wales, ICT support and transport infrastructure improvements.

Rydym yn symud ymlaen ar ystod o flaenoriaethau, gan gynnwys darparu cymorth i fusnesau drwy Busnes Cymru, cymorth TGCh a gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth.

14:37

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, and I'm glad that you've mentioned ICT support because one way of supporting businesses in west Wales is by ensuring that they have access to fast and reliable broadband. Given that there are parts of my constituency that are in the 4 per cent of people and businesses that will not receive a fast fibre broadband service, can you tell us what additional support will be available for businesses in my area?

Diolch, Weinidog, ac rwy'n falch eich bod wedi crybwyll cefnogaeth TGCh gan mai un ffordd o gefnogi busnesau yng ngorllewin Cymru yw drwy sicrhau bod mynediad ganddynt i fand eang cyflym a dibynadwy. O gofio bod rhannau o fy etholaeth ymhlith y 4 y cant o bobl a busnesau na fydd yn derbyn gwasanaeth band eang ffeibr cyflym, a wnewch chi ddweud wrthym pa gymorth ychwanegol a fydd ar gael i fusnesau yn fy ardal?

14:38

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, obviously, in terms of what we're doing, we do have a very successful broadband project going. There was always a percentage we identified that there would be difficulties with. I think if you have any specific points about the businesses in the areas within, if you could write to the deputy Minister, I'm sure he'll outline what issues we are dealing with.

Wel, yn amlwg, o ran yr hyn rydym yn ei wneud, mae gennym brosiect band eang llwyddiannus iawn ar waith. Roeddem wedi nodi bob amser y byddem yn cael anhawster â chanran ohono. Os oes gennych unrhyw bwyntiau penodol ynglŷn â'r busnesau yn yr ardaloedd hynny, pe baech yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog, rwy'n siŵr y gwnaiff amlinellu pa broblemau rydym yn ymdrin â hwy.

Busnes Cymru

Business Wales

14:38

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Busnes Cymru? OAQ(4)0553(EST)

5. Will the Minister make a statement on the work of Business Wales? OAQ(4)0553(EST)

14:38 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Business Wales provides access to a wide range of information and advice. Since it became operational in January 2003, it's helped to create almost 9,000 jobs and safeguarded 2,300. It's also helped to create more than 6,580 new businesses.

Mae Busnes Cymru yn darparu mynediad at ystod eang o wybodaeth a chyngor. Ers iddo ddechrau gweithredu ym mis Ionawr 2003, mae wedi helpu i greu bron i 9,000 o swyddi ac wedi diogelu 2,300 o swyddi. Mae hefyd wedi helpu i greu dros 6,580 o fusnesau newydd.

14:39 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. There is an excellent example of the achievements of Business Wales in my constituency of Neath. This success has been brewed up by Mandy Draper and Kevin Davies, who run the Borough Arms pub in Neath. The award of an £11,000 Welsh Government SME capital investment grant enabled them to start an on-site microbrewery, where beverages such as Full Blast, Iron Runner and Pithead Porter are made. With sales buoyant, the company is now hoping to expand and take on more staff. Minister, will you agree with me that this intoxicating achievement illustrates the success of the Welsh Government in fostering enterprise?

Diolch i chi, Weinidog. Mae yna enghraifft wych o gyflawniadau Busnes Cymru yn fy etholaeth, sef Castell-nedd. Mae'r llwyddiant hwn wedi'i greu gan Mandy Draper a Kevin Davies, sy'n rhedeg tafarn y Borough Arms yng Nghastell-nedd. Mae grant buddsoddi cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer BBaChau o £11,000 wedi eu galluogi i ddechrau bragdy ar y safle, sy'n gwneud diodydd fel Full Blast, Iron Runner a Pithead Porter. Gyda'r gwerthiant yn galonogol, mae'r cwmni bellach yn gobeithio ehangu a chyflogi rhagor o staff. Weinidog, a ydych yn cytuno bod y cyflawniad meddwol hwn yn dangos llwyddiant Llywodraeth Cymru yn meithrin mentergarwch?

14:39 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I can see Members smiling around the Chamber in the hope that you'll be bringing some of the products in for them to sample at some stage. I know that there is a lot of interest in microbreweries and, of course, the importance of small businesses like this. I'm delighted to see a sustainable local business with the support of Wales having great success. It's obviously really good to actually see that they want to expand and they will be taking on more staff. That is the purpose of the funds that are available. So, I think that you'll have to organise an event, I say to the Member, for Members perhaps to sample the produce at some stage. [Laughter.]

Wel, gallaf weld Aelodau'n gwenu o gwmpas y Siambr yn y gobaith y byddwch yn dod â rhai o'r cynhyrchion iddynt eu blasu ryw dro. Gwn fod llawer o ddi-ddordeb mewn microfragdai, ac wrth gwrs, ym mhwsygrwydd busnesau bach fel hyn. Rwyf wrth fy modd yn gweld busnes lleol cynaliadwy, gyda chefnogaeth Cymru, yn cael llwyddiant mawr. Mae'n amlwg yn wirioneddol dda i weld eu bod am ehangu ac y byddant yn cyflogi rhagor o staff. Dyna yw pwrpas yr arian sydd ar gael. Felly, rwy'n dweud wrth yr Aelod y bydd yn rhaid i chi drefnu digwyddiad i'r Aelodau flasu'r cynnyrch ryw dro efallai. [Chwerthin.]

14:40 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, as we're on the subject of intoxicating achievements, can I ask you about Siltbuster in my constituency? I know you've been a keen supporter of Tri-Wall, just down the road from Siltbuster. Siltbuster has become a world leader in waste water solutions in Monmouthshire and in south Wales. They really want to use Welsh supply chains where possible, even if they cost a bit more. For that, they need those supply and distribution chains to be properly mapped. What part is Business Wales playing in helping to map the supply and distribution chains so that companies like Siltbuster and other companies in south Wales can buy Welsh where they want to?

Wel, Weinidog, gan ein bod ar yn trafod cyflawniadau meddwol, a gaf fi ofyn i chi am Siltbuster yn fy etholaeth? Gwn eich bod wedi bod yn frwd eich cefnogaeth i Tri-Wall, ychydig i lawr y ffordd o Siltbuster. Mae Siltbuster wedi dod yn un o gwmnïau mwyaf blaenllaw'r byd o ran atebion dŵr gwastraff yn Sir Fynwy ac yn ne Cymru. Maent am ddefnyddio cadwyni cyflenwi o Gymru lle y bo modd, hyd yn oed os ydynt yn costio ychydig yn fwy. Am hynny, mae angen i'r cadwyni cyflenwi a dosbarthu hynny fod wedi eu mapio yn gywir. Pa ran y mae Busnes Cymru yn ei chwarae yn helpu i fapio'r cadwyni cyflenwi a dosbarthu fel y gall cwmnïau fel Siltbuster a chwmnïau eraill yn ne Cymru brynu o Gymru lle y maent am wneud hynny?

14:41 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think you make a very good point here, because we do quite a lot of mapping of supply chains in specific areas, like if you look at mapping supply chains in automotive and aeronautics, et cetera, but I don't think the work is so sophisticated in general in terms of supply chains. So, I'll take that point up with officials and report back to Members, because I think the Member makes a very good point.

Rwy'n meddwl eich bod yn gwneud pwynt da iawn yma, gan ein bod yn gwneud cryn dipyn o waith mapio ar gadwyni cyflenwi mewn meysydd penodol, er enghraifft os edrychwch ar fapio cadwyni cyflenwi ym maes moduro ac awyrenneg, ac yn y blaen, ond nid wyf yn credu bod y gwaith, yn gyffredinol, mor soffistigedig â hynny o ran y cadwyni cyflenwi. Felly, byddaf yn crybwyll y pwynt wrth swyddogion ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau, oherwydd credaf fod yr Aelod yn gwneud pwynt da iawn.

14:41 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae un o ganolfannau cynghori Busnes Cymru ym Mangor ym Mharc Menai. A oes gan eich adran ddadansoddiad cymharol i ddangos lefel y gweithgarwch sydd yn y gwahanol ganolfannau ar draws Cymru i ni gael darlun o ba mor fywiog ydy'r economi mewn gwahanol rannau o'n gwlad?

One of the Business Wales advisory centres is in Bangor, in Parc Menai. Does your department has a comparative analysis to show the level of activity in the various centres across Wales, so that we can get a picture of how lively the economy is in various parts of our country?

14:41 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, we do have statistics that show what we do, but I have never seen a detailed breakdown by centre, but that doesn't mean that one doesn't exist. So, I'll try and find what information is available and write to the Member on that particular issue.

Oes, mae gennym ystadegau sy'n dangos yr hyn rydym yn ei wneud, ond nid wyf erioed wedi gweld dadansoddiad manwl fesul canolfan, ond nid yw hynny'n golygu nad oes un yn bodoli. Felly, byddaf yn ceisio darganfod pa wybodaeth sydd ar gael ac yn ysgrifennu at yr Aelod ynghylch y mater penodol hwnnw.

Nofio am Ddim

Free Swimming

14:42 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau diweddar i'r fenter nofio am ddim? OAQ(4)0558(EST)

6. Will the Welsh Government provide an update on recent changes to the free swimming initiative? OAQ(4)0558(EST)

14:42 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Following the review of free swimming, the funding formula has changed to better reflect the degree of socioeconomic deprivation in local authorities, as children living in deprived areas are less likely to be swimmers. Our focus is to teach more children to swim, which also supports our tackling poverty agenda.

Yn dilyn yr adolygiad o nofio am ddim, mae'r fformiwla ariannu wedi newid i adlewyrchu'r graddau o amddifadedd economaidd-gymdeithasol mewn awdurdodau lleol yn well, gan fod plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn llai tebygol o allu nofio. Ein ffocws yw dysgu mwy o blant i nofio, sydd hefyd yn cefnogi ein hagenda ar gyfer trechu tlodi.

14:42 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister. Obviously, I do welcome the renewed focus on helping children and young people from less affluent backgrounds to access swimming. But, looking at some of the data available, it seems that, whilst the number of young people taking part in structured swimming activities has grown across all authorities, there is considerable variation in the numbers of young people accessing free public swims. What work is being done to encourage local authorities to promote free swimming? What best practice can be learnt from the authorities that are succeeding in getting more young people swimming?

Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog. Yn amlwg, croesawaf y ffocws newydd ar helpu plant a phobl ifanc o gefndiroedd tlotach i wneud defnydd o ddarpariaethau nofio. Ond o edrych ar beth o'r data sydd ar gael, er bod nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau nofio strwythuredig wedi cynyddu ar draws pob awdurdod, mae'n ymddangos bod cryn amrywiaeth yn niferoedd y bobl ifanc sy'n manteisio ar sesiynau nofio cyhoeddus am ddim. Pa waith sy'n cael ei wneud i annog awdurdodau lleol i hyrwyddo nofio am ddim? Pa arferion gorau y gellir eu dysgu gan yr awdurdodau sy'n llwyddo i gael mwy o bobl ifanc i nofio?

14:43 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, the Member is absolutely right. We've found that over the last few years the number of free swims has fallen compared with a rise in the number of paid swims. So, following the review of the free swimming initiative, we've adopted a rejuvenated approach to it. Sport Wales is going to be leading on a new national aquatic group, which will include representation from regional aquatic groups, from local authorities, Swim Wales and Sport Wales. This will help to identify areas of good practice and set clear targets so that there is more of a co-ordinated approach to ensure that we maximise our return on investment. Of course, local authorities will also produce free swimming aquatic plans, which will provide information on what activities are available in their respective areas.

Mae'r Aelod yn llygad ei lle. Rydym wedi gweld nifer y sesiynau nofio am ddim yn gostwng dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o'i gymharu â chynnydd yn nifer y sesiynau nofio y telir amdanynt. Felly, yn dilyn yr adolygiad o'r cynllun nofio am ddim, rydym wedi mabwysiadu ymagwedd newydd tuag ato. Mae Chwaraeon Cymru yn mynd i fod yn arwain grŵp gweithgareddau dŵr cenedlaethol newydd, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr ar ran grwpiau gweithgareddau dŵr rhanbarthol, awdurdodau lleol, Nofio Cymru a Chwaraeon Cymru. Bydd hyn yn helpu i nodi meysydd o arferion da ac yn gosod targedau dir er mwyn sicrhau ymagwedd fwy cydgysylltiedig i wneud yn siŵr ein bod yn cael cymaint o elw â phosibl ar fuddsoddiad. Wrth gwrs, bydd awdurdodau lleol hefyd yn cynhyrchu cynlluniau nofio am ddim, a fydd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â pha weithgareddau sydd ar gael yn eu gwahanol ardaloedd.

14:43 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, recent changes to the free swimming initiatives mean that Monmouthshire will have seen a cut in its funding of 43 per cent. As a result, funding for free swimming sessions for children will almost be wiped out. Will the Minister reconsider these changes, which are putting free swimming sessions for children in Monmouthshire at risk?

Weinidog, mae newidiadau diweddar i'r cynlluniau nofio am ddim yn golygu y bydd toriad o 43 y cant yng nghyllid Sir Fynwy. O ganlyniad, bydd y cyllid ar gyfer sesiynau nofio am ddim i blant bron yn cael ei ddileu. A wnaiff y Gweinidog ailystyried y newidiadau hyn, sy'n peryglu sesiynau nofio am ddim i blant yn sir Fynwy?

14:44 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I would not agree. First of all, in most cases, the reduction forms a tiny percentage of the overall budget. Equally, I think it's essential that we do what we can to tackle poverty. What we are going to be using the free swimming initiative funding for is to tackle inequality. It's a fact that 25 per cent of young people reach high school and can't swim. It's absolutely right that we utilise every penny that we can to make sure that inequality is wiped out, and that's what we're going to do with swimming.

Na, ni fyddwn yn cytuno. Yn gyntaf oll, yn y rhan fwyaf o achosion, canran fechan iawn o'r gyllideb gyffredinol yw'r gostyngiad. Yn yr un modd, rwy'n credu ei bod yn hanfodol ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i drechu tlodi. Rydym yn mynd i ddefnyddio cyllid y fenter nofio am ddim er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Mae'n ffaith nad yw 25 y cant o bobl ifanc yn gallu nofio pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol uwchradd. Mae'n hollol iawn ein bod yn defnyddio pob ceiniog a allwn i wneud yn siŵr bod anghydraddoldeb yn cael ei ddileu, a dyna beth rydym yn mynd i'w wneud gyda nofio.

Y Seilwaith Trafnidiaeth (Prifddinas Ranbarth Caerdydd)

Transport Infrastructure (Cardiff Capital Region)

14:44 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y seilwaith trafndiaeth ym mhrifddinas-ranbarth Caerdydd ?
OAQ(4)0562(EST)

7. Will the Minister make a statement on transport infrastructure in the Cardiff capital region?
OAQ(4)0562(EST)

14:44 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As outlined by the First Minister in his response to questions, I'll be providing a further update to Members on the metro before the summer recess.

Fel yr amlinellwyd gan y Prif Weinidog yn ei ymateb i gwestiynau, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y metro cyn toriad yr haf.

- 14:45 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that answer. Minister, the Ebbw Vale railway line, which runs through my constituency, provides vital access to jobs and services for many people who live in the south Wales Valleys. I'm delighted that the Cardiff capital regional board have published a proposed map for the south Wales metro system that includes an additional Ebbw Vale to Newport route. Minister, what discussions have the Welsh Government had regarding the proposed Ebbw Vale to Newport route?
- 14:45 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
As part of the metro phase 1, work is under way to deliver further track capacity to provide additional services to Newport and/or Cardiff. This work is due to be completed by the end of 2016. I will have to look at service patterns as part of the franchise as well for Wales and the border. Phase 1 of the metro project will deliver £77 million of investment. This includes the extension of the railway line to Ebbw Vale town and the new station at Pye Corner.
- 14:45 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
Minister, obviously, large infrastructure projects require considerable sums of money, both private and public money. There is considerable European funding available, and I know various Government departments are discussing the options over the next phase. What sort of European money has your initial assessment indicated that might be available to back some of these infrastructure projects for the capital city region of Cardiff?
- 14:46 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'm hoping to make a statement, as you know, on the whole metro and the delivery of various things before the summer recess. We are currently considering how we would phase money and what we would do, and that will become clear when I report back to Members. But, your question is quite correct: we've got to look at the phasing of all of this and what capital is available for what is a very exciting project, and I thank Members across the Chamber for their particular support for the metro project.
- 14:46 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
You'll have heard, Minister, the exchanges yesterday on Cardiff bus station, which is obviously a critical interchange when it comes to the metro. I'm concerned that people in Cardiff need to be able to see the plans for the metro if they're going to be able to effectively scrutinise any new bus station proposals before they go to public consultation, which is also due this summer. We cannot know if the new bus station is appropriate if we don't yet know what the metro system will need. So, I'm wondering if you can give me an assurance that your proposals for the metro development will be available before that consultation opens in Cardiff.
- Diolch i chi am eich ateb. Weinidog, mae rheilffordd Glynebwy, sy'n rhedeg drwy fy etholaeth, yn darparu mynediad hanfodol i swyddi a gwasanaethau i lawer o bobl sy'n byw yng Nghymoedd y de. Rwyf wrth fy modd fod bwrdd prifddinas-ranbarth Caerdydd wedi cyhoeddi map arfaethedig ar gyfer system metro de Cymru sy'n cynnwys llwybr ychwanegol Glynebwy i Gasnewydd. Weinidog, pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynglŷn â llwybr arfaethedig Casnewydd i Lynebwy?
- Fel rhan o gam 1 y metro, mae gwaith ar y gweill i sicrhau capasiti trac pellach i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i Gasnewydd a/neu Gaerdydd. Mae'r gwaith hwn i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd 2016. Bydd yn rhaid i mi edrych ar batrymau gwasanaeth fel rhan o'r fasnachfaint ar gyfer Cymru a'r gororau hefyd. Bydd Cam 1 y prosiect metro yn sicrhau £77 miliwn o fuddsoddiad. Mae hyn yn cynnwys ymestyn y rheilffordd i dref Glynebwy a'r orsaf newydd yn Pye Corner.
- Weinidog, yn amlwg, mae prosiectau seilwaith mawr yn gofyn am symiau sylweddol o arian, yn arian preifat ac arian cyhoeddus. Mae cryn dipyn o arian Ewropeaidd ar gael, ac rwy'n gwybod bod amryw o adrannau'r Llywodraeth yn trafod yr opsiynau dros y cyfnod nesaf. Pa fath o arian Ewropeaidd y mae eich asesiad cychwynnol wedi dangos y gallai fod ar gael i gefnogi rhai o'r prosiectau seilwaith hyn ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd?
- Rwy'n gobeithio gwneud datganiad, fel y gwyddoch, ar y metro cyfan a chyflwyno amryw o bethau cyn toriad yr haf. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried sut y byddem yn cyflwyno arian fesul cam a'r hyn y byddem yn ei wneud, a daw hynny'n glir pan fyddaf yn adrodd yn ôl i'r Aelodau. Ond mae eich cwestiwn yn hollol gywir: mae'n rhaid i ni edrych ar gyflwyno hyn oll fesul cam a pha gyfalaf sydd ar gael ar gyfer y prosiect hynod o gyffrous hwn. Diolch i'r Aelodau ar draws y Siambr am eu cefnogaeth arbennig i brosiect y metro.
- Weinidog, fe fyddwch wedi clywed y drafodaeth ddoe am orsaf fysiau Caerdydd, sy'n amlwg yn gyfnewidfa allweddol o ran y metro. Rwy'n bryderus fod angen i bobl Caerdydd allu gweld y cynlluniau ar gyfer y metro os ydynt yn mynd i allu craffu'n effeithiol ar unrhyw gynigion newydd ar gyfer yr orsaf fysiau cyn iddynt ddod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, sydd i'w gynnal yr haf hwn hefyd. Ni allwn wybod a yw'r orsaf fysiau newydd yn briodol os nad ydym yn gwybod eto beth fydd ei angen ar y system fetro. Felly, tybed a allwch roi sicrwydd y bydd eich argymhellion ar gyfer datblygiad y metro ar gael cyn dechrau'r ymgynghoriad hwnnw yng Nghaerdydd.

14:47 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was interested in the exchange yesterday, because I did have the benefit of reading the full text of the letter that went in from the cabinet member into the newspaper. Obviously, we liaise with Cardiff council as appropriate, and my wish is your wish on this particular matter—I think that will be quite important. But, let's be absolutely honest: as the First Minister indicated yesterday, we've got that big project there and these are much smaller, but we mustn't do anything that spoils the end of it either. So, I understand where you're coming from on this particular issue.

Roedd gen i ddi-ddordeb yn y drafodaeth ddoe, gan fod gennyf y fantais o fod wedi darllen testun llawn y llythyr a aeth gan yr aelod o'r cabinet i'r papur newydd. Yn amlwg, rydym yn cysylltu gyda chyngor Caerdydd fel y bo'n briodol, a'r un yw ein dymuniad ynghylch y mater penodol hwn—rwy'n credu y bydd hynny'n eithaf pwysig. Ond gadewch i ni fod yn hollol onest: fel y dywedodd y Prif Weinidog ddoe, mae gennym y prosiect mawr hwnnw ac mae'r rhain yn llawer llai, ond rhaid i ni beidio â gwneud dim sy'n difetha'i ddiwedd ychwaith. Felly, rwy'n deall eich teimladau am y mater penodol hwn.

14:47 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Many people in Blaenau Gwent welcome the extension of the services to Ebbw Vale and the ongoing work constructing the dynamic loop south of Blaenau Gwent to enable additional services on the Ebbw Vale to Cardiff line. Many people in Blaenau Gwent, Minister, see the next priority in the development of this line as a new station and services to Abertillery. Is it possible that these might be included in the plans for the metro?

Mae llawer o bobl ym Mlaenau Gwent yn croesawu ymestyn y gwasanaeth i Lynebwyr a'r gwaith parhaus o adeiladu'r ddolen ddynamig i'r de o Flaenau Gwent er mwyn darparu gwasanaethau ychwanegol ar reilffordd Glynebwy i Gaerdydd. Mae llawer o bobl ym Mlaenau Gwent, Weinidog, yn gweld mai'r flaenoriaeth nesaf yn natblygiad y llinell hon yw gorsaf a gwasanaethau newydd i Abertillery. A yw'n bosibl y gellid cynnwys y rhain yn y cynlluniau ar gyfer y metro?

14:48 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. My officials have already started to work on options to provide the necessary infrastructure for potential additional services on the Ebbw Vale line, which will include the potential for future services to Abertillery. We've also recognised the potential of the Tesco site, because things have changed, and my officials are currently undertaking studies to ascertain if it's suitable for a future railway station.

Ydy. Mae fy swyddogion eisoes wedi dechrau gweithio ar opsiynau i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau ychwanegol posibl ar linell Glynebwy, a fydd yn cynnwys y potensial ar gyfer gwasanaethau i Abertillery yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi cydnabod potensial y safle Tesco, gan fod pethau wedi newid, ac ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn cyflawni astudiaethau i ganfod a yw'n addas ar gyfer gorsaf reilffordd yn y dyfodol.

Chwaraeon Modur

Motor Sport

14:48 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i chwaraeon modur?
OAQ(4)0556(EST)

8. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's support for motor sport? OAQ94)0556(EST)

14:48 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are very supportive of safe, well-run motor sport events. They can bring significant economic benefits for Wales and provide an opportunity to showcase Wales on the international stage, when you look at some of the viewing figures.

Rydym yn gefnogol iawn i ddi-gwyddiadau chwaraeon modur diogel, wedi eu trefnu'n dda. Gallant ddod â manteision economaidd sylweddol i Gymru a chynig cyfle i arddangos Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, pan fyddwch yn edrych ar rai o'r ffigurau gwyllo.

14:49 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I fully agree with that view myself. Concerns have been raised with me that Powys County Council are taking an unsympathetic view when it comes to promoting motor sports, particularly how they make relevant authorisations under the Road Traffic Act 1988. I have raised this matter with Powys County Council, but there is still a feeling that there is a 'finding barriers' approach being taken by officers of the authority. Have you any views on this, Minister, and are you aware of the issue that's been raised?

Diolch yn fawr, Weinidog. Cytunaf yn llwyr â'r farn honno fy hun. Mae pryderon wedi cael eu crybwyll wrthyf nad oes gan Gyngor Sir Powys safbwynt cydymdeimladol o ran hyrwyddo chwaraeon modur, yn enwedig o ran y modd y maent yn gwneud awdurdodiadau perthnasol o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988. Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda Chyngor Sir Powys, ond mae yna deimlad o hyd fod swyddogion yr awdurdod yn 'chwilio am rwystrau'. A oes gennych farn ar hyn, Weinidog, ac a ydych yn ymwybodol o'r mater a grybwyllwyd?

14:49 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I actually wrote last year to the leader of Powys council following correspondence I received concerning the very unsympathetic attitude the local authority was taking to it. If I could put on record that, in 2013, the economic impact of our support for Wales Rally GB amounted to £10 million, much of which occurred in Powys. I am concerned about the council's approach, as it puts Powys at an economic disadvantage, and therefore their citizens at an economic disadvantage, and I'd be more than happy to take this matter up again with the local authority.

Ydw, y llynedd ysgrifennais at arweinydd cyngor Powys yn dilyn gohebiaeth a gefais yn ymwneud â diffyg cefnogaeth yr awdurdod lleol i hyn. Os caf gofnodi hynny, yn 2013, roedd effaith economaidd ein cefnogaeth i Rally GB Cymru yn £10 miliwn, a llawer o'r rali yn digwydd ym Mhowys. Rwy'n pryderu am agwedd y cyngor, gan ei fod yn rhoi Powys, a'i dinasyddion felly, o dan anfantais economaidd, a byddwn yn fwy na pharod i dynnu sylw'r awdurdod lleol at hyn eto.

14:50 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could the Minister update us on steps that can be taken to ensure that, while we have other motor sports developments in Wales, that they do not affect those excellent facilities that we already have, and, of course, I'm talking about the Anglesey Circuit.

Er bod gennym ddatblygiadau chwaraeon modur eraill yng Nghymru, a allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau y gellir eu cymryd i sicrhau nad ydynt yn effeithio ar y cyfleusterau rhagorol sydd gennym eisoes, ac wrth gwrs, rwy'n siarad am Gylchffordd Ynys Môn?

14:50 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I think we've got to recognise that you've got to have a balance in terms of what you undertake. We don't want to disadvantage anybody by supporting any other enterprise, and I very much have those thoughts in mind when I give my support to projects.

Gallaf. Rhaid i ni gydnabod, rwy'n meddwl, fod yn rhaid cael cydbwysedd yn yr hyn rydych yn ei wneud. Nid ydym am roi neb dan anfantais drwy gefnogi unrhyw fenter arall, ac rwy'n bendant yn cadw hyn mewn cof wrth roi fy nghefnogaeth i brosiectau.

Y Sector Gwasanaethau Proffesiynol

The Professional Services Sector

14:50 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu'r sector gwasanaethau proffesiynol yng Nghymru? OAQ(4)0550(EST)

9. Will the Minister make a statement on developing the professional services sector in Wales? OAQ(4)0550(EST)

14:50 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The financial and professional services sector is a priority, and there are over 100,000 jobs in that particular sector in Wales. We continue to support our indigenous professional companies as well as trying to get global companies into Wales.

Mae'r sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol yn flaenoriaeth, ac mae dros 100,000 o swyddi yn y sector penodol hwn yng Nghymru. Rydym yn parhau i gefnogi ein cwmnïau proffesiynol cynhenid yn ogystal â cheisio denu cwmnïau byd-eang i Gymru.

14:51 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister for that response? The Welsh Government have made substantial progress in developing the creative industries and life sciences. Another high-value and growth area where the Welsh economy is underweight is professional services—not just financial services, but things such as design engineers, architecture, tribologists and non-destructive testing engineers. What is the Government doing to promote this sector?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw? Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol yn datblygu'r diwydiannau creadigol a gwyddorau bywyd. Maes twf arall gwerthfawr iawn lle y mae economi Cymru yn brin yw gwasanaethau proffesiynol—nid gwasanaethau ariannol yn unig, ond pethau fel peirianwyr dylunio, pensaernïaeth, tribolegwyr a pheirianwyr profion annistriol. Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hyrwyddo'r sector hwn?

14:51 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think we are promoting the sector, because, actually, financial and professional services contribute more than any other sector in terms of GVA and jobs into Wales, and our offers of financial support to company projects are expected to deliver up to 3,000 new jobs in the coming year.

Wel, rwy'n meddwl ein bod yn hyrwyddo'r sector, oherwydd, mewn gwirionedd, mae gwasanaethau ariannol a phroffesiynol yn cyfrannu mwy nag unrhyw sector arall o ran gwerth ychwanegol gros a swyddi i Gymru, ac mae disgwyl i'n cynigion o gymorth ariannol i brosiectau cwmnïau greu hyd at 3,000 o swyddi newydd yn y flwyddyn sydd i ddod.

14:51 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, yes, I think I would agree that this is a particularly important sector, not least in my own region, where the knowledge and service economy is taking over from heavy industry. It was a big blow for us, as a region, to lose Ideoba—a catalyst for high-tech businesses in the area with a very good professional services supply chain, going forward. Do you think that the Welsh Government's decision to renege on the bridging loan—whether that was partly politically motivated or not—will have dented industry's confidence in my region as a place to bring high-quality jobs?

Weinidog, rwy'n credu y byddwn yn cytuno bod hwn yn sector arbennig o bwysig, yn enwedig yn fy rhanbarth i, lle y mae'r economi wybodaeth a gwasanaethau yn achub y blaen ar ddiwydiant trwm. Roedd yn ergyd fawr i ni, fel rhanbarth, i golli Ideoba—catalydd ar gyfer busnesau uwch-dechnoleg yn yr ardal gyda chadwyn gyflenwi gwasanaethau proffesiynol da iawn ar gyfer y dyfodol. A ydych yn credu bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i gefnu ar y benthyciad pontio—pa un a oedd wedi'i gymell gan wleidyddiaeth plaid ai peidio—wedi tolacio hyder diwydiant yn fy rhanbarth fel lle i ddod â swyddi o ansawdd uchel iddo?

14:52 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we have actually worked very closely with the company to support the success of this venture. I attended the launch of the company—I was delighted to do so—and I do find the comments you made about party politics quite insulting to me as a Minister, because I've always tried to be impartial and I've always tried to secure the jobs I can for the benefit of Wales. I'm as disappointed as anybody about what's happened on this matter.

Wel, mewn gwirionedd fe fuom yn gweithio'n agos iawn gyda'r cwmni er mwyn cefnogi llwyddiant y fenter hon. Mynychais lansiad y cwmni—pleser mawr oedd gwneud hynny—ac rwy'n ystyried bod y sylwadau a wnaethoch am wleidyddiaeth plaid yn eithaf sarhaus i mi fel Gweinidog, oherwydd rwyf bob amser wedi ceisio bod yn ddiduedd a bob amser wedi ceisio sicrhau cymaint o swyddi ag y gallaf er budd Cymru. Rwyf mor siomedig â neb am yr hyn sydd wedi digwydd ynglŷn â'r mater hwn.

14:52 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you rightly point out that the professional services sector makes a significant contribution to the Welsh economy, but the sector itself is aware of the need, under an equality and diversity imperative, to attract more young people from underrepresented groups. I wonder what steps the Welsh Government will be taking to help attract young people from ethnic minorities, please.

Weinidog, rydych yn iawn i nodi bod y sector gwasanaethau proffesiynol yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru, ond mae'r sector ei hun yn ymwybodol o'r angen, dan orfodaeth i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth, i ddenu mwy o bobl ifanc o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Tybed pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i helpu i ddenu pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, os gwelwch yn dda.

14:53 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We've been having a very interesting discussion today about how we attract people from disadvantaged backgrounds, and those who live in poverty, into the workforce, and how we can do more. I intend to do some further work with my anchor and regionally important companies to see what further help and assistance they can give. Obviously, we've got to start sometimes on basic work experience, because those who know somebody have the good work experience, and those who don't know anybody don't have good work experience, and it doesn't encourage them to develop. So, there is further work going on in that area, and I'd be more than happy to look at some of the work we're doing in this particular area, and perhaps do a statement before the summer recess about the work my department undertakes.

Rydym wedi bod yn cael trafodaeth ddiddorol iawn heddiw am y ffordd rydym yn denu pobl o gefndiroedd difreintiedig, a'r rhai sy'n byw mewn tldi, i mewn i'r gweithlu, a sut y gallwn wneud mwy. Rwy'n bwriadu gwneud rhywfaint o waith pellach gyda fy nghwmnïau angori a chwmnïau o bwys yn rhanbarthol i weld pa help a chymorth pellach y gallant ei roi. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni ddechrau weithiau gyda phrofiad gwaith sylfaenol, gan fod y rhai sy'n adnabod rhywun yn cael profiad gwaith da, a'r rhai nad ydynt yn adnabod neb yn cael profiad gwaith gwael, ac nid yw hynny'n eu hannog i ddatblygu. Felly, mae gwaith pellach yn digwydd ar hynny, a byddwn yn fwy na pharod i edrych ar rywfaint o'r gwaith rydym yn ei wneud yn y maes penodol hwn, a gwneud datganiad cyn toriad yr haf efallai am y gwaith y mae fy adran yn ei wneud.

Gwelliannau i Drafnidiaeth Gyhoeddus

14:53 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno dros y 10 mlynedd nesaf? OAQ(4)0557(EST)

Improvements to Public Transport

10. Will the Minister outline the improvements to public transport the Welsh Government intends to deliver over the next 10 years? OAQ(4)0557(EST)

- 14:53 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Our objectives and priorities for transport in Wales in the short, medium and long term will be outlined in the final national transport plan, which I will publish later this year.
- 14:53 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister. I want to return to the subject of Valleys lines electrification because, obviously, despite the funding issues being resolved now, there's been no announcement on when the detailed planning work will commence and when a contract to begin the actual building work will commence. When do you expect that order to do the final detailed planning will be placed?
- 14:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, obviously, I intend to make an announcement before the summer recess about the metro, which links into what we're doing on electrification and the whole issue around the franchise.
- 14:54 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I welcome the access improvements that are currently taking place at Llandaf railway station, which will make a dramatic difference to disabled users of public transport in my constituency of Cardiff North. However, will the Minister give an assurance that providing access for disabled travellers to help use the trains themselves is prioritised as part of the awarding of the new Wales and borders rail franchise in 2018?
- 14:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It will be a condition within the specification for the franchise.
- 14:55 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, I was delighted to see that, in the latest UK—. Oh, sorry. Minister, I have received several representations about the quality of rolling stock from north to south and vice versa. Quite often, direct trains have to stop off at Chester to be changed, and it is fair to say that I receive many representations from constituents about a much-needed way of commuting from north to south. What actions are you actually taking with regard to this? I know that rolling stock technically isn't devolved, but what representations are you making?
- Bydd ein hamcanion a'n blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru yn y tymor byr, canolig a hir yn cael eu hamlinellu yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol terfynol y byddaf yn ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.
- Diolch yn fawr, Weinidog. Rwyf am ddechrau at bwnc trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd oherwydd, yn amlwg, er bod y materion ariannu wedi eu datrys erbyn hyn, ni fu unrhyw gyhoeddiad ynglŷn â pha bryd y bydd y gwaith cynllunio manwl yn dechrau a pha bryd y bydd contract i ddechrau ar y gwaith adeiladu ei hun yn cychwyn. Pa bryd rydych yn disgwyl i'r gorchymyn i wneud y cynllunio manwl terfynol gael ei roi?
- Wel, yn amlwg, bwriadaf wneud cyhoeddiad cyn toriad yr haf am y metro, sy'n cysylltu â'r hyn rydym yn ei wneud ar drydaneiddio a holl fater y fasnachfrait.
- Rwy'n croesawu'r gwelliannau mynediad sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd yng ngorsaf reilffordd Llandaf, a fydd yn gwneud gwahaniaeth dramatig i ddefnyddwyr anabl trafnidiaeth gyhoeddus yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd. Fodd bynnag, a wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd fod darparu mynediad i deithwyr anabl i'w helpu i ddefnyddio'r trenau eu hunain yn cael blaenoriaeth fel rhan o'r broses o ddyfarnu masnachfrait reilffyrdd newydd Cymru a'r gororau yn 2018?
- Bydd yn amod yn y fanyleb ar gyfer y fasnachfrait.
- Weinidog, roeddwn yn falch o weld, yn y—. O, mae'n ddrwg gennyf. Weinidog, rwyf wedi cael nifer o sylwadau am ansawdd y cerbydau o'r gogledd i'r de ac fel arall. Yn aml iawn, rhaid i drenau uniongyrchol stopio yng Nghaer i gael eu newid, ac mae'n deg dweud fy mod yn cael llawer o sylwadau gan etholwyr ynglŷn â ffordd o gymudo o'r gogledd i'r de sy'n fawr ei hangen. Pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith mewn perthynas â hyn mewn gwirionedd? Gwn nad yw cerbydau yn fater wedi'i ddatganoli yn dechnegol, ond pa sylwadau rydych chi'n eu cyflwyno?

14:55

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Right, I think we've got to recognise the issue around rolling stock across the whole of the UK and what's going on with ageing stock. We will have the opportunity with the new franchise to look at issues around rolling stock, but I can assure you that it's not a north-south issue. It's a west Wales to Cardiff issue as well when it comes to the standard of rolling stock. Rolling stock is one of the key issues we'll have to look at when we look at the franchise, about the quality. It was envisaged that we'd be having old stock from somewhere, but I don't think that's good enough for Welsh citizens. As far as I'm concerned, we need to have the best up-to-date stock and we need to get on with it. This is one of the primary considerations and, when I meet rail user groups, this is one of their principal concerns.

lawn, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gydnabod y broblem gyda cherbydau ar draws y DU gyfan a'r hyn sy'n digwydd gyda cherbydau sy'n heneiddio. Byddwn yn cael cyfle gyda'r fasnachfrait newydd i edrych ar faterion yn ymwneud â cherbydau, ond gallaf eich sicrhau nad mater gogledd-de yw hyn. Mae safon cerbydau yn fater gorllewin Cymru i Gaerdydd hefyd. Mae cerbydau trenau yn un o'r materion allweddol y bydd yn rhaid i ni edrych arno pan edrychwn ar y fasnachfrait, o ran yr ansawdd. Rhagwelwyd y byddem yn cael hen gerbydau o rywle, ond nid wyf yn credu bod hynny'n ddigon da i ddinasyddion Cymru. O'm rhan i, mae angen i ni gael y cerbydau cyfredol gorau ac mae angen i ni fwrw ymlaen â hyn. Dyma un o'r prif ystyriaethau a phan fyddaf yn cyfarfod â grwpiau defnyddwyr trenau, dyma un o'u prif bryderon.

14:56

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 11 was Alun Ffred Jones. We now move to question 12, Aled Roberts.

Cwestiwn 11 oedd un Alun Ffred Jones. Symudwn yn awr at gwestiwn 12, Aled Roberts.

Gwella'r Cysylltiadau Cefnffyrdd rhwng Gogledd Cymru a Lloegr

Improving Trunk Road Connections between England and North Wales

14:56

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. Pa drafodaethau sydd wedi eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac asiantaethau eraill ynghylch gwella cysylltiadau cefnffyrdd rhwng Gogledd Cymru a Lloegr? OAQ(4)0561(EST)

12. What discussions have been held between the Welsh Government, the UK Government and other agencies regarding improving trunk road connections between England and North Wales? OAQ(4)0561(EST)

14:56

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My officials have regular meetings with Highways England, which include discussions regarding cross-border road schemes.

Mae fy swyddogion yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Phriffyrdd Lloegr, sy'n cynnwys trafodaethau ynghylch cynlluniau ffyrdd trawsffiniol.

14:56

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r ddamwain ddifrifol arall ddydd Llun yn ardal y Waun. Mae yna erthyglau wedi ymddangos yn Lloegr yn dweud bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud gwaith ar hyn o bryd ar yr A5—neu, astudiaethau ar yr A5—rhwng Amwythig a Wrexham, gan ddweud bod hynny'n dilyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru. A ydych chi, felly, yn gallu cadarnhau eich bod chi'n rhan o'r gwaith hwnnw, ac a fyddwch chi'n cymryd i ystyriaeth unrhyw waith y mae angen ei wneud ar yr A483 rhwng y Waun a Wrexham?

I'm sure that you're aware that there was another serious accident on Monday in the Chirk area. Articles have appeared in England stating that the UK Government is currently doing work, or studies rather, on the A5 between Shrewsbury and Wrexham, stating that that follows discussions and negotiations with the Welsh Government. Can you therefore confirm that you are party to that work, and will you be taking into account any work that needs to be done on the A483 between Chirk and Wrexham?

14:57 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, we are aware of the work of Highways England—I think they've done an A5 corridor study on this and will be sharing the information with us. The study is looking at the A5 up to the A483, up to the Welsh-English border by Chirk—that's my understanding—rather than looking up to Ruabon, which is four miles in, I think, on our link. We completed our latest review of our roads last year. It didn't recommend any additional measures there, but, as the Member has raised that with me, and when we have that further report, I will certainly look into those additional miles and his concerns in view of the serious accident that occurred.

Byddwn, rydym yn ymwybodol o waith Prifffyrdd Lloegr—rwy'n meddwl eu bod wedi cyflawni astudiaeth ar goridor yr A5 mewn perthynas â hyn a bydd yn rhannu'r wybodaeth gyda ni. Mae'r astudiaeth yn edrych ar yr A5 hyd at yr A483, hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr wrth y Waun—dyna a ddeallais—yn hytrach nag edrych i fyny at Riwabon, sydd bedair milltir i mewn, rwy'n credu, ar ein cyswllt. Cwblhawyd ein harolwg diweddaraf o'n ffyrdd y llynedd. Nid oedd yn argymhell unrhyw fesurau ychwanegol yno, ond gan fod yr Aelod wedi crybwyll hyn, a phan ddaw'r adroddiad pellach hwnnw i law, byddaf yn sicr yn edrych ar y milltiroedd ychwanegol a'i bryderon o gofio'r ddamwain ddirifol a ddigwyddodd.

14:57 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you'll be aware of the concerns and the problems that motorists have had with the way in which the A483 and A55 situation in Chester has come about at the Posthouse roundabout. Many have expressed those concerns because, of course, there were other roadworks that were planned across north Wales by the North and Mid Wales Trunk Road Agent at the same time as the works around the Chester Posthouse roundabout junctions. I wonder what consideration you've given to working better between the highways agents in north Wales and those across the border to ensure that the co-ordination of works is better in the future so that motorists don't face unnecessary delays.

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol o bryderon a phroblemau modurwyr ynglŷn â'r sefyllfa gyda'r A483 a'r A55 yng Nghaer wrth gylchfan Posthouse. Mae llawer wedi mynegi'r pryderon hyn oherwydd bod gwaith ffordd arall wedi'i gynllunio ar draws gogledd Cymru gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar yr un pryd â'r gwaith o amgylch cyffyrdd cylchfan Posthouse ger Caer. Tybed pa ystyriaeth rydych wedi ei rhoi i weithio'n well rhwng yr asiantau prifffyrdd yng ngogledd Cymru a'r rhai dros y ffin er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gydlynw'n well yn y dyfodol fel na fydd modurwyr yn wynebu oedi diangen.

14:58 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And I wonder what consideration Highways England has undertaken to working better with us in terms of the co-ordination. You're talking about the Posthouse roundabout?

A thybed pa ystyriaeth a roddodd Prifffyrdd Lloegr i weithio'n well gyda ni o ran cydgyssylltu. A ydych chi'n trafod cylchfan Posthouse?

14:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Ydym.

14:58 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Obviously, that is due to complete this month, thank heavens. The scheme has had impacts, you're quite right, across the piece, and we have installed variable message signs and CCTV to warn drivers of possible disruptions, but I do take on board the point about the importance of cross-border working on these issues, which affect people in terms of going to work as well as going about their normal business.

Ydych. Yn amlwg, mae disgwyl iddo gael ei gwblhau y mis hwn, diolch byth. Mae'r cynllun wedi cael effaith ym mhob man, rydych yn llygad eich lle, ac rydym wedi gosod arwyddion gyda negeseuon amrywiol a theledu cylch cyfyng i rybuddio gyrrwyr ynghylch amhariadau posibl, ond rwy'n derbyn y pwynt am bwysigrwydd gweithio trawsffiniol ar y materion sy'n effeithio ar bobl o ran mynd i'w gwaith yn ogystal â'u mynd a'u dod arferol.

Blaenoriaethau Trafnidiaeth

Transport Priorities

14:59 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

13. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau trafndiaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0560(EST)

13. Will the Minister provide and update on the Welsh Government's transport priorities? OAQ(4)0560(EST)

- 14:59 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
They're set out in the national transport plan consultation, and I shall be issuing a response on that shortly.
- 14:59 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I anticipated that was going to be your relatively short answer, Minister. [Laughter.] Minister, a couple of questions ago, in answer to Janet Finch-Saunders' question on the metro and rolling stock, you rightly said that there is a need for speed now in terms of purchasing new rolling stock and getting the new system up and running. The deadline for the new franchise, beyond Arriva, whatever that might be, is fast approaching. Are you confident that you are making enough headway in getting all of these ducks lined up, so that, when that new franchise is in place, all these questions, such as on rolling stock and on the electrification of the line, will have been answered, so that we do actually have a franchise that is worth having when that deadline has expired?
- 15:00 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am confident in the work that we're undertaking. We're doing extensive work now, and we've got a meeting shortly with all rail user groups to look at the public's perception of what's coming out of the new franchise. We're doing detailed work around the metro, and I am confident that we've got everything in line, now to make the decisions, which I will be able to share with you.
- Maent wedi eu nodi yn yr ymgynghoriad ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, a byddaf yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad cyn bo hir.
- Roeddwn yn rhagweld mai dyna fyddai eich ateb cymharol fyr, Weinidog. [Chwerthin.] Weinidog, gwestiwn neu ddau yn ôl, wrth ateb cwestiwn Janet Finch-Saunders ar y metro a cherbydau, fe ddywedoch yn gywir fod angen mynd ati'n gyflym yn awr i brynu cerbydau newydd a chael y system newydd ar ei thraed. Mae'r dyddiad terfynol ar gyfer y fasnachfaint newydd, ar ôl Arriva, beth bynnag fydd hwnnw, yn prysur nesáu. A ydych yn hyderus eich bod yn gwneud digon o gynnydd o ran cael yr holl drefniadau ar y gweill, fel bod y cwestiynau hyn i gyd, ynglŷn â'r cerbydau a thrydaneiddio'r rheilffordd er enghraifft, wedi eu hateb erbyn y daw'r fasnachfaint newydd i'w lle, er mwyn i ni gael masnachfaint sy'n werth ei chael erbyn y dyddiad hwnnw?
- Rwy'n hyderus o ran y gwaith rydym yn ei wneud. Rydym yn gwneud gwaith helaeth bellach, ac mae gennym gyfarfod yn fuan â holl grwpiau defnyddwyr y rheilffyrdd i edrych ar ganfyddiad y cyhoedd ynglŷn â'r hyn a ddaw yn sgil y fasnachfaint newydd. Rydym yn gwneud gwaith manwl ar y metro, ac rwy'n hyderus fod pob dim yn ei le gennym bellach i wneud y penderfyniadau, a byddaf yn gallu rhannu hynny gyda chi.

Seilwaith Trafnidiaeth Gogledd Cymru

North Wales Transport Infrastructure

- 15:00 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
14. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella'r seilwaith trafnidiaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0549(EST)
- 15:00 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Our proposed actions will be outlined in the national transport plan.
- 15:00 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that answer, Minister. You'll be aware of my long-standing interest in trying to improve the transport links between north Wales and Liverpool and Manchester, in particular. One of the things that I'm very keen to see are some direct rail links to airports in both of those cities. What specific action do you think the Welsh Government might be able to take in order to improve those vital rail links to those important transport hubs?
- 14. What action is the Minister taking to improve the transport infrastructure in north Wales? OAQ(4)0549(EST)*
- Bydd ein camau gweithredu yn cael eu hamlinellu yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rydych yn ymwybodol o fy niddordeb hirsefydlog mewn ceisio gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng gogledd Cymru a Lerpwl a Manceinion, yn benodol. Un o'r pethau rwy'n awyddus iawn i weld yw cysylltiadau rheilffordd uniongyrchol i feysydd awyr yn y ddwy ddinas. Yn eich barn chi, pa gamau penodol y gallai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i wella cysylltiadau rheilffordd hanfodol â'r canolfannau trafnidiaeth pwysig hynny?

15:01 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I took the opportunity of meeting Merseyrail to discuss these things in the last few weeks—in fact, during recess. We are working closely with them to see what we can do in terms of these links. We've got the benefit, of course, of the Halton curve, now, and everything, and we'll be maximising our intentions there. I think there will be more discussions in the future, and we intend to keep closely aligned with them to ensure we're making improvements for service users either side of the border.

Tasglu Murco

15:01 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

15. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y tasglu Murco? OAQ(4)0564(EST)

15:01 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. The final taskforce meeting took place on 20 April. I was delighted to welcome Puma Energy's investment at the Murco site in Wales. This will provide significant opportunities for maximising the longer-term economic opportunities for the region. I believe Members have had an updated letter from me on the last meeting of the Murco taskforce.

15:02 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have, Minister, and I thank you for your answer. That taskforce has laid the foundation for the local economy to recover from the closure of Milford Haven refinery. Thanks also to this Assembly Government, the Haven Waterway enterprise zone is now in a position to work with the Welsh Government to make sure that this is the start of a new beginning for this part of the Pembrokeshire economy. Could I ask, Minister, how you see the future of the Haven Waterway enterprise zone in helping to reinvigorate the economy of Milford Haven?

15:02 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think this has made very good starts in recent months, particularly, and I do feel that the enterprise zone itself understands what companies require within the zone. It's important that we all work together in Milford Haven, whether it's the local authority or whether it's the port in Milford Haven, and that we all pull in the same direction to ensure employment opportunities and investment into that particular area.

Also, as well, I think the decisions I will make will be very important in terms of transport infrastructure within the area. We have to recognise, whereas I have a lot of questions about north Wales and transport infrastructure there, there is an important issue about transport infrastructure in west Wales, which we also have to deal with for the benefit of the citizens of west Wales.

le. Manteisiais ar y cyfle i gwrdd â Merseyrail i drafod y pethau hyn dros yr ychydig wythnosau diwethaf—yn ystod y toriad a dweud y gwir. Rydym yn gweithio'n agos gyda hwy i weld beth y gallwn ei wneud o ran y cysylltiadau hyn. Mae gennym fantais, wrth gwrs, o ran tro Halton, yn awr, a phopeth, a byddwn yn manteisio i'r eithaf ar ein bwriadau yno. Rwy'n credu y bydd mwy o drafodaethau yn y dyfodol, ac rydym yn bwriadu cadw cysylltiad agos â hwy i sicrhau ein bod yn gwneud gwelliannau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ar y ddwy ochr i'r ffin.

The Murco Taskforce

15. Will the Minister provide an update on the work of the Murco taskforce? OAQ(4)0564(EST)

Gwnaf. Cynhaliwyd cyfarfod terfynol y tasglu ar 20 Ebrill. Roeddwn yn falch iawn o groesawu buddsoddiad Puma Energy i safle Murco yng Nghymru. Bydd yn cynnig cyfleoedd arwyddocaol i sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd economaidd hirdymor i'r rhanbarth. Rwy'n credu bod yr Aelodau wedi cael llythyr gyda'r newyddion diweddaraf oddi wrthyf ynglŷn â chyfarfod diwethaf y tasglu Murco.

Do, Weinidog, a diolch i chi am eich ateb. Mae'r tasglu wedi gosod y sylfaen i'r economi leol adfywio ar ôl cau purfa Aberdaugleddau. Diolch hefyd i Lywodraeth y Cynulliad, mae ardal fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn awr mewn sefyllfa i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hwn yn ddechrau newydd i'r rhan hon o economi Sir Benfro. A gaf fi ofyn, Weinidog, sut ddyfodol a welwch i ardal fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau o ran helpu i adfywio economi Aberdaugleddau?

Rwy'n credu bod busnesau da iawn wedi dechrau yno dros y misoedd diwethaf, yn enwedig, ac rwy'n teimlo bod yr ardal fenter ei hun yn deall beth y mae cwmnïau ei angen yn yr ardal. Mae'n bwysig ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd yn Aberdaugleddau, fel awdurdod lleol neu'r porthladd yn Aberdaugleddau, a'n bod i gyd yn mynd i'r un cyfeiriad er mwyn sicrhau cyfleoedd gwaith a buddsoddiad yn yr ardal benodol honno.

Hefyd, rwy'n credu y bydd y penderfyniadau a wnaif yn bwysig iawn o ran seilwaith trafniadaeth yn yr ardal. Er bod gennyf lawer o gwestiynau ynglŷn â gogledd Cymru a'r seilwaith trafniadaeth yno, mae'n rhaid i ni gydnabod bod yna gwestiynau pwysig yn codi ynghylch y seilwaith trafniadaeth yng ngorllewin Cymru, ac mae'n rhaid i ni ymdrin â hwy er budd dinasyddion y gorllewin.

15:03 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you've just said that there are significant opportunities for joint working with Puma. In light of your comments, perhaps you could give us more detail about the opportunities that you've identified that will actually boost the local area's sustainability for the future.

Weinidog, rydych chi newydd ddweud fod yna gyfleoedd sylweddol ar gyfer gweithio ar y cyd gyda Puma. Yng ngoleuni eich sylwadau, efallai y gallech roi mwy o fanylion am y cyfleoedd rydych wedi eu nodi a fydd yn rhoi hwb i gynaliadwyedd yr ardal leol ar gyfer y dyfodol.

15:03 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. In terms of Puma, I had very positive discussions with them before the last meeting of the Murco taskforce, and they really want to engage in terms of what they're doing on site and what they might do in the future. Also, I've had a very detailed discussion recently with the chair of the enterprise zone about the importance of us looking at what's required there and what more that we can bring there in terms of opportunities. We've got a very high skills level within that area, which we don't want to underutilise or lose to other parts of the globe. I think it's important that we concentrate on that.

Gallaf. O ran Puma, cefais drafodaethau cadarnhaol iawn â hwy cyn cyfarfod diwethaf y tasglu Murco, ac maent eisiau cymryd rhan go iawn yn yr hyn y maent yn ei wneud ar y safle a'r hyn y gallent ei wneud yn y dyfodol. Hefyd, rwyf wedi cael trafodaeth fanwl iawn yn ddiweddar â chadeirydd yr ardal fenter am bwysigrwydd edrych ar yr hyn sydd ei angen yno a beth arall y gallwn ei gyflwyno yno o ran cyfleoedd. Mae gennym lefel sgiliau uchel iawn yn yr ardal honno, ac rydym eisiau gwneud defnydd llawn ohonynt heb eu colli i rannau eraill o'r byd. Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni ganolbwyntio ar hynny.

Also, as well, we've got to look at SMEs and how they're contributing to this picture of economic growth in the future. So, we'll look at their ability to grow, their capacity and what their training needs and requirements are. It's quite a complex picture, but I think, at the end of the day, the unfortunate news about Murco has started to make people understand that joint working is very important. There are no empires in this; there's only opportunity for economic growth.

Yn ogystal, mae'n rhaid i ni edrych ar fusnesau bach a chanolig a sut y maent yn cyfrannu at y darlun o dwf economaidd yn y dyfodol. Felly, byddwn yn edrych ar eu gallu i dyfu, eu capasiti a beth yw eu hanghenion a'u gofynion o ran hyfforddiant. Mae'n ddarlun go gymhleth, ond rwy'n credu, yn y pen draw, fod y newyddion anffodus am Murco wedi dechrau gwneud i bobl ddeall bod gweithio ar y cyd yn bwysig iawn. Nid ydym yn sôn am greu ymerodraethau, dim ond cyfle ar gyfer twf economaidd.

15:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ysbytai

Dehtholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts.

3. Welsh Conservatives Debate: Hospitals

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts.

15:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is a Welsh Conservatives' debate, and I call on Darren Millar to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig, a galwaf ar Darren Millar i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5750 Paul Davies

Motion NDM5750 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â diogelu ysbytai rhag cael eu cau a'u hisraddio.

Regrets that the Welsh Government has failed to protect hospitals from closure and downgrading.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:04 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I move the motion in the name of my colleague, Paul Davies, regretting that the Welsh Government has failed to protect hospitals in Wales from closure and downgrading.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiaf y cynnig yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies, gan resynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â diogelu ysbytai yng Nghymru rhag cau a chael eu hisraddio.

Presiding Officer, tomorrow, voters across Wales and, indeed, across all parts of the UK will be going to the polls to cast their votes in what pollsters are suggesting may well be the closest-run general election for many decades.

Lywydd, yfory, bydd pleidleiswyr ar draws Cymru ac yn wir, ar draws pob rhan o'r DU yn bwrw eu pleidleisiau yn yr hyn y mae polwyr yn awgrymu y gallai'n hawdd fod yr etholiad cyffredinol agosaf ers sawl degawd.

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I just stop you there? That, you say, is a close-run thing; you're running very closely here after what I said earlier on. Please, can we just refrain—? Keep it to the Welsh hospitals. Thank you.

A gaf fi eich stopio yn y fan honno? Fe ddywedwch ei bod hi'n mynd i fod yn agos iawn; rydych yn mynd yn agos iawn yma ar ôl yr hyn a ddywedais yn gynharach. Os gwelwch yn dda, a allwn ni gadw rhag—? Cadwch at ysbytai Cymru. Diolch yn fawr.

15:05 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Many topics and issues will be in the minds of the electorate tomorrow, including the economy, housing and schools, but I think the foremost issue in most people's minds will be the national health service. Many people will be looking at the commitments that different parties are making in their manifestos, and looking at the records of parties in Government in fulfilling their pledges and commitments on this very important issue. Back in 2010, there were commitments given by the UK Government—

Bydd llawer o bynciau a materion ym meddyliau'r etholwyr yfory, gan gynnwys yr economi, tai ac ysgolion, ond rwy'n credu mai'r mater mwyaf blaenllaw ym meddyliau'r rhan fwyaf o bobl fydd y gwasanaeth iechyd gwladol. Bydd llawer o bobl yn edrych ar yr ymrwymadau y mae gwahanol bleidiau yn eu gwneud yn eu manifestos, ac yn edrych ar hanes pleidiau yn y Llywodraeth o ran cyflawni eu haddewidion a'u hymrwymadau ar y mater pwysig hwn. Yn ôl yn 2010, gwnaeth Llywodraeth y DU ymrwymadau —

15:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry, can we really—? I mean, seriously, you know: just talk about the hospitals. Never mind manifesto commitments in the past, 2010. I'm asking you to stick to the present, please, and try and keep away from party politics. Thank you.

Mae'n ddrwg gennyf, a gawn ni wir—? Hynny yw, o ddifrif, wyddoch chi: siaradwch am yr ysbytai a dim arall. Anghofiwch am ymrwymadau manifestos y gorffennol, 2010. Rwy'n gofyn i chi gadw at y presennol, os gwelwch yn dda, a cheisio cadw'n glir o wleidyddiaeth plaid. Diolch yn fawr.

15:06 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think that's going to be difficult, Presiding Officer, with respect—

Wel, rwy'n credu bod hynny'n mynd i fod yn anodd, Lywydd, gyda phob parch—

15:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, it shouldn't be.

Na, ni ddylai fod.

15:06 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—to steer away from party politics, given that we are party politicians and Members of this National Assembly. But if I can just make the point: there will be parties that'll make commitments at this election, and people will be looking at their past record to determine whether they can be trusted or not when they go to the polls tomorrow.

[Yn parhau.]—cadw'n glir o wleidyddiaeth plaid, o ystyried ein bod yn wleidyddion plaid ac yn Aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol hwn. Ond os caf wneud y pwynt: bydd yna bleidiau'n gwneud ymrwymadau yn yr etholiad hwn, a bydd pobl yn edrych ar eu hanes yn y gorffennol i benderfynu a ellir ymddiried ynddynt ai peidio pan fyddant yn mynd i bleidleisio yfory.

Now, before the last general election, the UK Conservative Party made a clear commitment to invest extra money, over and above inflation, in the national health service in England. It fulfilled that commitment and, as a result of that commitment being fulfilled, around £0.5 billion extra was given to Wales under the Barnett consequential for the Ministers here in this institution to be able to do the same and protect health spending here. But they didn't. Instead, Labour Ministers around the Cabinet table, after no doubt much squabbling, decided that they would cut investment in the national health service here, not just by a small, minor amount, but by the biggest, record-breaking cuts that any part of the national health service has seen in any part of the United Kingdom. In Scotland, in Northern Ireland and in England, health spending went up, whilst in Wales it has come down over the past five years, since 2010, by over £300 million in real terms. That is the record of this Government.

As a result of that record on NHS spending, what we have seen is unpopular service change being implemented the length and breadth of the country. In north Wales, in west Wales and in south Wales, we have seen programmes that have been developed by NHS chiefs in response to those budget cuts that have seen changes imposed on local populations, requiring them to travel further for life-saving treatment, that have seen hospitals close, and that have seen services stripped out of our district general hospitals—all against the will of the people. Of course, what is the result of this? Well, we have seen minor injuries units close, which has caused further pressure on our emergency departments. We have seen a fifth of our beds in our hospitals axed and, as a result of that, we see bed pressures in our hospitals that spill out of the hospital front doors into ambulances, which are queueing up outside our hospitals, struggling to get patients in. Regrettably, Minister, we have seen patients die also as a direct consequence.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:09.

15:09

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We've seen lengthening waiting times for people, cardiac patients dying on waiting lists, perhaps unnecessarily and perhaps due to the lack of investment that your Government has made in these services.

Nawr, cyn yr etholiad cyffredinol diwethaf, gwnaeth Plaid Geidwadol y DU ymrwymiad clir i fuddsoddi arian ychwanegol, uwchben chwyddiant, yn y gwasanaeth iechyd gwladol yn Lloegr. Cyflawnodd yr ymrwymiad hwnnw ac o ganlyniad i'w gyflawni, rhoddwyd tua £0.5 biliwn ychwanegol i Gymru o dan symiau canlyniadol Barnett i Weinidogion yma yn y sefydliad hwn er mwyn iddynt allu gwneud yr un peth a diogelu gwariant ar iechyd yma. Ond ni wnaethant hynny. Yn hytrach, penderfynodd Gweinidogion Llafur wrth fwrdd y Cabinet, ar ôl cryn dipyn o ffraeo, mae'n siŵr, y byddent yn torri buddsoddiad yn y gwasanaeth iechyd gwladol yma. Nid toriad bychan yn unig oedd hwn ond y toriadau mwyaf a welodd unrhyw ran o'r gwasanaeth iechyd gwladol mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig erioed. Yn yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon ac yn Lloegr, cynyddodd y gwariant ar iechyd, ond yng Nghymru mae wedi disgyn dros £300 miliwn mewn termau real dros y pum mlynedd diwethaf. Dyna record y Llywodraeth hon.

O ganlyniad i'r record honno ar wariant y GIG, yr hyn rydym wedi'i weld yw newidiadau amhoblogaidd i wasanaethau yn cael eu gweithredu ar hyd a lled y wlad. Yng ngogledd Cymru, yng ngorllewin Cymru ac yn ne Cymru, rydym wedi gweld rhaglenni'n cael eu datblygu gan benaethiaid y GIG mewn ymateb i'r toriadau yn y gyllideb sydd wedi arwain at orfodi newidiadau ar boblogaethau lleol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt deithio ymhellach i gael triniaeth achub bywyd, newidiadau sydd wedi arwain at gau ysbytai, a symud gwasanaethau o'n hysbytai cyffredinol dosbarth—a hyn oll yn groes i ewyllys y bobl. Beth yw canlyniad hyn wrth gwrs? Wel, rydym wedi gweld unedau mân anafiadau yn cau, gan roi pwysau pellach ar ein hadrannau achosion brys. Rydym wedi colli un rhan o bump o'n gwelyau ysbyty ac o ganlyniad i hynny, gwelwn bwysau ar welyau yn ein hysbytai sy'n gorlifo y tu hwnt i ddrysau blaen yr ysbyty i mewn i'r ambiwlansys sy'n cwio y tu allan i'n hysbytai, yn ymdrechu i gael cleifion i mewn. Yn anffodus, Weinidog, rydym wedi gweld cleifion yn marw hefyd o ganlyniad uniongyrchol i hyn.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:09.

Rydym wedi gweld amseroedd aros yn ymestyn i bobl, cleifion y galon yn marw ar restrau aros, efallai'n ddiangen ac efallai oherwydd diffyg buddsoddiad eich Llywodraeth yn y gwasanaethau hyn.

All of this is in spite of clear commitments and promises from the First Minister and from various health Ministers—because we've had a number of them over the years—telling us that they will not close and will not downgrade any of our hospital services. Yet, that is precisely, I am afraid to say, what we have seen. In north Wales, we've seen community hospitals close or face the axe: in Blaenau Ffestiniog, in Flint, in Llangollen, in Prestatyn and Mynydd Mawr. Not only that, but we've seen Withybush hospital have services stripped out: the special care baby unit, gone; the A&E department facing downgrading. We've seen level 3 neonatal care axed, effectively, from Glan Clwyd Hospital in north Wales, and we've seen, of course, x-ray services and access to those diminished in Tywyn, in Rhuthun, and indeed in Blaenau Ffestiniog. All of this amounts to broken promises by this Labour Government. Commitments that it made have been broken and snapped.

I presume, Minister, that when you go on the doorsteps and people ask you whether you can be trusted with the promises that you are making to the electorate, both in this election and, indeed, perhaps in the election next year, many of them will remind you of the broken promises that you have made in the past. And I'm not talking perhaps of promises that people can wheedle out of here; we're talking about very, very clear commitments that have been given by Ministers in the past. We've been told by the First Minister that there will be no downgrading. We were told by your predecessor that you will not hear the word 'downgrading' in debates. We were told, as a party, that we were shroud-waving about services when we said that local hospitals were facing closure. When we said that services were facing the axe, we were told that we were shroud-waving to the Welsh public, that we could not be trusted, and that this was utter, utter nonsense. Yet, that is precisely what we have seen as a result of the cuts that your Government has imposed. So, I wonder, Minister, in response to today's debate, what commitments you may try to make in order to mitigate the impact of those broken promises for the voters when they go to the polls tomorrow.

Let's remind ourselves what the First Minister said to this National Assembly back in 2012. He said:

'No hospital is under threat, and no hospital was ever under threat in Wales.'

Your predecessor said:

'To talk about downgrading is absolute nonsense.'

Your predecessor also said:

'we have no plans to downgrade any district general hospital'.

'No services will be downgraded'.

Mae hyn i gyd er gwaethaf ymrwymadau ac addewidion clir gan y Prif Weinidog a gwahanol Weinidogion iechyd—gan ein bod wedi cael nifer ohonynt dros y blynyddoedd—yn dweud wrthym na fyddant yn cau ac na fyddant yn israddio unrhyw wasanaethau ysbyty. Eto i gyd, dyna'n union a welsom, mae'n ddrwg gennyf ddweud. Yng ngogledd Cymru, rydym wedi gweld ysbytai cymuned yn cau neu'n wynebu'r fwyell: ym Mlaenau Ffestiniog, yn y Fflint, yn Llangollen, ym Mhrestatyn a Mynydd Mawr. Nid yn unig hynny, ond rydym wedi gweld gwasanaethau ysbyty Llwynhelyg yn cael eu torri: yr uned gofal arbennig i fabanod, wedi mynd; yr adran ddamweiniau ac achosion brys yn wynebu cael ei hisraddio. Rydym wedi gweld gofal newyddenedigol lefel 3 yn cael ei ddileu, i bob pwrpas, yn Ysbyty Glan Clwyd yn y gogledd, ac wrth gwrs rydym wedi gweld cyfyngu ar wasanaethau pelydr-x a mynediad at y rhain yn Nhywyn, yn Rhuthun, ac yn wir ym Mlaenau Ffestiniog. Torri addewidion gan y Llywodraeth Lafur yw hyn i hyd. Mae'r ymrwymadau a wnaeth wedi cael eu torri.

Weinidog, pan fyddwch yn mynd o ddrws i ddrws a'r bobl yn gofyn i chi a ellir ymddiried yn yr addewidion a wnewch i'r etholwyr, yn yr etholiad hwn ac o bosibl yn wir, yn yr etholiad y flwyddyn nesaf, rwy'n cymryd bod llawer ohonynt yn eich atgoffa am yr addewidion a dorrwyd gennych yn y gorffennol. Ac nid wyf yn siarad am addewidion y gall pobl siarad eu ffordd allan ohonynt yma; rydym yn sôn am yr ymrwymadau clir iawn, iawn a roddwyd gan Weinidogion yn y gorffennol. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym na fydd unrhyw israddio. Dywedwyd wrthym gan eich rhagflaenydd na fyddwch yn clywed y gair 'israddio' mewn dadleuon. Dywedwyd wrthym, fel plaid, ein bod yn codi bwganod am wasanaethau pan oeddem yn dweud bod ysbytai lleol yn wynebu cau. Pan oeddem yn dweud bod gwasanaethau'n wynebu'r fwyell, dywedwyd wrthym ein bod yn codi bwganod i'r cyhoedd yng Nghymru, ac na eelli ymddiried ynom, ac mai nonsens llwyr oedd hyn. Eto i gyd, dyna'n union a welsom o ganlyniad i doriadau eich Llywodraeth. Felly, Weinidog, mewn ymateb i ddadl heddiw, tybed pa ymrwymadau y byddwch yn ceisio'u gwneud i'r pleidleiswyr er mwyn lliniaru effaith yr addewidion a dorrwyd pan fyddant yn mynd i bleidleisio yfory.

Gadewch i ni atgoffa ein hunain o'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn ôl yn 2012:

'Nid oes ysbyty o dan fygythiad, ac ni fu ysbyty erioed o dan fygythiad yng Nghymru.'

Dywedodd eich rhagflaenydd:

'Mae sôn am israddio yn nonsens llwyr'.

Dywedodd eich rhagflaenydd hefyd:

'nid oes gennym gynlluniau i israddio unrhyw ysbyty cyffredinol dosbarth'.

'Ni fydd gwasanaethau'n cael eu hisraddio'.

Yet service after service has been axed. Many more services still face the axe. We've had Neath Port Talbot Hospital have its acute medical services removed completely from that hospital, and yet you sit there—you're smiling at the moment—in your chair, and no doubt you'll have something to say in response to this debate.

If I can just turn very briefly to the amendments that have been tabled. We will be supporting amendment 1 in the name of Elin Jones because we do believe that there needs to be better planning for the national health service in Wales. It's very clear to us, because of the recruitment challenges that hospitals across the country are facing and because of the uncertainty over services, that the planning system that you have is not effective and is not working.

I'm afraid that we'll be abstaining on amendment 2 in the name of Aled Roberts. Whilst indeed we do welcome every bit of extra investment into our hospitals in Wales, including the £5.3 million that has been invested in Llandrindod Wells, I do apologise to Aled that we will not be able to vote in favour of that because it does not seek to remind everybody in this Chamber of the fact that you've supported cuts as well in the past, and that you've allowed budgets to proceed as a party that have imposed cuts on the national health service in recent years.

We will be, however, supporting amendment 3, because we do believe that community hospitals have a vital role to play in the provision of national health services across the country. Unfortunately, they are not sufficiently being utilised at present.

Indeed, also, as would be expected, we'll be supporting amendment 4 because perhaps the biggest betrayal that we are seeing on the doorsteps at the moment, in terms of broken promises, is the threats to women's clinical services in north Wales, which many people are absolutely appalled by when I speak to them.

So, I call upon all Assembly Members here today to support the motion, recognise the broken promises that this Labour Government has made to the Welsh people, and encourage people to take note of this debate.

Eto mae gwasanaeth ar ôl gwasanaeth wedi cael eu torri. Mae llawer mwy o wasanaethau yn dal i wynebu'r fwyell. Gwelsom y gwasanaethau meddygol aciwt yn dod i ben yn gyfan gwbl yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot, ac eto rydych yn eistedd—rydych yn gwenu ar y foment—yn eich cadair, ac mae'n siŵr y bydd gennych rywbeth i'w ddweud mewn ymateb i'r ddatl hon.

Os caf droi yn fyr iawn at y gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno. Byddwn yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Elin Jones am ein bod yn credu bod angen cynllunio'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn well. Mae'n glir iawn i ni, oherwydd yr heriau recriwtio y mae ysbytai ledled y wlad yn eu hwynebu ac oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â gwasanaethau, nad yw'r system gynllunio sydd gennych yn effeithiol ac nad yw'n gweithio.

Rwy'n ofni y byddwn yn ymatal ar welliant 2 yn enw Aled Roberts. Er ein bod yn croesawu pob darn bach o fuddsoddiad ychwanegol yn ein hysbytai yng Nghymru yn wir, gan gynnwys y £5.3 miliwn a fuddsoddiwyd yn Llandrindod, rwy'n ymddiheuro i Aled na fyddwn yn gallu pleidleisio o blaid hynny, gan nad yw'n atgoffa pawb yn y Siambr hon o'r ffaith eich bod chi wedi cefnogi toriadau hefyd yn y gorffennol, a'ch bod fel plaid wedi caniatáu cyllidebau sydd wedi achosi toriadau yn y gwasanaeth iechyd gwladol dros y blynyddoedd diwethaf.

Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi gwelliant 3, gan ein bod yn credu bod gan ysbytai cymunedol rôl hanfodol i'w chwarae yn darparu gwasanaethau iechyd cenedlaethol ar draws y wlad. Yn anffodus, nid ydynt yn cael digon o ddefnydd ar hyn o bryd.

Hefyd, yn ôl y disgwyl yn wir, byddwn yn cefnogi gwelliant 4, gan mai'r brad mwyaf a welwn ar garreg y drws ar hyn o bryd o bosibl, o ran torri addewidion, yw'r bygythiadau i wasanaethau clinigol menywod yng ngogledd Cymru, ac roedd llawer o bobl wedi'u brawychu'n llwyr gan y bygythiadau hyn wrth i mi siarad â hwy.

Felly, galwaf ar holl Aelodau'r Cynulliad yma heddiw i gefnogi'r cynnig, i gydnabod yr addewidion a dorwyd gan y Llywodraeth Lafur i bobl Cymru, ac i annog pobl i gymryd sylw o'r ddatl hon.

15:14

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Can I say this could be a long afternoon? I'd say to the Chamber I've been active one way or the other in every general election since 1983, and I've found that by eve of poll you'll reach that calm period when the electorate are about to express their sovereign will. A very profound moment, I think. I think, in general, it's a time for grace and humility rather than overblown rhetoric. So, I hope the following debates are going to be conducted in that manner.

I have selected the four amendments to the motion. I call on Elin Jones to move amendment 1 tabled in her name.

Gwelliant 1—Elin Jones

A gaf fi ddweud y gallai hwn fod yn brynhawn hir? Byddwn yn dweud wrth y Siambr fy mod wedi bod yn weithgar mewn un ffordd neu'r llall ym mhob etholiad cyffredinol ers 1983, ac erbyn y noson cyn yr etholiad, gwelais eich bod yn cyrraedd cyfnod tawel pan fo'r etholwyr ar fin mynegi eu hewyllys sofran. Mae'n foment ddwys iawn, rwy'n meddwl. Yn gyffredinol, rwy'n credu ei fod yn amser ar gyfer graslonrwydd a gostyngeiddrwydd yn hytrach na rhethreg chwyddedig. Felly, rwy'n gobeithio y cynhelir y dadleuon canlynol yn y modd hwnnw.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn ei henw.

Amendment 1—Elin Jones

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

Insert at end of motion:

'ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu proses gynllunio genedlaethol ar gyfer darparu ysbytai dosbarth ac arbenigol yng Nghymru'

'and calls on the Welsh Government to put in place a national planning process for the delivery of district and specialist hospitals in Wales'

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

15:14

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I hope to bring a tone of grace and humility to the rest of this debate.

Rwy'n cynnig y gwelliant yn enw Plaid Cymru. Bwriad Plaid Cymru oedd cefnogi'r cynnig heddiw er bod Darren Millar wedi gwneud ei orau glas i'm mherswadio i'r gwrthwyneb, i ddweud y gwir. Cawn weld erbyn diwedd y ddadl yma sut fyddwn ni'n pleidleisio.

I move the amendment in the name of Plaid Cymru. Plaid Cymru's intention was to support the motion today, although Darren Millar has done his very best to persuade me otherwise, if truth be told. We will see, at the end of this debate, how we will vote on the motion.

O ran y gwelliannau, fe fyddwn ni'n cefnogi gwelliannau 3 a 4 yn enw Aled Roberts, ond yn ymatal ar y gwelliant sy'n cyfeirio'n benodol iawn at y cytundeb cyllideb rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Lafur.

In terms of the amendments, we will support amendments 3 and 4 in the name of Aled Roberts, but will abstain on the amendment that refers very specifically to the budget agreement between the Liberal Democrats and the Labour Party.

A gaf i, felly, dynnu sylw a chyfeirio at welliant Plaid Cymru, ac esbonio cefndir y gwelliant hwnnw? Gwnaf gychwyn drwy ddweud bod y broses o ganiatáu i fyrddau iechyd lleol gymryd penderfyniadau unigol ar gyflunio gwasanaethau ysbytai yn anghynaliadwy erbyn hyn, yn fy marn i. Fe roedd y model yn y de—ar draws y de, ar draws pedwar neu bum bwrdd iechyd—yn gam tuag at greu cynllun mwy integredig o wasanaethau ysbytai, ac fe roedd hwnnw'n gam positif o ran y broses o gyflunio a pharatoi newidiadau ar gyfer y penderfyniadau ysbytai. Ond fe roedd hwn hefyd, yn ei hanfod, yn ddiffygiol ac yn methu, er enghraifft, ag edrych ar y berthynas rhwng Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Yng nghornel gorllewinol bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg a chornel dwyreiniol bwrdd iechyd Hywel Dda mae yna bedwar ysbyty—Singleton, Treforys, y Tywysog Philip a Glangwili—o fewn ardal ddaearyddol fach, ac mae'n ffolineb, yn fy marn i, nawr, ein bod ni'n parhau i ddylunio dyfodol gwasanaethau'r pedwar ysbyty hwn ar wahân, o dan ddau fwrdd iechyd sydd ar wahân. Mae'r un methiant, wrth gwrs, wedi amlygu'i hun wrth ddylunio dyfodol Bronglais—ysbyty o fewn un bwrdd iechyd, bwrdd iechyd Hywel Dda, ond yn gwasanaethu poblogaethau ym myrddau iechyd Powys a Betsi Cadwaladr hefyd. Ac, er mwyn goresgyn y rhwystrau ffiniau biwrocraidd yma, fe wnaeth adroddiad Longley ar ddyfodol iechyd yn y canolbarth argymhell creu bwrdd cydweithredol ychwanegol ar draws ffiniau Powys, Gwynedd a Cheredigion i gynllunio gwasanaethau iechyd ar draws y ffiniau yma yn yr ardal yma. Fe roedd y cyfarfod cyntaf o'r bwrdd cydweithredol yma ddoe, ac rwy'n gobeithio, fel rwy'n siŵr eu bod, fod pawb yn dymuno'n dda iddyn nhw yn y gwaith o gynllunio dyfodol gwasanaethau iechyd yn y canolbarth, ar draws ffiniau tri bwrdd iechyd.

May I therefore refer to the Plaid Cymru amendment, and explain the background to that amendment? I'll start by saying that the process of allowing local health boards to take individual decisions on the reorganisation of hospital services is unsustainable in my opinion. The model in south Wales—across south Wales, across four or five health boards—was a step towards creating a more integrated plan of hospital services, and that was a positive step in terms of the process of organising and preparing changes in hospital services. But this too, in essence, was flawed, and failed, for example, to look at the interrelationship between Abertawe Bro Morgannwg Local Health Board and the Hywel Dda Local Health Board. In the western corner of the Abertawe Bro Morgannwg health board and on the eastern side of the Hywel Dda health board there are four hospitals—Singleton, Morriston, Prince Philip, and Glangwili—all within a small geographic area, and it is foolhardy, in my view, for us to continue to reorganise services in those four hospitals separately, under two different health boards, which are also separate. The same failings, of course, have emerged in deciding on the future of Bronglais—a hospital in one health board, Hywel Dda health board, but which serves populations in the Powys and Betsi Cadwaladr health boards also. And, in order to overcome the barriers of these bureaucratic borders, the Longley report on the future of health services in mid Wales recommended creating an additional co-operative board across the borders of Powys, Ceredigion and Gwynedd to configure services in these areas. The first meeting of that co-operative board was held yesterday, and I hope, as I am sure they do, that everyone wishes them well in the work of planning future health services in mid Wales across the boundaries of the three health boards.

Felly, mae gwelliant Plaid Cymru heddiw yn amlinellu'n dymuniad ni i weld cynllun cenedlaethol i gyflunio gwasanaethau ysbytai i'r dyfodol. Cynllun fyddai hwn a fyddai'n delifro gwasanaethau'n lleol, ond yn rhoi cyfeiriad a dyfodol strategol i'r gwasanaethau hynny. Fe fyddai'n rhaid i gynllun o'r math yma gynnwys dealltwriaeth glir o leoliad gwasanaethau arbenigol a rhanbarthol, a hefyd edrych ar ddsbarthiad gwasanaethau mwy arferol, rwtin, mewn ysbytai drwy rwydwaith o ysbytai cyffredinol ac integreiddiad llawn o wasanaethau iechyd a chymdeithasol yn ein cymunedau ni o gwmpas yr ysbytai cymunedol hynny sy'n cael eu cyfeirio atynt yn un o welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac o gwmpas practisys meddygon teulu. Fe fyddai'n rhaid i gynllun cenedlaethol hefyd ymhelaethu ar ba wasanaethau fyddai'n cael eu comisiynu o ysbytai yn Lloegr, a pha rai y gellid eu datblygu neu eu hadleoli yn ôl i Gymru.

Yn y ddatl yma heddiw nid wyf yn bwriadu, ar noswyl etholiad, mynd mor bell â dweud bod yn rhaid inni symud i waredu saith bwrdd iechyd a chreu un bwrdd iechyd cenedlaethol, ond yn sicr rwy'n credu ei fod yn bryd i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r cynllun cenedlaethol o wasanaethau ysbytai. Fe fyddai'r cynllun hwnnw yn wasanaeth i genedl o 3 miliwn o bobl. Byddai yn cynllun, felly, yn rhoi'r arweiniad clir i ddatblygu gweithlu meddygol a nyrsio'r dyfodol hefyd, a hefyd yn gynllun a fyddai'n cael ei arwain gan y Gweinidog Iechyd, ac felly yn atebol i'r Cynulliad yma. Os yw'r ddatl yma o unrhyw werth o gwbl heddiw, yna mae'n ddefnyddiol i'n hatgoffa bod y gyfundrefn bresennol yn anghynaliadwy ac yn anatebol, ac wedi, i bob pwrpas, gollu hyder y bobl a'r gweithlu hynny yn yr NHS.

Therefore, Plaid Cymru's amendment today outlines our aspiration to see a national plan in place to configure hospital services for the future. This would be a plan that would deliver services at a local level, but also provide a strategic direction and future for those services. Such a scheme would have to include a clear understanding of the location of specialist and regional services, and would also need to look at the distribution of more routine services in hospitals through a network of general hospitals and full integration of health and social care in our communities around those community hospitals that are referred to in one of the Liberal Democrat amendments, and around GP practices too. A national plan would also have to outline which services would be commissioned from hospitals in England, and which could be developed or relocated back to Wales.

In this debate today, on the eve of the election, it is not my intention to go as far as to say that we have to get rid of the seven health boards and create one national health board, but I certainly think that it's time for the Welsh Government to develop this national plan of hospital services. That plan would serve a nation of 3 million people. A single plan, therefore, would provide clear direction in order to develop a medical and nursing workforce for the future too, and it would also be a plan that would be led by the health Minister, and would, therefore, be accountable to the Assembly. If this debate is of any value whatsoever today, then it is useful in reminding us that the current regime is unsustainable and unaccountable and, to all intents and purposes, has lost the confidence of the people and staff within the NHS.

15:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Aled Roberts to move amendments 2, 3 and 4, tabled in his name.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu'r cyllid o £5.3 miliwn a sicrhawyd ar gyfer Ysbyty Coffa Llandrindod yn y cytundeb cyllideb diweddar rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Welcomes the £5.3 million funding secured for Llandrindod Wells Memorial Hospital in the recent budget agreement between the Welsh Liberal Democrats and the Welsh Government.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw am ailfywiogi ysbytai cymunedol a gwasanaethau yn y gymuned.

Calls for a reinvigoration of community hospitals and community based services.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau dyfodol gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddyg ymgynghorol, gynaeoleg, a llawfeddygaeth y fron yn y tri ysbyty yng nogledd Cymru.

Calls on the Welsh Government to secure the future of consultant-led maternity, gynaecology, and breast surgery services at all three hospitals in north Wales.

15:19

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Dirprwy Lywydd. Rwyf yn cyflwyno gwelliannau 2, 3 a 4 yn fy enw i. Rwy'n meddwl erbyn hyn ei bod yn hollbwysig ein bod ni'n canolbwyntio, hwyrach, ar ddyfodol tymor hir y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn hytrach nag un etholiad yfory, achos rwy'n meddwl bod gennym ni gyfrifoldeb tuag at staff o fewn y gwasanaeth iechyd, ond, yn fwy pwysig, felly, at y cleifion sydd yn dibynnu ar y gwasanaethau hynny.

Mae'n amlwg ein bod ni i gyd, hwyrach, yn siomedig efo rhai o'r penderfyniadau sydd wedi cael eu cymryd yn ystod y degawd diwethaf yma, yn arbennig, felly, os ydych chi'n darllen adroddiad Coleg Brenhinol y Meddygon, sydd yn tanlinellu faint o wlaŷu sydd wedi cael eu cymryd allan o'r gyfundrefn. Rŷm ni'n sôn am 20 y cant o fewn yr ysbytai dosbarth, ond rŷm ni'n sôn am 50 y cant o wlaŷu yn diflannu o'r ysbytai cymunedol, ac rwy'n meddwl bod Elin Jones yn gywir erbyn hyn, bod llawer iawn ohonom ni yn dechrau colli hyder yn y gyfundrefn bresennol, lle, hwyrach, bod yna bolisi—nid wyf yn gwybod a yw'n fwiadol—o ran y Llywodraeth i geisio osgoi'r baich, osgoi cyfrifoldeb, a'i roi ar y byrddau iechyd. Mae'n rhaid i mi ddweud, o ran y byrddau iechyd, yn arbennig, felly, yn y gogledd erbyn hyn, rŷm ni yn deall bod ganddyn nhw broblemau mawr yn eu hwynebu nhw, ond rwy'n meddwl erbyn hyn maen nhw yn dechrau colli hyder y cyhoedd yn y ffordd y maen nhw'n mynd o gwmpas rhai o'r penderfyniadau yma. Ac, os ydych chi'n darllen adroddiad Marcus Longley o ran y gwaith a gafodd ei wneud yn y Canolbarth, ond hefyd adroddiad y coleg brenhinol, mae'n amlwg erbyn hyn mai prif faich y byrddau iechyd yma ydy gwneud yn siŵr eu bod nhw yn ymgynghori â'u cymunedau a'u bod nhw'n creu rhyw fath o ddarlun o'r gwasanaethau sydd i ddod, achos, yn y gogledd yn arbennig, beth sydd wedi digwydd ydy bod ysbytai cymunedol yn diflannu heb unrhyw fath o wasanaethau yn eu lle yn cael eu rhoi mewn lle, ac, erbyn hyn, nid yw'r cyhoedd yn credu pan fo'r bwrdd iechyd yn dweud wrthyn nhw mai rhan o strategaeth newydd ydy hwn, lle bydd yna wasanaethau newydd yn cael eu cyflwyno.

Felly, rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n deall yn union sut y mae'r byrddau iechyd yma yn mynd i fynd ati i gael strwythur lle rŷm ni i gyd yn derbyn y bydd yna wasanaethau yn diflannu o ysbytai dosbarth. Nid yw'n bosib i adrannau damweiniau, hwyrach, barhau ym mhob un ohonynt, ond mae adroddiad y coleg brenhinol yn ei gwneud hi'n berffaith glir erbyn hyn bod yna ddisgwyd bod yna wasanaethau aciwt yn parhau o fewn yr ysbytai cymunedol yma. Rwyf eisiau canolbwyntio ar y sefyllfa yn y gogledd, achos mae yna ddryswch. Rydych chi'n mynd i gyfarfodydd lle mae yna uwch swyddogion y bwrdd iechyd yn dweud wrthoch chi, 'Wel, mater o newid polisi dros dro ydy hyn. Ar ôl blwyddyn neu 18 mis, bydd yr holl wasanaethau yma'n dod yn ôl i bob un o'r tri ysbyty', ac eto rydych chi'n darllen cofnodion y bwrdd iechyd ac nid yw hynny'n cael ei gyflwyno i'r bwrdd iechyd ei hun, ac eto rydych yn mynd i gyfarfodydd eraill lle mae doctoriaid eu hunain yn dweud, 'Na, rŷm ni erbyn hyn yn dweud mai ond un ysbyty sydd yna ar dri safle'. Felly, mae yna ddryswch llwyr ynglŷn â beth ydy'r strategaeth.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 2, 3 and 4 in my name. I think by now that it is crucial that we focus on the long-term future of the health service in Wales, rather than one election tomorrow, because I believe that we have a responsibility to the staff within the health service, but, more importantly, to the patients who are dependent on those services.

It's obvious that we may all perhaps be disappointed with some of the decisions that have been taken over the past decade, particularly so if you read the report of the Royal College of Physicians, which underlines how many beds have been taken out of the system. We're talking about 20 per cent within district hospitals, but we're talking about 50 per cent of beds disappearing from community hospitals, and I think that Elin Jones is correct when she says that many of us are beginning to lose confidence in the current system, where, perhaps, there is a policy—and I don't know whether it is intentional—on the part of the Government to try to avoid the burden, avoid responsibility, and place it on the health boards. I have to say, in terms of the health boards, and particularly in north Wales by now, we do understand that they've got big problems facing them, but I think by now they are beginning to lose the confidence of the public in the way in which they're approaching some of these decisions. And, if you read Marcus Longley's report on the work that was done in mid Wales, but also the report of the royal college, it is now obvious that the main burden of the health boards is to make sure they consult with their communities and that they create some kind of picture of future services, because, in north Wales in particular, what has happened is that community hospitals are disappearing without any kind of replacement services being put in place, and, by now, the public do not believe the health board when they say that it's part of a new strategy and that there will be new services being introduced.

Therefore, I think it is important that we understand exactly how these health boards are going to go about creating a structure where we all accept that services will be disappearing from district hospitals. It's not possible for accident and emergency units to continue in all of them, but the royal college's report makes it perfectly clear that there is now an expectation that acute services will continue within these community hospitals. I want to focus on the situation in north Wales, because there is confusion. You go to meetings where there are senior officials from the health board telling you, 'Well, this is a matter of a temporary change in policy; after a year or 18 months, all these services will come back to each of the three hospitals', and yet you read the minutes of the health board, and that is not submitted to the health board itself, and yet you attend other meetings where the doctors themselves are saying, 'No, we now say that there is only one hospital on three sites'. So, there is complete confusion about the strategy.

Ond rwy'n meddwl os ydy'r Ceidwadwyr yn ceisio dweud bod yna ryw fath o 'wand' yn mynd i gael ei chwifio a bod mater o hyn a'r llall o arian yn mynd i roi'r holl broblemau ar un ochr, rwy'n meddwl, yn y pendraw, y byddan nhw'n cael eu diystyru gan y cyhoedd, achos, os rydych chi'n edrych ar y ffigurau—cynnydd o 6.8 y cant, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn y niferoedd sy'n mynd i'n adrannau damweiniau ni—a gweld y ffaith bod yna wasanaethau o dan straen, mae'n rhaid i ni gael strategaeth tymor hir. Mae'n rhaid i mi ddweud, unwaith rydym ni allan o gyfnod yr etholiad cyffredinol yma, mae'n rhaid i ni fel pleidiau eistedd i lawr yn y lle yma a dweud beth yn union rydym ni'n mynd i'w wneud o ran y gwasanaethau. Rwy'n gwybod bod gennym ni etholiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'n demtasiwn i bob un ohonom ni wneud negeseuon tymor byr, ond os nad ydym ni'n eistedd i lawr ac yn trio dweud beth yn union rydym ni'n mynd i'w wneud, fel y dwedodd Elin, o ran y gwasanaethau yng Nghymru, a dweud yn union beth y gallwn ni eu gyflawni ar ein pennau ein hunain, a beth mae'n rhaid i ni edrych ar draws y ffin i Loegr, yn y gogledd yn arbennig, ar eu cyfer, y cyhoedd fydd yn ein beirniadu ni yn y pendraw.

15:25

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased to be able to take part in this important debate this afternoon to highlight the effect of the Welsh Government's health policies in my constituency. As Members are all aware, there's been a very active campaign across Pembrokeshire to retain vital services at Withybush hospital, and I can certainly say that this is the No. 1 issue for my constituents.

Now, as the Member for Clwyd West said, the health Minister approved plans to close the special care baby unit at Withybush hospital in January last year, and I believe that decision puts lives at risk and is further confirmation that the Welsh Government is determined to downgrade the hospital. Following that decision we've seen the downgrading of paediatric services at the hospital from a full-time model to a 12-hour model. In the Minister's response to my questions on this issue last year, he admitted that he didn't know what to say in relation to the slippery slope theory, but went on to say that the hospital would have a secure and significant place in the health services that are provided in Pembrokeshire. Well, that simply hasn't been the case. The impact of reconfiguration changes now means that children in Pembrokeshire needing overnight hospital treatment need to travel to Glangwili hospital. It's difficult to ease the worries of people in Pembrokeshire, especially in light of the fact that Withybush hospital has seen one service after another relocated or downgraded in recent years. To top it off, the news in December from the Hywel Dda health board, that more GPs would staff the accident and emergency at Withybush as opposed to A&E specialists, did nothing to alleviate my constituents' fears.

Now, last year the health Minister said, and I quote:

'The aim is to design a future for services for the people of Pembrokeshire that gives Withybush that safe and secure and sustainable future.'

But I think if the Conservatives are trying to say that there is some sort of magic wand that will be waved, and that it's a matter of this or that money putting all the problems to one side, I think, ultimately, they will be ignored by the public, because, if you look at the figures—an increase of 6.8 per cent, year on year, in the numbers attending our accident and emergency departments—and see the fact that there are services under great strain and pressure, we have to have a long-term strategy. I must say that, once we're out of this general election period, we as parties must sit down in this place and say exactly what we're going to do from the point of view of service delivery. I know that we have elections year after year. It's tempting for each one of us to give short-term messages, but if we don't sit down and try to say exactly what we're going to do, as Elin said, in terms of the services in Wales, and say exactly what we can accomplish and achieve ourselves, and what we have to look across the border to England for, particularly in north Wales, then the public will judge us in the end.

Rwy'n falch o allu cymryd rhan yn y ddadl bwysig hon y prynhawn yma i dynnu sylw at effaith polisiau iechyd Llywodraeth Cymru yn fy etholaeth i. Fel y mae'r Aelodau i gyd yn gwybod, cafwyd ymgyrch weithgar iawn ar draws Sir Benfro dros gadw gwasanaethau hanfodol yn ysbyty Llwynhelyg, a gallaf ddweud yn sicr mai dyma'r mater pwysicaf i fy etholwyr.

Nawr, fel y dywedodd yr Aelod dros Orllewin Clwyd, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd gynlluniau i gau'r uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg ym mis Ionawr y llynedd, ac rwy'n credu bod y penderfyniad yn rhoi bywydau mewn perygl ac yn gadarnhad pellach bod Llywodraeth Cymru yn benderfynol o israddio'r ysbyty. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw rydym wedi gweld gwasanaethau pediatrig yn yr ysbyty yn cael eu hisraddio o fodel amser llawn i fodel 12 awr. Yn ymateb i Gweinidog i fy nghwestiynau ar y mater y llynedd, cyfaddefodd nad oedd yn gwybod beth i'w ddweud mewn perthynas â'r ddamcaniaeth llethr llithrig, ond aeth ymlaen i ddweud y byddai lle diogel a sicr i'r ysbyty yn y gwasanaethau iechyd sy'n cael eu darparu yn Sir Benfro. Wel, yn syml iawn, nid yw hynny wedi bod yn wir. Mae effaith y newidiadau addrefnu yn awr yn golygu bod plant yn Sir Benfro sydd angen triniaeth ysbyty dros nos yn gorfod teithio i ysbyty Glangwili. Mae'n anodd lleddfu pryderon pobl Sir Benfro, yn enwedig yn wyneb y ffaith fod Ysbyty Llwynhelyg wedi gweld un gwasanaeth ar ôl y llall yn cael ei adleoli neu ei israddio yn y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hynny, ni wnaeth y newyddion ym mis Rhagfyr gan fwrdd iechyd Hywel Dda, y byddai mwy o feddygon teulu yn staffio'r adran damweiniau ac achosion brys yn Llwynhelyg yn hytrach nag arbenigwyr adrannau damweiniau ac achosion brys, ddim i leddfu ofnau fy etholwyr.

Nawr, y llynedd dywedodd y Gweinidog iechyd hyn:

'[Y nod yw] creu dyfodol ar gyfer gwasanaethau i bobl Sir Benfro sy'n rhoi dyfodol diogel a sicr a chynaliadwy i Llwynhelyg.'

Well, before closing the special care baby unit, and downgrading paediatrics, these services were safe and sustainable. The centralisation of these services to Glangwili will only make the remaining services at Withybush hospital unsustainable in the future. That is absolutely clear. Because of the downgrading of paediatric services, we no longer have full-time A&E services at Withybush hospital. Parents cannot admit their children to A&E at the hospital in the middle of the night because paediatric services are unavailable, and therefore they have to travel to Glangwili. Given that 25 per cent of admissions to an accident and emergency department are children, the effect of downgrading paediatric services is having a huge knock-on effect on the hospital's A&E service.

Now, we all know the Welsh Government is currently reviewing its decision to close the special care baby unit, and I hope the Minister uses this debate as an opportunity to commit to publishing the review by the end of this year at the very least. I also hope that the Minister will take into consideration people's actual experiences, and start listening to the people of Pembrokeshire, as their experiences should be a key part of that review.

Now, the health board's actions and the Minister's decisions have done nothing to help attract doctors and medical staff to the area, either. It will be even more difficult to recruit doctors and other professional staff given the uncertainty over services, because medical professionals will not want to come to work in a hospital if they believe the services are not going to be based there in the long term. Surely the Minister must accept that the continued removal of services from Withybush hospital in recent years is not portraying a positive image to doctors and clinicians. Doctors and other professionals might see recent decisions as a signal to downgrade other services, and therefore clinicians might feel disinclined to join a hospital that they believe does not have a future.

Now, the Welsh Labour Government has had countless opportunities to show its support for Withybush hospital, but instead it voted against a motion in this very Chamber in November 2013 to secure the future of Withybush hospital's core services. In fact, the Welsh Government's own 'Together for Health' document states that, and I quote:

'a greater range of local services will mean less need to travel'.

And yet the downgrading of services from Withybush hospital will in many cases require people to travel further for treatment, which will put people's lives at risk. It's worth rehearsing the comments of retired Withybush hospital surgeon Peter Milewski, who said this—and I quote:

'You can save plenty of money centralising services at very little cost—just the death of two or three young people.'

Wel, cyn cau'r uned gofal arbennig i fabanod, ac israddio'r uned bediatreg, roedd y gwasanaethau hyn yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Ni fydd canoli'r gwasanaethau yng Nglangwili ond yn gwneud y gwasanaethau sydd ar ôl yn ysbyty Llwynhelyg yn anghynaliadwy yn y dyfodol. Mae hynny'n gwbl glir. Am fod gwasanaethau pediatrig wedi'u hisraddio, nid oes gennym wasanaethau damweiniau ac achosion brys amser llawn yn Ysbyty Llwynhelyg mwyach. Ni all rhieni ddod â'u plant i'r adran damweiniau ac achosion brys yn yr ysbyty yng nghanol y nos am nad oes gwasanaethau pediatrig ar gael, ac felly rhaid iddynt deithio i Ysbyty Glangwili. O ystyried bod 25 y cant o'r cleifion sy'n cael eu derbyn i adran damweiniau ac achosion brys yn blant, mae israddio gwasanaethau pediatrig yn cael sgil-effaith enfawr ar wasanaeth damweiniau ac achosion brys yr ysbyty.

Nawr, rydym i gyd yn gwybod bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu ei phenderfyniad i gau'r uned gofal arbennig i fabanod, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn defnyddio'r ddadl hon fel cyfle i ymrwmo i gyhoeddi'r adolygiad erbyn diwedd y flwyddyn hon fan lleiaf. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried profiadau go iawn pobl, ac yn dechrau gwrandao ar bobl Sir Benfro, gan y dylai eu profiadau fod yn rhan allweddol o'r adolygiad hwnnw.

Nawr, nid yw gweithredoedd y bwrdd iechyd a phenderfyniadau'r Gweinidog wedi gwneud dim i helpu i ddenu meddygon a staff meddygol i'r ardal ychwaith. Bydd recriwtio meddygon a staff proffesiynol eraill yn anos fyth o ystyried yr ansicrwydd ynghylch gwasanaethau, gan na fydd gweithwyr meddygol proffesiynol am ddod i weithio mewn ysbyty os ydynt yn credu nad yw'r gwasanaethau'n mynd i gael eu lleoli yno yn y tymor hir. Dylai'r Gweinidog dderbyn nad yw dileu gwasanaethau'n gyson o ysbyty Llwynhelyg yn y blynyddoedd diwethaf yn portreadu delwedd gadarnhaol i feddygon a chlinigwyr. Gallai meddygon a gweithwyr proffesiynol eraill weld penderfyniadau diweddar fel arwydd i israddio gwasanaethau eraill, ac efallai y gallai clinigwyr deimlo'n amharod i ymuno ag ysbyty nad ydynt yn credu bod ganddi ddyfodol.

Nawr, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cael cyfleoedd di-ri i ddangos ei chefnogaeth i Ysbyty Llwynhelyg, ond yn hytrach, pleidleisiodd yn erbyn cynnig yn y Siambr hon ym mis Tachwedd 2013 i sicrhau dyfodol gwasanaethau craidd yn ysbyty Llwynhelyg. Yn wir, mae dogfen Llywodraeth Cymru ei hun, 'Law yn Llaw at Iechyd' yn datgan:

'bydd ystod ehangach o wasanaethau lleol yn golygu bod llai o angen i deithio'.

Ac eto bydd israddio gwasanaethau o ysbyty Llwynhelyg mewn llawer o achosion yn ei gwneud yn ofynnol i bobl deithio ymhellach i gael triniaeth, gan roi bywydau pobl mewn perygl. Mae'n werth ailadrodd sylwadau llawfeddyg wedi ymddeol o Ysbyty Llwynhelyg, Peter Milewski, a ddywedodd hyn:

'Gallwch arbed llawer o arian drwy ganoli gwasanaethau am gost fach iawn—heblaw am farwolaeth dau neu dri o bobl ifanc.'

Well, we on this side of the Chamber have made it quite clear: we believe in local health services for local people. Patients should not have to travel further for life-saving care and core emergency services. Therefore, in closing, Deputy Presiding Officer, these plans to downgrade services are not wanted by clinicians and are passionately opposed by the public. It's clear to the people I represent that this Welsh Labour Government has failed to protect vital services at Withybush hospital. Indeed, in some cases, it has been directly responsible for closing life-saving services. I urge Members to support this motion.

Wel, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr wedi datgan yn hollol glir: rydym yn credu mewn gwasanaethau iechyd lleol ar gyfer pobl leol. Ni ddylai cleifion orfod teithio ymhellach am wasanaethau gofal a gwasanaethau argyfwng craidd sy'n achub bywydau. Felly, wrth gloi, Ddirprwy Lywydd, nid yw clinigwyr eisiau'r cynlluniau hyn i israddio ac mae'r cyhoedd yn eu gwrthwynebu'n angerddol. Mae'n amlwg i'r bobl rwy'n eu cynrychioli fod y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru wedi methu amddiffyn gwasanaethau hanfodol yn ysbyty Llwynhelyg. Yn wir, mewn rhai achosion, mae wedi bod yn uniongyrchol gyfrifol am gau gwasanaethau sy'n achub bywydau. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn.

15:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mick Antoniw.

Mick Antoniw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:30 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Like you, I'm also disappointed in the speech of the proposer of this motion, because I thought the Tory war on Wales had been so discredited that he wouldn't have the audacity to actually attempt to raise it again, futile though it is. He raised a whole series of issues, which I have to respond to, because, you know, it's one thing to be selective, it's another thing to distort facts and information to be totally selective.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fel chithau, rwyf innau hefyd wedi fy siomi gan araith cynigydd y cynnig hwn, gan fy mod yn meddwl bod cymaint o anfri wedi'i ddwyn ar ryfel y Toriaid ar Gymru fel na fyddai ganddo'r wyneb i geisio'i grybwyll eto mewn gwirionedd, er mor ofer yw hynny. Soniodd am gyfres o bethau sy'n rhaid i mi ymateb iddynt, oherwydd, wyddoch chi, un peth yw dethol y ffeithiau, ond peth arall yw ystumio ffeithiau a gwybodaeth wrth eu dethol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If we really want to be honest about what is happening within Wales, let's say, 'Yes, certainly, there are very difficult circumstances within Wales, and health is going to be our biggest challenge'. I very much respect some of the points that were made by Aled, which actually identified some of those. But, let's look at the reality across the border, where they've adopted a different approach.

Os ydym eisiau bod yn onest mewn gwirionedd am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, gadewch i ni ddweud, 'Oes, yn sicr, mae yna amgylchiadau anodd iawn yng Nghymru, ac iechyd fydd ein her fwyaf'. Rwy'n fawr iawn fy mharch at rai o'r pwyntiau a wnaed gan Aled, a nododd rai o'r rheini mewn gwirionedd. Ond gadewch i ni edrych ar y realiti dros y ffin, lle y maent wedi mabwysiadu ymagwedd wahanol.

Since 2010, 30 NHS accident and emergency and maternity units have closed. There are 33 that are now identified for closure because of the financial system there. Two thirds of NHS trusts in England are going into the red this year—or are predicted—and the implication for that is those figures will be even greater. Let's also point out the implications of the decision that we didn't take in Wales, to actually cut social services, to the extent that we can't support people in their homes. And, let's also point out that, within England, 85,000 fewer health and social care workers now actually are employed, which is why there is a major problem of bedblocking occurring in UK hospitals, and major problems with organisation. If we want to carry on with those, let's also say that half the ambulance stations in England have closed, and there are 7,000 fewer nurses in England.

Ers 2010, mae 30 o unedau damweiniau ac achosion brys a mamolaeth y GIG wedi cau. Mae yna 33 sydd bellach yn cael eu clustnodi ar gyfer eu cau oherwydd y system ariannol yno. Mae dwy ran o dair o ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr yn mynd i'r coch eleni—neu dyna a ragwelir—a goblygiad hynny yw y bydd y ffigurau'n uwch byth. Gadewch i ni hefyd nodi goblygiadau'r penderfyniad nad ydym wedi'i wneud yng Nghymru, i dorri gwasanaethau cymdeithasol, i'r graddau na allwn gefnogi pobl yn eu cartrefi. A gadewch i ni hefyd nodi bod 85,000 yn llai o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol bellach yn cael eu cyflogi yn Lloegr, a dyna pam y mae ysbatai'r DU yn wynebu problem blocio gwelyau mor fawr, a phroblemau mawr gyda threfniadaeth. Os ydym am barhau i sôn am y rheini, gadewch i ni hefyd ddweud bod hanner y gorsafoedd ambiwlans yn Lloegr wedi cau, ac mae 7,000 yn llai o nyrsys yn Lloegr.

Now, I had hoped that there was going to be a more positive possibility of a debate, and I do hope to actually talk about some of the positive things that are happening out of the south Wales programme. But, let's talk about partly why some of these things are actually happening in England. It's because, within Wales, we have chosen not to go down the road of privatisation and the selling off of the NHS. And the link between hedge funds and corporate interests that are now buying up the NHS in England is a disgrace. It appears that, if you donate £1.5 million to the Tory party, you might be able to achieve a contract from the health service privatisation of £1.36 billion. A £247,000 donation to the Tory party apparently only gets you a privatisation of about £102 million. And, when you look at the network of hedge funds and corporate interests that are lining up to buy the health service—which I have no doubt would be dismantled under privatisation, were the Tories to form the next Government—you can see the individuals, the key partners within these health interests, making donations of £690,000, £59,000, £466,000, £220,000.

Nawr, roeddwn wedi gobeithio y byddai'n bosibl cael dadl fwy cadarnhaol, ac rwy'n gobeithio siarad mewn gwirionedd am rai o'r pethau cadarnhaol sy'n digwydd yn rhaglen de Cymru. Ond gadewch i ni siarad yn rhannol ynglŷn â pham y mae rhai o'r pethau hyn yn digwydd mewn gwirionedd yn Lloegr. Mae'n digwydd oherwydd ein bod ni, yng Nghymru, wedi dewis peidio â dilyn llwybr preifateiddio a gwerthu'r GIG. Ac mae'r cyswllt rhwng cronfeydd mantoli a buddiannau corfforaethol sydd bellach yn prynu'r holl GIG yn Lloegr yn warthus. Os rhowch £1.5 miliwn i'r blaid Doriaidd, mae'n ymddangos y gallwch sicrhau contract gwerth £1.36 biliwn o breifateiddio'r gwasanaeth iechyd. Mae'n ymddangos nad yw rhodd o £247,000 i'r blaid Doriaidd ond yn sicrhau gwerth tua £102 miliwn yn unig o breifateiddio i chi. A phan edrychwch ar y rhwydwaith o gronfeydd mantoli a buddiannau corfforaethol sy'n aros eu tro i brynu'r gwasanaeth iechyd—ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y câr'r gwasanaeth ei ddatgymalu o dan breifateiddio, pe bai'r Toriaid yn ffurfio'r Llywodraeth nesaf—gallwch weld yr unigolion, y partneriaid allweddol yn y buddiannau iechyd hyn, yn gwneud rhoddion o £690,000, £59,000, £466,000, £220,000.

15:33 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you give way?

A wnewch chi ildio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:33 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes, certainly.

Gwnaf, yn sicr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:33 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It is disappointing that the Member isn't focusing more on the Welsh NHS, but I'll happily challenge him on his privatisation agenda, which he tries to peddle, and which the Labour leader has done in England, by weaponising the NHS. Do you not accept that the percentage terms of the English NHS that is provided by the private sector—about 6 to 7 per cent—is exactly the same as was under Andy Burnham, who was the Labour health Secretary up until 2010?

Mae'n siomedig nad yw'r Aelod yn canolbwyntio mwy ar y GIG yng Nghymru, ond byddaf yn hapus i'w herio ar yr agenda breifateiddio y mae'n ceisio'i pheddlera, fel y mae'r arweinydd Llafur wedi'i wneud yn Lloegr, gan greu arf o'r GIG. Onid ydych yn derbyn bod y ganran o'r GIG yn Lloegr sy'n cael ei darparu gan y sector preifat—tua 6 i 7 y cant—yn union yr un fath ag o dan Andy Burnham, Ysgrifennydd Iechyd Llafur hyd at 2010?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:33 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
No, it wasn't, because it was actually 1.4 per cent; it is now 7 per cent, and there is a further £7 billion of NHS lined up. And the important development within England, of course, is the legislation passed by the Tories, which allows hospitals to actually take up to 50 per cent private treatment. Now, if that doesn't send you the message as to what the true intentions are, then nothing else will.

Na, nid oedd yr un fath, am mai 1.4 y cant oedd y ganran mewn gwirionedd; ac mae'n 7 y cant yn awr, ac mae £7 biliwn pellach o'r GIG ar y ffordd. A'r datblygiad pwysig yn Lloegr, wrth gwrs, yw'r ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Toriaid, sy'n caniatáu i ysbysai gymryd hyd at 50 y cant o driniaeth breifat. Nawr, os nad yw hynny'n cyfleu beth yw'r gwir fwriadau, ni fydd dim arall yn gwneud hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Now, the argument that a hospital remains static, that there is no change with the NHS, is preposterous. And I also think that what has happened in the last couple of years, certainly with the south Wales programme—so it's actually shown within south Wales—is that, because we don't have this broken up, fragmented system that's been created within England, local health boards have been able to work as a consortium, to start to tackle some of the major problems that have actually started occurring. Within Cwm Taf, we've actually seen major, important, positive, progressive changes in mental health, stroke provision, and also the development of multifactorial provision of services.

Nawr, mae'r ddadl fod ysbysu yn parhau'n sefydlog, nad oes unrhyw newid gyda'r GIG, yn afresymol. Ac rwy'n meddwl hefyd mai'r hyn a ddigwyddodd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn sicr gyda rhaglen de Cymru—felly y mae wedi ei ddangos yn ne Cymru—am nad oes gennym y system dameidiog a thoredig a grewyd yn Lloegr, yw bod byrddau iechyd lleol wedi gallu gweithio mewn consortiwm i ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r prif broblemau sydd wedi dechrau digwydd mewn gwirionedd. Yng Nghwm Taf, rydym wedi gweld newidiadau mawr pwysig, cadarnhaol a blaengar ym maes iechyd meddwl, darpariaeth strôc, a datblygiad gwasanaethau aml-factorol.

Can I just say something, because I see time is going on? I just want to mention the ambulance service, which is key to the reorganisation within Wales. I, and the Member for Rhondda, met with the Welsh Ambulance Services NHS Trust and we had very positive discussions about the poor figures in Rhondda Cynon Taf. Can I just say that I welcome the contribution that's been made by those ambulance staff, and all those people involved? Very, very positive outcomes have now started to be achieved. The representations that we made, that we actually wanted a ring-fencing of services within Rhondda Cynon Taf, have now led, within the first three weeks of the pilot, to an increase from 45 per cent to 60 per cent and improving. And I think it shows that we are actually heading in the right direction with health—

A gaf fi ddweud rhywbeth, gan fy mod yn gweld yr amser yn brin? Rwyf am sôn am y gwasanaeth ambiwlans, sy'n allweddol i ad-drefnu yng Nghymru. Cefais i a'r Aelod dros y Rhondda gyfarfod ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a chawsom drafodaethau cadarnhaol iawn ynglŷn â ffigurau gwael Rhondda Cynon Taf. A gaf fi ddweud fy mod yn croesawu cyfraniad y staff ambiwlans, a'r holl bobl sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth? Maent wedi dechrau sicrhau canlyniadau cadarnhaol iawn bellach. Mae'r sylwadau a wnaethom, ein bod am glustnodi gwasanaethau yn Rhondda Cynon Taf, wedi arwain bellach, o fewn tair wythnos gyntaf y cynllun peilot, at gynnydd o 45 y cant i 60 y cant ac mae'n gwella. Rwy'n meddwl ei fod yn dangos ein bod yn mynd i'r cyfeiriad iawn ar iechyd mewn gwirionedd—

- 15:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Conclude now please. Gorffennwch yn awr os gwelwch yn dda.
- 15:35 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We will certainly not go down. And if the Tories do get in— Yn sicr, ni fyddwn yn mynd i lawr. Ac os yw'r Toriaid yn mynd i mewn—
- 15:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Quickly. Yn gyflym.
- 15:35 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
[Continues.]—which I don't think they will, it will be the end of the health service in England as we know it. [Yn parhau.]—ac nid wyf yn meddwl y gwnânt, bydd yn ddiwedd ar y gwasanaeth iechyd yn Lloegr fel y gwyyddom amdano.
- 15:36 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Elected in May 2011, I stood here and witnessed the First Minister stand before us in this Chamber and say that 'No-one is suggesting the downgrading of any district general hospitals'. Ar ôl fy ethol ym mis Mai 2011, sefais yn y fan hon a gweld y Prif Weinidog yn sefyll ger ein bron yn y Siambr hon ac yn dweud 'Nid oes neb yn awgrymu y dylid israddio unrhyw ysbytai cyffredinol dosbarth'.

On 7 December 2011, the previous health Minister said: Ar 7 Rhagfyr 2011, dywedodd y Gweinidog Iechyd blaenorol:

'there are no plans to downgrade any district general hospitals'. 'nid oes cynlluniau i israddio unrhyw ysbyty cyffredinol dosbarth'.

Four years on, and we've seen the downgrading of paediatric services, the closure of neonatal units and the removal of consultant-led A&E departments. Instead of admitting to making false promises, the Welsh Government just simply passes the buck for these decisions to local health boards. Yet, it has been the shameful lack of investment in our much-loved NHS in Wales that has forced their hand, with devastating effects on the people across Wales. In north Wales in particular, 2013 saw the closing of community hospitals at Blaenau Ffestiniog, Flint, Llangollen and Prestatyn—a loss of 53 in-patient beds. Almost 100 per cent of the 3,500 people who voted called on Betsi Cadwaladr University Local Health Board to reinstate those lost at Flint hospital—all completely ignored. Bedair blynedd yn ddiweddarach, rydym wedi gweld gwasanaethau pediatrig yn cael eu hisraddio, cau unedau newyddenedigol a chael gwared ar adrannau damweiniau ac achosion brys dan arweiniad meddygon ymgynghorol. Yn hytrach na chyfaddef ei bod wedi gwneud addewidion gwag, y cyfan y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yw trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros wneud y penderfyniadau hyn i fyrdau iechyd lleol. Eto i gyd, y diffyg buddsoddiad cywilyddus yn ein hannwyl GIG yng Nghymru sydd wedi eu gorfodi i wneud hynny, gydag effeithiau dinistriol ar bobl ledled Cymru. Yng ngogledd Cymru yn arbennig, yn 2013 gwelwyd cau ysbytai cymuned ym Mlaenau Ffestiniog, Y Fflint, Llangollen a Phrestatyn—gan gollu 53 o welyau ar gyfer cleifion mewnol. Galwodd bron bob un o'r 3,500 o bobl a bleidleisiodd ar Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i adfer y gwelyau a gollwyd yn ysbyty'r Fflint—ac anwybyddwyd pob un ohonynt yn llwyr.

15:37	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography	Will you take an intervention?	A wnewch chi dderbyn ymyriad?	Senedd.tv Fideo Video
15:37	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Yes.	Gwnaf.	Senedd.tv Fideo Video
15:37	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography	Did you ever, with your colleagues, or any of the other people here, visit Flint community hospital?	A wnaethoch chi erioed ymweld ag ysbyty cymunedol y Fflint, gyda'ch cyd-Aelodau, neu unrhyw rai o'r bobl eraill yma?	Senedd.tv Fideo Video
15:37	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Did you?	A wnaethoch chi?	Senedd.tv Fideo Video
15:37	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography	Yes, I did.	Do, fe wnes.	Senedd.tv Fideo Video
15:37	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	My response to that is: do you not feel ashamed for the fact that you didn't make any representations about the maternity services? At Bryn Beryl Hospital, x-ray services removed and the minor injuries unit closed at weekends throughout the winter. And the Uned Meirion elderly and mentally infirm unit has been closed at Dolgellau. In my own constituency, Llandudno hospital has lost its endoscopy, breast cancer surgery and A&E department, with a loss of 439 in-patient beds in the health board, all under your watch. But perhaps of most significance to my constituents in Aberconwy has been the recent shameful Welsh Government handling of maternity services and neonatal care.	Fy ymateb i hynny yw: onid ydych chi'n teimlo cywilydd am y ffaith na ddadleuoch chi o blaid y gwasanaethau mamolaeth? Cafodd gwasanaethau pelydr-x eu symud o Ysbyty Bryn Beryl, ac mae'r uned mân anafiadau ar gau ar benwythnosau drwy gydol y gaeaf. Ac mae Uned Meirion i'r henoed a'r eiddil eu meddwl wedi ei chau yn Nolgellau. Yn fy etholaeth fy hun, mae Ysbyty Llandudno wedi colli ei gwasanaeth endosgopi, llawdriniaeth canser y fron a'r adran damweiniau ac achosion brys, ac wedi colli 439 o welyau i gleifion mewnol yn y bwrdd iechyd, i gyd o dan eich goruchwyliaeth chi. Ond efallai mai'r peth mwyaf arwyddocaol i fy etholwyr yn Aberconwy yw'r modd cywilyddus y mae Llywodraeth Cymru wedi trin gwasanaethau mamolaeth a gofal newyddenedigol yn ddiweddar.	Senedd.tv Fideo Video

My constituents were overjoyed when, in 2014, the Welsh Government—yes, the Welsh Government—announced that Ysbyty Glan Clwyd had been chosen ahead of Arrow Park Hospital, not without a battle on behalf of some AMs, for the new sub-regional neonatal intensive care centre. The decision was hailed by the health board's chairman as the end to a period of uncertainty for our dedicated and committed staff as well as our local people. How wrong were they? We now know that not to be the case. BCULHB announced plans to suspend consultant-led maternity and gynaecological care at Glan Clwyd for 18 months due to what was described as 'unacceptable clinical risks'; those same clinical risks that the Minister, the previous Minister, the First Minister, were all well aware of, and if they weren't, they should have been. The equality impact assessment showed that around 324 babies per year, 4,000 women, and 150 members of staff would be affected. But it was no surprise to me that the people of north Wales stood up and came together to fight the proposals, with 15,000 signing the 'Daily Post' petition, 2,000 plus marching in protest, doctors passing a vote of no confidence in the board, and many actually directing it towards the Welsh Labour Government. And, of course, the north Wales community health council formally requested Welsh Government intervention.

Again, I ask the Minister: what have you done, really, about any of this? What was the Welsh Government's response to this public outcry? Constituents of mine were momentarily relieved when the health Minister ordered an independent assessment, although I didn't hold my breath. The discovery that this assessment was completed within one day and its description by the chief officer of the CHC as 'not fit for purpose' was shameful. All credit to campaigners such as Marsha Davies—they haven't wallowed in defeat—and others going for judicial review. The staff of our NHS work tirelessly to provide the highest possible standard of care for our patients, but they, too, are now at breaking point. For those who work in Welsh A&E departments to have described it as being worse than a war zone is, again, a disgrace.

It may well be the case that as many as 43 per cent of people do not realise that the Welsh Government is ultimately responsible for our NHS, but, I can assure you, from the campaigning that I've done on the doorstep, the number of people who know the truth is growing by the day. Be under no illusion: you will be judged tomorrow, even though it is a general election. Tomorrow, voters will hold you to account for failing to protect hospitals from closure and downgrading and a failure of service, and it's your fault.

Roedd fy etholwyr wrth eu boddau yn 2014 pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru—ie, Llywodraeth Cymru—fod Ysbyty Glan Clwyd wedi cael ei dewis o flaen Ysbyty Arrow Park, nid heb frwydr ar ran rhai ACau, ar gyfer lleoli'r ganolfan is-ranbarthol newydd ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig. Cafodd y penderfyniad ei ganmol gan gadeirydd y bwrdd iechyd fel diwedd ar gyfnod o ansicrwydd i'n staff ymroddgar ac ymrwymedig yn ogystal â'n pobl leol. Roeddent mor anghywir. Rydym bellach yn gwybod nad oedd hynny'n wir. Cyhoeddodd BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr gynlluniau i atal gofal mamolaeth a gofal gynaeolegol dan arweiniad meddyg ymgynghorol yng Nglan Clwyd am 18 mis oherwydd yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'risgiau clinigol annerbyniol'; yr un risgiau yr oedd y Gweinidog, y Gweinidog blaenorol, y Prif Weinidog, i gyd yn ymwybodol iawn ohonynt, ac os nad oeddent, fe ddylent fod yn ymwybodol ohonynt. Dangosodd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb y byddai tua 324 o fabanod y flwyddyn, 4,000 o fenywod, a 150 o aelodau o staff yn cael eu heffeithio. Ond nid oedd yn syndod i mi fod pobl gogledd Cymru wedi sefyll gyda'i gilydd i frwydro yn erbyn yr argymhellion, gyda 15,000 yn llofnodi deiseb y 'Daily Post', 2,000 a mwy yn gorymdeithio mewn protest, meddygon yn pasio pleidlais o ddiffyg hyder yn y bwrdd, a llawer ohonynt mewn gwirionedd yn ei gyfeirio tuag at Lywodraeth Lafur Cymru. Ac wrth gwrs, gofynnodd cyngor iechyd cymuned gogledd Cymru yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru ymyrryd.

Unwaith eto, gofynnaf i'r Gweinidog: beth rydych wedi'i wneud am hyn mewn gwirionedd? Beth oedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r brotest gyhoeddus hon? Cafodd fy etholwyr ryddhad am ennyd pan orchmynnodd y Gweinidog iechyd i asesiad annibynnol gael ei gynnal, er nad oeddwn yn dal fy ngwynt. Roedd y darganfyddiad fod yr asesiad wedi'i gwblhau mewn diwrnod a chael ei ddisgrifio'n anaddas at y diben gan brif swyddog y Cyngor Iechyd Cymuned yn gywilyddus. Pob clod i'r ymgyrchwyr, fel Marsha Davies—nid ydynt wedi oedi i lyfu eu clywau—ac erill am fynd am adolygiad barnwrol. Mae staff ein GIG yn gweithio'n ddiflino i ddarparu gofal o'r safon uchaf posibl i'n cleifion, ond maent hefyd bellach wedi cyrraedd y pen. Mae clywed y rhai sy'n gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru yn ei ddisgrifio fel profiad gwaeth na bod mewn rhyfel, unwaith eto, yn warth.

Mae'n ddigon posibl nad yw hyd at 43 y cant o bobl yn sylweddoli mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn y pen draw am ein GIG, ond gallaf eich sicrhau, o'r ymgyrchu rwyf wedi ei wneud ar garreg y drws, mae nifer y bobl sy'n gwybod y gwir yn tyfu bob dydd. Peidiwch â thwylo eich hunain: fe gewch eich barnu yfory, er mai etholiad cyffredinol yw hi. Yfory, bydd pleidleiswyr yn eich dwyn chi i gyfrif am fethu â diogelu ysbytai rhag cau ac israddio ac am fethiant y gwasanaeth, a'ch bai chi yn hynny.

15:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:41	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i></p> <p>Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Thank you for the opportunity to reply to what was, I believe from the beginning, an ill-conceived speech with which it was opened and an ill-informed debate as well.</p>	<p>Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r hyn a oedd, yn fy marn i, o'r dechrau un yn araith annoeth i agor dadl a oedd hefyd yn un anoleuedig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:41	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, will you take an intervention on that?</p>	<p>Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad ar hynny?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:41	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Go ahead.</p>	<p>Ewch ymlaen.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:41	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p>When we talk about ill-informed, I can tell you that many of the people who speak about Flint community hospital have never been near the place. They have obviously not read the many representations that you know that I sent about Flint hospital—I was told far more than any other Assembly Member by the way—or, indeed, the representations I made for BCULHB. So, when we talk about ill-informed, people have not seen the facilities that were provided, which were declared not to be safe nor sustainable nor did they care about pushing for better facilities, which are now in place.</p>	<p>Wrth sôn am anoleuedig, gallaf ddweud wrthyf nad yw llawer o'r bobl sy'n siarad am ysbyty cymunedol y Fflint erioed wedi bod yn agos i'r lle. Yn amlwg nid ydynt wedi darllen y nifer fawr o ddadleuon y gwyddoch fy mod wedi eu hanfon ynglŷn ag ysbyty'r Fflint—dywedwyd llawer mwy wrthyf fi nag wrth unrhyw Aelod Cynulliad arall gyda llaw—neu'n wir, y dadleuon a gyflwynais dros BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr. Felly, wrth ddweud anoleuedig, nid yw pobl wedi gweld y cyfleusterau a ddarparwyd, y datganwyd nad oeddent yn ddiogel nac yn gynaliadwy ac nid oeddent yn poeni ynghylch gwrthio am well cyfleusterau, sydd bellach yn eu lle.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:42	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Nobody here is better informed or better equipped to speak on behalf of the people of Flint than its local Member. I listened carefully to what she said this afternoon.</p> <p>The basic proposition before the National Assembly this afternoon is that the change in the health service is by definition something to be rejected and regretted. In fact, the opposite has always been the case. The national health service has been in the process of change since the day it was founded. Changes about which the Conservative Party complain in the Chamber today are simply the latest in that long series of efforts to develop the service that is provided to patients.</p> <p>Today, together with the communities Minister, Lesley Griffiths, I have been able to announce £5.8 million investment in the Cylch Caron project. It will involve the replacement of Tregaron community hospital. The leader of the local council describes the project as a</p> <p>'highly important initiative that will be of invaluable benefit to the population of Tregaron and its hinterland'.</p> <p>Next year, no doubt, Tregaron community hospital will appear on the Tory list of doom. I invite the opposition spokesperson on health, in his reply, to let us know whether he would intend to protect Tregaron community hospital from closure, as his motion declares. Because, if he does, then he can tell us now that Cylch Caron will not be able to go ahead.</p>	<p>Nid oes neb yma yn fwy goleuedig neu mewn sefyllfa well i siarad ar ran y bobl y Fflint na'u Haelod lleol. Gwrandawais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd y prynhawn yma.</p> <p>Y cynnig sylfaenol gerbron Cynulliad Cenedlaethol y prynhawn yma yw bod y newid yn y gwasanaeth iechyd drwy ddiffiniad yn rhywbeth i'w wrthod ac i resynu yn ei gylch. Mewn gwirionedd, y gwrthwyneb sydd wedi bod yn wir bob amser. Mae'r gwasanaeth iechyd gwladol wedi bod yn y broses o newid ers y diwrnod y cafodd ei sefydlu. Nid yw'r newidiadau y mae'r Blaid Geidwadol yn cwyno amdanynt yn y Siambr heddiw ond y diweddaraf mewn cyfres hir o ymdrechion i ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion.</p> <p>Heddiw, gyda'r Gweinidog cymunedau, Lesley Griffiths, rwyf wedi gallu cyhoeddi £5.8 miliwn o fuddsoddiad ym mhrosiect Cylch Caron. Bydd yn cynnwys adnewyddu ysbyty cymunedol Tregaron. Mae arweinydd y cyngor lleol yn disgrifio'r prosiect fel</p> <p>'menter bwysig iawn a fydd o fudd amhrisiadwy i boblogaeth Tregaron a'r cylch'.</p> <p>Y flwyddyn nesaf, yn ddiau, bydd ysbyty cymunedol Tregaron yn ymddangos ar restr y Torïaid o ysbytai dan fgythiad. Rwy'n gwahodd llefarydd yr wrthblaid ar iechyd, yn ei ateb, i roi gwybod i ni a yw'n bwriadu diogelu ysbyty cymunedol Tregaron rhag cau, fel y mae ei gynnis yn datgan. Oherwydd, os yw'n gwneud hynny, gall ddweud wrthym yn awr na fydd Cylch Caron yn gallu digwydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 15:43 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? I'm not responding to the debate.
A wnewch chi dderbyn ymyriad? Nid wyf yn ymateb i'r ddadl.
- 15:43 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
The investment in Cylch Caron joins, among others, the £5.3 million to be invested in Llandrindod Wells County War Memorial Hospital, noted in the first Liberal Democrat amendment today. That amendment has the virtue of being a statement of fact. That amendment will be supported by the Government.
Mae'r buddsoddiad yng Nghylch Caron ymhlith pethau eraill yn ychwanegol at y £5.3 miliwn sydd i'w fuddsoddi yn Ysbyty Coffa Llandrindod, a nodir yng ngwelliant cyntaf y Democratiaid Rhyddfrydol heddiw. Rhinwedd y gwelliant yw ei fod yn ddatganiad o ffaith. Bydd y gwelliant yn cael ei gefnogi gan y Llywodraeth.
Yesterday, the Conservative Party, in its inevitable and widely ignored press release, which prefigured this debate, complained of a whole list of other closures, for example, of Mynydd Mawr hospital in Tumble. There was a building constructed nearly a century ago. Its purpose was to serve as an isolation hospital for conditions that, thankfully, are no longer present in the Welsh population. The hospital was, as is typical of so many institutions here in Wales, much loved by its staff and its local population. When I visited its replacement—a replacement that, of course, has been entirely ignored by the Welsh Conservatives—at Prince Phillip Hospital recently, the staff who had moved with the service were absolutely clear with me about the vastly improved ability they now have in their new surroundings to respond to the needs of patients—not surprising when you know of the £800,000 that was invested to bring those facilities about. You wouldn't have known about them, of course, from the party that claims that every hospital that is closed is bound to be something that is to be regretted.
Ddoe, roedd y Blaid Geidwadol, yn ei datganiad anochel i'r wasg cyn y ddadl hon, datganiad a anwybyddwyd i raddau helaeth, yn cwyno am restr gyfan o ysbytai eraill sydd i'w cau, er enghraifft, ysbyty Mynydd Mawr yn y Tymbl. Roedd yno adeilad a godwyd bron i ganrif yn ôl. Ei bwrpas oedd gwasanaethu fel ysbyty ynysu ar gyfer cyflyrau sydd, diolch byth, wedi diflannu o'r boblogaeth yng Nghymru. Roedd yr ysbyty, fel sy'n nodweddiadol o gymaint o sefydliadau yma yng Nghymru, yn annwyl iawn gan ei staff a'i boblogaeth leol. Pan ymwelais â'r hyn a gafwyd yn ei le—datblygiad a anwybyddwyd yn llwyr gan y Ceidwadwyr Cymreig wrth gwrs—yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn ddiweddar, roedd y staff a oedd wedi symud gyda'r gwasanaeth yn gwbl glir ynglŷn â'u gallu gwell o lawer i ymateb i anghenion cleifion yn eu hamgylchedd newydd—nad yw'n syndod o wybod am y £800,000 a fuddsoddiwyd i sicrhau'r cyfeusterau hynny. Ni fydddech wedi cael gwybod amdanynt, wrth gwrs, gan y blaid sy'n honni bod pob ysbyty sy'n cael ei gau yn rhwym o fod yn fater i'w resynu.
- 15:45 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Will the Minister take an intervention?
A wnaiff y Gweinidog dderbyn ymyriad?
- 15:45 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
The Welsh Conservative press release—. No, I think we've been delighted long enough by the Conservative Party this afternoon. The Conservative Party press release also referred to what it claimed to be the withdrawal of x-ray services at Tywyn hospital. Sadly, it was published three days after the local health board had announced the continuation of that service with brand-new equipment. Three days after the health board announced that the service is to be continued with investment in brand-new equipment, the Conservative Party put out a press release announcing that it's being closed. Of course, investment in Tywyn is part of a new primary care centre, complete with a 16-bed ward, which will open in November—the result of £5 million of investment from this Welsh Government.
Mae datganiad y wasg y Ceidwadwyr Cymreig—. Na, rwy'n credu ein bod wedi cael ein diddanu'n ddigon hir gan y Blaid Geidwadol y prynhawn yma. Cyfeiriodd datganiad i'r wasg y Blaid Geidwadol hefyd at yr honiad fod gwasanaethau pelydr-x yn cael eu colli o Ysbyty Tywyn. Yn anffodus, cafodd ei gyhoeddi dri diwrnod ar ôl i'r bwrdd iechyd lleol gyhoeddi parhad y gwasanaeth hwnnw gydag offer newydd sbon. Dri diwrnod ar ôl i'r bwrdd iechyd gyhoeddi bod y gwasanaeth i'w barhau gyda buddsoddiad mewn offer newydd sbon, rhyddhaodd y Blaid Geidwadol ddatganiad i'r wasg yn cyhoeddi ei fod yn cael ei gau. Wrth gwrs, mae'r buddsoddiad yn Nhywyn yn rhan o ganolfan gofal sylfaenol newydd, gyda ward 16 gwely, a fydd yn agor ym mis Tachwedd—canlyniad £5 miliwn o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru.

The same rigorous level of analysis was applied by the Tories to complaints about the withdrawal of minor injury units. They complained, for example, about the closure of the unit at Chirk, where, on average, two patients every day attended, or the closure of the minor injuries unit at Llangollen, where daily usage was half that at Chirk. Now, we know, and they know, of course, that had those facilities been kept open, the professional accreditation of the staff working there would have been removed, because it simply is not possible to go on providing safe and proper services in conditions of such low usage.

Now, we've heard a lot this afternoon about some very old stories indeed. I'm not sure of the last time a member of the Conservative Party was seen in Llanelli, but if they had been, then they would have learnt that the proposals for the new unscheduled care service—condemned, of course, this afternoon by your party—were described by the local campaigning group, Save our Services Prince Philip Action Network, as 'new and welcomed developments', a view followed by no fewer than four exclamation marks on its website. SOSPPAN, these days, is a member of the programme board for the new front-of-house services at Prince Philip Hospital, together with the community council, the district council and consultants and nursing staff.

If they had been there, they would've known that a new head GP has been recruited for that service and began work last week; they would know that the health board agreed last month to pump prime the necessary capital works to underpin the new service model and that I look forward to receiving the business case for the remaining works. What they denigrate as a downgrading was what the expert review group called a 'golden opportunity' to develop services that will meet the needs of that population, and it's just that sort of contrast that makes the Conservative Party appear so foolish this afternoon.

We've heard a great deal here this afternoon about services at Withybush hospital: Withybush hospital with its new renal dialysis unit and its new investment in pathology services; Withybush, where, as a result of the changes to maternity services, medical recruitment has begun to improve, with three new consultants recruited, the middle grade rota stabilised, the junior doctor rota completely filled and Wales Deanery training standards met; a newly refurbished, high-standard and popular midwife-led unit at the hospital; a new neonatal high-dependency unit at Glangwili hospital that meets royal college standards; a paediatric ambulatory care centre at Withybush that sees 300 children every month, and where, on average, one child a week is transferred during night-time hours to Glangwili hospital.

Defnyddiwyd yr un lefel drwyadl o ddadansoddiad gan y Torïaid wrth gwyno am gau unedau mân anafiadau. Roeddent yn cwyno, er enghraifft, ynglŷn â chau'r uned yn y Waun, a fynychid gan ddau glaf y dydd ar gyfartaledd, neu gau'r uned mân anafiadau yn Llangollen, lle'r oedd y defnydd dyddiol yn hanner yr hyn a geid yn y Waun. Nawr, rydym ni'n gwybod, ac maent hwy'n gwybod, wrth gwrs, pe bai'r cyfleusterau wedi'u cadw ar agor, byddai'r staff sy'n gweithio yno wedi colli eu hachrediad proffesiynol, gan nad oes unrhyw fodd o barhau i ddarparu gwasanaethau diogel a phriodol mewn amgylchiadau lle y mae'r defnydd mor isel.

Yn awr, rydym wedi clywed llawer o hen straeon y prynhawn yma. Nid wyf yn sicr pa bryd oedd y tro diwethaf y gwelwyd Aelod o'r Blaid Geidwadol yn Llanelli, ond pe baent wedi bod yno, yna byddent wedi dysgu bod yr argymhellion ar gyfer y gwasanaeth newydd gofal heb ei drefnu—a gondemniwyd gan eich plaid y prynhawn yma, wrth gwrs—wedi'i ddisgrifio gan y grŵp ymgyrchu lleol, Rhwydwaith Gweithredu i Arbed ein Gwasanaethau yn Ysbyty Tywysog Philip, fel 'datblygiad newydd a groesewir', safbwynt sy'n cael ei ddilyn gan gymaint â phedwar ebychnod ar eu gwefan. Mae SOSPPAN, y dyddiau hyn, wrth gwrs, yn aelod o fwrdd y rhaglen ar gyfer gwasanaethau blaen y tŷ newydd yn Ysbyty Tywysog Philip, gyda'r cyngor cymuned, y cyngor dosbarth, meddygon ymgynghorol a staff nyrsio.

Pe baent wedi bod yno, byddent yn gwybod bod prif feddyg teulu newydd wedi cael ei recriwtio ar gyfer y gwasanaeth hwnnw a dechreuodd yn ei swydd yr wythnos diwethaf; byddent yn gwybod bod y bwrdd iechyd wedi cytuno fis diwethaf i ysgogi'r gwaith cyfalaf angenrheidiol i fod yn sail i'r model gwasanaeth newydd a fy mod yn edrych ymlaen at gael yr achos busnes ar gyfer y gwaith sy'n weddill. Yr hyn y maent yn ei ddiffrio fel israddio oedd yr hyn a alwai'r grŵp adolygu arbenigol yn 'gyfle euraid' i ddatblygu gwasanaethau i ateb anghenion y boblogaeth, a'r math hwn o gyferbyniad yn union sy'n gwneud i'r Blaid Geidwadol ymddangos mor ffôl y prynhawn yma.

Rydym wedi clywed llawer iawn y prynhawn yma am wasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg: Ysbyty Llwynhelyg, gyda'i huned dialysis arenol newydd a'i buddsoddiad newydd mewn gwasanaethau patholeg; Ysbyty Llwynhelyg, lle y mae recriwtio meddygol wedi dechrau gwella o ganlyniad i'r newidiadau i wasanaethau mamolaeth, gyda thri meddyg ymgynghorol newydd wedi'u recriwtio, y rota meddygon canolradd wedi'i sefydlogi, y rota meddygon iau wedi'i lenwi'n llwyr a safonau hyfforddiant Deoniaeth Cymru yn cael eu cyrraedd; uned newydd boblogaidd o safon uchel o dan arweiniad bydwragedd yn yr ysbyty; uned newydd dibyniaeth fawr i'r newydd-anedig yn Ysbyty Glangwili sy'n bodloni safonau'r coleg brenhinol; canolfan triniaeth ddydd gofal pediatrig yn Ysbyty Llwynhelyg sy'n gweld 300 o blant bob mis, a lle y mae un plentyn yr wythnos, ar gyfartaledd, yn cael ei drosglwyddo yn ystod oriau'r nos i ysbyty Glangwili.

Llywydd, if I had had the time, I would've referred to the £79 million that allowed the creation of Ysbyty Cwm Cynon. It closed Victorian-era hospitals, which were much loved, but far past their relevance to modern medicine, in Aberdare and Mountain Ash. I would've mentioned the £142 million of investment during this Assembly term in Ysbyty Ystrad Fawr, which replaced the Caerphilly district miners and Ystrad Mynach hospitals and other smaller facilities.

The truth is as it always has been, that there is no choice but change in the Welsh NHS. Progressive politicians understand that, difficult as it may be, we have to capture the commitment of people to the NHS in Wales to be part of that improvement. Reactionaries, by contrast, do what this motion so very clearly sets out to do: to settle always for second best, to say to local populations that it may not be good enough for others in other parts of Wales, but it's good enough for you. That's the dividing line in this Chamber. That's what the vote this afternoon will expose, and it will expose it without an ounce of ambiguity.

Llywydd, pe bai gennyf amser, byddwn wedi cyfeirio at y £79 miliwn a wnaeth creu Ysbyty Cwm Cynon yn bosibl. Caeodd ysbytai o'r cyfnod Fictoriaidd, a oedd yn annwyl i lawer, ond yn amherthnasol tu hwnt o ran meddygaeth fodern, yn Aberdâr ac yn Aberpennar. Byddwn wedi crybwyll y £142 miliwn o fuddsoddiad yn ystod tymor y Cynulliad hwn yn Ysbyty Ystrad Fawr, a ddaeth yn lle Ysbyty Dosbarth Glowyr Caerffili ac ysbyty Ystrad Mynach, a chyfleusterau eraill llai o faint.

Fel erioed, y gwir yw nad oes unrhyw ddewis ond newid yn y GIG yng Nghymru. Mae gwleidyddion blaengar yn deall bod yn rhaid i ni sicrhau ymrwymiad pobl i'r GIG yng Nghymru i fod yn rhan o'r gwelliant hwnnw er mor anodd y gallai hynny fod. Mewn cyferbyniad, mae adweithwyr yn gwneud yr hyn y mae'r cynnig hwn yn anelu mor glir i'w wneud: setlo am yr ail orau bob amser, dweud wrth boblogaethau lleol efallai nad yw'n ddigon da i eraill mewn rhannau eraill o Gymru, ond mae'n ddigon da i chi. Dyna'r hyn sy'n ein gwahanu yn y Siambr hon. Dyna beth y bydd y bleidlais y prynhawn yma yn ei ddangos, a bydd yn ei ddangos heb owns o amwysedd.

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on Suzy Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Suzy Davies i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:50 **Suzy Davies** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Dirprwy Lywydd, and thank you to all Members who took part in the debate today, and thank you to you, Minister, for your colourful response, there. Perhaps I should just open by saying that Darren Millar introduced this debate using the words 'unpopular service change'. We would agree with you that not all service change is a bad idea at all; in fact, it can even be unpopular and still for the good. For example, we don't think that you can have a centre of excellence on every street corner, but some of the services that we've been talking about today, Minister, are the sorts of services where the issue of distance is not just a matter of inconvenience. The downgrading of hospitals and services, and the centralisation of A&E, maternity, neonatal and paediatrics in particular are not matters of inconvenience; these are matters that have engendered fear.

Now, I appreciate, of course, that A&E services are perhaps a little misused, which is not entirely unexpected when the minor injuries units are closing around Wales—we've had examples of that today—and also the difficulty in getting GP appointments. I don't think there'll be a Member in this Chamber who hasn't had a complaint from a constituent that they can't get anything like a sensible appointment from their GP, which results, actually, in them just going straight off to A&E, where they don't need to be.

Diolch i chi, Lywydd Dirprwy, diolch i'r holl Aelodau a gymerodd ran yn y ddatl heddiw, a diolch i chi, Weinidog, am eich ymateb lliwgar. Efallai y dylwn agor drwy ddweud bod Darren Millar wedi cyflwyno'r ddatl hon drwy ddefnyddio'r geiriau 'newidiadau amhoblogaidd i wasanaethau'. Byddem yn cytuno â chi nad yw pob newid i wasanaeth yn syniad drwg o gwbl; yn wir, gall fod yn amhoblogaidd a dal i fod o fudd. Er enghraifft, nid ydym yn credu y gallwch gael canolfan ragoriaeth ar bob cornel stryd, ond mae rhai o'r gwasanaethau y buom yn siarad amdanynt heddiw, Weinidog, yn fathau o wasanaethau lle nad yw pellter yn fater o anghyfleustra'n unig. Nid mater o anghyfleustra yw israddio ysbytai a gwasanaethau, a chanoli adrannau damweiniau ac achosion brys, gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau pediatreg yn arbennig; mae'r rhain yn faterion sydd wedi ennyn ofn.

Nawr, rwy'n derbyn, wrth gwrs, efallai fod gwasanaethau damweiniau ac achosion brys wedi cael eu camddefnyddio i raddau, er nad yw hynny'n gwbl annisgwyl pan fo unedau mân anafiadau yn cau o gwmpas Cymru—cawsom enghreifftiau o hynny heddiw—a hefyd yr anhawster i drefnu i weld meddyg teulu. Ni chredaf fod unrhyw Aelod yn y Siambr nad yw wedi cael cwyn gan etholwyr am nad ydynt yn gallu gwneud trefniant synhwyrol i weld eu meddyg teulu, sy'n golygu, mewn gwirionedd, fod llawer ohonynt yn mynd yn syth i adran ddamweiniau ac achosion brys, lle nad oes angen iddynt fod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Of course, we've lost about a fifth of our beds. The step-down services—which are a change, and we're quite interested in looking at change here—that we've seen, certainly in Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, are very hit and miss in terms of their success. So, if you are talking about change, Minister—and, as I said, we're not averse to change—your change must be for the better, and I would say that, if you've got bed-blocking and ambulance queues at hospitals at one end of a patient's treatment and then anything on a sliding scale of abandonment for an individual when they return home because social care has been pared to the bone, then you have to ask yourself whether these changes are for the better.

I understand what you say about Victorian community hospitals. Nobody wants to see people trapped there for weeks on end, but not all our hospitals are that old and, actually, Sandy Mewies, I've been to the four community hospitals in my region that have closed, and three of those were quite modern buildings. While we may argue that people were institutionalised when they were in hospitals of that nature, they were in their communities. What they weren't was being dragged miles away to wards in old district hospitals—

Wrth gwrs, rydym wedi colli tua un rhan o bump o'n gwelyau. Mae'r gwasanaethau cam-i-lawr a welsom—sy'n newid, ac mae gennym ddiddordeb mewn edrych ar newid o'r fath—yn enwedig ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yn amrywio'n fawr o ran eu llywyddiant. Felly, os ydych yn sôn am newid, Weinidog—ac fel y dywedais, nid ydym yn amharod i newid—rhaid i'ch newid fod er gwell, a byddwn yn dweud, os yw blocio gwelyau'n digwydd a chiwiau ambiwlans mewn ysbytai ar un pen i driniaeth y claf a rhyw raddau neu'i gilydd o droi cefn ar yr unigolyn wedyn pan fydd yn dychwelyd adref am fod gofal cymdeithasol wedi'i dorri at yr asgwrn, yna rhaid i chi ofyn i chi'ch hun a yw'r newidiadau hyn er gwell.

Rwy'n deall yr hyn a ddywedwch am ysbytai cymunedol Fictoriaidd. Nid oes neb am weld pobl yn gaeth yno am wythnosau bwygilydd, ond nid yw pob un o'n hysbytai mor hen â hynny ac mewn gwirionedd, Sandy Mewies, rwyf wedi bod yn y pedwar ysbyty cymunedol yn fy rhanbarth sydd wedi cau, ac roedd tair o'r rheini yn adeiladau eithaf modern. Er y gallwn ddadlau bod pobl wedi cael eu sefydliadu pan oeddent mewn ysbytai o'r fath, roeddent yn eu cymunedau. Yn sicr ni chaent eu llusgo filltiroedd i ffwrdd i wardiau mewn hen ysbytai dosbarth—

15:53 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wneuch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:53 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Once I've finished my sentence. They're not being taken to big district general hospitals, backfilling wards where acute services have been removed—services that are better delivered in district hospitals. Yes, I'll take your intervention.

Ar ôl i mi orffen fy mrawddeg. Nid ydynt yn cael eu cludo i ysbytai cyffredinol dosbarth mawr, gan ôl-lenwi wardiau lle y mae gwasanaethau aciwt wedi cael eu colli— gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n well mewn ysbytai dosbarth. Gwnaf, fe gymeraf eich ymyriad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:53 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are talking about a very old hospital, by the way, a very old building indeed, in Flint. It used to be owned by one of Cortaulds. There is a new community hospital less than five miles away, down the road, where there is a minor injuries unit and beds for people, in Flint.

Rydym yn sôn am ysbyty hen iawn, gyda llaw, adeilad hen iawn yn wir, yn y Fflint. Roedd yn arfer bod yn eiddo i un o'r Cortaulds. Mae ysbyty cymuned newydd lai na phum milltir i ffwrdd, i lawr y lôn, lle y mae uned mân anafiadau a gwelyau i bobl, yn y Fflint.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:53 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as I said, I was talking about my region and, certainly, what's happening there is people are being piled into Singleton and Baglan, which is a badly organised private finance initiative-purchased hospital, in order to fill, as I say, those wards that should actually be having acute services delivered in them.

Wel, fel y dywedais, roeddwn yn sôn am fy rhanbarth ac yn sicr, yr hyn sy'n digwydd yno yw bod pobl yn cael eu pentyrru i mewn i Singleton a Baglan, sy'n ysbyty a brynwyd gan fenter cyllid preifat wedi'i threfnu'n wael, er mwyn llenwi'r wardiau a ddylai fod yn darparu gwasanaethau aciwt mewn gwirionedd, fel y dywedais.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, as far as I'm concerned, those are not community-based services, and I heard Aled Roberts's arguments on that. He also made very good arguments regarding why it's important that we have consultancy-led services. If you're in any doubt, Minister—and I don't see how you can be, particularly after listening to Darren, Paul and Aled today—then, perhaps we should be reconsidering who our health Minister is.

Nawr, o'm rhan i, nid gwasanaethau cymunedol yw'r rheini, a chlywais ddadleuon Aled Roberts ar hynny. Gwnaeth ddadleuon da iawn hefyd ynglŷn â pham ei bod yn bwysig bod gennym wasanaethau dan arweiniad meddygon ymgynghorol. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, Weinidog—ac nid wyf yn gweld sut y gallai fod, yn enwedig ar ôl gwrando ar Darren, Paul ac Aled heddiw—yna, efallai y dylem fod yn ailystyried pwy yw ein Gweinidog iechyd.

Now, we talked also about planning, and I welcome what Elin Jones said on this, because even though we're talking about the planning of buildings, the planning of the workforce is just as important. I think, actually, if there was a different plan, we wouldn't end up with so many wards in our hospitals with scanners in them, but actually no personnel to operate them. There are 400 junior doctor vacancies in Wales at the moment, and I remember the First Minister in the past saying that nobody wanted to work in the English NHS. Well, if they're so disillusioned with the English NHS, why aren't they coming here to work in our Welsh hospitals? I don't accept entirely that it's because all our major services aren't wrapped up in one enormous superhospital with an endless stream of patients to practise on. That endless stream of patients is there in the communities, and that is actually where they need the services—at least somewhere near where they live.

The bottom line on this, I think, though, Minister and fellow Assembly Members, is that while patients express a level of satisfaction with the very front-line services—the care that they get face to face—there is a growing lack of confidence about planning, waiting times, travelling times and over-centralisation. This is unsurprising when reminded of the First Minister and the health Minister's broken promises that Janet Finch-Saunders was talking about, and particularly the holding to account of local health boards. Janet, I think you concentrated on this as well. But, local health boards are being asked to perform their duties on a very, very small budget, and while we as Assembly Members will hold you to account, Minister, if you won't hold the LHBs to account, then it is certainly time to have independent NHS health commissioners to do that for you.

Nawr, fe siaradon ni hefyd am gynllunio, ac rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd Elin Jones ar hyn, oherwydd, er ein bod yn sôn am gynllunio adeiladau, mae cynllunio'r gweithlu yr un mor bwysig. Mewn gwirionedd, pe bai yna gynllun gwahanol, nid wyf yn credu y byddai gennym gymaint o wardiau yn ein hysbytai â sganwyr ynddynt, ond heb bersonél i'w gweithredu. Mae 400 o swyddi gwag i feddygon iau yng Nghymru ar hyn o bryd, ac rwy'n cofio'r Prif Weinidog yn dweud o'r blaen nad oes neb eisiau gweithio yn y GIG yn Lloegr. Wel, os ydynt wedi'u siomi cymaint yn y GIG yn Lloegr, pam nad ydynt yn dod yma i weithio yn ein hysbytai yng Nghymru? Nid wyf yn derbyn yn llwyr nad ydynt yn gwneud hynny am nad yw pob un o'n prif wasanaethau wedi'u cynnwys mewn un uwchysbyty enfawr gyda llif diddiwedd o gleifion i ymarfer arnynt. Mae'r llif diddiwedd o gleifion yno yn y cymunedau, a dyna lle y maent angen y gwasanaethau mewn gwirionedd—o leiaf yn rhywle sy'n agos i'w cartrefi.

Yn y bôn, fodd bynnag, Weinidog a chyd-Aelodau'r Cynulliad, er bod cleifion yn mynegi lefel o foddhad gyda'r gwasanaethau rheng flaen—y gofal a gânt wyneb yn wyneb—mae diffyg hyder cynyddol ynglŷn â chynllunio, amseroedd aros, amser teithio a gor-ganoli. Nid yw hyn yn syndod pan gawn ein hatgoffa o'r addewidion y mae'r Prif Weinidog a'r Gweinidog iechyd wedi eu torri, y soniodd Janet Finch-Saunders amdanynt, ac yn benodol, y broses o ddwyn y byrddau iechyd lleol i gyfrif. Janet, rwy'n meddwl eich bod wedi canolbwyntio ar hyn hefyd. Ond mae gofyn i fyrddau iechyd lleol gyflawni eu dyletswyddau ar gyllideb fach iawn, ac er y byddwn ni fel Aelodau'r Cynulliad yn eich dwyn i gyfrif, Weinidog, os nad ydych chi'n dwyn y Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif, yna mae'n sicr yn bryd cael comisiynwyr iechyd GIG annibynnol i wneud hynny ar eich rhan.

15:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Rwy'n gohirio pleidleisio dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cynllun Economaidd Hirdymor

Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

4. Welsh Conservatives Debate: Long-term Economic Plan

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.

15:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 is the second Welsh Conservatives debate, and I call on William Graham to move the motion.

Eitem 4 yw ail ddaol y Ceidwadwyr Cymreig, a galwaf ar William Graham i gynig y cynnig.

Cynnig NDM5752 Paul Davies

Motion NDM5752 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn credu bod Cymru wedi elwa o'r cynllun economaidd hirdymor a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ac yn cydnabod bod dyfodol economaidd a chymdeithasol Cymru yn dibynnu ar barhad y cynllun hwnnw.

Believes that Wales has benefitted from the long-term economic plan delivered by the UK Government and recognises that Wales's economic and social future depends on that plan continuing.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 15:56 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Deputy Presiding Officer. For those who might just be unfamiliar with our long-term economic plan, may I summarise some of its key aims? Promoting business growth and creating more jobs; protect and improve the national health service; delivering the best school and skills for young people; reducing the deficit and improving our infrastructure to extend vocational and social mobility; and, of course, cutting income taxes. It is our plan about getting the economy growing, a plan about cutting our deficit and getting our debts under control, a plan about getting the country back to work and a plan about rebalancing our economy through targeted support for manufacturing, technology, innovation and research.
- Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'r rhai a allai fod yn anghyfarwydd â'n cynllun economaidd hirdymor, a gaf fi grynhoi rhai o'i nodau allweddol? Hybu twf busnes a chreu mwy o swyddi; diogelu a gwella'r gwasanaeth iechyd gwladol; darparu'r ysgolion a'r sgiliau gorau i bobl ifanc; lleihau'r diffyg a gwella ein seilwaith i ymestyn symudedd galwedigaethol a chymdeithasol; ac wrth gwrs, torri trethi incwm. Dyna yw ein cynllun i gael yr economi i dyfu, cynllun sy'n ymwneud â thorri ein diffyg a chael ein dyledion dan reolaeth, cynllun i gael y wlad yn ôl mewn gwaith a chynllun i ail-gydbwysu ein heconomi drwy gymorth wedi'i dargedu ar gyfer gweithgynhyrchu, technoleg, arloesedd ac ymchwil.
- 15:57 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Will the Member give way?
- A wnaiff yr Aelod ildio?
- 15:57 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will.
- Gwnaf.
- 15:57 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You came into Government in 2010 saying you'd eliminate the deficit by this year. It is over half of what it was. Why should we trust you now?
- Daethoch i rym yn 2010 gan ddweud y byddech yn dileu'r diffyg erbyn eleni. Mae'n fwy na hanner yr hyn a oedd. Pam y dylem ymddiried ynoch yn awr?
- 15:57 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I would have thought that that was an indication of why you should: half of it is gone and the next half will go in the next five years.
- Byddwn wedi meddwl bod hynny'n arwydd o pam y dylech ymddiried ynom: mae ei hanner wedi mynd, a bydd yr hanner nesaf yn mynd dros y pum mlynedd nesaf.
- We acknowledge that the task of reviving the economy is not completed. Our plans are, in fact, a job in progress. Let's recall that no Labour Government ever left office with unemployment lower than when it was elected. This is why we need to remain steadfast to the policies that are creating employment opportunities and creating economic growth.
- Rydym yn cydnabod nad yw'r dasg o adfywio'r economi wedi ei chwblhau. Mewn gwirionedd, gwaith ar y gweill yw ein cynlluniau. Gadewch i ni gofio nad oes unrhyw Lywodraeth Lafur erioed wedi gadael gyda diweithdra'n is na phan gafodd ei hethol. Dyma pam y mae angen i ni llynu'n gadarn at y polisiau sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth ac yn creu twf economaidd.
- We seek to ensure that the International Monetary Fund forecast that the United Kingdom will have one of the fastest-growing major economies in the world for 2015 and 2016 extends well beyond those years. We would put this sustainable growth in jeopardy by abandoning the Conservative-led United Kingdom Government policies. The Institute for Fiscal Studies have indicated that Labour's tax plans will raise very little money, but will inhibit aspiration. A new 10p starting rate of tax would be worth just 50p a week, and increasing the top rate of tax from 45 per cent to 50 per cent will net just £100 million. Their tax avoidance targets are highly questionable, and the mansion tax proposal highlights their failure to understand United Kingdom demographics.
- Rydym yn ceisio sicrhau bod rhagolwg y Gronfa Ariannol Ryngwladol mai'r Deyrnas Unedig a fydd ag un o'r economïau mawr sy'n tyfu gyflymaf yn y byd yn 2015 a 2016 yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r blynnyddoedd hynny. Byddem yn peryglu'r twf cynaliadwy hwn wrth roi'r gorau i bolisiau Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi nodi mai ychydig iawn o arian y bydd cynlluniau treth Llafur yn ei godi, ond byddant yn cyfyngu ar ddyhead. Ni fyddai cyfradd gychwynnol newydd o 10c o dreth yn werth mwy na 50c yr wythnos, ac ni fydd cynyddu cyfradd uchaf y dreth o 45 y cant i 50 y cant ond yn creu £100 miliwn yn unig. Mae eu targedau ar osgoi treth yn amheus iawn, ac mae'r cynnig i sefydlu treth plastai yn tynnu sylw at eu methiant i ddeall demograffeg y Deyrnas Unedig.

Welsh Conservatives believe that growing the economy is a better option than borrowing. Labour's borrowing created the biggest budget deficit in our peacetime history. It is alarming that the only proposal Labour have made that is 100% certain, though it may not be set in stone, is their commitment to more borrowing.

You cannot have a strong NHS without a strong economy creating the wealth, so that we can provide efficient and effective services. A key element of a strong economy is tackling the deficit and the Conservatives have reduced that deficit by half. The strength of the economic revival is such that, since 2010, an average of 1,000 jobs have been created every day, the majority of these being within the private sector, reducing unemployment to the lowest level since 2008, increasing tax revenue, creating the wealth for service provision and reducing the budget deficit.

Putting Labour's commitment for more borrowing to one side, let's contrast how the economy has been turned around since 2010 and how this revival has delivered for Wales. There are 22,400 more businesses in Wales than in 2010. This is a clear indication of a reviving economy, increasing employment opportunities and greater financial security for more and more families. It provides the increased income necessary to improve the NHS, education and public services. It allows us to tackle the deficit and reduce the burden of debt the last Labour Government placed upon our children and our grandchildren.

Almost 1.2 million people in Wales have had a tax cut through the increase in their personal tax allowance; 144,000 people have been taken out of income tax altogether. Conservatives understand that, by reducing the levels of tax people pay, we increase the amount of money they earn in their take-home pay, giving them more control over how they spend their income.

Since 2010, private sector jobs in Wales have grown by 70,400, with Cardiff, Swansea, Powys and Conwy the largest private sector growth areas, illustrating that the United Kingdom's economic revival is being realised throughout Wales.

At the last election, the unemployment rate in Wales was 9 per cent—currently 6 per cent. So, we've seen unemployment fall by 8,000 over the last year. The number of people in employment has risen by 52,000. Welsh Conservatives understand the need to address the issue of the number of our young people who remain unemployed. It is not enough that 5 million under-30s have gained an average of £70 a month from being taken out of income tax.

Youth unemployment rose by 45 per cent under Labour, increasing from 650,000 to 940,000 by April 2010. The reviving economy has seen a 7 per cent fall in the number of part-time workers in the United Kingdom seeking additional hours, and the number of part-time workers who want full-time jobs fell by 8 per cent.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod tyfu economi yn ddewis gwell na benthycu. Creodd benthycu Llafur y diffyg mwyaf yn y gyllideb a welwyd mewn cyfnod o heddwch. Mae'n frawychus mai'r unig argymhelliad y mae Llafur wedi'i wneud sy'n sicr gant y cant, er nad yw wedi'i gerfio ar garreg, yw eu hymrwymiad i fenthycu mwy.

Ni allwch gael GIG cryf heb economi gref i greu'r cyfoeth i ni allu darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Elfen allweddol o economi gref yw mynd i'r afael â'r diffyg ac mae'r Ceidwadwyr wedi torri'r diffyg yn ei hanner. Mae cryfder yr adfywiad economaidd yn golygu bod cyfartaledd o 1,000 o swyddi y dydd wedi cael eu creu ers 2010 gyda'r mwyaf o'r rhain yn y sector preifat, gan leihau diweithdra i'r lefel isaf ers 2008, cynyddu referniw treth, creu'r cyfoeth ar gyfer darparu gwasanaethau a lleihau'r diffyg yn y gyllideb.

Gan roi ymrwymiad Llafur i fenthycu mwy ar y naill ochr, gadewch i ni gyferbynnu sut y mae'r economi wedi cael ei newid yn llwyr ers 2010 a sut y mae'r adfywiad wedi cyflawni dros Gymru. Mae 22,400 yn fwy o fusnesau yng Nghymru nag yn 2010. Dyma arwydd dir o economi'n adfywio, gan gynyddu cyfleoedd cyflogaeth a sicrhau mwy o ddiogelwch ariannol i fwy a mwy o deuluoedd. Mae'n darparu'r incwm cynyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwella'r GIG, addysg a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n ein galluogi i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol a lleihau baich y ddyled a osododd y Llywodraeth Lafur ddiwethaf ar ein plant a'n hwyrion.

Mae bron i 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru wedi cael toriad treth drwy'r cynnydd yn eu lwfans treth personol; mae 144,000 o bobl wedi cael eu harbed rhag talu unrhyw dreth incwm. Drwy ostwng lefelau'r dreth y mae pobl yn ei thalu, mae'r Ceidwadwyr yn deall ein bod yn cynyddu faint o gyflog mynd adref y mae pobl yn ei ennill, gan roi mwy o reolaeth iddynt ar sut y maent yn gwario eu hincwm.

Ers 2010, mae nifer y swyddi sector preifat yng Nghymru wedi cynyddu 70,400, gyda Chaerdydd, Abertawe, Powys a Chonwy yn ardaloedd twf mwyaf y sector preifat, gan ddangos bod adfywiad economaidd y Deyrnas Unedig yn cael ei wireddu ledled Cymru.

Yn yr etholiad diwethaf, roedd y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn 9 y cant—mae'n 6 y cant ar hyn o bryd. Felly, rydym wedi gweld gostyngiad o 8,000 yn nifer y bobl ddi-waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer y bobl mewn gwaith wedi codi 52,000. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn deall yr angen i fynd i'r afael â'r broblem fod nifer o'n pobl ifanc yn parhau i fod yn ddi-waith. Nid yw'n ddigon fod 5 miliwn o rai o dan 30 oed £70 y mis ar eu hennill, ar gyfartaledd, o beidio â gorfod talu treth incwm.

Cododd lefelau diweithdra ymysg pobl ifanc 45 y cant dan Lafur, gan gynyddu o 650,000 i 940,000 erbyn mis Ebrill 2010. Mae'r economi sy'n adfywio wedi gweld gostyngiad o 7 y cant yn nifer y gweithwyr rhan-amser yn y Deyrnas Unedig sy'n chwilio am oriau ychwanegol, ac mae nifer y gweithwyr rhan-amser sydd eisiau swyddi amser llawn wedi gostwng 8 y cant.

There are now around 90,000 fewer adults in part-time learning than there were 10 years ago in Wales. The budget for part-time education colleges is set to be cut by 50 per cent. This is short-sighted, largely to protect funding for 16 to 19-year-olds, and reduces future opportunities for continued vocational training and academic qualifications. It must be noted that women make up 63 per cent of the part-time learner population over the age of 25 in Wales's colleges. But, with a 50 per cent reduction in funding for part-time adult learning, Wales will have to brace itself for a workforce that has lower skills, and lower skills reap lower wages, affecting health and wellbeing, together with a negative impact on the nation's economy.

In 1995, Wales had just under 85 per cent of the UK GVA. Despite the Welsh Government spending £4 billion of structural funds, by 2014, this had fallen to 73 per cent of the UK average, qualifying west Wales and the east Wales Valleys for a further round of EU funding, as they remain among the poorest communities within the European Union.

A clear indicator of the success of policies is the response from those people investing their capital and creating the wealth we need to increase employment opportunities and to fund improvements in our services.

In April 2015, the Prime Minister published the Conservatives' small business manifesto, and a letter was published from 5,000 small business supporting the continuation of our plan for the economy. A HWB Cymru survey in April highlighted that 44 per cent of Welsh businesses interviewed planned to support the Conservatives at the general election, with only 8 per cent offering support for Labour. In First Minister's questions on 21 April, our group leader, Andrew Davies, challenged the First Minister to name one Welsh business that had publicly expressed their support for Welsh Labour's economic record—well, we're still waiting for that name.

Day by day, more and more businesses are expressing their support for, and their fears of a change in, our current economic policy. We've begun to halt the decline of the high street, restoring confidence of retailers who've responded to the reviving economy with increased investment and job creation.

Consumer confidence has resulted in the twenty-fourth consecutive month of increased sales of increased retail sales, the longest year on year growth since 2008. Welsh Conservatives support this high street revival by exempting small businesses with a rateable value up to £12,000 and giving tapered relief to those with a rateable value up to £15,000.

Erbyn hyn mae tua 90,000 yn llai o oedolion mewn addysg ran-amser na 10 mlynedd yn ôl yng Nghymru. Mae'r gyllideb ar gyfer colegau addysg rhan-amser yn mynd i gael ei thorri 50 y cant. Mae hyn yn annoeth, yn bennaf er mwyn diogelu cyllid ar gyfer rhai 16 i 19 oed, ac mae'n lleihau cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol parhaus a chymwysterau academaidd. Rhaid nodi mai menywod yw 63 y cant o'r boblogaeth ddysgwyr rhan-amser dros 25 oed yng ngholegau Cymru. Ond gyda gostyngiad o 50 y cant yn y cyllid ar gyfer dysgu rhan-amser i oedolion, bydd yn rhaid i Gymru wynebu'r ffaith y bydd ganddi weithlu heb gymaint o sgiliau, ac mae llai o sgiliau yn arwain at gyflogau is, sy'n effeithio ar iechyd a lles, ynghyd ag effaith negyddol ar economi'r genedl.

Yn 1995, roedd gwerth ychwanegol gros Cymru ychydig o dan 85 y cant o werth ychwanegol gros y DU. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwario £4 biliwn o gronfeydd strwythurol, erbyn 2014, roedd y gwerth ychwanegol gros wedi gostwng i 73 y cant o gyfartaledd y DU, gan wneud gorllewin Cymru a Chymoedd dwyrain Cymru yn gymwys ar gyfer cylch pellach o arian yr UE, gan eu bod yn parhau i fod ymhlith y cymunedau tlotaf yn yr Undeb Ewropeaidd.

Arwydd clir o lwyddiant polisiau yw'r ymateb gan y bobl sy'n buddsoddi eu cyfalaf ac yn creu'r cyfoeth sydd ei angen arnom i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac i ariannu gwelliannau yn ein gwasanaethau.

Ym mis Ebrill 2015, cyhoeddodd y Prif Weinidog fanifffesto'r Ceidwadwyr i fusnesau bach, a chyhoeddwyd llythyr gan 5,000 o fusnesau bach yn cefnogi parhad ein cynllun ar gyfer yr economi. Amlygodd arolwg HWB Cymru ym mis Ebrill fod 44 y cant o fusnesau Cymru a gafodd eu cyfworld yn bwriadu cefnogi'r Ceidwadwyr yn yr etholiad cyffredinol, gydag 8 y cant yn unig yn cynnig cefnogaeth i Lafur. Mewn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 21 Ebrill, heriodd Andrew Davies, arweinydd ein grŵp, y Prif Weinidog yma i enwi un busnes yng Nghymru a oedd wedi mynegi eu cefnogaeth yn gyhoeddus i record Llafur Cymru ar yr economi—wel, rydym yn dal i ddisgwyl am yr enw hwnnw.

O ddydd i ddydd, mae mwy a mwy o fusnesau yn mynegi eu cefnogaeth i'n polisi economaidd cyfredol a mwy a mwy o fusnesau yn mynegi eu hofnau y caiff ei newid. Rydym wedi dechrau atal dirywiad y stryd fawr, gan adfer hyder y manwerthwyr sydd wedi ymateb i'r adfywiad yn yr economi drwy fuddsoddi mwy a chreu mwy o swyddi.

Mae hyder defnyddwyr wedi arwain at y pedwerydd mis ar hugain yn olynol o gynnydd mewn gwerthiant manwerthu, y twf mwyaf o un flwyddyn i'r llall ers 2008. Mae Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'r adfywiad ar y stryd fawr drwy eithrio busnesau bach â gwerth ardrethol hyd at £12,000 a rhoi rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i fusnesau â gwerth ardrethol o hyd at £15,000.

We understand that SMEs are the lifeblood of the Welsh economy, accounting for some 99 per cent of all the businesses in Wales. These are the businesses who we seek to support to flourish, as our policies allow continued economic growth. We seek to promote the living standards of those employed by these companies. I'll reiterate the commitment made by our group leader, Andrew Davies, to the Welsh Conservative conference in February:

'We're going to empower private businesses to deliver the living wage, we're going to deliver it in the public sector, so that in 2021 we can truthfully say that Wales is the first country in the United Kingdom to be the living wage country'.

Everything depends on a strong economy. That's why, since 2010, Conservatives have been working through a plan to secure the recovery and a brighter future for us all and for all our families. That's why we must not place our current economic growth in jeopardy.

Rydym yn deall mai busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru, gan mai dyma yw oddeutu 99 y cant o holl fusnesau Cymru. Dyma'r busnesau yr ydym am eu cynorthwyo i ffynnu, gan fod ein polisiau yn caniatáu twf economaidd parhaus. Anelwn i hyrwyddo safonau byw y rhai a gyflogir gan y cwmnïau hyn. Rwyf am ailadrodd yr ymrwymiad a wnaed gan ein harweinydd grŵp, Andrew Davies, i gynhadledd y Ceidwadwyr Cymreig ym mis Chwefror:

'Rydym yn mynd i rymuso busnesau preifat i gyflwyno'r cyflog byw, rydym yn mynd i'w ddarparu yn y sector cyhoeddus, er mwyn inni allu dweud yn onest yn 2021 mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i fod yn wlad cyflog byw'.

Mae popeth yn dibynnu ar economi gref. Dyna pam y mae'r Ceidwadwyr wedi bod yn gweithio ers 2010 drwy gynllun i sicrhau adferiad a dyfodol gwell i ni i gyd ac i'n holl deuluoedd. Dyna pam y mae'n rhaid i ni beidio â rhoi ein twf economaidd presennol yn y fantol.

16:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the amendment to the motion. I call on William Powell to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu y byddai dyfodol economaidd a chymdeithasol Cymru yn cael budd o Lywodraeth y DU sy'n cydbwysu'r gyllideb mewn ffordd deg, drwy sicrhau bod y bobl fwyaf cyfoethog yn talu eu cyfran ac yn mynd i'r afael ag osgoi trethi, gan ein galluogi ni i fenthycu ar gyfer buddsoddi yn ein heconomi a'n seilwaith, yn hytrach na pheryglu sefydlogrwydd economaidd drwy fenthycu neu dorri gormod.

Believes that Wales's economic and social future would benefit from a UK Government that balances the budget in a fair way, by ensuring the wealthiest pay their share and bearing down on tax avoidance, enabling us to borrow for investment in our economy and infrastructure, rather than jeopardising economic stability by borrowing or cutting too much.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

16:04

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I rise to move amendment 1 in the name of Aled Roberts, on behalf of the Welsh Liberal Democrat group. The UK economy is now the fastest-growing economy in the G7, growing faster than the United States of America, Japan or Germany, to name just a few members. The Liberal Democrats in coalition have helped businesses to create over 1 million jobs across the UK over recent years, taking employment to record levels. We've created in excess of 2 million skilled apprenticeships for people, allowing them to earn as well as learn at the same time. Just last year, I spent a very enjoyable day in the company of Thomas Woodward, an RWE turbine apprentice in Llanidloes, who told me just how excited he was to have this opportunity, especially in his native Montgomeryshire.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n codi i gynnig gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Economi'r DU bellach yw'r economi sy'n tyfu gyflymaf yn y G7, gan dyfu'n gyflymach nag Unol Daleithiau America, Japan neu'r Almaen, i enwi rhai aelodau'n unig. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y glymblaid wedi helpu busnesau i greu dros 1 filiwn o swyddi ledled y DU dros y blynyddoedd diwethaf, gan godi lefelau cyflogaeth yn uwch nag erioed. Rydym wedi creu mwy na 2 filiwn o brentisiaethau creffus i bobl, gan eu galluogi i ennill cyflog a dysgu ar yr un pryd. Y llynedd, treuliais ddiwrnod pleruserus iawn yng nghwmni Thomas Woodward, prentis tyrbîn RWE yn Llanidloes, a ddywedodd wrthyf pa mor gyffrous yr oedd i gael y cyfle hwn, yn enwedig yn Sir Drefaldwyn, ei sir enedigol.

We've also invested in key industries, such as manufacturing, so that we can build a high-tech economy. In addition, we've invested in green technology, a huge expansion in renewables, and of course the creation of the Green Investment Bank, which has backed over 45 green infrastructure projects, committing some £1.8 billion to the UK's green economy into transactions worth £6.9 billion.

In terms of taxation, we've made sure that the first £10,500 earned by all workers is free of tax, whether they are high, low or middle-ranking earners. Wales's lowest paid have already been helped significantly—144,000 people in Wales now pay no income tax compared with 2010 and 1.2 million people now pay less income tax than was the case under the previous administration. Given the opportunity, we would go further than this, as we are committed to a minimum tax threshold of £12,500, ensuring that someone on the national minimum wage pays no income tax whatsoever.

Over the next five years, our priority would be to strengthen our economy further by eliminating the remaining £27 billion deficit on the structural current budget by 2017-18 through a combination of £12 billion in departmental savings, £5 billion in terms of tax rises, £3 billion in terms of welfare savings, and £7 billion in terms of bearing down further on the tax avoidance agenda. We believe in stimulating economic growth by investing in growing sectors, such as advanced manufacturing. These can provide high-skilled sustainable jobs, open up the supply chain to more small and medium-sized businesses and support firms that are bringing activity back to Britain. To create a balanced economy with strengths in every part of the UK, Britain needs a highly skilled workforce and flexible business support and finance. Nowhere is this more vital than here in Wales. In addition to this, we will double innovation spending in our economy, to make the UK a world leader in advanced manufacturing, clean technology, and digital industries. Such skills would be absolutely critical to the successful delivery of the iconic Swansea bay lagoon project. We would improve access to finance for businesses and consumers by making the banking sector more competitive and also by supporting alternative financial models, including the co-operative bank route.

We've also done our utmost to promote women within the workplace and to do so from the bottom up. Thanks to Liberal Democrat female parliamentarians, such as Jenny Willott and Jo Swinson, we've been able to make real progress in terms of the number of women on boards in our top companies. It was 11 per cent when the coalition was formed in 2010, and now we're not far shy of our target of 25 per cent. We're also proud of the fact that, today, there are no FTSE 100 companies with an all-male board. There are more women in work than ever before and, crucially, the gender pay gap for full-time workers under the age of 40 is now virtually non-existent.

Rydym wedi buddsoddi hefyd mewn diwydiannau allweddol, megis gweithgynhyrchu, er mwyn i ni allu adeiladu economi uwch-dechnoleg. Yn ogystal, rydym wedi buddsoddi mewn technoleg werdd, wedi sicrhau cynnydd mawr mewn ynni adnewyddadwy, a chreu'r Banc Buddsoddi Gwyrdd wrth gwrs, sydd wedi cefnogi dros 45 o brosiectau seilwaith gwyrdd, gan ymrwymo tua £1.8 biliwn tuag at economi werdd y DU mewn trafodiadau gwerth £6.9 biliwn.

O ran trethi, rydym wedi gwneud yn siŵr fod y £10,500 cyntaf a enillir gan bob gweithiwr yn ddi-dreth, boed ar gyflogau uchel, isel neu ganolig. Mae'r rhai sy'n cael y cyflogau isaf yng Nghymru eisoes wedi cael eu helpu'n sylweddol—nid yw 144,000 o bobl Cymru bellach yn talu treth incwm o gwbl o gymharu â 2010 ac mae 1.2 miliwn o bobl bellach yn talu llai o dreth incwm nag o dan y weinyddiaeth flaenorol. O gael y cyfle, byddem yn mynd ymhellach na hyn, gan ein bod wedi ymrwymo i drothwy treth isaf o £12,500, gan sicrhau na fydd unrhyw un sydd ar yr isafswm cyflog cenedlaethol yn talu treth incwm o gwbl.

Dros y pum mlynedd nesaf, ein blaenoriaeth fydd cryfhau ein heconomi ymhellach drwy ddileu'r diffyg o £27 biliwn sy'n weddill ar y gyllideb strwythurol gyfredol erbyn 2017-18 drwy gyfuniad o £12 biliwn mewn arbedion adrannol, £5 biliwn drwy godi trethi, £3 biliwn drwy arbedion lles a £7 biliwn o wasgu pellach ar yr agenda osgoi treth. Rydym yn credu mewn ysgogi twf economaidd drwy fuddsoddi mewn sectorau sy'n tyfu, fel gweithgynhyrchu uwch. Gall y rhain ddarparu swyddi sgil uchel cynaliadwy, agor y gadwyn gyflenwi i fwy o fusnesau bach a chanolig a chynorthwyo cwmnïau sy'n dod â gweithgarwch yn ôl i Brydain. I greu economi gytbwys gyda chryfderau ym mhob rhan o'r DU, mae Prydain angen gweithlu sgil uchel a chymorth a chyllid busnes hyblyg. Mae hyn i'w weld ar ei glir iaf yma yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, byddwn yn dyblu gwariant ar arloesedd yn ein heconomi, er mwyn gwneud y DU yn arweinydd byd mewn gweithgynhyrchu uwch, technoleg lân, a diwydiannau digidol. Byddai sgiliau o'r fath yn gwbl hanfodol i lwyddiant wrth gyflwyno prosiect eiconig morlyn bae Abertawe. Byddem yn gwella mynediad at gyllid i fusnesau a defnyddwyr drwy wneud y sector bancio yn fwy cystadleuol a hefyd drwy gefnogi modelau ariannol eraill, gan gynnwys llwybr y banc cydweithredol.

Rydym hefyd wedi gwneud ein gorau glas i hyrwyddo menywod yn y gweithle ac i wneud hynny o'r gwaelod i fyny. Diolch i seneddswyr benywaidd y Democratiaid Rhyddfrydol, fel Jenny Willott a Jo Swinson, rydym wedi gallu gwneud cynnydd gwirioneddol o ran nifer y menywod ar fyrddau yn y cwmnïau sydd ar y brig. Roedd yn 11 y cant pan ffurfiwyd y glymblaid yn 2010, ac yn awr nid ydym yn bell o'n targed o 25 y cant. Rydym hefyd yn falch o'r ffaith nad oes bwrdd unrhyw un o gan cwmni'r FTSE heb gynrychiolaeth fenywaidd o gwbl. Mae mwy o fenywod mewn gwaith nag erioed o'r blaen ac yn hollbwysig, mae'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau ymhlith gweithwyr llawn amser o dan 40 oed bellach wedi ei ddileu bron yn llwyr.

Let us not forget that, in 2010, the new incoming UK Government inherited a record £100 billion deficit. History will recognise ours as a responsible Government with responsible plans. Given the opportunity, my party will step up once again to the plate, and will do so in the national interest.

Gadewch i ni beidio ag anghofio bod Llywodraeth newydd y DU yn 2010 wedi etifeddu diffyg o £100 biliwn, diffyg uwch nag erioed o'r blaen. Bydd hanes yn cofio ein Llywodraeth ni fel un gyfrifol gyda chynlluniau cyfrifol. O gael y cyfle, bydd fy mhlaid yn ymateb i'r her unwaith eto, a bydd yn gwneud hynny er budd cenedlaethol.

16:09 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In 2010, Labour left a legacy of financial meltdown and social breakdown. Three quarters of a million people had lost their jobs in the recession, nearly 1.5 million people had been on out-of-work benefits for nine of the previous 10 years, and more than 2.5 million people were on sickness and disability benefits, 1 million of them for 10 years or more. Welfare bills spiralled out of control, rising twice as much as average earnings.

Yn 2010, gadawodd y Blaid Lafur etifeddiaeth o fethiant ariannol a chwalfa gymdeithasol. Roedd tri chwarter miliwn o bobl wedi colli eu swyddi yn y dirwasgiad, bron i 1.5 miliwn o bobl wedi bod ar fudd-daliadau diweithdra am naw o'r 10 mlynedd flaenorol, a mwy na 2.5 miliwn o bobl ar fudd-daliadau salwch ac anabledd, gydag 1 filiwn ohonynt am 10 mlynedd neu fwy. Roedd biliau lles wedi chwyddo y tu hwnt i reolaeth, gan godi ddwywaith cymaint ag enillion cyfartalog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

For years, we had a welfare system that kept people in poverty. The benefits system was broken, trapping the very people it was designed to help into the cycles of worklessness and welfare dependency. As a result—

Am flynyddoedd, roedd gennym system les a gadwai bobl mewn tlodi. Roedd y system fudd-daliadau wedi torri, gan gaethiwo'r union bobl y cafodd ei chynllunio i'w helpu mewn cylchoedd o ddiweithdra a dibyniaeth ar les. O ganlyniad—

16:10 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:10 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Go on, then.

Ewch ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:10 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Member explain how taking £31 million away from the most poor and vulnerable people in Blaenau Gwent helps eradicate poverty?

A wnaiff yr Aelod egluro sut y mae cymryd £31 miliwn gan y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent yn helpu i ddileu tlodi?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:10 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the thing is, Blaenau Gwent is controlled by the Labour Government here. It is not London that has taken the money; it is here; your First Minister. So, talk to him. He's the one giving money for the poor—. Twenty million pounds was given for the bedroom subsidy and this Government used it somewhere else. So, be ashamed of it.

Wel, y peth yw, mae Blaenau Gwent yn cael ei reoli gan y Llywodraeth Lafur yma. Nid Llundain sydd wedi cymryd yr arian; y fan hon sydd wedi gwneud hynny; eich Prif Weinidog. Felly, siaradwch gydag ef. Ef yw'r un sy'n rhoi arian ar gyfer y tlawd—. Rhoddwyd ugain miliwn o bunnoedd tuag at y cymhorthdal ystafell wely ac mae'r Llywodraeth hon wedi ei ddefnyddio yn rhywle arall. Felly, dylai fod gennych gywilydd o hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Welfare reform is about transforming the life chances and outcomes of those on benefit and restoring fiscal stability. The Welsh Government's tackling poverty action plan stresses the importance of reducing the number of workless households, as work is the best means out of poverty. So, it is good to see that employment is up in Wales by 52,000 since 2010. That means more families benefitting from the security and stability of a pay package each month.

Mae diwygio lles yn ymwneud â thrawsnewid cyfleoedd bywyd a chanlyniadau i rai ar fudd-daliadau ac adfer sefydlogrwydd ariannol. Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar drechu tlodi yn pwysleisio'r angen i leihau nifer yr aelwydydd di-waith, gan mai gwaith yw'r ffordd orau allan o tlodi. Felly, mae'n dda gweld bod lefelau cyflogaeth wedi codi 52,000 yng Nghymru ers 2010. Mae hynny'n golygu bod mwy o deuluoedd yn elwa ar ddiogelwch a sefydlogrwydd pecyn cyflog bob mis.

Those in work in Wales also have more money to take home each month, because their tax has been cut. Increasing the personal income tax allowance has delivered a tax cut for over 1 million people in Wales. Around 144,000 low-paid workers have been taken out of income tax altogether. That is also a great achievement of this Government. This is a positive action to prevent and to reduce poverty in Wales.

Vital to turning around the economy has been the decisive action taken by the coalition Government to get public spending under control. It is wrong that people can claim more in benefits than most people earn in work. So, the overall amount of benefits has been capped at £26,000 a year in line with the average wage after tax. When we return to Government, we will reduce the benefit cap by £3,000 a year and the money saved will be used to fund 3 million apprenticeships around the United Kingdom. This will give millions of young people a decent start in life, learning a trade, and the prospect of a brighter future. This is in stark contrast to Labour, which left millions of young people on the dole and facing a lifetime on benefits.

In the next five years, a majority Conservative Government will do more to help hardworking families in Wales. Everyone earning the minimum wage will be lifted out of income tax altogether. The personal tax relief allowance will be raised to £12,500, no 40 per cent tax rate until you're earning £50,000 or more a year, and the family home taken out of inheritance tax altogether, Deputy Presiding Officer. It is a fact that you cannot have strong public services and build a strong society without a strong economy. I believe welfare is a safety net for those in hard times and not a lifestyle choice: wherever it is, it's wrong and it's actually a cancer on the development of a nation. The best way to tackle poverty is to get those who are able to work back to work. This is the way we can secure a better future for everybody in Great Britain and Wales.

Mae'r rhai mewn gwaith yng Nghymru hefyd yn cael mwy o arian i fynd adref bob mis, oherwydd bod eu treth wedi cael ei thorri. Mae cynyddu'r lwfans treth incwm personol wedi torri trethi dros 1 filiwn o bobl yng Nghymru. Nid yw tua 144,000 o weithwyr ar gyflogau isel yn gorfod talu treth incwm o gwbl mwyach. Dyna un arall o lwyddiannau mawr y Llywodraeth hon. Dyma weithredu cadarnhaol i atal a lleihau tlodi yng Nghymru.

Rhan hanfodol o drawsnewid yr economi oedd y camau pendant a gymerwyd gan y Llywodraeth glymblaid i gael gwariant cyhoeddus o dan reolaeth. Nid yw'n iawn fod pobl yn gallu hawlio mwy mewn budd-daliadau na'r hyn y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei ennill wrth weithio. Felly, mae'r swm cyffredinol o fudd-daliadau wedi cael ei gapio ar £26,000 y flwyddyn yn unol â'r cyflog cyfartalog ar ôl treth. Pan fyddwn yn dychwelyd i Lywodraeth, byddwn yn gostwng y cap ar fudd-daliadau £3,000 y flwyddyn, a bydd yr arian a arbedir yn cael ei ddefnyddio i ariannu 3 miliwn o brentisiaethau o gwmpas y Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn rhoi dechrau da i filiynau o bobl ifanc mewn bywyd, yn dysgu crefft, a'r posibilrwydd o ddyfodol mwy disglair. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr i Lafur, a adawodd filiynau o bobl ifanc ar y dôl ac yn wynebu oes o fudd-daliadau.

Yn ystod y pum mlynedd nesaf, bydd Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol yn gwneud mwy i helpu teuluoedd gweithgar yng Nghymru. Bydd pawb sy'n ennill yr isafswm cyflog yn cael eu harbed rhag talu unrhyw dreth incwm. Bydd lwfans personol treth yn codi i £12,500, ac ni fydd y gyfradd dreth yn codi i 40 y cant nes eich bod yn ennill £50,000 neu fwy y flwyddyn, ac ni fydd treth etifeddiant i'w thalu ar y cartref teuluol, Ddirprwy Lywydd. Mae'n ffaith na allwch gael gwasanaethau cyhoeddus cryf ac adeiladu cymdeithas gref heb economi gref. Rwy'n credu mai rhwyd ddiogelwch i rai sy'n wynebu amser caled yw lles ac nid ffordd o fyw y gallwch ei dewis: lle bynnag y mae, mae'n anghywir ac mewn gwirionedd yn gancr ar ddatblygiad cenedl. Y ffordd orau o drechu tlodi yw sicrhau bod y bobl sy'n gallu gweithio yn gweithio. Dyma sut y gallwn sicrhau dyfodol gwell i bawb ym Mhrydain a Chymru.

16:14

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As with the last debate, we also have a motion that's been proposed on a fallacy, a series of false assumptions and an incredible amount of distortion and misinformation. I will get on to the bedroom tax and the housing benefit shortly, because the last speaker made a number of very incorrect statements with regard to that and I will correct those, hopefully, shortly.

Let's start off with the statement as to who is to blame for the economic situation the UK is in. Who was responsible for the financial crisis? Let's be very clear: there was an international financial crisis. Prior to that, for 10 years, under Labour, the UK had the most consistent period—for 10 years—of economic growth since the second world war. There was then an international banking crisis, and the outcome of that crisis was either that we allowed the banking system or the economy to collapse, or that we actually started a programme of investment to sustain the economy. I believe that Gordon Brown will go down in history as, actually, someone who made a contribution to preventing a major world recession. But, leaving aside—

Fel gyda'r ddadl ddiwethaf, mae gennym gynnig sy'n seiliedig ar gamsyniad, cyfres o dybiaethau ffug a lefel anhygoel o ystumio a gwybodaeth anghywir. Byddaf yn mynd ymlaen i sôn am y dreth ystafell wely a'r budd-dal tai yn y man, gan fod y siaradwr diwethaf wedi gwneud nifer o ddatganiadau anghywir iawn ar hynny, a byddaf yn eu cywiro maes o law, gobeithio.

Gadewch i ni ddechrau gyda'r datganiad ynglŷn â phwy sydd ar fai am sefyllfa economaidd y DU. Pwy oedd yn gyfrifol am yr argyfwng ariannol? Gadewch i ni fod yn glir iawn: roedd yna argyfwng ariannol rhyngwladol. Cyn hynny, am 10 mlynedd, o dan Lafur, cafodd y DU y cyfnod mwyaf cyson—deng mlynedd—o dwf economaidd ers yr ail ryfel byd. Wedyn, cafwyd argyfwng bancio rhyngwladol, a chanlyniad yr argyfwng hwnnw oedd naill ai ein bod yn caniatáu i'r system fancio neu'r economi fethu, neu ein bod mewn gwirionedd yn dechrau rhaglen o fuddsoddi i gynnal yr economi. Credaf y bydd Gordon Brown yn cael ei gofio mewn hanes fel rhywun a wnaeth gyfraniad at atal dirwasgiad mawr byd-eang. Ond gan roi o'r neilltu—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:15	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Will the Member take an intervention?	A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?	Senedd.tv Fideo Video
16:16	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography	Leaving aside my own personal views as to the interpretation of those particular periods, was Labour responsible for that collapse? Well, you've seen, only this month, Sir Nicholas Macpherson, Permanent Secretary to the Treasury, who says: 'The 2008 crisis was a banking crisis pure and simple. Excessive risk had built up in the system'. Of course, the Office for Budget Responsibility, looking at the Tory allegations, says: 'Looking back to the pre-crisis era, it is hard to argue that the tax and spending policies implemented in the early and mid-2000s were in themselves an important cause of the crisis and recession.' The reality is that every serious economist and academic within this field have actually identified the international financial crisis, and not Labour's programme, which was to support and expand public services. Now, let's look—	Gan roi fy safbwyntiau personol o ran y dehongliad o'r cyfnodau hynny'n benodol o'r neilltu, ai Llafur a oedd yn gyfrifol am y cwmp? Wel, y mis hwn, dywedodd Syr Nicholas Macpherson, Ysgrifennydd Parhaol i'r Trysorlys: 'Argyfwng bancio, yn syml iawn, oedd argyfwng 2008. Roedd risg gormodol wedi cronni yn y system'. Wrth gwrs, dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, wrth edrych ar honiadau'r Toriaid: 'Gan edrych yn ôl ar y cyfnod cyn yr argyfwng, mae'n anodd dadlau bod y polisiau treth a gwariant a oedd ar waith yn ystod blynyddoedd cynnar a chanol y 2000au ynddynt eu hunain yn achos pwysig dros yr argyfwng a'r dirwasgiad.' Y realiti yw bod pob economegydd ac academydd o bwys yn y maes wedi nodi mewn gwirionedd mai argyfwng ariannol rhyngwladol oedd hwn, ac nid oedd yn deillio o raglen y Blaid Lafur, sef cefnogi ac ehangu gwasanaethau cyhoeddus. Nawr, gadewch i ni edrych—	Senedd.tv Fideo Video
16:16	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Will you take an intervention?	A wnewch chi dderbyn ymyriad?	Senedd.tv Fideo Video
16:16	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography	Shall I take an intervention? Yes, certainly.	A wnaif fi dderbyn ymyriad? Gwnaf, yn sicr.	Senedd.tv Fideo Video
16:17	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Thank you for taking the intervention, Mick. I mean, even on the basis of what you've been explaining to us, can you explain then why Britain's rush to recession was deeper and swifter than other parts of the world?	Diolch i chi am gymryd yr ymyriad, Mick. Hynny yw, hyd yn oed ar sail yr hyn rydych wedi bod yn ei egluro i ni, a allwch esbonio felly pam y rhuthrodd Prydain tuag at ddirwasgiad yn gyflymach ac yn ddyfnach na rhannau eraill o'r byd?	Senedd.tv Fideo Video
16:17	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography	Sorry, can you say—?	Mae'n ddrwg gennyf, a wnewch chi ddweud—?	Senedd.tv Fideo Video
16:17	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Why our lurch into recession was swifter and deeper than other parts of the world.	Pam oedd ein cwmp i ddirwasgiad yn gyflymach ac yn ddyfnach na rhannau eraill o'r byd.	Senedd.tv Fideo Video

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I can, actually, and it's partly because the programme of spending for growth that had been initiated by the Labour Government was actually cancelled and abolished by the Tory Government. [Interruption.] I must remind you, because you are jumping about now, saying, 'We have 3.3 per cent growth in the economy,' there was 1.4 per cent growth in the economy at the time you took over. You implemented a whole series of capital spending cuts that forced us into three years of recession.

Let's move on from that particular debate, because let's look at the economic consequences of where we are. The average worker in the UK under the Tories is now £1,600 per annum worse off. We've had the most major growth of zero-hours contracts and contracts for services since the second world war. What is being created under this Government is employment that is based on the lowest possible terms and standards of employment, and, in many cases, no employment whatsoever, which is why the Tories increased the qualification period to be able to claim things like unfair dismissal and have any employment protection rights to two years. So, there's a whole swathe of people who lost, at a point, all their employment protection. The minimum wage is £1,000 less in value than it was, and the UK, since 2010, has now become the most unequal country in the whole of the EU. I very much welcome what the leader of the Conservatives says about the living wage. Of course, the living wage is more than just a figure; it is a much more complex—. It's about ethical employment. But, of course, if it's good enough for the public sector and if it's right for the public sector, why isn't it right for the private sector as well? It must mean that you cannot—

Gallaf, mewn gwirionedd, ac mae'n deillio'n rhannol o'r ffaieth fod y rhaglen wariant ar gyfer twf a gafodd ei chychwyn gan y Llywodraeth Lafur wedi cael ei chanslo a'i diddymu gan y Llywodraeth Doriaidd mewn gwirionedd. [Torri ar draws.] Mae'n rhaid i mi eich atgoffa, oherwydd rydych yn neidio o gwmpas yn awr yn dweud, 'Rydym wedi sicrhau twf o 3.3 y cant yn yr economi,' fod 1.4 y cant o dwf yn yr economi ar yr adeg y trosglwyddwyd yr awenau i chi. Fe weithredoch chi gyfres gyfan o doriadau mewn gwariant cyfalaf a'n gorfododd i wynebu tair blynedd o ddirwasgiad.

Gadewch i ni symud ymlaen o'r ddaidl benodol honno, a gadewch i ni edrych ar ganlyniadau economaidd ein sefyllfa ar hyn o bryd. Mae'r gweithiwr cyfartalog yn y DU o dan y Toriaid bellach £1,600 y flwyddyn yn waeth ei fyd. Rydym wedi cael y twf mwyaf o gontractau dim oriau a chontractau ar gyfer gwasanaethau ers yr ail ryfel byd. Yr hyn sy'n cael ei greu o dan y Llywodraeth hon yw cyflogaeth sy'n seiliedig ar y telerau a'r safonau cyflogaeth isaf posibl, ac mewn llawer o achosion, dim cyflogaeth o gwbl, a dyna pam y cynyddodd y Toriaid y cyfnod cymhwyso i allu hawlio pethau fel diswyddo anhneg a chael hawliau diogelu cyflogaeth i ddwy flynedd. Felly, mae yna gyfran gyfan o bobl a gollodd eu holl ddiogelwch cyflogaeth ar un pwynt. Mae'r isafswm cyflog yn werth £1,000 yn llai nag o'r blaen, ac ers 2010, y DU bellach yw'r wlad fwyaf anghyfartal yn yr UE. Croesawaf yn fawr yr hyn y mae arweinydd y Ceidwadwyr yn ei ddweud am y cyflog byw. Wrth gwrs, mae'r cyflog byw yn fwy na ffigur yn unig; mae'n llawer mwy cymhleth—. Mae'n ymwneud â chyflogaeth foesebol. Ond wrth gwrs, os yw'n ddigon da i'r sector cyhoeddus ac os yw'n addas ar gyfer y sector cyhoeddus, pam nad yw'n iawn ar gyfer y sector preifat yn oystal? Rhaid ei fod yn golygu na allwch—

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am quite happy to clarify that. We would very much, as William Graham said in his opening remarks, like to see all employees benefiting from the living wage, but we recognise the private sector thrives by being lightly regulated and we would aspire to bring the private sector in line with the public sector.

Rwy'n eithaf hapus i egluro hynny. Fel y dywedodd William Graham yn ei sylwadau agoriadol, byddem yn hoffi gweld pob gweithiwr yn elwa ar y cyflog byw, ond rydym yn cydnabod bod y sector preifat yn ffynnu drwy gael ei reoleiddio'n ysgafn a byddem yn anelu i sicrhau bod y sector preifat yn cyd-fynd â'r sector cyhoeddus.

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hope where we're not moving is towards the idea of an economy where we have a private sector that is based on the free exploitation of labour, as opposed to a public sector that has to set standards, because that is the reality of what you are actually suggesting.

Rwy'n gobeithio nad ydym yn symud tuag at y syniad o economi lle y mae gennym sector preifat yn seiliedig ar gam-fanteisio rhydd ar lafur, yn hytrach na sector cyhoeddus sy'n gorfod gosod safonau, oherwydd dyna realiti'r hyn yr ydych yn ei awgrymu mewn gwirionedd.

Deputy Presiding Officer, because I have taken two interventions and I have used up a lot of my time, all I want to say is this: there is £30 billion-worth of further cuts proposed by the Tories—£12 billion in welfare. It is going to be the poorest and the most vulnerable people who will suffer. Our public services, stretched as they are at the moment, will not exist in the future if we get a Tory Government.

Ddirprwy Lywydd, gan fy mod wedi derbyn dau ymyriad ac wedi defnyddio llawer o fy amser, y cyfan rwyf am ei ddweud yw hyn: mae'r Toriaid yn argymhell gwerth £30 biliwn o doriadau pellach—£12 biliwn mewn lles. Y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed a fydd yn dioddef. Ni fydd ein gwasanaethau cyhoeddus, dan gymaint o bwysau ag y maent ar hyn o bryd, yn bodoli yn y dyfodol os cawn Lywodraeth Doriaidd.

16:20 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Tomorrow the people of our country—or those who are minded to have a say in the future—will go to the polling stations and cast their vote. Over the past 12 months, it is fair to say that, here in Wales, the health service has dominated the political agenda. The responsibility for its failings has, time and time again, been laid at the door of the UK Government, blaming it for the lack of funding. No mention of the £15 billion that comes from the UK Government—oh, we AMs know better. It's the same Welsh Labour Government of the same Labour Party that bankrupted the UK, leaving our economy with the biggest deficit of all time. Now, we know—but they don't—

Yfory bydd pobl ein gwlad—neu'r rhai sydd â diddordeb mewn cael llais yn y dyfodol—yn mynd i'r gorsafoedd pleidleisio ac yn bwrw eu pleidlais. Dros y 12 mis diwethaf, mae'n deg dweud bod y gwasanaeth iechyd wedi cael y lle blaenaf ar yr agenda wleidyddol yma yng Nghymru. Dro ar ôl tro, mae'r cyfrifoldeb am ei fethiannau wedi cael ei briodoli i Lywodraeth y DU, gan roi'r bai arni am y diffyg cyllid. Dim sôn am y £15 biliwn sy'n dod gan Lywodraeth y DU—O, rydym ni'r ACau yn gwybod yn well. Dyma'r un Lywodraeth Lafur Cymru o'r un Blaid Lafur a wnaeth y DU yn fethdalwr, gan adael ein heconomi â'r diffyg mwyaf erioed. Nawr, fe wyddom ni—ond nid ydynt hwy—

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:21 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:21 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No. Sorry, Mick.

Na wnaif. Mae'n ddrwg gennyf, Mick.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

You simply cannot have a strong NHS without a strong economy. Looking back to 2010, as a nation, we had become over-reliant on welfare with mass worklessness accepted as a mere fact of life, with 133,000 unemployed, lacking the security and sense of pride that comes with a regular wage. Five years on, and as a result of the Conservative Party's long-term economic plan, 52,000 people more are in work here in Wales. We've seen unemployment fall by 8,000 in the last year alone, and we've taken 144,000 out of income tax. Wales has benefited from 70,000 more private sector jobs, to include small-business entrepreneurs who have chosen to take that risk, feeling more supported than ever by a Government that really values their worth.

Yn syml iawn, ni allwch gael GIG cryf heb economi gref. Wrth edrych yn ôl ar 2010, fel cenedl, rydym wedi dod yn orddibynnol ar les gyda diweithdra torfol yn cael ei dderbyn fel un o ffeithiau bywyd, gyda 133,000 o bobl ddi-waith, heb y diogelwch a'r ymdeimlad o falchder a ddaw yn sgil cyflog rheolaidd. Bum mlynedd yn ddiweddarach, ac o ganlyniad i gynllun economaidd hirdymor y Blaid Geidwadol, mae 52,000 yn fwy o bobl yn gweithio yma yng Nghymru. Rydym wedi gweld gostyngiad o 8,000 yn nifer y di-waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, ac rydym wedi sicrhau na fydd angen i 144,000 o bobl dalu unrhyw dreth incwm o gwbl. Mae Cymru wedi elwa o 70,000 yn fwy o swyddi sector preifat, i gynnwys entrepreneuriaid busnes bach sydd wedi dewis cymryd y risg honno, gan deimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth nag erioed gan Lywodraeth sy'n gwir werthfawrogi eu gwerth.

The UK Conservative-led Government has worked hard to earn the trust of businesses here, in Wales, and across the globe, with 44 per cent of Welsh business-owners pledging their support for a Conservative Government. I can tell you that recent campaigning proves the confidence that is now felt for continued growth in our economy.

Mae Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi gweithio'n galed i ennyn ymddiriedaeth y busnesau yma, yng Nghymru, ac ar draws y byd, gyda 44 y cant o berchnogion busnesau yng Nghymru yn addo eu cefnogaeth i Lywodraeth Geidwadol. Gallaf ddweud wrthyh fod ymgyrchu diweddar yn brawf o'r hyder sydd bellach i'w deimlo ynghylch twf parhaus yn ein heconomi.

But our work is not done. We want to do more to reward hard work and business growth, putting in place the conditions for further economic growth and full employment for Wales. With David Cameron as our Prime Minister and the Conservatives, nobody working 30 hours on minimum wage will ever pay income tax, and the tax-free personal allowance will rise to £12,500 by 2020. The 40p tax threshold will increase to £50,000 and will always rise at least in line with inflation.

Ond nid yw ein gwaith wedi gorffen. Rydym am wneud mwy i wobrwyo gwaith caled a thwf busnesau, gan sefydlu amodau ar gyfer twf economaidd pellach a chyflogaeth lawn i Gymru. Gyda David Cameron yn Brif Weinidog arnom, a'r Ceidwadwyr, ni fydd neb sy'n gweithio 30 awr ar isafswm cyflog byth yn talu treth incwm, a bydd y lwfans personol di-dreth yn codi i £12,500 erbyn 2020. Bydd y trothwy treth o 40c yn codi i £50,000 a bydd bob amser yn codi o leiaf yn unol â chwyddiant.

The Conservatives will continue to back small businesses, keeping job taxes low and the cutting of red tape, unnecessary regulation and bureaucracy that is so burdensome to our microbusinesses in particular. And we will continue to invest in infrastructure to attract new businesses.

Bydd y Ceidwadwyr yn parhau i gefnogi busnesau bach, gan gadw trethi swyddi'n isel a lleihau biwrocratiaeth, rheoleiddio diangen a biwrocratiaeth sydd mor feichus i'n ficrofusnesau yn arbennig. A byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith i ddenu busnesau newydd.

We will also do more to tackle long-term youth unemployment by delivering 3 million more apprenticeships, and we will abolish access to jobseeker's allowance for 18 to 21-year-olds and replace it with a youth allowance, thereby giving young people a full six months to find employment before being required to take an apprenticeship or carry out daily community work in order to obtain their benefits.

Now, it is a combination of these factors that will continue to provide security for the people of Wales and the UK, safe in the knowledge that if you work hard and save what you can you will be rewarded. We believe that one such reward should be for everyone to have the chance to own their own home. We will help to keep mortgage rates low, build more homes, including 200,000 new starter homes for first-time buyers, extending the Help to Buy loan schemes to 2020, enhancing the right to buy and cutting stamp duty for 98 per cent of those who pay it. Not only will these policies give more people a home of their own, but they will stimulate the Welsh construction industry—a sector often ignored by the Welsh Labour Government—leading to more jobs for Welsh people. The alternative, under a Labour Government: more borrowing, more taxation, and higher interest rates. The same party that allowed housing benefit to spiral out of control to 104,000 a year.

The continued success of the Welsh economy depends on a Conservative Government being formed at the polls tomorrow. In the words of our own Secretary of State for Wales, Stephen Crabb, only the Welsh Conservatives can secure Wales's long-term future, by taking responsible decisions, getting our nation back living within its means and laying strong foundations for growth.

Byddwn hefyd yn gwneud mwy i fynd i'r afael â diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc drwy ddarparu 3 miliwn yn fwy o brentisiaethau, a byddwn yn dileu mynediad at lwfans ceisio gwaith i rai 18 i 21 oed ac yn gosod lwfans ieuencid yn ei le, gan roi chwe mis cyfan i bobl ifanc ddod o hyd i waith cyn ei gwneud yn ofynnol iddynt fynd ar brentisiaeth neu wneud gwaith cymunedol dyddiol er mwyn cael eu budd-daliadau.

Nawr, cyfuniad o'r ffactorau hyn sy'n mynd i barhau i ddarparu diogelwch i bobl Cymru a'r DU, a gwybod y cewch eich gwobrwyo os gweithiwhch yn galed a chynilo yr hyn a allwch. Credwn mai un wobwr o'r fath yw i bawb gael y cyfle i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain. Byddwn yn helpu i gadw cyfraddau morgais yn isel, yn adeiladu mwy o gartrefi, gan gynnwys 200,000 o gartrefi newydd ar gyfer prynwyr tro cyntaf, gan ymestyn y cynlluniau benthyca Cymorth i Brynu hyd at 2020, a gwella'r hawl i brynu a thorri treth stamp ar gyfer 98 y cant o'r rhai a fydd yn ei thalu. Bydd y polisiau hyn nid yn unig yn rhoi cartref eu hunain i fwy o bobl, ond byddant yn ysgogi'r diwydiant adeiladu yng Nghymru—sector sy'n aml yn cael ei anwybyddu gan Lywodraeth Lafur Cymru—gan arwain at fwy o swyddi ar gyfer pobl Cymru. Y dewis arall, o dan Lywodraeth Lafur: mwy o fenthyca, mwy o drethu, a chyfraddau llog uwch. Yr un blaidd a ganiataodd i fudd-dal tai chwyddo y tu hwnt i reolaeth i 104,000 y flywyddyn.

Mae llwyddiant parhaus economi Cymru yn dibynnu ar ffurfio Llywodraeth Geidwadol yn yr etholiad yfory. Yng ngeiriau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Stephen Crabb, y Ceidwadwyr Cymreig yn unig a all ddiogelu dyfodol hirdymor Cymru, drwy wneud penderfyniadau cyfrifol, cael ein cenedl i fyw yn ôl ei gallu i dalu unwaith eto a gosod sylfeini cadarn ar gyfer twf.

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Simon Thomas.

Simon Thomas.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:25 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I detect that you're enjoying this debate as much as I am.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n gweld eich bod yn mwynhau'r ddadl hon gymaint â minnau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

This debate is based on a delusion. The motion is based on delusion. What we're debating is based on delusion. The delusion that you can cut your way out of recession. It was Milton Keynes in 1937 who said that the boom, not the slump, is the right time for austerity. [Interruption.] Did I say Milton Keynes? He was so famous he had a town named after him. [Laughter.] It was John Maynard Keynes who said that boom, not the slump, is the time for austerity. The delusion that we've heard today is that public spending created a time of bankruptcy and that the only way, therefore, to get out of that recession was by cutting public spending. That is a delusion. The banking crisis created the deficit. It wasn't the deficit that created the banking crisis.

Mae'r ddadl hon yn seiliedig ar dwyll. Mae'r cynnig yn seiliedig ar dwyll. Mae'r hyn rydym yn ei drafod yn seiliedig ar dwyll. Y twyll y gallwch dorri eich ffordd allan o ddirwasgiad. Milton Keynes a ddywedodd yn 1937 mai'r ffyniant, nid y cwmp, yw'r amser iawn ar gyfer caledi. [Tori ar draws.] A ddywedais i Milton Keynes? Roedd mor enwog fel iddynt enwi tref ar ei ôl. [Chwerthin.] John Maynard Keynes a ddywedodd mai'r ffyniant, nid y cwmp, yw'r amser ar gyfer caledi. Y twyll rydym wedi ei glywed heddiw yw bod gwariant cyhoeddus wedi creu cyfnod o fethdaliad ac mai'r unig ffordd, felly, i ddod allan o'r dirwasgiad yw drwy dorri gwariant cyhoeddus. Twyll yw hynny. Yr argyfwng bancio a greodd y diffyg. Nid y diffyg a greodd yr argyfwng bancio.

If you want to understand something of that, I think we need to go back to what the Conservatives were saying before the banking crisis happened. What were the Conservatives—? What was that great sage George Osborne—I've got to get his name right—saying in September 2007, for example? Was he, for example, criticising the Labour Party for spending too much on public services and leading us into a time of recession? No, he wasn't. He was saying that a Conservative Government would match Labour's public spending for three years, from 2007 to 2010. George Osborne promised a 2 per cent extra every year investment in public services. He wasn't foreseeing that this great crisis would happen due to too much spending and borrowing in public services. What's more, he said in 2007 that there'd be headroom created—despite this massive investment in spending that he was promising the British public—for lower taxes, because the economy was expected to grow faster. Now, we know that in 18 months' time the economy was in no way growing and was fast heading towards recession. But, that is what George Osborne thought of public spending in 2007 and it is a delusion now to pretend that you didn't believe that at the time.

Let's look at public investment. In 2007 the Labour Party borrowed £37.7 billion for public investment. The coalition, two years ago, borrowed £91.5 billion, as a direct result of the fact that they have not succeeded in getting the economy moving. It's a delusion. It's a delusion. The deficit has gone up. By its own stated objectives of ridding the UK economy of the deficit, this so-called economic plan has failed. The Tories have failed on their own terms and the deficit was only for the poor. The cuts only came on the back of the poor—

Os ydych chi eisiau deall rhywfaint o hynny, rwy'n credu bod angen i ni fynd yn ôl at yr hyn oedd y Ceidwadwyr yn ei ddweud cyn i'r argyfwng bancio ddigwydd. Beth oedd y Ceidwadwyr—? Beth oedd y gŵr doeth George Osborne—rhaid i mi gael ei enw'n iawn—yn ei ddweud ym mis Medi 2007, er enghraifft? A oedd ef, er enghraifft, yn beirniadu'r Blaid Lafur am wario gormod ar wasanaethau cyhoeddus ac am ein harwain i gyfnod o ddirwasgiad? Na, nid oedd yn gwneud hynny. Roedd yn dweud y byddai Llywodraeth Geidwadol yn rhoi'r un faint â Llafur tuag at wariant cyhoeddus am dair blynedd, o 2007 i 2010. Addawodd George Osborne ddau y cant o fuddsoddiad ychwanegol bob blwyddyn tuag at wasanaethau cyhoeddus. Nid oedd yn rhagweld y byddai'r argyfwng mawr yn digwydd o ganlyniad i ormod o wariant a benthycia mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn fwy na hynny, dywedodd yn 2007 y byddai lle wrth gefn—er gwaethaf y buddsoddiad anferth mewn gwariant a addawodd i'r cyhoedd ym Mhrydain—i drethi is, am fod disgwyl i'r economi dyfu'n gyflymach. Nawr, rydym yn gwybod nad oedd yr economi yn tyfu mewn unrhyw fodd ymhen 18 mis a'i bod yn anelu'n gyflym tuag at ddirwasgiad. Ond dyna oedd George Osborne yn ei feddwl o wariant cyhoeddus yn 2007 a thwyll yn awr yw esgus nad oeddech yn credu hynny ar y pryd.

Gadewch i ni edrych ar fuddsoddiad cyhoeddus. Yn 2007 benthycodd y Blaid Lafur £37.7 miliwn ar gyfer buddsoddiadau cyhoeddus. Ddwyl flynedd yn ôl, benthycodd y glymblaid £91.5 biliwn o ganlyniad uniongyrchol i'r ffaith nad ydynt wedi llwyddo i gael yr economi i symud. Mae'n dwyll. Mae'n dwyll. Mae'r diffyg wedi codi. Yn ôl ei hamcanion datganedig ei hun i gael gwared ar y diffyg o economi'r DU, mae'r cynllun economaidd hwn, fel y'i gelwir, wedi methu. Mae'r Toriaid wedi methu yn ôl eu telerau eu hunain ac roedd y diffyg ar gyfer y tlawd yn unig. Ar draul y tlawd yn unig y cafwyd y toriadau—

16:28 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:28 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed. Why not?

Gwnaf, yn wir. Pam ddim?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:28 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In fairness, I've allowed you to go on for three minutes, and you're going on about this being an illusion. There are a record number of jobs in the economy. The economy is growing faster than any other western economy. The deficit is being paid down. We didn't have the triple-dip recession. We didn't have the double-dip recession. What part has failed?

A bod yn deg, rwyf wedi caniatáu i chi fynd ymlaen am dair munud, ac rydych yn mynd ymlaen am hyn fel twyll. Mae gennym y nifer uchaf erioed o swyddi yn yr economi. Mae'r economi'n tyfu'n gyflymach nag unrhyw economi orllewinol arall. Mae'r diffyg yn cael ei ad-dalu. Ni chawsom ddirwasgiad triphlyg. Ni chawsom ddirwasgiad dwbl. Pa ran sydd wedi methu?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:28 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, at least three of the things you mentioned there were illusions brought out by—. What triple-dip recession?

Wel, roedd o leiaf dri o'r pethau y sonioch amdanynt yn y fan honno yn rhithiau a grëwyd gan—. Pa ddirwasgiad triphlyg?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:28 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are a record number of jobs.

Mae yna nifer uwch nag erioed o swyddi.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

It's an incredible illusion, isn't it? You raise these straw dogs to knock them down. They never existed. This record number of jobs that you've— You claim to have created the jobs, but you never take any consequences when the jobs decline, of course. Governments don't create jobs. Economic circumstances allow jobs to be created. I would have thought you, as a Conservative, at least would believe in that.

And it's interesting that austerity was only for the poor. It was only for public services. It was only for the weak. It was only for the disabled. It was only for those living in houses that were deemed too big for them. It wasn't for the banks that created this crisis in the first place, because the banks got fiscal expansion. They got to borrow extra money from the Bank of England—money that didn't exist—in a rather old-fashioned Keynesian way. The banks could have Keynes, but the poor had to have austerity. It was never about all of us being in this together. It was always about the weakest facing the brunt of society.

But I regret to say that the Labour Party today are just as bad, because by signing up to the charter for budget responsibility, you've fallen hook, line and sinker for the same argument. You've refused to engage and reject the arguments of austerity. It's not just me who's saying that: the Nobel prize-winning economist Paul Krugman says,

'It has been astonishing, from a US perspective, to witness the limpness of Labour's response to the austerity push. Britain's opposition has been amazingly willing to accept claims that budget deficits are the biggest economic issue facing the nation'.

And that's why the Labour Party, by doing this, is signing up for a 2.2 per cent reduction in the Welsh budget over the next Assembly, and is refusing to deal with the issue of parity with Scotland.

Whatever the politics, the economics of austerity are no different in Britain from what they are in the rest of the advanced world. Harsh austerity in depressed economies isn't necessary and does major damage when it's imposed. We've seen that in Wales; we've been at the cutting edge of austerity. I hope that, tomorrow, people will reject austerity and vote in parties that will reverse these cuts and invest in our economy.

Mae'n rhith anhygoel, onid yw? Rydych yn crybwyll y rhithiau er mwyn eu dymchwel. Nid ydynt erioed wedi bodoli. Y nifer uchaf erioed o swyddi rydych wedi—. Rydych yn honni eich bod wedi creu'r swyddi, ond nid ydych byth yn derbyn y canlyniadau pan fydd nifer y swyddi'n gostwng wrth gwrs. Nid Llywodraethau sy'n creu swyddi. Amgylchiadau economaidd sy'n caniatáu i swyddi gael eu creu. Byddwn wedi meddwl y byddech chi o leiaf, fel Ceidwadwr, yn credu yn hynny.

Ac mae'n ddiddorol mai ar gyfer y tlawd yn unig oedd caledi. Ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn unig. Ar gyfer y gwan. Ar gyfer yr anabl yn unig. Ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tai y bernid eu bod yn rhy fawr iddynt. Nid ar gyfer y banciau a greodd yr argyfwng yn y lle cyntaf, gan fod y banciau wedi cael ehangu'n ariannol. Cawsant fenthyg arian ychwanegol gan Fanc Lloegr—arian nad oedd yn bodoli—mewn ffordd Keynasaidd braidd yn hen ffasiwn. Gallai'r banciau gael Keynes, ond roedd yn rhaid i'r tlawd gael caledi. Nid oedd byth yn ymwneud â phawb ohonom yn yr un cwch. Roedd bob amser yn ymwneud â'r gwanaf yn ysgwyddo'r baich ar ran y gymdeithas.

Ond mae'n flin gennyf ddweud bod y Blaid Lafur heddiw yr un mor ddrwg, oherwydd drwy gefnogi'r siarter cyfrifoldeb am gyllidebau, rydych wedi cael eich twyllo'n llwyr gan yr un ddadl. Rydych wedi gwrthod ymgysylltu er mwyn gwrthod dadleuon caledi. Nid fi'n unig sy'n dweud hynny: mae'r economegydd Nobel arobryn, Paul Krugman, yn dweud,

'Mae wedi bod yn syfrdanol, o safbwynt yr Unol Daleithiau, i weld pa mor wan yw ymateb Llafur wedi bod i galedi. Mae'r wrthblaid ym Mhrydain wedi bod yn rhyfeddol o barod i dderbyn honiadau mai diffygion y gyllideb yw'r broblem economaidd fwyaf sy'n wynebu'r genedl'.

A dyna pam y mae'r Blaid Lafur, drwy wneud hyn, yn cefnogi gostyngiad o 2.2 cant yng nghyllideb Cymru dros y Cynulliad nesaf, ac yn gwrthod delio â mater cydraddoldeb â'r Alban.

Beth bynnag yw'r wleidyddiaeth, nid yw economeg caledi yn wahanol ym Mhrydain i'r hyn ydyw yng ngweddill y byd datblygedig. Nid yw caledi llym mewn economïau gwan yn angenrheidiol ac mae'n gwneud difrod mawr pan gaiff ei weithredu. Rydym wedi gweld hynny yng Nghymru; rydym wedi bod yn nannedd caledi. Gobeithio, yfory, y bydd pobl yn gwrthod caledi ac yn pleidleisio dros bleidiau a fydd yn gwrthdroi'r toriadau hyn ac yn buddsoddi yn ein heconomi.

16:30

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think one thing that unites everybody on all sides of the Chamber is that we all wish for one Wednesday afternoon where there'll be more light than heat. I'm afraid that we haven't discovered that winning formula this afternoon and I think many of us regret the tone and the tenor of at least two speeches on the Conservative benches, where they seemed to want to attack people receiving benefits, rather than find a way of eradicating poverty. There's a very real difference between those two things, and I think that there will be many people on all sides of the Chamber today who will regret the tone of that debate.

Rwy'n credu mai un peth sy'n uno pawb ar bob ochr i'r Siambr yw ein bod i gyd yn dymuno cael un prynhawn dydd Mercher gyda mwy o oleuni na gwres. Rwy'n ofni nad ydym wedi darganfod y fformiwla lwyddiannus honno y prynhawn yma ac rwy'n meddwl bod llawer ohonom yn gresynu at dôn a naws o leiaf ddwy o'r areithiau ar feinciau'r Ceidwadwyr, lle'r oeddent i'w gweld yn fwy parod i ymosod ar bobl sy'n derbyn budd-daliadau, yn hytrach na dod o hyd i ffordd o ddileu tlodi. Mae gwahaniaeth real iawn rhwng y ddau beth, a chredaf y bydd llawer o bobl ar bob ochr i'r Siambr heddiw yn gresynu at dôn y ddatl honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:31

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way, Alun. I think it's completely wrong to say, as two Members here did, that lifting people out of poverty is somehow attacking people on benefits. Of course, benefits are necessary, but you shouldn't want people to have to stay on benefits, if they don't need to stay on them.

Diolch i chi am iddio, Alun. Rwy'n credu ei bod yn hollol anghywir i ddweud, fel y gwnaeth dau Aelod yma, fod codi pobl allan o dlodi rywsut yn ymosod ar bobl ar fudd-daliadau. Wrth gwrs, mae budd-daliadau yn angenrheidiol, ond ni ddylech fod eisiau i bobl aros ar fudd-daliadau os nad oes angen iddynt aros arnynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:31

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly don't, but I also don't attack people who receive benefits, and I think that that's what we saw this afternoon. Can I say that, despite the somewhat plaintive hopes expressed from the Deputy Presiding Officer, we haven't quite avoided tomorrow's events yet? I will simply say this: if we're going to see a different economy in Wales, and if we're going to see that economy serving the people of Wales, then we need to do that in partnership with a United Kingdom Government that also shares those ambitions for Wales. We need to see a United Kingdom Government that is committed to the UK as a whole, and is not simply committed to the accumulation of wealth in the financial sector of the City of London. We do need to see a rebalancing of wealth and the creation of wealth across the whole of the United Kingdom, and that will not happen by accident; it will only happen if we have a Government in the United Kingdom that wants to see it happen, and we need to actually do that. We cannot recover from our current financial economic situation if the UK Government acts as a cheerleader for the City of London, and absolutely nothing more.

Yn sicr, nid wyf yn gwneud hynny, ond nid wyf ychwaith yn ymosod ar bobl sy'n derbyn budd-daliadau, a chredaf mai dyna'r hyn a welsom y prynhawn yma. A gaf fi ddweud, er gwaethaf y gobeithion braidd yn ddolefus a fynegwyd gan y Dirprwy Lywydd, nad ydym wedi llwyddo i osgoi digwyddiadau yfory eto? Rwyf am ddweud hyn: os ydym am weld economi wahanol yng Nghymru, ac os ydym am weld yr economi honno'n gwasanaethu pobl Cymru, yna mae angen i ni wneud hynny mewn partneriaeth â Llywodraeth ar gyfer y Deyrnas Unedig sydd hefyd yn rhannu'r un uchelgais ar gyfer Cymru. Mae angen i ni weld Llywodraeth y DU sydd wedi ymrwymo i'r DU gyfan, ac nid wedi ymrwymo'n unig i Gronni Cyfoeth yn sector ariannol Dinas Llundain. Mae angen i ni weld ail-gydbwysio cyfoeth a chreu cyfoeth ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, ac ni fydd hynny'n digwydd drwy ddamwain; ni fydd ond yn digwydd os oes gennym Lywodraeth yn y Deyrnas Unedig sydd am ei weld yn digwydd, ac mae angen i ni wneud hynny mewn gwirionedd. Ni allwn wella ar ein sefyllfa economaidd ariannol bresennol os yw Llywodraeth y DU yn gweithredu fel hyrwyddwr i Ddinas Llundain, a dim byd mwy na hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, we need a UK Government that recognises that economic growth in the future will not be the same as economic growth in the past. One of the most depressing experiences of the last few years for myself was listening to a Secretary of State for the Department for Environment, Food and Rural Affairs telling me that he didn't really believe in climate change. It's an extraordinary thing to hear; it's an extraordinary thing to drive policy. Unless we have a United Kingdom Government that is prepared to use all the tools available to it, through the Treasury, through investments, through other means, we will not see a different form of economic growth, we will not see a decarbonisation of the UK and the Welsh economies, and we will not see an end to poverty in Wales.

Yn ail, mae angen Llywodraeth y DU sy'n cydnabod na fydd twf economaidd yn y dyfodol yr un fath â thwff economaidd yn y gorffennol. Un o'r profiadau mwyaf digalon yn y blynyddoedd diwethaf i mi oedd gwranddo ar Ysgrifennydd Gwladol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn dweud wrthyf nad oedd yn credu mewn newid yn yr hinsawdd mewn gwirionedd. Mae'n beth rhyfeddol i'w glywed; mae'n beth rhyfeddol o ran llywio polisi. Oni bai bod gennym Lywodraeth yn y Deyrnas Unedig sy'n barod i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddi, drwy'r Trysorlys, drwy fuddsoddiadau, drwy ddulliau eraill, ni fyddwn yn gweld math gwahanol o dwf economaidd, ni fyddwn yn gweld datgarboneiddio economïau'r DU a Chymru, ac ni fyddwn yn gweld diwedd ar dlodi yng Nghymru.

Finally, we need a UK Government that is prepared to act as a real partner to the Government here and to this place; a Government that is prepared to share power, and a settlement that gives this place both the powers and the funding that we need to invest in economic growth in the future. And, what I'd like to do this afternoon in this short debate is, perhaps, spend less time arguing about some of the numbers and the narrative of what's happening in the economy today, but focusing on what we want that economy to achieve. I have heard no debate in this Chamber, in this Assembly, at all on what is the point and the purpose of our economic policy.

Is our economic policy simply there to close the gap between Wales and the United Kingdom? Is it simply there for the promotion of growth? Is it simply there to ensure that we have the sort of growth in Wales in the future that we've seen in the past? Because, what we need to recognise is that if we do not understand our objectives, our ambitions and our point and purpose of policy, then we don't understand how we take decisions and what those decisions will be. For instance, if we do simply want to promote the growth in gross domestic product figures, well, that will lead to very different decisions than if we say that we want economic policy to eradicate poverty. We saw successive quarters of economic growth, a record period of growth at the beginning of this century in the last decade, but we didn't see the eradication of poverty in some of our poorest communities. We didn't see that. We've seen poverty grow over the last few years, I would argue as a consequence—a known consequence, too—of policy. But the counter to that is that growth in itself does not lead to the end of poverty. I would like to see an economic policy that is rooted in sustainability, but its ambition and its target and its objective is to eradicate poverty. We haven't and we don't discuss that in this place, and I think that's an absolute tragedy.

We need an economic policy that is focused on some of the poorest communities in Wales, that is focused on local economies, that is focused on ensuring and empowering some of the poorest and most vulnerable people in this country, and we need a tool and a point of policy that will ensure that we can eradicate poverty at periods of growth. For too long, we've simply relied on trickle-down. We should have learned in the 1980s that trickle-down doesn't work, and we can play with the numbers and throw statistics around this Chamber as often as we like on a Wednesday afternoon, but unless we understand what the purpose of economic policy is, we will have failed the people who sent us here.

Yn olaf, mae arnom angen Llywodraeth y DU sy'n barod i weithredu fel partner go iawn i'r Llywodraeth yma ac i'r lle hwn; Llywodraeth sy'n barod i rannu grym, a setliad sy'n rhoi'r pwerau a'r cyllid sydd eu hangen ar y lle hwn i ni allu buddsoddi mewn twf economaidd yn y dyfodol. A'r hyn yr hoffwn ei wneud y prynhawn yma yn y ddadl fer hon o bosibl, yw treulio llai o amser yn dadlau am rai o'r ffigurau a naratif yr hyn sy'n digwydd yn yr economi heddiw, a chanolbwyntio ar yr hyn rydym eisiau i'r economi ei gyflawni. Ni chlywais ddadl o gwbl yn y Siambr hon, yn y Cynulliad hwn, ynglŷn â beth yw pwynt a phwrpas ein polisi economaidd.

A yw ein polisi economaidd yno'n syml i gau'r bwch rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig? A yw yno'n syml er mwyn hyrwyddo twf? A yw yno'n syml i sicrhau bod gennym y math o dwf yng Nghymru yn y dyfodol a welsom yn y gorffennol? Oherwydd, yr hyn sydd angen i ni ei gydnabod yw, os nad ydym yn deall ein hamcanion, ein huchelgeisiau a phwynt a phwrpas ein polisi, yna nid ydym yn deall sut rydym yn gwneud penderfyniadau a beth fydd y penderfyniadau hynny. Er enghraifft, os mai hyrwyddo twf y ffigurau cynnyrch domestig gros yn unig rydym eisiau ei wneud, wel, bydd hynny'n arwain at benderfyniadau gwahanol iawn i'r hyn a geid pe dywedwn ein bod eisiau i'r polisi economaidd ddileu tlodi. Gwelsom chwarteri olynol o dwf economaidd, cyfnod gwell nag erioed o dwf ar ddechrau'r ganrif hon yn ystod y degawd diwethaf, ond ni welsom dldi'n cael ei ddileu yn rhai o'n cymunedau tlotaf. Ni welsom hynny. Rydym wedi gweld tldi'n tyfu dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad—a chanlyniad y gwyddom amdano hefyd—i bolisi. Ond yn groes i hynny, nid yw twf ynddo'i hun yn arwain at ddiwedd tlodi. Hoffwn weld polisi economaidd wedi ei wreiddio mewn cynaliadwyedd, ond gydag uchelgais a tharged a nod i ddileu tlodi. Nid ydym wedi trafod hynny yn y lle hwn, ac nid ydym yn gwneud hynny, ac rwy'n credu bod hynny'n drasiedd pur.

Mae arnom angen polisi economaidd sy'n canolbwyntio ar rai o'r cymunedau tlotaf yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar economïau lleol, sy'n canolbwyntio ar sicrhau a grymuso rhai o'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yn y wlad, ac mae angen offeryn a phwynt polisi a fydd yn sicrhau y gallwn ddileu tlodi ar adegau o dwf. Ers gormod o amser, rydym wedi dibynnu'n unig ar effaith o'r brig i lawr. Dylem fod wedi dysgu yn yr 1980au nad yw effaith o'r brig i lawr yn gweithio, a gallwn chwarae gyda'r rhifau a thafu ystadegau o amgylch y Siambr hon mor aml ag y dymunwn ar brynghawn dydd Mercher, ond oni bai ein bod yn deall beth yw pwrpas polisi economaidd, byddwn wedi gwneud cam â'r bobl a'n hanfonodd ni yma.

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth,.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I obviously welcome the opportunity always to discuss economic recovery in Wales, but perhaps less so today, as of course we have had party political broadcasts throughout the debate.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n amlwg yn croesawu'r cyfle bob amser i drafod adferiad economaidd yng Nghymru, ond efallai yn llai felly heddiw, gan ein bod wedi cael darllediadau gwleidyddol drwy gydol y ddadl wrth gwrs.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I cannot actually agree with the movers of the motion that Wales has benefited from the UK Government's economic plan, unfortunately. While the recent upturn in the UK economy is to be welcomed, it can be argued that it's occurred despite, not because of the UK Government's action. Furthermore, recent statistics indicate that growth is slowing, with the latest gross domestic product figures showing that the economic recovery is the slowest on record. Figures released last week reveal that GDP grew by 0.3% in the first quarter of 2015 compared with the fourth quarter of 2014; that was the lowest quarterly rate of growth since late 2012. Compared with the pre-recession levels of early 2008, GDP is up just 4%. Had the average long-term growth rate evident before recession prevailed, GDP would now be up by approximately 20 per cent. Although last week's headline GDP figures show that the total GDP is now higher than it was before the recession occurred in 2008, GDP per head, which is a more accurate measure of economic performance and living standards, is still below its level of early 2008.

I was very grateful to Mick Antoniw for his contribution outlining some of the issues prior to the Conservative and Liberal Government entering power, and the reality of the situation regarding the chaos within the banking sector, and what happened in the international markets.

I have to say, as a Government, despite the impact of the deep cuts to our budget imposed by the UK Government, we've continued to support jobs and growth right across Wales, investing in infrastructure, business finance, skills and innovation. Welsh Government economic policies have fostered a marked improvement in economic conditions in Wales in recent years. Since 1999, gross value added per head in Wales has increased by 62 per cent, only slightly below the 63 per cent increase in the UK, and the fourth-best performance amongst the 12 UK countries and regions. Since 1999, gross domestic household income per head in Wales has increased by 62 per cent compared with the 57 per cent increase in the UK. Wales has maintained an employment rate well above its historical average, with the level up 170—179—oh, I'm terrible on figures today. I've been eating these mints, I'm afraid. It has levelled up since the start of the Assembly. Furthermore, recent statistics have shown that the labour market in Wales is improving at a faster rate than across the UK as a whole over the last quarter. Unemployment and economic inactivity have fallen faster in Wales, and employment has increased at a higher rate than across the UK, over that period. When we look at indicators such the claimant count, it is lower across all areas of Wales than at the same time last year, and the annual population survey shows that youth unemployment is also falling faster in Wales than across the UK.

Ni allaf gytuno â'r rhai a gynigiodd y cynnig fod Cymru wedi elwa o gynllun economaidd Llywodraeth y DU, yn anffodus. Er bod y cynnydd diweddar yn economi'r DU yn rhywbeth i'w groesawu, gellir dadlau ei fod yn digwydd er gwaethaf, nid oherwydd yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud. Ar ben hynny, mae ystadegau diweddar yn dangos bod twf yn arafu, gyda'r ffigurau cynnyrch domestig gros diweddaraf yn dangos mai'r adferiad economaidd yw'r arafaf a gofnodwyd erioed. Mae ffigurau a ryddhawyd yr wythnos diwethaf yn dangos bod y cynnyrch domestig gros wedi tyfu 0.3 y cant yn chwarter cyntaf 2015 o'i gymharu â phedwerydd chwarter 2014; dyna oedd y gyfradd chwarterol isaf o dwf ers diwedd 2012. O'i gymharu â lefelau cyn y dirwasgiad ar ddechrau 2008, nid yw'r cynnyrch domestig gros ond wedi codi 4 y cant. Pe bai'r gyfradd twf hirdymor cyfartalog a welwyd cyn y dirwasgiad wedi parhau, byddai'r cynnyrch domestig gros bellach oddeutu 20 y cant yn uwch. Er bod prif ffigurau cynnyrch domestig gros yr wythnos diwethaf yn dangos bod cyfanswm y cynnyrch domestig gros bellach yn uwch na chyn y dirwasgiad yn 2008, mae cynnyrch domestig gros y pen, sy'n fesur mwy cywir o berfformiad economaidd a safonau byw, yn dal i fod yn is na'r lefel ar ddechrau 2008.

Roeddwn yn ddiolchgar iawn i Mick Antoniw am ei gyfraniad yn amlinellu rhai o'r materion cyn i'r Llywodraeth Geidwadol a Rhyddfrydol ddod i rym, a realiti'r sefyllfa o ran yr anhrefn yn y sector bancio, a'r hyn a ddigwyddodd yn y marchnadoedd rhyngwladol.

Mae'n rhaid i mi ddweud, fel Llywodraeth, er gwaethaf effaith y toriadau dwfn i'n cyllideb a wnaed gan Lywodraeth y DU, rydym wedi parhau i gefnogi swyddi a thwf ar draws Cymru, gan fuddsoddi mewn seilwaith, cyllid busnes, sgiliau ac arloesedd. Mae polisiau economaidd Llywodraeth Cymru wedi meithrin gwelliant amlwg yn yr amodau economaidd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Ers 1999, mae gwerth ychwanegol gros y pen yng Nghymru wedi cynyddu 62 y cant, ychydig yn is na'r cynnydd o 63 y cant yn y DU, a'r perfformiad gorau ond tri o blith 12 gwlad a rhanbarth y DU. Ers 1999, mae incwm domestig gros y pen aelwydydd yng Nghymru wedi cynyddu 62 y cant o'i gymharu â'r cynnydd o 57 y cant yn y DU. Mae Cymru wedi cynnal cyfradd gyflogaeth lawer uwch na'r cyfartaledd hanesyddol, gyda'r lefel i fyny 170—179—O, rwy'n ofnadwy ar ffigurau heddiw. Rwyf wedi bod yn bwyta'r mintiau hyn, yn anffodus. Mae wedi lefelu ers dechrau'r Cynulliad. Ar ben hynny, mae ystadegau diweddar wedi dangos bod y farchnad lafur yng Nghymru yn gwella ar gyfradd gyflymach nag ar draws y DU yn gyffredinol dros y chwarter diwethaf. Mae lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd wedi gostwng yn gyflymach yng Nghymru, a chyflogaeth wedi cynyddu ar gyfradd uwch nag ar draws y DU, dros y cyfnod hwnnw. Pan edrychwn ar ddangosyddion megis nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau, mae'n is ar draws pob rhan o Gymru nag ar yr un adeg y llynedd, ac mae'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth yn dangos bod diweithdra ymhlith pobl ifanc hefyd yn gostwng yn gyflymach yng Nghymru nag ar draws y DU.

However, in terms of Alun Davies's contribution, I was very much taken by his thought that some of the areas that we do need to deal with, with poverty in Wales, and what solutions we have, are issues that we do have to start to address. I think it's important to recognise that getting people out of poverty is very important.

Also, some of the other issues that have come in the debate, particularly about what we do about a living wage, et cetera, are also very important in terms of how we deliver for people across Wales. As a Government, we have worked to address a lot of issues that do actually help business to succeed, because business succeeding does help employment. As a Government, we work to address the need for businesses to access finance to help them invest and grow. Despite continuing concerns about the provision of business finance at UK level, the schemes we've developed included the Wales economic growth fund, the SME investment fund, life science and microbusiness. Through all of them, we've been able to support over 30,000 jobs in the last financial year and continue the wide-ranging actions to improve our economic prospects.

Last year was a record year for inward investment, attracting 79 projects to Wales, and this was the best performance since records began 30 years ago. We've continued to build on this success, and, whilst numbers are yet to be finalised for the end of this year, my hope is that 2014-15 will prove to be another record year for inward investment into Wales. Now, many of these inward investors are new companies to Wales, creating new jobs, investment and new supply-chain opportunities for existing Welsh companies, and we will continue to prioritise jobs and growth to ensure that improvements made in recent years are not lost and that prosperity is fairly shared. Growth and sustainable jobs are at the heart of the programme for government. We made it clear that our absolute focus remains on supporting and boosting our economy and identifying every opportunity to help businesses all across Wales.

I think it's important for us to recognise that the economics of austerity do have an impact on the poor and the dispossessed, and it's very important that, as a Government, we've tried, in all aspects of the funds we have and our policy development, to mitigate this, but it's also important for us all to recognise that, within the confines of our budget, it'd be very difficult to mitigate all the impacts of policies that are adopted by central Government. So, I would say to Members that, obviously, as a Government, we will be opposing this motion from the Welsh Conservatives today. We will be supporting the Liberal Democrats' amendment. In terms of what we've done on the Welsh economy, we have charted our own course in Wales in supporting businesses. We know that businesses have welcomed our support, and we have tried to ensure that more jobs have come to Wales, that more people are, therefore, employed and that we've helped, hopefully, some people to get out of the poverty trap that they're in.

Fodd bynnag, o ran cyfraniad Alun Davies, gwnaeth argraff fawr arnaf o ran ei syniad fod rhai o'r meysydd sy'n rhaid i ni ymdrin â hwy, o ran tlodi yng Nghymru, a pha atebion sydd gennym, yn faterion sy'n rhaid i ni ddechrau mynd i'r afael â hwy. Credaf ei bod yn bwysig cydnabod bod cael pobl allan o dlodi yn bwysig iawn.

Hefyd, mae rhai o'r materion eraill a drafodwyd yn y ddadl, yn enwedig yr hyn rydym yn ei wneud am gyflog byw ac ati hefyd yn bwysig iawn o ran sut rydym yn cyflawni ar gyfer pobl ar draws Cymru. Fel Llywodraeth, rydym wedi gweithio i fynd i'r afael â llawer o faterion sydd mewn gwirionedd yn helpu busnesau i lwyddo, gan fod llwyddiant busnesau yn helpu cyflogaeth. Fel Llywodraeth, rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r angen i fusnesau gael gafael ar gyllid i'w helpu i fuddsoddi a thyfu. Er gwaethaf pryderon parhaus ynghylch darparu cyllid busnes ar lefel y DU, mae'r cynlluniau rydym wedi eu datblygu yn cynnwys cronfa twf economaidd Cymru, cronfa fuddsoddi busnesau bach a chanolog, gwyddorau bywyd a microfusnesau. Drwy bob un o'r rhain, rydym wedi gallu cefnogi dros 30,000 o swyddi yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac yn parhau â'r camau pellgyrhaeddol i wella ein rhagolygon economaidd.

Roedd y llynedd yn flwyddyn well na'r un o ran mewnfuddsoddi, a denwyd 79 o brosiectau i Gymru. Dyma'r perfformiad gorau ers i gofnodion ddechrau cael eu cadw 30 mlynedd yn ôl. Rydym wedi parhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn ac er bod y niferoedd i'w cadarnhau'n derfynol ar gyfer diwedd y flwyddyn hon, fy ngobaith yw y bydd 2014-15 yn flwyddyn arall well nag erioed o ran mewnfuddsoddiad i Gymru. Nawr, mae llawer o'r mewnfuddsoddwyr hyn yn gwmnïau newydd i Gymru, ac yn creu swyddi, buddsoddiad a chyfleoedd newydd o ran y gadwyn gyflenwi i gwmnïau o Gymru sydd eisoes yn bodoli, a byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i swyddi a thwf er mwyn sicrhau nad yw'r gwelliannau a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cael eu colli a bod ffyniant yn cael ei rannu'n deg. Mae twf a swyddi cynaliadwy yn ganolog i'r rhaglen lywodraethu. Rydym wedi ei gwneud yn glir fod ein ffocws llwyr o hyd ar gefnogi a hybu ein heconomi a nodi pob cyfle i helpu busnesau ledled Cymru.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni gydnabod bod economeg caledi yn cael effaith ar y tlawd a'r dieiddo, ac mae'n bwysig iawn ein bod, fel Llywodraeth, wedi ceisio lliniaru hyn ym mhob agwedd ar y cronfeydd sydd gennym a'n polisi datblygu, ond mae hefyd yn bwysig i bob un ohonom gydnabod, o fewn cyfyngiadau ein cyllideb, y byddai'n anodd iawn lliniaru holl effeithiau'r polisiâu sy'n cael eu mabwysiadu gan y Llywodraeth ganolog. Felly, byddwn yn dweud wrth yr Aelodau y byddwn fel Llywodraeth yn amlwg yn gwrthwynebu'r cynnig hwn gan y Ceidwadwyr Cymreig heddiw. Byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. O ran yr hyn rydym wedi ei wneud ar economi Cymru, rydym wedi dilyn ein llwybr ein hunain yng Nghymru o ran cefnogi busnesau. Gwyddom fod busnesau wedi croesawu ein cefnogaeth, ac rydym wedi ceisio sicrhau bod mwy o swyddi wedi dod i Gymru, bod mwy o bobl, felly, yn cael eu cyflogi a'n bod wedi helpu rhai pobl, gobeithio, i ddod allan o'r trap tlodi y maent ynddo.

16:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nick Ramsay to reply to the debate.

Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm sensing a degree of fatigue in the Chamber this afternoon; maybe it's canvasser's elbow, or something similar, so I will get to the point in rounding up this debate.

First, can I thank everyone who has contributed? I'm sorry to hear that the Welsh Government does not feel able to support this motion, because the motion before you is quite simple. As William Graham pointed out, reinforced in the very opening line of this debate, Wales has benefited from the long-term economic plan—we have heard that a few times over the last few weeks, but rightly so—the UK economic plan delivered by the UK Government, recognising, as the motion does, that we need to stick to that plan. If we're not going to stick to that plan, then those people who want us to turn away from it should have a very well thought out, very reasoned and very robust alternative; sadly, I'm not hearing that coming out in this debate today from the other parties.

So, what has that plan achieved over the last few years since 2010? Well, the deficit has been cut by half as a share of national income, income tax has been cut for over 26 million people, as Peter Black has stressed, and the state pension increased by £950. This hasn't been easy—of course it hasn't—but it does represent a huge improvement since 2010, when the UK coalition Government of the Conservatives and the Liberal Democrats was formed.

The UK economy is on the mend: 0.3% growth in the first quarter and up 2.4% over the last year. This hasn't happened by chance, it hasn't happened by waving a magic wand and it hasn't happened by sitting by the sidelines, griping and saying, 'Oh dear, if only things could've been different'. We were where we were and decisions had to be taken, and it has taken persistence and, of course, a price had to be paid. The UK economy is now 4% bigger than the pre-crisis peak, and I heard what the economy Minister said about how some measures in Wales are improving. Let's not get into the minutiae of whether all of that improvement is down to the Welsh Government or all of it down to the UK Government; the fact is that there is an improvement that is happening out there, and that is an improvement that the people of this country deserve to see continued.

As suspected at the start of this debate, a number of Members wanted to blame it on the banks, as we've heard so often before, going back to the banking crisis of 2008. It is true—you are right—that the banking crisis added £80 billion to the deficit in one fell swoop, and that, of course, was permitted by a lack of regulation before that, but that is an argument for another day. The point is that the UK shouldn't have gone into that crisis with that deficit of £80 billion; that should have been dealt with before.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n synhwyro rhywfaint o flinder yn y Siambr y prynhawn yma; efallai mai llid penelin y canfasiwr sydd ar fai, neu rywbeth tebyg, felly fe ddoaf at y pwynt wrth grynhoi'r ddadl hon.

Yn gyntaf, a gaf fi ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu? Mae'n ddrwg gennyf glywed nad yw Llywodraeth Cymru yn teimlo y gall gefnogi'r cynnig hwn, oherwydd bod y cynnig ger eich bron yn eithaf syml. Fel y dywedodd William Graham, a'i gadarnhau yn llinell agoriadol y ddadl hon, mae Cymru wedi elwa o'r cynllun economaidd hirdymor—rydym wedi clywed hynny sawl gwaith dros yr ychydig wythnosau diwethaf, ond mae'n hollol iawn—cynllun economaidd y DU a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, gan gydnabod, fel y mae'r cynnig yn ei wneud, fod angen i ni gadw at y cynllun hwn. Os nad ydym yn mynd i gadw at y cynllun, yna dylai'r bobl sydd eisiau i ni droi ein cefnau arno gynnig dewis arall trylwyr, rhesymegol a chadarn iawn; yn anffodus, nid wyf yn clywed hynny'n cael ei wyntyllu gan y pleidiau eraill yn y ddadl hon heddiw.

Felly, beth y mae'r cynllun hwnnw wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf ers 2010? Wel, mae'r diffyg wedi cael ei haneru fel cyfran o'r incwm cenedlaethol, treth incwm wedi cael ei thorri i dros 26 miliwn o bobl, fel y pwysleisiodd Peter Black, ac mae pensiwn y wladwriaeth wedi cynyddu £950. Nid fu hyn yn hawdd—wrth gwrs na fu—ond mae'n welliant enfawr ers 2010, pan ffurfiwyd Llywodraeth glymblaid y DU rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Mae economi'r DU yn gwella: twf o 0.3 y cant yn y chwarter cyntaf ac i fyny 2.4 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf. Ni ddigwyddodd hyn drwy hap a damwain, ni ddigwyddodd drwy chwifio ffon hud ac ni ddigwyddodd drwy eistedd ar y llinell ochr yn cwyno ac yn dweud, 'O diar, pe bai pethau ond wedi bod yn wahanol'. Roeddem yn y sefyllfa roeddem ynddi ac roedd yn rhaid gwneud penderfyniadau, mae wedi galw am ddyfalbarhad ac wrth gwrs, roedd pris i'w dalu. Mae economi'r DU yn awr 4 y cant yn fwy na'r hyn a oedd ar ei fwyaf cyn yr argyfwng, a chlywais yr hyn a ddywedodd Gweinidog yr economi ynglŷn â sut y mae rhai mesurau yng Nghymru yn gwella. Gadewch i ni beidio ag edrych yn rhy fanwl i weld a yw'r gwelliant hwnnw i gyd i'w briodoli i Lywodraeth Cymru neu a yw'r cyfan ohono i'w briodoli i Lywodraeth y DU; y ffaith amdani yw bod yna welliant yn digwydd ar lawr gwlad, ac mae'n welliant y mae pobl y wlad hon yn haeddu ei weld yn parhau.

Fel yr amheuwyd ar ddechrau'r ddadl hon, roedd nifer o Aelodau yn awyddus i roi'r bai ar y banciau, fel y clywsom mor aml o'r blaen, gan fynd yn ôl at argyfwng bancio 2008. Mae'n wir—rydych yn llygad eich lle—fod yr argyfwng bancio wedi ychwanegu £80 biliwn at y diffyg ar amrantiad, a chaniatwyd i hynny ddigwydd, wrth gwrs, oherwydd diffyg rheoleiddio cyn hynny, ond mae honno'n ddadl ar gyfer rhywbryd eto. Y pwynt yw na ddylai fod gan y DU ddiffyg o £80 biliwn ar ddechrau'r argyfwng; dylid bod wedi ymdrin â'r diffyg yn gynt.

I agree completely with one part of what Simon Thomas said when, Simon, you quoted that famous economist, Milton Keynes. I think that was probably a Freudian slip, actually; in Milton Keynes you go around in roundabouts, don't you? And, I think, in your speech, you answered your own question, actually. You said that the deficit should have been dealt with back in the early days of the 2000s, when a surplus could have been run and when the economy was growing. It wasn't your fault that that didn't happen; we know whose fault it was. It wasn't even the fault of the economy Minister here—I'll be generous in this debate today. It wasn't the fault of the Labour Party here. Perhaps if Jane Hutt had been running the economy instead of Gordon Brown back in those days—you don't have to look so shocked over there on the frontbench—perhaps then we wouldn't have been in quite the mess we found ourselves in. Sadly, she wasn't. We will never know what would have happened under that sort of administration. But we were where we were, decisions had to be taken, cuts had to be made. Sometimes, you listen to the governing party here and it's as though no cuts had to be made at all.

Yes, growing yourself out of a recession is the normal way to do it, through spending, but, of course, that doesn't apply to a completely debt-driven recession. You can only spend your way out of it if you've got the money to do it. What we do know, of course, here, is that the Welsh Government's record of dealing with the economic problems of areas such as south Wales and the Valleys has not been perfect. Back in the halcyon days, the early days, of this Assembly, Rhodri Morgan famously stood up and said, 'We'll only need one round of European structural funds; one is all that it will take'—he was quite clear about that, actually—and there would be such a wonderful economic programme that we would all be living in the land of milk and honey by now in Wales, after 15 years of Labour running the show—

Cytunaf yn llwyr ag un rhan o'r hyn a ddywedodd Simon Thomas pan ddyfynnoch chi, Simon, yr economegydd enwog, Milton Keynes. Credaf mai camgymeriad Freudaidd oedd hynny yn ôl pob tebyg; yn Milton Keynes rydych chi'n teithio o gwmpas y cylchfannau, onid ydych? Ac rwy'n meddwl, yn eich araith, eich bod wedi ateb eich cwestiwn eich hun, mewn gwirionedd. Fe ddywedoch y dylid bod wedi mynd i'r afael â'r diffyg yn ôl ar ddechrau'r 2000au, pan ellid bod wedi defnyddio arian dros ben a phan oedd yr economi'n tyfu. Nid arnoch chi y mae'r bai na ddigwyddodd hynny; gwyddom ar bwy oedd y bai. Nid ar Weinidog yr economi yn y fan hon oedd y bai hyd yn oed—byddaf yn hael yn y ddaol hon heddiw. Nid ar y Blaid Lafur yma oedd y bai. Efallai pe bai Jane Hutt wedi bod yn rhedeg yr economi yn hytrach na Gordon Brown yn ôl yn y dyddiau hynny—nid oes raid i chi edrych mor syn draw ar y fainc flaen—efallai na fyddem wedi bod yn y fath lanast. Yn anffodus, nid hi oedd yn rhedeg yr economi. Ni fyddwn byth yn gwybod beth fyddai wedi digwydd o dan weinyddiaeth o'r fath. Ond roeddem yn y sefyllfa roeddem ynddi, roedd yn rhaid gwneud penderfyniadau, roedd yn rhaid gwneud toriadau. Weithiau, rydych yn gwrandao ar y blaid sy'n llywodraethu yma ac mae'n ymddangos fel pe na bai'n rhaid bod wedi gwneud unrhyw doriadau o gwbl.

Ie, tyfu eich hun allan o ddirwasgiad yw'r ffordd arferol o'i wneud, drwy wariant, ond wrth gwrs, nid yw hynny'n berthnasol i ddirwasgiad wedi'i ysgogi'n llwyr gan ddyled. Ni allwch ond gwario eich ffordd allan ohono os oes gennych yr arian i wneud hynny. Yr hyn a wyddom, wrth gwrs, yma, yw nad yw hanes Llywodraeth Cymru o ymdrin â phroblemau economaidd ardaloedd megis de Cymru a'r Cymoedd wedi bod yn berffaith. Yn ôl yn nyddiau dedwydd, dyddiau cynnar, y Cynulliad hwn, fe gododd Rhodri Morgan a dweud y geiriau enwog, 'Ni fydd angen mwy nag un cylch o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd arnom; un yn unig fydd ei angen'—roedd yn gwbl glir ynghylch hynny, mewn gwirionedd—a byddai yna raglen economaidd mor wych fel y byddem i gyd yn byw mewn gwlad o laeth a mêl erbyn hyn yng Nghymru, ar ôl 15 mlynedd o Lafur yn rhedeg y sioe—

16:46 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:46 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#)

In a moment, Mick.

Mewn munud, Mick.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

[Continues.]—and spending money where it should have been. Well, of course, that didn't happen, did it? As has been recognised by many commentators, that money was not spent as it should have been, and the Valleys and other areas of Wales have been suffering ever since as a consequence. Mick Antoniw.

[Yn parhau.]—ac yn gwario arian lle y dylai gael ei wario. Wel, wrth gwrs, ni ddigwyddodd hynny. Fel sydd wedi cael ei gydnabod gan lawer o sylwebwyr, ni wariwyd yr arian fel y dylai fod wedi cael ei wario, ac mae'r Cymoedd a rhannau eraill o Gymru wedi bod yn dioddef byth ers hynny o ganlyniad. Mick Antoniw.

16:47 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

Just a small point, but will you agree with me that the Tory introduction of the bedroom tax was a cruel and vindictive measure, taken against some of the poorest and most vulnerable? Will you say and will you agree with me that it was a major mistake by the Tory party?

Un pwynt bach: a gytunwch fod cyflwyno'r dreth ystafell wely gan y Torïaid yn fesur creulon a dialgar, yn erbyn rhai o'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed? A wnewch chi ddweud ac a wnewch chi gytuno ei fod yn gamgymeriad mawr gan y blaid Dorïaidd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 16:47 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'll agree with you if you agree with me that it was a major mistake of Gordon Brown to abolish the 10p tax rate, which plunged a load of people on lower incomes into tax. [Interruption.] Well—
- Wel, fe gytunaf â chi os cytunwch â mi mai camgymeriad mawr gan Gordon Brown oedd dileu'r gyfradd dreth 10c, a olygodd bod llwyth o bobl ar incwm is wedi gorfod talu treth. [Torri ar draws.] Wel—
- 16:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. This is not a conversation. I suspect your remark was heard. Nick Ramsay.
- Trefn. Nid sgwrs yw hon. Rwy'n credu bod eich sylw wedi ei glywed. Nick Ramsay.
- 16:47 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Perhaps we should have more conversations, Mick; we might have some sensible discussions that would get somewhere.
- Efallai y dylem gael mwy o sgysiau, Mick; efallai y byddem yn cael trafodaethau synhwyrol a fyddai'n mynd i rywle.
- I do regret that some of the decisions had to be made, but, unfortunately, because the economy wasn't turned around back in the days when it should have been, then we did end up having to make a number of cuts. But as the economy grows, then there will be more money available to put into spending on those public services that we want—more money for the economy Minister to spend on growing the economy here, and that will be in a short time. But it will only come—that day will only come—if we do not turn our back on the progress that has been made, if we do not turn our back on the difficulties that have been endured, but endured because there was a medium-term and a long-term goal, which those committed to the long-term economic plan recognise, and that is, by carrying on the path that we are on, then things will get better.
- Rwy'n gresynu bod yn rhaid gwneud rhai o'r penderfyniadau a wnaed, ond yn anffodus, gan na chafodd yr economi ei rhoi ar y trywydd iawn yn ôl yn y dyddiau pan ddylai hynny fod wedi digwydd, bu'n rhaid i ni wneud nifer o doriadau. Ond wrth i'r economi dyfu, bydd mwy o arian ar gael i'w wario ar y gwasanaethau cyhoeddus rydym eu heisiau—mwy o arian i Weinidog yr economi ei wario ar wella'r economi yma, a bydd hynny'n digwydd mewn amser byr. Ond ni fydd yn dod—ni ddaw'r diwrnod hwnnw—os ydym yn troi ein cefn ar y cynnydd a wnaed, os ydym yn troi ein cefn ar yr anawsterau a wynebwyd, ond a wynebwyd am fod yna nod yn y tymor canolig a'r tymor hir, a gydnabyddir gan y rhai a ymrwymodd i'r cynllun economaidd hirdymor, sef y daw pethau'n well o gadw ar y trywydd rydym yn ei ddilyn yn awr.
- Employment is up, retail sales are up, growth is up. Yes, tomorrow the electorate will have their say, and I know that there are a multitude of different opinions in this Chamber about what the electorate will do, and a multitude of different possibilities in terms of what the next Government will be. That is democracy. It is the democratic right of people voting tomorrow to decide how they want their country to be run, but I would say to those people: be very sure before you turn your back on the economic plan. Be very sure what you are doing, because otherwise you will be putting parties into power that do not have the solutions that they will tell you they have and, before you know where you are, we will be back to the days we were in five years ago and 10 years ago—reckless spending, reckless borrowing, the economy in a downward spiral, and then who will sort it out?
- Mae cyflogaeth ar gynydd, mae gwerthiannau manwerthu ar gynydd, mae twf ar gynydd. Yfory bydd yr etholwyr yn cael dweud eu dweud, ac rwy'n gwybod bod llu o wahanol safbwyntiau yn y Siambr hon ynglŷn â'r hyn y bydd yr etholwyr yn ei wneud, a llu o wahanol bosibiliadau o ran yr hyn fydd y Llywodraeth nesaf. Dyna yw democratiaeth. Dyna hawl ddemocrataidd pobl a fydd yn pleidleisio yfory i benderfynu sut y maent am i'w gwlad gael ei rhedeg, ond byddwn yn dweud wrth y bobl hynny: byddwch yn siŵr iawn cyn i chi droi eich cefn ar y cynllun economaidd. Byddwch yn siŵr iawn beth rydych yn ei wneud, oherwydd fel arall byddwch yn rhoi pleidiau mewn grym heb fod ganddynt yr atebion y byddant yn dweud wrthydd sydd ganddynt, a chyn i chi wybod lle rydych, byddwn yn ôl i'r dyddiau roeddem ynddynt bum mlynedd yn ôl a 10 mlynedd yn ôl—gwariant di-hid, benthyca di-hid, yr economi ar i waered, a phwy fydd yno wedyn i ddatrys y cyfan?
- 16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting on this item until voting time.
- Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Rwy'n gohirio pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.
- Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
- Voting deferred until voting time.*

5. Dadl Plaid Cymru: Plismona

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 4 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Paul Davies.

5. Plaid Cymru Debate: Policing

The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 4 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Paul Davies.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is the Plaid Cymru debate on policing, and I call on Rhodri Glyn Thomas to move the motion.

Eitem 5 yw dadl Plaid Cymru ar blismona, a galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnis y cynnis.

Cynnig NDM5751 Elin Jones

Motion NDM5751 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu y dylai plismona adlewyrchu anghenion pobl Cymru.

1. Believes that policing should reflect the needs of the people of Wales.

2. Yn credu bod heddluoedd Cymru wedi cael eu gwleidyddoli drwy sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd etholedig.

2. Believes that the police forces of Wales have been politicised by establishing elected Police and Crime Commissioners.

3. Yn galw am ddileu'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau cyn gynted â phosibl.

3. Calls for Police and Crime Commissioners to be scrapped at the earliest opportunity.

Cynigiwyd y cynnis.

Motion moved.

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser i gael cyflwyno'r ddadl yma a'r cynnis yma, a osodwyd yn enw Elin Jones. Rwy'n mawr obeithio y bydd y ddadl yma yn ymwneud fwyfwy â'r hyn sy'n berthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i ddyletswyddau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru na'r dadleuon blaenorol. Fe geisïaf i, Ddirprwy Lywydd, o leiaf i osgoi cyfeirio at yr etholiad cyffredinol yfory, ac eithrio un peth: rwy'n mawr obeithio y bydd yna fwy o bobl yn pleidleisio yfory nag a bleidleisiodd yn etholiadau'r comisiynwyr heddlu a throseddau, oherwydd y ffaith amdani oedd bod 80 y cant o boblogaeth Cymru wedi penderfynu fod yr etholiadau hynny yn gwbl amherthnasol, ac wedi dewis peidio â bwrw pleidlais a pheidio â bod yn rhan o'r broses. Yn wir, mewn un bwth pleidleisio yng Nghymru, wnaeth neb bleidleisio o gwbl yn yr etholiadau hynny. Mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith fod y rhan fwyaf o boblogaeth Cymru yn credu bod y penderfyniad i sefydlu comisiynwyr heddlu a throsedd yn gam gwag ac yn amherthnasol i anghenion Cymru.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. It gives me great pleasure to open this debate and to move the motion, tabled in the name of Elin Jones. I very much hope that this debate will be of more relevance to the National Assembly for Wales and to the duties and responsibilities of the Welsh Government than the previous debates have been. I will try, Deputy Presiding Officer, to try to avoid referring to tomorrow's general election, with the exception of one comment: I very much hope that more people will vote tomorrow than those who voted in the police and crime commissioner elections, because the fact of the matter is that 80 per cent of the Welsh population decided that those elections were completely irrelevant and, therefore, did not cast their vote and take part in the process. Indeed, during those elections, one polling station in Wales saw no voters at all. That reflects the fact that the majority of the Welsh population believes that the decision to establish police and crime commissioners was a mistake and irrelevant to the needs of Wales.

Dyna pam rydym ni'n agor y ddadl a'r cynnis yma gyda'r cymal sydd yn datgan—ac rwy'n mawr obeithio na all neb anghytuno â hyn—ein bod ni'n credu y dylai plismona adlewyrchu anghenion pobl Cymru. Ry'm ni'n mynd ymlaen i ddweud—ac rwy'n gobeithio na all neb anghytuno â hyn; mae'r rhesymeg yn gwbl glir—ein bod ni'n credu bod heddluoedd Cymru wedi cael eu gwleidyddoli trwy sefydlu comisiynwyr heddlu a throseddau etholedig. Nawr, mae hynny yn ffaith ddiarnheul. Pan fyddwch yn sefydlu pobl i fod yn gomisiynwyr rydych yn creu elfen wleidyddol, ac mae hynny yn golygu bod yr holl broses o blismona yn cael ei hailgyfeirio oddi wrth anghenion Cymru a phobl Cymru tuag at ddymuniadau a dyheadau unigolion sydd yn cynrychioli barn unigol, ac, yn aml iawn, barn bleidiol yng Nghymru. Felly, rydym yn galw am ddileu'r comisiynwyr heddlu a throseddau cyn gynted â phosibl.

That is why we open this debate and motion with the clause that states—and I really hope that no-one can disagree with this—that we believe that policing should reflect the needs of the people of Wales. We go on to say—and, again, I hope that no-one can disagree with this; the rationale is very clear—that we believe that the police forces of Wales have been politicised through the establishment of elected police and crime commissioners. Now, that is an undisputed fact. When you establish people in the role of commissioner, you create a political element, and that means that the whole process of policing is redirected from the needs of the Wales and its people towards the wishes and aspirations of individuals who represent a single viewpoint, and, very often in Wales, a party political view. Therefore, we call for the abolition of police and crime commissioners as soon as possible.

O ran y gweliannau, rwy'n ddigon hapus i dderbyn gwelliant 1 yn enw Aled Roberts. Rwy'n ddigon hapus i dderbyn bod y ffigurau yn dangos bod troseddu wedi gostwng, ac yn falch iawn o weld bod y duedd i osod plant mewn sefyllfaoedd dan glo wedi cael ei dileu. Yr unig beth y byddwn i'n ddweud ydy na fyddwn i'n derbyn bod ethol comisiynwyr heddlu a throseddu wedi gwneud unrhyw beth i gyfrannu at hynny. Y gwir amdani ydy bod plismona yn mynd yn ei flaen yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith fod gennym ni gomisiynwyr heddlu a throseddu.

Mae gwelliant 2 yn enw Aled Roberts yn rhywbeth rwy'n meddwl y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru benderfynu arno fe. Rwy'n meddwl y dylem ni gael y drafodaeth yn y fan hyn. Mae yna ddadleuon dros ac yn erbyn cael un heddlu ar gyfer Cymru, neu nifer o heddluoedd, ond yn y fan hyn y dylid cael y drafodaeth honno. Felly, fel plaid, nid ydym yn barod ar hyn o bryd i wneud penderfyniad cyn i ni gael y drafodaeth. Fe fyddwn ni'n atal ein pleidlais ar welliant 2.

Rŷm ni'n gwrthod yn llwyr welliant 3 yn enw'r Ceidwadwyr, oherwydd nid oes gan y comisiynwyr yma ddim cysylltiad o gwbl â'u cymunedau lleol. Mae'r ffaith syml fod 80 y cant o boblogaeth Cymru wedi penderfynu anwybyddu'r etholiadau a pheidio â bwrw eu pleidlais yn profi hynny.

Ond rŷm ni, wrth reswm, yn derbyn gwelliant 4 yn enw Aled Roberts. Mae angen i ni gael trafodaeth yn y fan hyn ynglŷn â phlismona. Mae'n rhaid i ni gael y cyfrifoldeb ynglŷn â phlismona er mwyn sicrhau bod plismona yn uniongyrchol atebol i gymunedau Cymru. Mae yna gefnogaeth gynyddol, rwy'n credu, yn drawsbleidiol yn y fan hyn i'r ddadl y dylai plismona—hynny yw, yr elfen hynny o weithredu ar ran yr heddluoedd yng Nghymru—gael ei reoli o'r fan hyn.

Mae yna ddadl arall ynglŷn ag ariannu hynny, ac mae yna ddadl arall ynglŷn â'r cysylltiad wedyn â'r Ysgrifennydd Cartref a'r math o elfennau o blismona rhyngwladol a fyddai'n aros yn San Steffan. Ond plismona uniongyrchol yng Nghymru, fe ddylai hynny, ac fe allai hynny, ddod o dan gyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol. Dyna a fyddai'n ei wneud yn atebol, nid rhyw gomisiynwyr amherthnasol. Mae'n rhaid cofio, wrth gwrs, fod yna ddadl wedi cael ei chynnal yma yn y Cynulliad, ac mi roedd yna fwyafrif sylweddol yn gwrthwynebu'r syniad o dderbyn bod angen comisiynwyr. Mae'n rhaid dweud bod hyd yn oed teitl y comisiynwyr—nid yn unig comisiynwyr yr heddlu, ond troseddu hefyd—yn rhoi rhyw elfen Americanaidd i'r holl broses, ein bod ni'n creu y syniad yma bod y comisiynwyr yma rywsut yn cynrychioli y bobl, ac yn cynrychioli dyheadau y bobl.

Mae'n rhaid i fi gyfeirio at y sefyllfa sydd yn bodoli yn fy rhanbarth i fy hunan, yn rhanbarth Heddlu Dyfed-Powys. Yn y fan honno y mae'r comisiynydd—ac mae'n rhaid i fi ddweud, nid wyf, yn y fan hyn, yn beirniadu unigolion; rwyf ar delerau cyfeillgar iawn gyda'r comisiynydd, Chris Salmon, yn Nyfed-Powys, ac yn adnabod rhai o'r comisiynwyr eraill. Nid yr unigolion rwy'n eu gwrthwynebu, ond y swydd ei hun, a'r syniad bod y swydd yma yn rhywbeth sy'n berthnasol i anghenion Cymru.

In terms of the amendments, I am quite happy to accept amendment 1 in the name of Aled Roberts. I am also quite happy that the figures show that crime rates have fallen, and I am very pleased to see that the tendency of placing children in custodial situations has come to an end. The only thing I would say is that we wouldn't accept that the election of police and crime commissioner contributed to that in any way. The fact of the matter is that policing goes on in Wales, despite the fact that we have police and crime commissioners.

Amendment 2 in the name of Aled Roberts is something that I believe the National Assembly for Wales should decide upon. I think that we should have that discussion here. There are arguments for and against having one police force for Wales, or a number of police forces, but it is here that that discussion should take place. Therefore, as a party, we are not currently prepared to make a decision before a discussion is held. We will therefore abstain our vote on amendment 2.

We completely reject the Conservatives' amendment 3, because these commissioners have no links at all with their local communities. The simple fact that 80 per cent of the Welsh population decided to ignore the elections and to not vote proves that viewpoint.

Naturally, we accept amendment 4 in the name of Aled Roberts. There is a need for us to have a discussion here about policing. We need to have the responsibility for policing in order to ensure that policing is directly accountable to communities in Wales. There is increasing support, I think, across party here for the argument that policing—i.e. that element of operating the police forces in Wales—should be managed from here.

There is another argument about funding that, and there is another argument for the link then with the Home Secretary and the kind of international policing elements that would remain in Westminster. But direct policing in Wales, that should, and it could, come under the responsibility of the National Assembly. That is what would make it accountable, not some sort of irrelevant commissioners. We must remember, of course, that a debate was held here in the Assembly, and the majority objected to the idea of the need for commissioners. It must be said that even the title of the commissioners—not just police commissioners, but police and crime commissioners—gives some sort of American element to the whole process, creating this idea that these commissioners somehow represent the people, and represent the wishes of the people.

I have to refer to the situation that exists in my own region, the Dyfed-Powys Police area. There, the commissioner—and I have to say that I'm not criticising individuals here; I'm on very friendly terms with the commissioner, Chris Salmon, in Dyfed-Powys, and I know some of the other commissioners. It's not the individuals that I object to, but the job itself and the idea that the job is relevant to the needs of Wales.

Ond gadewch i ni edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd yn ardal Dyfed-Powys. Mae'r comisiynydd wedi croesawu gostyngiad yn y gwariant ar blismona yn Nyfed-Powys. Nawr, pwy yn ei iawn bwyll y dyddiau yma allai ddadlau bod lleihau'r gwariant ar blismona rywsut yn mynd i wella'r broses o blismona? Oni fyddai unrhyw un sydd â gwir ddiddordeb yn y broses o blismona yn dadlau bod angen i ni fuddsoddi ynnddi hi? Beth rŷm ni wedi ei gweld hefyd ydy bod y comisiynydd wedi methu yn ei ddadl i geisio cadw yr hofrennydd oedd yn weithredol o fewn adran Dyfed-Powys, ac wedi gorfod rhannu y gwasanaeth gyda nifer o ardaloedd eraill, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth ac effaith y gwasanaeth yn lleihau yn Nyfed-Powys—ac mae e. Dyma, wrth gwrs, y peth sydd yn dangos beth yw natur y swyddogaeth yma o fod yn gomisiynydd. Mae wedi dechrau ymgynghoriad ar gael plismyn arfog yn Nyfed-Powys. Nawr, pwy, heblaw y comisiynydd, sydd wedi meddwl bod hynny yn berthnasol mewn unrhyw ffordd i blismona mewn ardal fel Dyfed-Powys? Nid wyf wedi clywed unrhyw un arall sydd ag unrhyw gysylltiad â'r heddlu yn dadlau yr achos yma.

Felly, rwy'n mawr obeithio y cawn ni gefnogaeth i'r cynnig yma, ac i'r gwelliannau rŷm ni wedi eu derbyn y prynhawn yma, ac y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud datganiad clir iawn y dylai plismona fod yn nwylo pobl broffesiynol sydd yn gwybod sut i sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw'n effeithiol, bod yna awdurdodau heddlu—pwersau sydd yn cynrychioli'r gymuned—yn sgrwtineiddio'r gwaith y maen nhw'n ei wneud, ac yn atebol i'w cymunedau lleol, ac y gallwn ni gael gwared ar yr elfen gwbl amherthnasol yma a gyflwynwyd o Loegr i ni, o gomisiynwyr sydd wedi cyfrannu dim at y broses.

Let us look at what has happened in the Dyfed-Powys area. The commissioner has welcomed a reduction in the spending on policing in Dyfed-Powys. Now, who in his right mind these days could argue that a reduction in expenditure on policing is somehow going to improve the process of policing? Wouldn't anyone who has a real interest in the process of policing argue that we need to invest in it? What we've seen also is that the commissioner has failed in his argument to try to keep the helicopter that was operating within the Dyfed-Powys area, and has had to share the service with a number of other areas, which means that the service and the impact of that service is reduced in Dyfed-Powys—and it is. This, of course, is what shows the nature of the function of being a commissioner. He has started a consultation on having armed police in Dyfed-Powys. Who, except for the commissioner, has thought that that is relevant in any way to policing in an area such as Dyfed-Powys? I haven't heard anybody else who has any link with the police arguing that case.

So, I really do hope that we have support for this motion and the amendments that we have accepted this afternoon, and that the National Assembly for Wales can make a clear statement that policing should be in the hands of professional people who know how to ensure that that service is effective, that there are police authorities—powers that represent community—scrutinising the work that they are doing, and accountable to their communities, and that we can get rid of this totally irrelevant element that was introduced from England of commissioners that haven't contributed to the process at all.

16:59

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I have selected the four amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendments 1, 2 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Mewnosod pwynt 1 newydd ac ailrifo:

Yn croesawu bod troseddu wedi gostwng mwy na 20 y cant i'r lefel isaf erioed o dan Lywodraeth y DU a bod plant dan gadwad, fel yr oedd o dan y Blaid Lafur, wedi dod i ben.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 1:

'ac y caiff hyn ei wneud orau gan heddluoedd lleol ac atebol ac nid drwy greu un heddlu yng Nghymru sydd wedi'i ganoli'n ormodol.'

Gwelliant 4—Aled Roberts

Mewnosod pwynt 3 newydd ac ailrifo:

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 1, 2 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Amendment 1—Aled Roberts

Insert as new point 1 and renumber:

Welcomes that crime has fallen by more than 20 per cent to a record low under the UK Government and that child detention, as it existed under Labour, has ended.

Amendment 2—Aled Roberts

Insert at end of point 1:

'and that this is best met by local, accountable police forces not by the creation of a single, over-centralised Welsh police force.'

Amendment 4—Aled Roberts

Insert as new point 3 and renumber:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn credu y bydd datganoli plismona i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn galluogi polisiâu i fod yn fwy ymatebol i anghenion Cymru ac felly'n galw am ddatganoli plismona a chyfiawnder ieuenticid, a chynnal adolygiad i ddatganoli carchardai, y gwasanaeth prawf a chyfiawnder.

Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 4.

Believes that devolving policing to the National Assembly for Wales will enable policies to be more responsive to the needs of Wales and therefore calls for the devolution of policing and youth justice, and a review into devolving prisons, probation and justice.

Amendments 1, 2 and 4 moved.

16:59

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. After that great economist, Milton Keynes, I notice the public services Minister suggests we have the police commissioner 'Laura Norder'—[Interruption.] Law and order, yes. [Laughter.] Who I think, obviously, would do a much better job than some of the police commissioners we have at the moment—maybe not, I don't know. I think, Deputy Presiding Officer, in response to this motion, and in terms of the amendments which the Liberal Democrats have tabled, the first amendment refers to the fall in crime by 20 per cent since 2010, which relies on the independent crime survey for England and Wales, and that is very welcome because there are now 2.4 million fewer crimes than when the present Government took office in 2010. All crime types have seen a decrease on the previous year, with vehicle theft and criminal damage down by 15 per cent and other household theft down by 9 per cent. Despite this decrease, police recoding of crime is improving and more victims of sexual offences are coming forward. The hate crimes 2013-14 report reveals that hate crimes recorded by the police increased by 5 per cent on the previous year. Obviously, that trend is something that needs to be reversed, but I think the fact that there was more reporting indicates that the problems around actually prosecuting that type of crime are changing and it is becoming easier—

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ar ôl yr economegydd mawr hwnnw, Milton Keynes, rwy'n sylwi bod y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus yn awgrymu ein bod yn cael y comisiynydd heddlu 'Laura Norder'—[Torri ar draws.] Ie, cyfraith a threfn. [Chwerthin.] A chredaf, yn amlwg, y byddai'n gwneud y gwaith yn llawer gwell na rhai o'r comisiynwyr heddlu sydd gennym ar hyn o bryd—efallai na fyddai, nid wyf yn gwybod. Credaf, Ddirprwy Lywydd, mewn ymateb i'r cynnig hwn, ac o ran y diwygiadau y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi'u cyflwyno, mae'r gwelliant cyntaf yn cyfeirio at y gostyngiad 20 y cant mewn troseddau ers 2010, sy'n dibynnu ar yr arolwg troseddau annibynnol ar gyfer Cymru a Lloegr, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr oherwydd erbyn hyn mae 2.4 miliwn yn llai o droseddau na phan gymerodd y Llywodraeth bresennol at yr awenau yn 2010. Gwelwyd gostyngiad yn yr holl ystod o droseddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 15 y cant yn llai o ddirifod troseddol a dwyn cerbydau ac achosion eraill o ddwyn o gartrefi 9 y cant yn llai. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae gwaith ail-godio troseddau'r heddlu'n gwella ac mae mwy o ddiodefyrwyr troseddau rhywiol yn dod ymlaen. Mae adroddiad troseddau casineb 2013-14 yn datgelu bod troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu wedi cynyddu 5 y cant ers y flwyddyn flaenorol. Yn amlwg, mae angen unioni'r duedd honno, ond credaf fod y ffaith fod adroddiadau ar gynydd yn dangos bod y problemau ynghylch mynd â'r math hwn o drosedd i gyfraith mewn gwirionedd yn newid ac yn mynd yn haws—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:00

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to the Member. I don't disagree with the general thrust of what he's saying and, as he knows, we accept the amendment, but it's important to be clear here, I think. The amendment refers to the national crime survey, which has shown that drop. Now, when we talk about recorded crime, there's actually been a small increase of 4 per cent in Wales; 2 per cent over Wales and England together. That reflects some of the things he's talking about, such as hate crimes and so forth, but it shows that we have to keep an eye on this.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod. Nid wyf yn anghytuno â byrdwn cyffredinol yr hyn y mae'n ei ddweud ac, fel y gŵyr, rydym yn derbyn y gwelliant, ond credaf ei bod yn bwysig bod yn glir yma. Mae'r gwelliant yn cyfeirio at yr arolwg troseddau cenedlaethol, sydd wedi dangos y gostyngiad hwnnw. Nawr, pan fyddwn yn sôn am droseddau a gofnodwyd, mae cynnydd bach o 4 y cant wedi bod yng Nghymru mewn gwirionedd; 2 y cant dros Gymru a Lloegr gyda'i gilydd. Mae hynny yn adlewyrchu rhai o'r pethau y mae'n siarad amdanynt, megis troseddau casineb ac yn y blaen, ond mae'n dangos bod yn rhaid i ni gadw llygad ar hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:01

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, absolutely, because I think that the recoding actually was quite complex and did produce a mixed picture. But, in general, the national crime survey shows a 20 per cent decrease. I accept that there are some differences in there and some increases in some types of crime, but that needs to be dealt with. I think the general thrust of the motion and debate, that the police need the resources to deal with this particular issue, is one I would certainly support.

Wel, yn hollol, oherwydd credaf fod yr ail-godio mewn gwirionedd wedi bod yn eithaf cymhleth a bu iddo greu darlun cymysg. Ond, yn gyffredinol, mae'r arolwg troseddau cenedlaethol yn dangos gostyngiad o 20 y cant. Rwy'n derbyn bod rhai gwahaniaethau ynddo ac ychydig o gynydd mewn rhai mathau o droseddau, ond mae angen ymdrin â hynny. Credaf fod y byrdwn cyffredinol y cynnig a'r ddadl, sef bod angen i'r heddlu gael yr adnoddau i ymdrin â'r mater penodol hwn, yn un y byddwn yn sicr yn ei gefnogi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of a single, centralised Welsh police force, I note that Rhodri Glyn Thomas is sitting on the fence on this issue, which, obviously, is an unusual position for Rhodri Glyn Thomas, although I'm sure he'll be very comfortable there. We have had this debate before, of course, in the Assembly when the previous—

O ran cael un heddlu canolog i Gymru, nodaf fod Rhodri Glyn Thomas yn eistedd ar y ffens ynglŷn â'r mater hwn, sydd, yn amlwg, yn sefyllfa anarferol i Rhodri Glyn Thomas, er fy mod i'n siŵr y bydd yn hynod gyfforddus yno. Rydym wedi cael y ddatl hon o'r blaen, wrth gwrs, yn y Cynulliad pan fu'r—

17:02 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Peter, will you take an intervention?

Peter, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:02 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
If you want.

Os ydych chi eisiau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:02 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'm sure I have to bow to your experience of sitting on the fence; I haven't had the experience myself. But what I did say was that it's a democratic decision that should be taken by the National Assembly for Wales and that I don't want to pre-empt that discussion by stating my preference at this particular point.

Rwy'n siŵr bod yn rhaid i mi ildio i'ch profiad o eistedd ar y ffens; ni chefais y profiad fy hun. Ond yr hyn a ddywedais oedd mai penderfyniad democrataidd y dylid ei gymryd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac nad wyf am achub y blaen ar y drafodaeth drwy ddatgan fy newis i ar y pwynt penodol hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:02 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I understood that and I was coming round to that, Rhodri. Of course, in my experience, we don't tend to get splinters here. I'm sure you'll learn that soon, because you sit there so often.

Rwy'n deall hynny ac roeddwn ar fin sôn am hynny, Rhodri. Wrth gwrs, yn fy mhrofiad i, nid ydym yn tueddu i gael fflawiau yma. Rwy'n siŵr y byddwch yn dysgu hynny'n fuan, oherwydd eich bod yn eistedd yno mor aml.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

In terms of centralising the police force, we have had this discussion before, of course, when the previous Labour Government did propose that. There was cross-party unanimity in opposing the idea of a single police force for Wales. Whether we've moved on from that, I don't know, and certainly I'm interested in having that debate and that discussion. If you look to Scotland, there is an excellent example there of how not to run the police. There's been a single police force created, which has led to the systematic and categorical stripping of powers from local communities, with decisions on policing and fire services made in the central belt rather than in local communities and the police service in Scotland in turmoil in many areas, with low morale, guns on the streets of the Highlands and shocking rates of stop and search. The loss of local accountability in Scotland means that the centralised Police Scotland has closed five police control rooms and 61 public counters at police stations. So, I think there is a lesson there about what can go wrong when you go down this route, and I think we do need to learn from that. Maybe when we have that discussion, when we actually have the power over policing, we can take account of the lessons in Scotland and try not to repeat them here in Wales.

O ran canoli'r heddlu, rydym wedi cael y drafodaeth hon o'r blaen, wrth gwrs, pan wnaeth y Llywodraeth Lafur flaenorol y cynnig hwnnw. Roedd unfrydedd ar draws y pleidiau yn gwrthwynebu'r syniad o gael heddlu i Gymru. A ydym wedi symud ymlaen ers hynny, nid wyf yn gwybod, ac yn sicr mae gen i ddiddordeb mewn cael y ddatl a'r drafodaeth honno. Os ydych yn edrych ar yr Alban, ceir enghraifft wych yno o sut i beidio â rhedeg yr heddlu. Mae un heddlu wedi'i chreu, gan arwain at amddifadu cymunedau lleol yn bendifaddau o'u pweiau mewn modd systemataidd, gyda phenderfyniadau ar blismona a gwasanaethau tân yn cael eu gwneud yn ganolog yn hytrach nag yn y cymunedau lleol a'r gwasanaeth heddlu yn yr Alban mewn anhrefn mewn llawer o ardaloedd, gyda morâl isel, gynnu ar strydoedd yr Ucheldiroedd a chyfraddau brawychus o stopio a chwilio. Mae colli atebolrwydd lleol yn yr Alban yn golygu bod Heddlu canolog yr Alban wedi cau pump o ystafelloedd rheoli'r heddlu a 61 o gonterti cyhoeddus mewn gorsafoedd heddlu. Felly, credaf fod yno wers ynghylch yr hyn a all fynd o'i le pan fyddwch yn dilyn y llwybr hwn, a chredaf fod angen i ni ddsygu o hynny. Efallai pan gawn y drafodaeth honno, pan fydd gennym mewn gwirionedd bŵer dros blismona, y gallwn ystyried gwersi'r Alban a cheisio peidio â'u hailadrodd yma yng Nghymru.

The police and crime commissioners, of course, are against the idea of a single, centralised Welsh police force, although I guess that won't have much truck with Plaid Cymru and other people who don't like them, but that is the view that they take. Alun Michael, for example, is saying,

Mae'r comisiynwyr heddlu a throsedd, wrth gwrs, yn erbyn y syniad o un heddlu canolog i Gymru, er y tybiaf na fydd hynny'n cael llawer o groeso gan Blaid Cymru a phobl eraill nad ydynt yn eu hoffi, ond dyna yw eu barn hwy. Mae Alun Michael, er enghraifft, yn dweud,

'I would be totally opposed to creating a single Welsh police force'.

'Byddwn yn llwyr wrthwynebu creu un heddlu yng Nghymru'.

And, of course, Christopher Salmon in Dyfed-Powys is saying that, if you make something centralised, you make it more remote from communities. That really is the fear of going down that route.

In terms of the amendments, we won't be supporting the Conservative Party amendment today. The Welsh Liberal Democrats have consistently opposed police and crime commissioners, irrespective of what has happened at UK level, and our general election manifesto details our commitment to improving local policing, guaranteeing that the police pursue the public's priorities by replacing police and crime commissioners with public police boards, made up of councillors from across the force areas in Wales. I think that, if we'd had devolved powers, we would have gone somewhere different to what has happened in the rest of the UK. Our second amendment confirms our commitment to locally accountable police forces, which I think needs to be taken forward. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Ac, wrth gwrs, mae Christopher Salmon yn ardal Dyfed-Powys yn dweud eich bod, wrth ganoli gwasanaeth yn ei bellhau oddi wrth gymunedau. Dyna yn wir yw'r ofn wrth ddilyn y llwybr hwnnw.

O ran y gwelliannau, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant y Blaid Geidwadol heddiw. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gyson wedi gwrthwynebu comisiynwyr heddlu a throseddau, waeth beth sy'n digwydd yn y DU gyfan, ac mae ein maniffesto ar gyfer yr etholiad cyffredinol yn nodi ein hymrwymiad i wella plismona lleol, gan warantu bod yr heddlu yn dilyn blaenoriaethau'r cyhoedd drwy ddileu comisiynwyr heddlu a throseddau a rhoi byrddau heddlu cyhoeddus yn eu lle, sy'n cynnwys cyngorwyr o ardaloedd heddluoedd Cymru gyfan. Credaf, pe baem wedi cael pwerau datganoledig, y byddem wedi dilyn trywydd gwahanol i'r hyn sydd wedi digwydd yng ngweddill y DU. Mae ein hail welliant yn cadarnhau ein hymrwymiad i heddluoedd sy'n atebol yn lleol, a chredaf y dylid bwrw ymlaen â hynny. Diolch, Ddirprwy Lywydd.

17:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Andrew R.T. Davies to move amendment 3 tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Andrew RT Davies i gynig gwelliant 3 a gyflwynir yn enw Paul Davies.

Gwelliant 3—Paul Davies

Amendment 3—Paul Davies

Dileu pwyntiau 2 a 3 a'u disodli gyda:

Delete points 2 and 3 and replace with:

Yn croesawu Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a etholir yn uniongyrchol sy'n rhoi cymunedau lleol wrth wraidd plismona ac yn dwyn Prif Gwnstablaid lleol i gyfrif.

Welcomes directly elected Police and Crime Commissioners which put local communities at the heart of policing and hold local Chief Constables to account.

Cynigiwyd gwelliant 3.

Amendment 3 moved.

17:04

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to contribute to the debate today and in particular to move the amendment in the name of Paul Davies, celebrating the success that we believe that police and crime commissioners have brought to their role. It is important to remember that there is a complete separation between the day-to-day operational matters that the chief constable deals with—in law, that's enshrined—and, obviously, the role of accountability that the police and crime commissioner has.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddatl heddiw ac yn arbennig i gynig y gwelliant yn enw Paul Davies, sy'n dathlu'r llwyddiant y credwn y cyfrannodd y comisiynwyr heddlu a throseddau i'w rôl. Mae'n bwysig cofio bod y materion gweithredol dyddiol y mae prif gwnstablaid yn ymdrin â hwy yn amlwg yn gyfan gwbl ar wahân—ac mae hyn wedi'i ymgorffori yn y gyfraith—i'r rôl atebolrwydd sydd gan y comisiynydd heddlu a throseddau.

In Wales, we have the make-up of two independents, we have a Labour police and crime commissioner and we have a Conservative one in Dyfed-Powys—and a very commendable police and crime commissioner in Dyfed-Powys, if I might say so too, for the actions that he has taken. That's different to the opener's remarks about some of the initiatives that Chris Salmon has undertaken there.

Yng Nghymru, mae gennym y sefyllfa o ddau berson annibynnol, mae gennym gomisiynydd heddlu a throseddau Llafur ac mae gennym un Ceidwadol yn Nyfed-Powys—a chomisiynydd heddlu a throseddau clodwiw iawn yn Nyfed-Powys, os caf ddweud hynny hefyd, o ran y camau y mae wedi eu cymryd. Mae hynny'n wahanol i sylwadau'r siaradwr agoriadol am rai o'r mentrau y mae Chris Salmon wedi eu cymryd yno.

We only need to look—. There's going to be 100,000 more police officer hours available to that force, because of the introduction of new IT, there will be two new mental health incident units that will be introduced, and there will be two new rural rape crisis centres introduced as well. A sum of £8.8 million has been saved and put into front-line policing, and the Dyfed-Powys CCTV strategy has been unrolled across the whole area. There are more warranted Dyfed-Powys police officers available in Dyfed-Powys Police and there is improved access to the police force, because of the commitment of that police and crime commissioner to make sure that police aren't in police stations—they are out on the beat and they are serving the public they are there to serve. Ultimately, there has been a 20 per cent reduction in the top 10 salaries within that police force.

It is vital to remember that we owe a great debt of gratitude to the officers who make up the police forces here in Wales, but across the rest of the United Kingdom, who put their lives on the line day in, day out, so that we may be safe. It has been talked about in other speeches so far this afternoon that, since 2010, crime has dropped by 20 per cent. What is pleasing about that is that, ultimately, it has gone against the grain of what many other political parties tried to paint, with the economic situation that the country faced—that we were going to see an explosion in crime in the United Kingdom.

It is a fact, though, that, obviously, the turnout—and I accept that point; you cannot deny it—at the election was very poor. But ultimately, there is a whole host of factors that could have contributed to that poor turnout. But what police and crime commissioners have offered is, for the first time, I would suggest, in communities the length and breadth of this country, the ability to have an individual who is accountable every four years for the actions of that force. Ultimately, the old police authorities were made up of politicians from various local authorities, plus appointments from the Home Secretary et cetera. But, how many people actually knew what their role was and what they undertook?

We do have far higher profile individuals, and we can argue about the merits of their politics, we can argue about the merits of their actions, but they are genuinely accountable. On this side of the Chamber, we do not believe that policing would be well served by devolving policing responsibility to this institution. We believe policing is best served by keeping it on an England and Wales basis—

Mike Hedges a gododd—

Dim ond edrych sy'n rhaid i ni ei wneud—. Bydd 100,000 yn fwy o oriau swyddogion yr heddlu ar gael i'r heddlu hwnnw, yn sgil cyflwyno TG newydd, bydd dwy uned digwyddiadau iechyd meddwl newydd yn cael eu cyflwyno, a bydd dwy ganolfan wledig newydd ar gyfer argyfwng trais rhywiol yn cael eu cyflwyno hefyd. Mae arbedion o £8.8 miliwn wedi eu sicrhau a'u trosglwyddo i blismona ar yr rheng flaen, ac mae strategaeth teledu cylch cyfyng Dyfed-Powys wedi ei chyflwyno ar draws yr ardal gyfan. Mae mwy o swyddogion heddlu â gwarant Dyfed-Powys ar gael yn Heddlu Dyfed-Powys ac mae gwell mynediad at yr heddlu, oherwydd bod y comisiynydd heddlu a throseddau hwnnw wedi ymrwymo i sicrhau nad y tu mewn i'w gorsafoedd y mae swyddogion yr heddlu—maent allan ar y strydoedd ac wrthi'n gwasanaethu'r cyhoedd y maent yno i'w gwasanaethu. Yn y pen draw, bu gostyngiad 20 y cant yn 10 cyflog uchaf yr heddlu hwnnw.

Mae'n hanfodol cofio y dylem ddiolch yn fawr i'r swyddogion sy'n perthyn i'r heddluoedd hyn yma yng Nghymru, ond ar draws gweddill y Deyrnas Unedig, sy'n peryglu eu bywydau bob dydd er mwyn i ni fod yn ddiogel. Mae areithiau eraill y prynhawn yma wedi sôn am hyn, sef bod torcyfraith, ers 2010, wedi gostwng 20 y cant. Yr hyn sy'n braf am hynny, yn y pen draw, yw bod hyn wedi mynd yn groes i'r hyn y mae llawer o'r pleidiau gwleidyddol eraill wedi ceisio'i ddisgrifio, gyda'r sefyllfa economaidd y mae'r wlad yn ei hwynebu—a'n bod yn mynd i weld torcyfraith yn ffrwydro yn y Deyrnas Unedig.

Mae'n ffaith, fodd bynnag, yn amlwg, fod y nifer a bleidleisiodd yn yr etholiad yn wael iawn—a derbyniaf y pwynt hwnnw; ni allwch ei wadu—. Ond yn y pen draw, mae llu o ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at y niferoedd gwael hynny. Ond awgrymaf mai'r hyn y mae comisiynwyr heddlu a throseddau wedi ei gynnig am y tro cyntaf i gymunedau ar hyd a lled y wlad hon, yw'r gallu i gael unigolyn sy'n atebol bob pedair blynedd am weithredoedd yr heddlu hwnnw. Yn y pen draw, roedd yr hen awdurdodau heddlu'n cynnwys gwleidyddion o wahanol awdurdodau lleol, yn ogystal â phenodiadau gan yr Ysgrifennydd Cartref ac ati. Ond, faint o bobl mewn gwirionedd oedd yn gwybod beth oedd eu rôl a beth roedden nhw'n ei wneud?

Mae gennym unigolion â phroffil llawer uwch, a gallwn ddadlau ynghylch rhinweddau eu gwleidyddiaeth, gallwn ddadlau ynghylch rhinweddau eu gweithredoedd, ond maent yn wirioneddol atebol. Ar yr ochr hon o'r Siambr, ni chredwn y byddai plismona ar ei ennill yn sgil datganoli cyfrifoldeb plismona i'r sefydliad hwn. Credwn mai'r peth gorau ar gyfer plismona yw ei gadw ar sail Cymru a Lloegr

Mike Hedges a gododd—

17:08

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will take the intervention in a minute, Mike.

Cymeraf yr ymyriad mewn munud, Mike.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ultimately, I do regret that the opening speaker was not forthcoming in his remarks as to what he would like to see replacing police and crime commissioners, and, indeed, what Plaid Cymru's position is over the policing structure here in Wales. That, as the Liberal Democrats touched on, has been discussed here before, so I'm sure there must be thinking within Plaid Cymru as to what they want to see. I clearly want to see a maintenance of the four forces that we have at the moment, where there is genuine local contact and participation and accountability within those areas.

I want to see greater collaboration where that collaboration can be proved to be more effective and efficient in delivering some of the high-tech and specialist services that police forces have to deliver, but ultimately, I think communities the length and breadth of Wales are best served by having policing delivered on an England and Wales basis and having the four forces that we currently have here in Wales. I'll take the intervention.

17:09 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just for factual accuracy, there were also magistrates on the old police authorities.

Yn y pen draw, mae'n flin gen i nad oedd y siaradwr agoriadol yn ei sylwadau wedi crybwyll beth yr hoffai ei weld yn cymryd lle'r comisiynwyr heddlu a throsedd, a beth yn wir yw safbwynt Plaid Cymru o ran strwythur plismona yma yng Nghymru. Mae hynny, fel y soniodd y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi ei drafod yma o'r blaen, felly rwy'n siŵr bod gan Blaid Cymru syniadau ynghylch yr hyn y maent am ei weld. Mae'n amlwg fy mod am weld y pedwar heddlu sydd gennym ar hyn o bryd yn parhau, lle gwelir cyswllt gwirioneddol leol a chyfranogiad ac atebolrwydd o fewn yr ardaloedd hynny.

Rwyf am weld mwy o gydweithio os gellir profi bod y cydweithrediad hwnnw yn fwy effeithiol ac effeithlon wrth gyflawni rhai o wasanaethau arbenigol ac uwch-dechnoleg sy'n rhaid i heddluoedd eu cyflawni, ond yn y pen draw, credaf fod cymunedau ar hyd a lled Cymru yn cael eu gwasanaethu orau gan blismona a ddarperir ar sail Cymru a Lloegr gan barhau â'r pedwar heddlu sydd gennym ar hyn o bryd yma yng Nghymru. Cymeraf yr ymyriad.

Er mwyn cywirdeb ffeithiol yn unig, roedd yr hen awdurdodau heddlu yn cynnwys ynadon hefyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:09 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I take that point. But ultimately, they weren't directly elected into their roles; they were brought together from across that police force area and there was a great disconnect with the electorate within those force areas. I believe that, if police and crime commissioners—. Our party wishes, when we win a majority tomorrow, ultimately, to secure the ability for those police and crime commissioners to stand for election in May 2016, and there will be far greater public participation. They have been a success: crime is down by 20 per cent and, ultimately, there are more officers actually available to serve their communities, because they're not tied up in the red tape and regulation that the previous Labour Government tied the police up in.

lawn, rwy'n derbyn y pwynt hwnnw. Ond yn y pen draw, nid oeddent yn cael eu hethol yn uniongyrchol i'w rolau; roeddent yn cael eu dwyn ynghyd o bob rhan o'r ardal heddlu honno ac roedd diffyg mawr o ran eu cysylltiad â'r etholwyr o fewn yr ardaloedd heddlu hynny—. Dymuniad ein plaid, pan fyddwn yn ennill mwyafrif yfory, yn y pen draw, yw sicrhau'r gallu i'r cyfryw gomisiynwyr heddlu a throsedd i sefyll etholiad ym mis Mai 2016, a bydd llawer mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd. Maent wedi bod yn llwyddiant: mae torcyfraith wedi gostwng 20 y cant ac, yn y pen draw, mae mwy o swyddogion ar gael mewn gwirionedd i wasanaethu eu cymunedau, am nad ydynt ynghlwm wrth y fiwrocraiaeth a'r rheoleiddio a oedd wedi clymu heddluoedd y Llywodraeth Lafur flaenorol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:10 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Roeddwn i'n meddwl bod Rhodri Glyn yn obeithiol iawn i feddwl bod y ddatl yma yn mynd i fod yn llai gwleidyddol, gan ei bod yn ymwneud â'r Cynulliad, wrth gwrs—nid yw plismona wedi ei ddatganoli. Mewn ffordd, mae wedi bod yn ddatl fwy cytbwys o lawer. Rwy'n meddwl ei bod hi'n ddatl bwysig, hefyd, achos rydym yn edrych tuag at y dyfodol. Bydd etholiadau ar gyfer y comisiynwyr nesaf yn digwydd ar yr un diwrnod ag etholiadau i'r lle hwn, a gwnaf i sôn ychydig am y problemau a all godi yn sgil hynny yn y man.

I thought that Rhodri Glyn was very optimistic to think that this debate would be less political, given that it dealt with the Assembly, of course—policing has not been devolved. In a way, it has been a much more balanced debate. I also think that it is an important debate, given that we are looking to the future. The next commissioner elections will take place on the same day as elections to this place, and I will refer shortly to some of the problems that could arise as a result.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Ond, yn gyntaf oll, a gaf i jest gyfeirio at ychydig o bethau sydd yn rhan o'r cynnig a'r gwelliannau? Mae wedi bod yn annifyr, rwy'n meddwl, i mi, beth bynnag, i weld comisiynwyr yr heddlu allan ar y stryd yn canfasio dros un blaidd neu'i gilydd. Nid wyf am sôn am unrhyw un yn benodol, achos mae pob un wedi bod yn ei wneud e, rwy'n meddwl, i raddau. Mae'n anffodus i ddod â'r elfen yna o wleidyddia i mewn i rywbeth a oedd, o'r blaen, wedi bod yn berchen i'r gymuned. Dyna pam rwyf i a Plaid Cymru yn gwrthod y gwelliant gan y Ceidwadwyr. Nid wyf yn meddwl bod penodi un person—maen nhw'n digwydd bod yn ddynion i gyd yng Nghymru—o un rhan fach o ardal mor fawr â Dyfed-Powys, dywedwch, wedi atgyferthu'r syniad o berchnogaeth gymunedol.

But, first of all, can I just refer to some things that are included in the motion and the amendments? It has been unpleasant, at least for me, I think, to see police commissioners out on the street canvassing for one party of another. I won't mention any names, because they've all been doing it, I think, to some extent. It is unfortunate to bring that element of politicisation into something that previously belonged by the community. That is why I and Plaid Cymru oppose the Conservative amendment. I don't think that appointing one person—they all happen to be men in Wales—from one small part of an area as big as Dyfed-Powys, say, has strengthened the feeling of community ownership.

17:11 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:11 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Jest mewn munud, os caf i. O'r blaen, roedd gennych chi, fel roedd Mike yn ein hatgoffa ni, ynadon ar yr hen awdurdodau, cyngorwyr o bob rhan—ac roedd y cyngorwyr yna'n mynd yn ôl ac yn adrodd yn ôl i'w cyngorau mewn cyfarfodydd agored. I mi, roedd llawer o rinwedd yn y system yna.

In a minute, if I may. Previously, as Mike reminded us, the former authorities included magistrates and councillors from all areas—and those councillors reported back to their councils in open meetings. For me, there was much merit in that system.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:11 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't wish to be too pedantic, but just building on Mike's point of accuracy, the police and crime commissioners aren't appointed; they are elected. That is a fundamental distinction between appointment and election. They do have a democratic mandate.

Nid wyf yn dymuno bod yn rhy bedantig, ond i gefnogi pwynt Mike ar gywirdeb yn unig, nid yw'r comisiynwyr heddlu a throsteddu yn cael eu penodi; maent yn cael eu hethol. Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng penodi ac ethol. Mae ganddynt fandad democrataidd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:12 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am hynny. Nid oeddwn i'n ymwybodol fy mod i wedi gwneud y pwynt. Wrth gwrs maen nhw wedi eu hethol. Nid wyf i'n meddwl imi wneud y pwynt eu bod nhw wedi eu penodi. Maen nhw wedi penodi, wrth gwrs, nifer o staff o'u cwmmpas nhw, a dyna pam mae gennych chi cymaint o wybodaeth o Dyfed-Powys yn y fan yna, wrth law. Mae'n dda gennyf weld eu bod nhw'n cael penodi staff i helpu i roi gwybodaeth. Rwy'n tynnu allan yr elfen wleidyddol fan hyn. Roedd yr hen awdurdodau yn cynnwys gwleidyddiaeth o bob plaid ac, i mi, yn cynrychioli'r cymunedau yn well ac yn fwy cytbwys yn eu cynrychiolaeth nhw.

Thank you for that. I wasn't aware that I'd made that point. They are, of course, elected. I don't think that I said that they were appointed. They have, of course, appointed the staff around them, and that is why you have so much information about Dyfed-Powys to hand. I am pleased to see that they are able to appoint staff to help them disseminate information. I'm taking the politics out of it here—the former authorities included party politics of all colours, and, in my view, better represented the communities, doing so in a more balanced way.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rydym ni hefyd wedi clywed nad yw'r comisiynwyr yma i fod i ymwneud â materion gweithredol yr heddlu. Mae hynny'n wir o ran y gyfraith, ond gwnaf i gyfeirio at y pwynt roedd Rhodri Glyn Thomas yn ei wneud ynglŷn â'r hofrennydd yn Dyfed-Powys. I mi, mae penderfyniad y comisiynydd yn y fan yna yn ymylu ar faterion gweithredol. Mae'r prif gwnstabl wedi dweud ei fod e eisiau gweld yr hofrennydd yn aros gyda'r pencadlys yn ardal Dyfed-Powys. Mae yna benderfyniad wedi ei gymryd gan yr holl gomisiynwyr ar y cyd ar lefel Cymru a Lloegr i beidio â chael hynny. I mi, mae hynny yn ymyrryd ar faterion gweithredol, ac rwy'n gweld peryg o rywbeth yn datblygu yn y fan yna na fyddem ni yn dymuno ei weld.

We have also heard that these commissioners aren't supposed to deal with operational police matters. That is true in law, but I will refer to the point that Rhodri Glyn Thomas made about the Dyfed-Powys Police helicopter. I believe that the commissioner's decision there borders on the operational. The chief constable said that he wanted to keep the helicopter in the Dyfed-Powys headquarters. A decision was taken jointly by commissioners in England and Wales not to do that. I believe that that interferes in operational issues, and I see a danger of something developing here that we would not wish to see.

Nawr, un peth arall rwyf i eisiau sôn amdano yn benodol fan hyn yw'r broblem a gawn ni adeg hyn y flwyddyn nesaf pan fydd yr etholiad ar gyfer comisiynwyr yr heddlu ar yr un diwrnod ag etholiad y Cynulliad. Mae hynny'n golygu y bydd gan bobl ddryswch, rwy'n ofni. Bydd yna dri phapur pleidleisio gwahanol—un ar gyfer y Cynulliad, etholaeth; un ar gyfer y Cynulliad, rhanbarth; ac un ar gyfer y comisiynydd—a phob un o'r rheini yn defnyddio dulliau gwahanol o bleidleisio. Byddwn ni hefyd, byddwn i'n gobeithio, wedi estyn y bleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed erbyn yr etholiad Cynulliad nesaf; dyna ddymuniad Plaid Cymru, yn sicr. Os digwydd hynny, wrth gwrs, bydd yna ddau grŵp gwahanol o bobl â'r hawl i bleidleisio ar y diwrnod, achos nid yw hynny'n mynd i ddigwydd yng nghyd-destun comisiynwyr yr heddlu, gan fod hynny wedi ei benderfynu ar lefel San Steffan.

Nawr, rwy'n gwybod o gwestiynau sydd wedi cael eu gofyn yn y gorffennol fod y Llywodraeth wedi cysylltu â Llywodraeth San Steffan ynglŷn â'r materion hyn ac wedi gofyn am drafod yr anhawster all godi ar y diwrnod. Os caiff y Gweinidog gyfle, wrth ymateb i'r ddatl, byddwn i'n licio clywed ganddo fe beth yw'r diweddaraf ynglŷn â'r materion hynny.

Wrth gwrs, pwynt y cynnig sydd gan Plaid Cymru heddiw, er ein bod ni'n derbyn y gwelliant gan y Democratiaid Rhyddfrydol ynglŷn â datganoli'r heddlu, yw bod modd i hyn gael ei ddatrys yn ystod y flwyddyn nesaf drwy ddulliau San Steffan, gan y Llywodraeth newydd. Roedd yna farn gref gan y Cynulliad y tro diwethaf inni drafod hwn yn erbyn cyflwyno'r system yma i Gymru. Mae datganoli'r heddlu yn rhan dymor hir o sicrhau na fydd hyn digwydd eto, ac yn rhan tymor hir o benderfynu nifer yr heddluoedd yng Nghymru hefyd. Am y tro, mae modd inni ddatrys y broblem a ddaw y flwyddyn nesaf gyda Llywodraeth nesaf San Steffan.

Now, one other thing that I want to talk about specifically here is the problem that we will see this time next year when the election of police commissioners is to be held on the same day as Assembly elections. That means that there will be confusion for people, I am afraid. There will be three different voting papers—one for Assembly constituencies; one for Assembly regions; and one for the commissioner—all using different voting methods. We will also, I hope, have extended the vote to 16 and 17-year-olds by the next Assembly elections; that is certainly Plaid Cymru's wish. If that happens, of course, there will be two different groups of people able to vote on that day, because that is not going to happen in the context of police commissioner elections, as that is to be decided in Westminster.

Now, I know from questions that have been asked in the past that the Government has asked the Westminster Government about these issues and has raised the difficulties that could be experienced on the day. If possible, in responding to the debate, I would like to hear from the Minister about the latest on those issues.

Of course, the point of Plaid Cymru's motion today, even though we accept the Liberal Democrat amendment on devolving the police, is that this could be resolved over the coming year through the Westminster system, by the incoming Government. The Assembly was strongly opposed to introducing this system to Wales when this was last discussed. The devolution of policing is a long-term way of ensuring that this doesn't happen again, and a long-term way of deciding how many police forces we should have in Wales. For the time being, we can resolve the problem that we will face next year with the next Westminster Government.

17:15

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch o gyfrannu at y ddatl y prynhawn yma hefyd, ac yn cefnogi holl gynigion Plaid Cymru. Dim ond un ffordd gadarn sydd i gychwyn y ddatl hon, wrth gwrs: mi fydd Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn cael gwared ar gomisiynwyr yr heddlu ac yn arbed £50 miliwn. Byddwn yn gallu diogelu swyddi 10,000 o swyddogion yr heddlu am y tair blynedd nesaf. Byddwn yn datganoli'r pwerau dros blismona er mwyn i Weindogion Cymru lunio cynllun plismona i Gymru gyfan. Roedd hynny cyn dyddiau swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu achos bryd hynny—amser maith yn ôl—roedd y Torïaid yn meddwl taw nhw oedd y parti cyfraith a threfn. Ond, penderfynodd y Llywodraeth Lafur yn San Steffan gyflwyno'r PCSOs a dyna pryd ddaeth presenoldeb yr heddlu ar ein strydoedd unwaith eto yn gyffredin.

I am pleased to contribute to this afternoon's debate as well, and I support all of the Plaid Cymru motion. There is only one way to open this debate, of course: a Labour Government in Westminster will get rid of the police commissioners and save £50 million. We'll be able to safeguard the jobs of 10,000 police officers for the next three years. We will devolve powers for policing in order for Welsh Ministers to form a policing plan for the whole of Wales. That was before the days of the police community support officers because at that time—a long time ago—the Tories thought that they were the law and order party. However, the Labour Government in Westminster decided to introduce the PCSOs and that is when police presence on our streets became commonplace again.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae cyfraith a threfn yn hawl sylfaenol i bawb: nid braint sy'n perthyn i'r cyfoethog a'r rhai â dylanwad. Fel y gwyddom, mae delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dod reit i fyny'r agenda. Cred Llafur yw bod gwaith yr heddlu ar ei orau wrth ofalu am gymunedau: ffordd o fod ar y blaen wrth stopio trosedd yn hytrach nag ymateb i argyfwng. Eto, Llafur sy'n gyfrifol am y 500 o PCSOs a ariennir yma yng Nghymru. Rwyf wedi bod allan gyda rhai o'r 64 yn Nyfed-Powys. Y peth mwyaf a welais oedd eu safle tu fewn i'r gymuned. Mae'n cymryd amser i ffurfio'r perthnasoedd hynny sy'n talu ffordd wrth gasglu gwybodaeth leol.

Yr ail beth sy'n ymateb i anghenion a dymuniadau'r gymuned ydy canol trefi saff. Yn ein Pwyllgor Menter a Busnes wythnos diwethaf, trafodwyd papur y British Retail Consortium ar ganol trefi'r ugeinfed ganrif. Ymysg ei argymhellion, soniwyd am bwysigrwydd lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n eironig i ystyried bod Christopher Salmon, comisiynydd heddlu Ceidwadol Dyfed-Powys, wedi llunio cynllunio i ostwng nifer y camerâu teledu cylch cyfyng o gwmpas canol trefi yn yr ardal. Yn ôl Mr Salmon, mae disgwyl i'r cynghorau sir dalu am y cyfan. Dyna pam mae tynged teledu cylch cyfyng Llanelli yn achos byw iawn nawr. Yn anffodus, nid yw twylllo trigolion Llanelli mor rhwydd â hynny. Mae wedi cael deiseb ar hwn, yn ogystal ag un ar gyfer yr hofrennydd roedd Rhodri Glyn Thomas yn siarad amdano yn gynharach. Bydd yn siŵr o gael un hefyd am arfogi'r heddlu. Mae un hefyd yn sôn am gau swyddfeydd yr heddlu dros yr holl awdurdod.

Bydd Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn gwneud i ffwrdd â swyddi comisiynydd yr heddlu, fel dywedais i, gan drosglwyddo'r arbedion i blismona rheng flaen ac i sefydlu awdurdodau safonau heddlu. Mewn undeb mae nerth. Mae cyfraith a threfn yn hawl i bawb, nid i'r breintiedig rai yn unig. Diolch.

Law and order is a basic right for everybody. It's not a privilege that belongs to just those with money and influence. As we know, dealing with anti-social behaviour has come to the top of the agenda. Labour believes that police work is at its best when they are responsible for communities and being ahead of the game by preventing crime rather than responding to emergencies. Again, Labour is responsible for the 500 PCSOs funded in Wales. I have been out with some of the 64 in Dyfed-Powys. The greatest thing that I saw was their position within the communities. It takes time to nurture those relationships and it pays dividends when gathering local information.

The second thing that responds to the needs and wishes of communities is safer town centres. At our Enterprise and Business Committee meeting last week, the British Retail Consortium paper on town centres in the twentieth century was discussed. Among its recommendations, the importance of reducing crime and anti-social behaviour was discussed. It is ironic, really, that Christopher Salmon, the Conservative police commissioner for Dyfed-Powys, has drawn up plans to reduce the number of closed-circuit television cameras around town centres in the area. According to Mr Salmon, the county councils are expected to pay for it all. That is why the fate of closed-circuit television in Llanelli is a very live issue now. Unfortunately, it's not that easy to mislead the people of Llanelli. He has received a petition on this, as well as one for the helicopter that Rhodri Glyn Thomas talked about earlier. He will also probably receive one on arming the police, and there is also one about closing police stations across the whole authority.

A Labour Government in Westminster would get rid of police commissioner roles, as I said, and transfer the savings to front-line policing and to establish police standards authorities. There is strength in unity. Law and order is a right for everyone, not only for the privileged. Thank you.

17:18

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We'd all agree that policing must reflect the diverse needs of all the people in Wales, and when police forces fail to work for all of those that they have a duty to protect there must be an opportunity to hold them to account. I'm going to focus my contribution on what I see as a retrograde step in the area of domestic violence in Gwent.

Every minute, the police in the UK receive a call about domestic abuse. The police have a vital role to play in protecting victims of abuse and violence from further harm. There are pockets of excellent practice here in Wales. For example, South Wales Police have been praised for having good services for tackling domestic abuse and keeping victims safe. However, following an inspection last year, Her Majesty's Inspectorate of Constabulary raised serious concerns with the way that Gwent Police responded to domestic abuse. Inspectors found that, despite domestic abuse being a stated priority for the force, there was a lack of effective processes to minimise risk, and they had significant concerns regarding how the force responded to some victims of abuse. The inspection also identified a lack of clarity amongst officers about who is responsible for investigating high-risk domestic abuse cases.

Rydym ni oll yn cytuno y dylai plismona adlewyrchu anghenion amrywiol pawb yng Nghymru, a phan nad yw heddluoedd yn llwyddo i weithio i bawb o'r rhai sydd ganddynt ddyletswydd i'w diogelu rhaid cael cyfle i'w dal i gyfrif. Rydw i'n mynd i ganolbwyntio fy nghyfraniad ar yr hyn a ystyriaf yn gam yn ôl ym maes trais domestig yng Ngwent.

Bob munud, mae heddlu'r DU yn derbyn galwad am gam-drin domestig. Mae rôl hanfodol gan yr heddlu o ran diogelu dioddefwyr camdriniaeth a thrais rhag niwed pellach. Mae pocedi o arfer rhagorol yma yng Nghymru. Er enghraifft, mae Heddlu De Cymru wedi cael eu canmol am gael gwasanaethau da ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig a chadw dioddefwyr yn ddiogel. Fodd bynnag, yn dilyn arolygiad y llynedd, cododd Arolygiaeth Ei Mawrhydi bryderon difrifol ynglŷn â'r ffordd yr ymatebodd Heddlu Gwent i gam-drin domestig. Canfu'r arolygwyr, er gwaethaf bod cam-drin domestig yn flaenoriaeth ddatganedig i'r heddlu, fod diffyg prosesau effeithiol i leihau'r risg, ac roedd ganddynt bryderon sylweddol ynglŷn â sut roedd yr heddlu yn ymateb i rai dioddefwyr camdriniaeth. Roedd yr arolygiad hefyd yn nodi diffyg eglurder ymhlith swyddogion ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am ymchwilio i achosion o gam-drin domestig risg uchel.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, all victims of domestic abuse, but particularly women victims who are more likely to be seriously hurt or even killed by their violent partner, are being put at serious risk by an inadequate response from those whose job it is to protect them as best they can.

Now, we know that the failure to act can have tragic consequences. The Independent Police Complaints Commission has found police inaction in several high-profile cases of women being murdered by their current or ex-partners in Gwent. I understand that intervening in these cases can be challenging and complex, but we still need to see a culture shift to ensure that all victims receive the same prompt, effective response, no matter where in Wales they live. It could, after all, be a matter of life and death, and the concentration of these cases in Gwent saddens me.

Now, this is the sort of issue that the police and crime commissioners are supposed to show leadership on, but when the inspection report into Gwent Police was published, the Gwent commissioner responded by dismissing the report and saying that HMIC was just trying to justify its existence. Now, I was extremely disappointed with that response, as you can imagine, and I hope, with hindsight, that he regrets that, but it is one example of a commissioner not holding a police force to account when necessary and I hope that this is not a trend. I also hope that the Gwent Police are taking the necessary action required after the inspection findings, despite the attitude of the now commissioner.

I was very happy to give him my support in the elections, because he was by far the best candidate, but that's not to say that I can't criticise him now that he's in post, or that I have to support the existence of crime commissioners at all. So, I'm not saying that individual commissioners are not doing some very good work. We know they are and we've heard examples this afternoon, and I know that mine has a very heavy workload, as I'm sure they all do, and they all work with the devolved and non-devolved organisations. It just seems to me that devolution gave us an opportunity for a different solution. My own preference would be for our own Ministers here, and I suppose it would be Leighton Andrews, at the moment, to be responsible and stand accountable here, and then we can take them to task on strategic and leadership issues.

Just to close, then, obviously I'd want to thank the police who work hard to protect the communities they serve, while acknowledging that there is need for improvement if we want to see all victims kept safe, especially those who are victims of domestic abuse. I don't think the police and crime commissioners are the answer, and even several years after their introduction, I still haven't changed my mind on that.

Yn awr, mae pawb sy'n dioddef cam-drin domestig, ond yn enwedig dioddefwyr benywaidd sy'n fwy tebygol o gael eu hanafu'n ddirifol neu hyd yn oed eu lladd gan eu partner treisgar, yn cael eu rhoi mewn perygl difrifol gan ymateb annigonol gan y rhai sy'n gyfrifol am eu hamddiffyn hyd eithaf eu gallu.

Nawr, mae'n hysbys fod peidio â gweithredu yn gallu arwain at ganlyniadau trasig. Mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu wedi canfod diffyg gweithredu ar ran yr heddlu mewn nifer o achosion proffil uchel o fenywod yn cael eu llofruddio gan eu cynbartneriaid neu bartneriaid presennol yng Ngwent. Rwy'n deall y gall ymyrryd yn yr achosion hyn fod yn heriol a chymhleth, ond mae dal angen i ni weld newid sylweddol mewn diwylliant er mwyn sicrhau bod pob dioddefwr yn cael yr un ymateb prydlon, effeithiol, ble bynnag yng Nghymru y maent yn byw. Wedi'r cyfan, gallai fod yn fater o fywyd a marwolaeth, ac mae'r achosion niferus hyn yng Ngwent yn fy nhristâu.

Yn awr, dyma'r math o fater y mae'r comisiynwyr heddlu a throedd i fod i ddangos arweiniad yn ei gylch, ond pan gyhoeddwyd yr adroddiad arolygu ar Heddlu Gwent, ymateb comisiynydd Gwent oedd gwrthod yr adroddiad a dweud mai'r cyfan yr oedd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi yn ceisio ei wneud oedd cyfiawnhau ei bodolaeth. Yn awr, roeddwn yn hynod o siomedig gyda'r ymateb hwnnw, fel y gallwch ddychmygu, a gobeithiaf, wrth edrych yn ôl, ei fod yn edifar ganddo am hynny, ond mae'n un enghraifft o gomisiynydd yn methu â dal yr heddlu i gyfrif pan fo angen a gobeithiaf na cheir enghreifftiau pellach o hyn. Gobeithiaf hefyd y bydd Heddlu Gwent yn cymryd y camau angenrheidiol sy'n ofynnol ar ôl canfyddiadau'r arolygiad, er gwaethaf agwedd y comisiynydd presennol.

Roeddwn i'n hapus iawn i roi fy nghefnogaeth iddo yn yr etholiadau, oherwydd mai ef o bell ffordd oedd yr ymgeisydd gorau, ond nid yw hynny'n dweud o gwbl na allaf ei feirniadu yn awr wrth iddo gyflawni'r swydd, neu fod yn rhaid i mi gefnogi bodolaeth comisiynwyr trosedd. Felly, nid dweud yr wyf nad yw comisiynwyr unigol yn gwneud gwaith da iawn. Gwyddom eu bod, a chlywsom enghreifftiau y prynhawn yma, a gwn fod gan fy un i lwyth gwaith trwm iawn, fel sydd ganddynt i gyd rwy'n siŵr, ac maent i gyd yn gweithio gyda'r sefydliadau datganoledig a heb eu datganoli. Mae'n ymddangos i mi fod datganoli wedi rhoi cyfle i ni gael ateb gwahanol. Fy newis i fyddai i'n Gweinidogion ni ein hunain yma, ac ar hyn o bryd mae'n debyg mai Leighton Andrews fyddai hwnnw, fod yn gyfrifol a sefyll yn atebol yma, ac wedyn gallwn eu galw hwy i gyfrif ar faterion strategol ac arweinyddiaeth.

I offen, felly, mae'n amlwg y byddwn am ddiolch i'r heddlu sy'n gweithio'n galed i amddiffyn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, tra'r wyf yn cydnabod bod angen gwella os ydym am weld pob dioddefwr yn cael ei gadw'n ddiogel, yn enwedig y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig. Ni chredaf mai'r comisiynwyr heddlu a throedd yw'r ateb, a hyd yn oed sawl blwyddyn ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, rwy'n dal heb newid fy meddwl ar hynny.

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When we in Plaid Cymru campaign for parity with Scotland, we're not just talking about funding. We're also talking about powers as well. One of the main powers we want to see devolved to Wales is our own jurisdiction over the police service.

Pan fyddwn ni ym Mhlaid Cymru yn ymgyrchu dros gydraddoldeb â'r Alban, nid dim ond siarad am gyllid yr ydym. Rydym ni hefyd yn siarad am bwerau hefyd. Un o'r prif bwerau rydym am ei weld yn cael ei ddatganoli i Gymru yw ein hawdurdodaeth ein hunain dros wasanaeth yr heddlu.

The fact that Scotland has its own legal system and its own control over the police force is down to the fact that it led the way in forming the first police force within the United Kingdom. We're not talking about the twentieth century, and we're not talking about the nineteenth century; it was early in the eighteenth century that, first, Edinburgh and then Glasgow set up their own police forces, and it wasn't until 1820 that Robert Peel established the Metropolitan police force in London. Yet, from the 1830s onwards, Wales has always been tied in with England in its organisation of policing and combating crime.

Mae'r ffaith bod gan yr Alban ei system gyfreithiol ei hun a'i rheolaeth ei hun dros yr heddlu yn seiliedig ar y ffaith iddi arwain y ffordd wrth ffurfio'r heddlu cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Nid ydym yn sôn am yr ugeinfed ganrif, ac nid ydym yn sôn am y bedwaredd ganrif ar bymtheg; yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif, y bu i Gaeredin yn gyntaf ac wedyn Glasgow sefydlu eu heddluoedd eu hunain, ac roedd hi'n 1820 erbyn i Robert Peel sefydlu lluoedd y Metropolitan yn Llundain. Eto i gyd, o'r 1830au ymlaen, mae Cymru bob amser wedi cael ei chlymu wrth Loegr yn ei threfn blismona a mynd i'r afael â thorcyfraith.

But, now, Wales is growing in confidence. Mainly through the constant pressure of Plaid Cymru, we now have our own Assembly with legislative powers. [Interruption.] Thank you for the support across the other side. Surely the next step is the power, as in Scotland and Northern Ireland, to fund, regulate and control our own police force. With the police under our own jurisdiction, we would make sure that the number of front-line and community police officers was increased, so they would have much greater ability, not only to react to crimes already committed, but also to prevent crimes through their very visible presence in the community.

Ond, erbyn hyn, mae Cymru'n tyfu mewn hyder. Yn bennaf trwy bwysau cyson gan Blaid Cymru, mae gennym bellach ein Cynulliad ein hunain gyda phwerau deddfu. [Torri ar draws.] Diolch am y gefnogaeth o'r ochr arall. Siawns mai'r cam nesaf yw'r pŵer, fel yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, i ariannu, rheoleiddio a rheoli ein heddlu ni ein hunain. Gyda'r heddlu o dan ein hawdurdodaeth ni ein hunain, byddem yn gwneud yn siŵr bod nifer swyddogion cymunedol a rheng flaen yr heddlu yn cynyddu, felly byddai ganddynt lawer mwy o allu, nid yn unig i ymateb i droseddau a gyflawnwyd eisoes, ond hefyd i atal troseddau drwy eu presenoldeb gweladwy iawn yn y gymuned.

In supporting our motion today, you will be saying on behalf of the people of Wales, 'We want to bring policing closer to you'. If Scotland and Northern Ireland can have authority over their own police forces, why can't Wales? With that authority will, eventually, come our right as a nation to have our own judicial system. The motion today is the first step towards achieving full control over how we in Wales will take full responsibility for both policing and for the judicial system, and, in doing that, we will be putting into practice the recommendations of the Silk commission, which stated that further devolution,

Wrth gefnogi ein cynnig heddiw, byddwch yn dweud ar ran pobl Cymru, 'Rydym am ddod â phlismona'n nes atoch chi'. Os gall yr Alban a Gogledd Iwerddon gael awdurdod dros eu heddluoedd eu hunain, pam na all Cymru? Gyda'r awdurdod hwnnw, yn y pen draw, daw ein hawl i ni fel cenedl gael ein system farnwrol ein hunain. Y cynnig heddiw yw'r cam cyntaf tuag at gyflawni rheolaeth lawn dros y ffordd y byddwn ni yng Nghymru yn cymryd cyfrifoldeb llawn am blismona ac am y system farnwrol fel ei gilydd, ac, wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi ar waith argymhellion y comisiwn Silk, a oedd yn datgan y byddai datganoli pellach,

'would facilitate policing policies better attuned to the circumstances of Wales.'

'a byddai'n hwyluso polisiau plismona sydd yn fwy cydnaws ag amgylchiadau Cymru'

I would remind the Senedd that, until 1284, Wales had its own laws, following the laws set down by Hywel Dda, and it was Edward I who imposed English law on Wales. I look forward to the future, when this Assembly decides everything here in Wales.

Hoffwn atgoffa'r Senedd, tan 1284, fod gan Gymru ei deddfau ei hun, yn sgîl deddfau a bennwyd gan Hywel Dda, ac mai Edward I a orfododd gyfraith Lloegr ar Gymru. Edrychaf ymlaen at y dyfodol, pan fydd y Cynulliad hwn yn penderfynu popeth yma yng Nghymru.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

Deputy Presiding Officer, I can confirm that the Welsh Government will be supporting the motion today, in a further public demonstration of my obviously sunny disposition.

Tomorrow's election, of course, could decisively influence the future of policing in the UK. I've stated in this Chamber a number of times before that policing should reflect the needs of the people of Wales. I want to start by stating again how appreciative we are of the work carried out by our dedicated and hard-working police officers, community support officers, office staff and civilian support generally. I meet regularly with the chief constables of Wales and I do not doubt their passion for their work and their commitment to do the best for the people of Wales. But, they are hampered by not being able to set priorities for their forces. Policies for policing are set out on an England and Wales basis by the UK Government, without effective acknowledgment of Wales's particular needs.

After a Labour Government takes office following tomorrow's general election, it is the party's intention to devolve the powers to shape the priorities and the governance structures for policing in Wales to the Welsh Government. This is key to making sure that Wales can develop its own policing future.

We disagree with the politicisation of policing in principle. It is vital that the operational independence of the police is preserved. We also disagree with the politicisation of policing in practice, as it has acted as a break on collaboration. Before 2012, the four Welsh police forces had well-developed structures of collaboration. Since the introduction of police and crime commissioners, Her Majesty's Inspectorate of Constabulary issued a report, 'Policing in Austerity: Rising to the Challenge' in July 2013, which found slow progress towards greater collaboration, and some evidence of retrenchment. Only 15 per cent of those eligible to vote, voted for police and crime commissioners, and, as Rhodri Glyn Thomas reminded us, one polling station in Wales recorded no votes whatsoever, underlying the lack of democratic mandate of the PCCs. So, the turnout in PCC elections did not demonstrate public support for the office, and the money spent on electing them and running their offices could have been much better spent on front-line police work. That is not to say that some good work is not being done within some of the police and crime commissioners' offices, and Jocelyn Davies gave the example of the work done by South Wales Police in respect of domestic abuse.

This brings me to the third point of the Plaid Cymru motion, that police and crime commissioners should be abolished at the earliest possible opportunity. My party was opposed to their introduction and has not changed its position. An incoming Labour Government at a UK level will abolish PCCs and protect neighbourhood policing by safeguarding over 10,000 front-line police officers over the next three years.

Ddirprwy Lywydd, gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig heddiw, mewn arddangosiad cyhoeddus pellach o'm natur amlwg gynnes.

Gallai'r etholiad yfory, wrth gwrs, ddylanwadu'n ddi-droi'n-ôl ar ddyfodol plismona yn y DU. Rwyf wedi datgan yn y Siambr hon sawl gwaith o'r blaen y dylai plismona adlewyrchu anghenion pobl Cymru. Rwyf am ddechrau drwy ddatgan eto pa mor werthfawrogol rydym o'r gwaith a wneir gan ein heddweision ymroddedig a gweithgar, ein swyddogion cymorth cymunedol, staff y swyddfa a staff cefnogi sifil yn gyffredinol. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â phrif gwnstabiliaid Cymru ac nid wyf yn amau eu brwdfrydedd dros eu gwaith a'u hymrwymiad i wneud y gorau dros bobl Cymru. Ond, maent yn cael eu rhwystro gan nad ydynt yn gallu pennu blaenoriaethau ar gyfer eu heddluoedd. Mae polisiau ar gyfer plismona wedi eu gosod allan ar sail Cymru a Lloegr gan Lywodraeth y DU, heb gydnabyddiaeth effeithiol o anghenion penodol Cymru.

Ar ôl i Lywodraeth Lafur gymryd yr awenau yn dilyn yr etholiad cyffredinol yfory, mae'n fwiad gan y blaid i ddatganoli'r pwerau i lunio blaenoriaethau a'r strwythurau llywodraethu ar gyfer plismona yng Nghymru i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn allweddol er mwyn gwneud yn siŵr y gall Cymru ddatblygu ei dyfodol plismona ei hun.

Rydym yn anghytuno â gwleidyddoli plismona ar egwyddor. Mae'n hanfodol cadw annibyniaeth weithredol yr heddlu. Rydym hefyd yn anghytuno â'r arfer o wleidyddoli plismona, gan i hynny atal cydweithredu. Cyn 2012, roedd gan bedwar heddlu Cymru strwythurau cydweithio a oedd wedi datblygu'n dda. Ers cyflwyno'r comisiynwyr heddlu a throseddau, cyhoeddodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi adroddiad sef, 'Policing in Austerity: Rising to the Challenge' ym mis Gorffennaf 2013, a oedd yn nodi cynnydd araf o ran mwy o gydweithio, a pheth tystiolaeth o gwtogi. O'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio, dim ond 15 y cant bleidleisiodd o blaid comisiynwyr heddlu a throseddau, ac, fel y cawsom ein hatgoffa gan Rhodri Glyn Thomas, ni chafwyd yr un bleidlais o gwbl mewn un orsaf bleidleisio yng Nghymru, sy'n tanlinellu diffyg mandad democrataidd y Comisiynwyr. Felly, nid oedd y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau'r Comisiynwyr wedi dangos cefnogaeth gyhoeddus i'r swydd, a gallai'r arian a wariwyd ar eu hethol ac ar gynnal eu swyddi fod wedi ei wario'n llawer gwell ar waith rheng flaen yr heddlu. Nid yw hynny'n golygu nad oes dim gwaith da yn cael ei wneud yn rhai o swyddfeydd y comisiynwyr heddlu a throseddau, fel y soniodd Jocelyn Davies yn yr enghraifft o'r gwaith a wneir gan Heddlu De Cymru mewn perthynas â cham-drin domestig.

Mae hyn yn dod â mi at drydydd pwynt cynnig Plaid Cymru, y dylid diddymu'r comisiynwyr heddlu a throseddau ar y cyfle cyntaf posibl. Roedd fy mhlaidd yn gwrthwynebu eu cyflwyno ac nid yw wedi newid ei safbwynt. Bydd Llywodraeth Lafur sy'n dod i rym ar lefel y DU yn diddymu Comisiynwyr ac yn amddiffyn plismona yn y gymdogaeth trwy ddiogelu dros 10,000 o swyddogion heddlu rheng flaen dros y tair blynedd nesaf.

In his first amendment, Aled Roberts welcomes the reduction in overall crime figures and a reduction in child detention figures. Of course, I welcome a reduction in overall recorded crime figures, but I suggest a note of caution. The most recent bulletin from the Office of National Statistics states that, while the estimate of all crime surveys for England-and-Wales crime was lower than for the previous year, the apparent falls in most individual crime types were not statistically significant compared with the previous year. With regard to the point about detaining children, I have assumed that my colleague is referring to the children of asylum seekers who are detained along with their families while waiting a decision on their case. While immigration policy is not devolved to the Welsh Government, we welcome the ending of asylum-seeking children being held in detention centres. Wales is a country that continues to be built on the principles of fairness and equality, and this approach needs to be encouraged and supported. Although immigration decisions and rules are made by the UK Government, we're committed to building a Welsh society where refugees and asylum seekers are treated with respect and dignity at all times.

We agree with amendment 2, that we should not be moving towards a single Welsh police force, following the example of Scotland. I believe that a regional approach to policing would serve Wales best. One size does not fit all. We do not support the amendment proposed by Paul Davies.

17:30 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention?

17:30 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
In a moment. Police and crime commissioners have not added any significant value to policing in general, particularly not in Wales, and they've not put local communities at the heart of policing.

17:30 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister, for taking that intervention. You talked of a regional policing model. Do you envisage that regional policing model staying with the existing police force areas, or could you see a north-south split? I accept the point that you make about one force area, but do you see a north-south split?

17:30 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, once the powers have been devolved to Welsh Ministers, this is obviously something that we would want to have a wide public discussion around. I think there would be many issues to consider. Many people in this Chamber would have a view, and I think the public at large in Wales would have a view. That is a debate that we should have in the future, but I'm saying here today that we do not, as a Government, support the move towards a single Welsh police force.

Yn ei welliant cyntaf, mae Aled Roberts yn croesawu'r gostyngiad mewn ffigurau troseddu cyffredinol a gostyngiad yn y ffigurau cadw plant. Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r gostyngiad yn ffigurau troseddau a gofnodwyd yn gyffredinol, ond rhoddaf air o rybudd. Mae'r bwletin diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi, er bod yr amcangyfrif o holl arolygon troseddu ar gyfer troseddau Lloegr a Chymru yn is nag ar gyfer y flwyddyn flaenorol, roedd y lleihad amlwg yn y rhan fwyaf o fathau o droseddau unigol yn ystadegol arwyddocaol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ran y pwynt ynghylch cadw plant, rwyf wedi cymryd yn ganiataol fod fy nghydaelod yn cyfeirio at blant ceiswyr lloches sy'n cael eu cadw ynghyd â'u teuluoedd wrth aros am benderfyniad ar eu hachos. Er nad yw polisi mewnfudo yn cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru, rydym yn croesawu na chedwir plant sy'n ceisio lloches mewn canolfannau cadw mwyach. Mae Cymru'n wlad sy'n parhau i dyfu ar sail yr egwyddor o degwch a chydaddoldeb, ac mae angen annog a chefnogi'r agweddau hyn. Er bod penderfyniadau mewnfudo a rheolau yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU, rydym yn ymrwymedig i feithrin cymdeithas yng Nghymru lle mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu trin â pharch ac urddas bob amser.

Rydym yn cytuno â gwelliant 2, na ddylem fod yn symud tuag at un heddlu yng Nghymru, gan ddilyn esiampl yr Alban. Credaf mai agwedd ranbarthol o blismona sydd orau i Gymru. Nid yw un ateb yn addas i bawb. Nid ydym yn cefnogi'r gwelliant a gynigiwyd gan Paul Davies.

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Mewn munud. Nid yw comisiynwyr yr heddlu a throseddu wedi ychwanegu unrhyw werth sylweddol at blismona yn gyffredinol, yn enwedig felly yng Nghymru, ac nid ydynt wedi rhoi cymunedau lleol wrth wraidd plismona.

Diolch i chi, Weinidog, am gymryd yr ymyriad hwnnw. Soniasoch am fodel plismona rhanbarthol. A ydych yn rhagweld y bydd y model plismona rhanbarthol yn aros gyda'r ardaloedd heddlu sydd eisoes yn bodoli, neu a ydych yn rhagweld rhaniad gogledd-de? Rwy'n derbyn y pwynt a wnewch am un ardal heddlu, ond a ydych yn gweld rhaniad gogledd-de?

Wel, unwaith y bydd y pwerau wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru, mae hyn yn amlwg yn rhywbeth y byddem am gael trafodaeth gyhoeddus eang yn ei gylch. Credaf y byddai llawer o faterion i'w hystyried. Byddai barn gan lawer o bobl yn y Siambr hon, a chredaf y byddai barn gan y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru. Mae hynny'n ddadl y dylem ei chael yn y dyfodol, ond rwy'n dweud yma heddiw nad ydym ni, fel Llywodraeth, yn cefnogi symud tuag at gael un heddlu yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We support amendment 3, from the Liberal Democrats. We've made no secret of our desire to see responsibility for policing and youth justice devolved to Wales. However, we will be looking to the UK Government in the longer term to review the position with regard to the other elements of the justice system. As I said at the outset, Deputy Presiding Officer, we are happy to support the motion today.

Rydym yn cefnogi gwelliant 3, gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Nid yw'n gyfrinach ein bod am weld cyfrifoldeb dros blismona a chyfiawnder ieuencid yn cael ei ddatganoli i Gymru. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth y DU yn y tymor hir i adolygu'r sefyllfa o ran elfennau eraill y system gyfiawnder. Fel y dywedais ar y cychwyn, Ddirprwy Lywydd, rydym yn hapus i gefnogi'r cynnig heddiw.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And I call Rhodri Glyn Thomas to reply to the debate.

A galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:31 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Roedd Simon Thomas yn credu fy mod i'n optimistaidd yn credu ein bod ni'n gallu cael trafodaeth gall, synhwyrol yn y lle yma, ond rwy'n credu bod pawb wedi llwyddo i wneud hynny, at ei gilydd, er bod yna un neu ddau o gyfeiriadau at ddigwyddiad a fydd yn cymryd lle yfory.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Simon Thomas thought that I was optimistic to believe that we could have a sensible discussion in this place, but I think that everybody succeeded in doing that, on the whole, despite the fact that there were one or two references to an event that will take place tomorrow.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Fe wnaeth Peter Black, chwarae teg iddo fe, gyflwyno dadl gref iawn yn erbyn cael un heddlu ar gyfer Cymru, a chyfeirio at esiampl yr Alban, ac mae honno yn ddadl y dylid ei chael yn y lle yma. Roedd y ffaith ei fod e yn dyfynnu pedwar comisiynydd heddlu a throseddu Cymru, yn dweud eu bod nhw'n gwrthwynebu hynny, yn rhywbeth disgwylidig, oherwydd byddai tri ohonyh nhw yn colli eu swyddi—o leiaf—petai hynny'n digwydd. Ni fydddech yn disgwyl i'r comisiynwr ddadlau dros gollu eu swyddi.

Peter Black, to be fair to him, put forward a very strong argument against having one police force for Wales, referring to the Scottish experience, and that is an argument that we need to have in this place. The fact that he quoted Wales's four police and crime commissioners, saying that they were against that, was to be expected, because three of them—at least—would lose their jobs were that to happen. You would not expect the commissioners to argue in favour of losing their jobs.

Fe wnaeth Andrew R.T. Davies geisio ein hargyhoeddi ni bod yna wahaniaeth sylfaenol rhwng rôl y comisiynydd a'r prif gwnstabl. Ond wedyn, fe geisiodd gael y clod i gyd am bopeth a oedd wedi digwydd o ran gwella plismona i'r comisiynydd ei hunan. Felly, roedd e wedi anghofio ei ddiffiniad ei hun o rôl y naill a'r llall unwaith yr aeth e i mewn i'w ddadl.

Andrew R.T. Davies tried to convince us that there was a fundamental difference between the role of the commissioner and that of the chief constable. However, he then went on to try to give the commissioner all the credit for everything that had happened in terms of improved policing. So, once he got into his argument, he forgot his own definition of their respective roles.

Fe wnaeth Simon Thomas gyfeirio at y ffaith bod yna, yn y gorffennol—. Roedd Andrew R.T. Davies, am ryw rheswm, yn dweud nad oeddwn wedi cyfeirio at y modd roeddwn am weld yr heddlu yn cael eu sgrwtineiddio; fe wnes i gyfeirio at gael awdurdodau heddlu a oedd yn fwy atebol, hyd yn oed, nag oedden nhw yn y gorffennol i'r gymuned leol. Fel y gwnaeth Simon Thomas ddangos yn glir iawn, roedd yna atebolrwydd trwy wahanol elfennau o bobl, yn enwedig y cynghorwyr, a oedd wedi eu hethol yn y lle cyntaf i gynghorau ac wedyn wedi'u hapwyntio i'r awdurdod heddlu, gan adrodd yn ôl mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mae hynny yn llawer iawn mwy atebol i'r gymuned na chomisiynwyr heddlu sydd yn trafod yn unig gyda'r bobl y maen nhw wedi eu hapwyntio, yn uniongyrchol i weithio gyda nhw, a heb fod yna unrhyw angen iddyn nhw adrodd yn ôl i'r cyhoedd.

Simon Thomas referred to the fact that there was, in the past—. Andrew R.T. Davies, for some reason, said that I hadn't mentioned how I would want to see the police being scrutinised; I did refer to having police authorities that were even more accountable to the local community than they were in the past. As Simon Thomas clearly demonstrated, there was accountability by way of having different kinds of people, especially the councillors, who were first of all elected and then appointed to the police authority, and they then reported back in public meetings. That is much more accountable to the community than having police commissioners who only discuss things with those people they have directly appointed to work with them, without any need for them to report back to the public.

Fe wnaeth Keith Davies ein hatgoffa ni o gost sefydlu swyddfydd y comisiynwyr, a'r modd y gellid buddsoddi'r arian hwnnw mewn plismona yn hytrach nag mewn gweinyddiaeth, ac fe wnaeth e hefyd gyfeirio at y ffordd y mae'r comisiynydd yn Dyfed-Powys wedi ceisio trosglwyddo'r cyfrifoldeb am lawer iawn o blismona yn y gymuned i gynghorau cymuned, ac i'r cyngor sir, yn hytrach na derbyn y cyfrifoldeb yn uniongyrchol. Pan rydym yn sôn am atebolrwydd a'r ffaith bod Andrew R.T. Davies am inni gredu bod comisiynwyr yn atebol i'r gymuned, ac yn dderbyniol iawn i'r gymuned, fel y dywedodd Keith Davies, mae yna ddwy ddeiseb yn barod wedi'u cyflwyno i'r comisiynydd yn Dyfed-Powys yn gwrthwynebu'r hyn y mae e wedi'i wneud, ac mae'n siŵr y bydd yna drydedd a phedwaredd ar y ffordd cyn yr etholiad y flwyddyn nesaf.

Fe wnaeth Jocelyn Davies sôn am bwysigrwydd blaenoriaethu adnoddau, ac roedd hi'n sôn yn benodol am drais yn y cartref. Fe wnaeth hi bwynt pwysig iawn ynglŷn â'r ffaith bod y comisiynydd yn ne Cymru wedi gwrthod derbyn argymhellion adolygiad annibynnol, a dyna'r perygl, rwy'n meddwl, pan mae gennych chi gomisiynydd sydd yn ceisio cyfiawnhau ei fodolaeth ei hun—ei fod yn gwrthod derbyn tystiolaeth allanol. Petai gennych chi awdurdod heddlu yn y sefyllfa honno, neu hyd yn oed Weinidog yn y Llywodraeth yn y fan hyn, fel roedd Jocelyn Davies yn awgrymu, yn annibynnol o'r gweithredu, yn dyfarnu, byddent yn llawer iawn mwy tebygol o dderbyn y dystiolaeth annibynnol honno a gweithredu arni.

Aeth Lindsay Whittle â ni yn ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg, hyd yn oed, ac yn sicr i'r ddeunawfed ganrif yn yr Alban, a sôn am y ffaith y byddai datganoli plismona yn dod â phlismona yn agosach at y bobl. Rwy'n meddwl bod honno'n agwedd ar blismona y mae pawb wedi'i phwysleisio y prynhawn yma; y peth pwysig ydy meithrin y berthynas yma â'r gymuned. Rwy'n meddwl mai Keith Davies wnaeth sôn yn uniongyrchol am y gwaith sydd yn rhaid ei wneud er mwyn magu'r berthynas honno â phobl yn eu cymunedau.

Rwy'n falch iawn bod Leighton Andrews yn barod i dderbyn y cynnig ac i'w gefnogi, ac yn sôn am beth fyddai'r Llywodraeth Lafur yn ei wneud o ran datganoli plismona i Gymru. A gaf i ddweud wrthoch chi, Leighton, y bydd Plaid Cymru yn hapus iawn i gydweithredu â'r Blaid Lafur a'r Llywodraeth Lafur fan hyn, ac unrhyw Lywodraeth Lafur arall, i ddatganoli plismona a'i wneud yn fwy atebol i'r cyhoedd? Hyd yn oed os nad yw eich arweinydd chi yn Llundain yn awyddus iawn i gydweithredu gyda ni, rydym ni'n barod iawn i gydweithredu gyda chi er mwyn y bobl rydym ni'n eu gwasanaethu.

Keith Davies reminded us of the set-up costs for commissioners' offices, and how that money could be invested in policing rather than in administration, and he also referred to how the commissioner in Dyfed-Powys has tried to transfer much of the responsibility for community policing to community councils, and to the county council, rather than taking direct accountability himself. Andrew R.T. Davies wants us to believe that commissioners are accountable to the community, and are accepted by the community, but as Keith Davies said, two petitions have already been presented to the commissioner in Dyfed-Powys, opposing what he has done, and I'm sure that a third and fourth petition will be coming his way before the election next year.

Jocelyn Davies talked about the importance of prioritising resources, and talked specifically about domestic violence. She made a very important point about the fact that the commissioner in south Wales has refused to accept the recommendations of an independent review, and that is the danger, I think, when you have a commissioner trying to justify his own existence—that he refuses to accept external evidence. If you were to have police authorities, or even a Government Minister here, taking decisions, as Jocelyn Davies was suggesting, independent of what was being done, they would be much more likely to accept that independent evidence and act upon it.

Lindsay Whittle took us back to the thirteenth century, and certainly back to the eighteenth century in Scotland, and talked about the fact that devolving policing would bring policing closer to the people. I think that that's an aspect of policing that's been emphasised by everybody this afternoon; the important thing is to nurture that relationship with the community. I think that it was Keith Davies who talked directly about the work that has to be done in order to nurture that relationship with people in their communities.

I'm very pleased that Leighton Andrews is willing to accept and support the motion, and that he talked about what the Labour Government would do with regard to devolving policing to Wales. Can I say to you, Leighton, that Plaid Cymru will be very happy to work with the Labour Party and the Labour Government here, and any other Labour Government, to devolve policing and to make it more accountable to the public? Even if your leader in London isn't keen to work with us, we are willing to collaborate with you for the benefit of the people we serve.

17:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Rwy'n gohirio pleidleisio dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:37

6. Cyfnod Pleidleisio

6. Voting Time

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we'll vote first on the Welsh Conservatives' debate on hospitals.

Y cyfnod pleidleisio sy'n dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes neb, felly byddwn yn pleidleisio gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar ysbytai.

I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 23. Therefore, the motion without amendment is not agreed, and we will now vote on the amendments.

Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei gytuno, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 10 wedi pleidleisio o blaid. Mae 23 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 10, Against 23, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5750](#)

[Result of the vote on motion NDM5750](#)

17:38

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16. There voted against 17. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 16 wedi pleidleisio o blaid. Mae 17 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 1 yn cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 17, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 16, Against 17, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5750](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5750](#)

17:39

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 19. There were no votes against. There were 14 abstentions. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 19 wedi pleidleisio o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Roedd 14 yn ymatal. Felly, derbynnir gwelliant 2.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 19, Yn erbyn 0, Ymatal 14.

Amendment agreed: For 19, Against 0, Abstain 14.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5750](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5750](#)

17:39

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16. There voted against 17. Therefore, amendment 3 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 16 wedi pleidleisio o blaid. Mae 17 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 3 yn cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 17, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 16, Against 17, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5750](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5750](#)

17:39

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16. There voted against 17. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 16 wedi pleidleisio o blaid. Mae 17 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 4 yn cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 17, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 16, Against 17, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5750](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5750](#)

17:39

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis wedi'i ddiwygio.

Cynnis NDM5750 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5750 as amended:

Cynnis bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â diogelu ysbytai rhag cael eu cau a'u hisraddio.

1. Regrets that the Welsh Government has failed to protect hospitals from closure and downgrading.

2. Yn croesawu'r cyllid o £5.3 miliwn a sicrhawyd ar gyfer Ysbyty Coffa Llandrindod yn y cytundeb cyllideb diweddar rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru.

2. Welcomes the £5.3 million funding secured for Llandrindod Wells Memorial Hospital in the recent budget agreement between the Welsh Liberal Democrats and the Welsh Government.

17:39

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 8. There voted against 17. There were 8 abstentions. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 8 wedi pleidleisio o blaid. Mae 17 wedi pleidleisio yn erbyn. Roedd 8 yn ymatal. Felly, nid yw'r cynnis wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd cynnis NDM5750 fel y'i diwygiwyd: O blaid 8, Yn erbyn 17, Ymatal 8.

Motion NDM5750 as amended not agreed: For 8, Against 17, Abstain 8.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5750 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5750 as amended](#)

17:40

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the second Welsh Conservative debate, on the long-term economic plan. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we'll vote on the amendment tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 23. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Byddwn yn pleidleisio'n awr ar ail ddadl y Ceidwadwyr Cymreig, ar y cynllun economaidd hirdymor. Galwaf am bleidlais ar y cynnis a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnis yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnis. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 10 wedi pleidleisio o blaid. Mae 23 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnis heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 10, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 10, Against 23, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5752](#)

[Result of the vote on motion NDM5752](#)

17:40

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We will now vote on the amendment. I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 6. Therefore amendment 1 is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid. Mae 6 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly derbynnir gwelliant 1.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 6, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 27, Against 6, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5752](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5752](#)

17:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on the motion as amended.

Cynnig NDM5752 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5752 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu bod Cymru wedi elwa o'r cynllun economaidd hirdymor a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ac yn cydnabod bod dyfodol economaidd a chymdeithasol Cymru yn dibynnu ar barhad y cynllun hwnnw.

1. Believes that Wales has benefitted from the long-term economic plan delivered by the UK Government and recognises that Wales's economic and social future depends on that plan continuing.

2. Yn credu y byddai dyfodol economaidd a chymdeithasol Cymru yn cael budd o Lywodraeth y DU sy'n cydbwysu'r gyllideb mewn ffordd deg, drwy sicrhau bod y bobl fwyaf cyfoethog yn talu eu cyfran ac yn mynd i'r afael ag osgoi trethi, gan ein galluogi ni i fenthyca ar gyfer buddsoddi yn ein heconomi a'n seilwaith, yn hytrach na pheryglu sefydlogrwydd economaidd drwy fenthyca neu dorri gormod.

2. Believes that Wales's economic and social future would benefit from a UK Government that balances the budget in a fair way, by ensuring the wealthiest pay their share and bearing down on tax avoidance, enabling us to borrow for investment in our economy and infrastructure, rather than jeopardising economic stability by borrowing or cutting too much.

17:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 23. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 10 wedi pleidleisio o blaid. Mae 23 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd cynnig NDM5752 fel y'i diwygiwyd: O blaid 10, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Motion NDM5752 as amended not agreed: For 10, Against 23, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5752 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM575 as amended](#)

17:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we'll vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25. There voted against 8. Therefore, the motion without amendment is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 25 wedi pleidleisio o blaid. Mae 8 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, mae'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 25, Yn erbyn 8, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 25, Against 8, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5751](#)

[Result of the vote on motion NDM5751](#)

17:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr os gwelwch yn dda wneud hynny'n gyflym ac yn dawel?

17:42

7. Dadl Fer: Wynebu Her Tlodi Tanwydd

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 7 is the short debate, and I call on Llyr Gruffydd to speak on the topic he has chosen.

7. Short Debate: Meeting the Fuel Poverty Challenge

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Eitem 7 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Llŷr Gruffydd i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddevis.

17:42

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael cyfle i arwain y ddadl fer yma ar destun tlodi tanwydd, ac rwy'n hapus iawn i gynnig peth o'r amser i Aled Roberts i gyfrannu at y ddadl hefyd.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am very pleased to lead this debate on fuel poverty, and I am happy to give Aled Roberts time to contribute as well.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae tlodi tanwydd, wrth gwrs, yn fater pwysig o safbwynt iechyd cyhoeddus. Mae'n gyfrifol am nifer o farwolaethau ychwanegol—rydym yn gwybod am yr 'excess death rate' o bron i 2,000 o bobl yng ngeaf 2012-13—ac mae hefyd yn cyfrannu tuag at waethgu rhai problemau iechyd eraill, megis cyflyrau anadl, cancr a hefyd problemau gyda chylchrediad gwaed.

Now, we know that around a quarter of households in Wales are in fuel poverty—31 per cent of social housing tenants are living in fuel poverty. Of course, the significant rises in energy prices since some of those figures were collated, I'm sure, are likely to make it a significant underestimate, in fact. The fuel poverty coalition estimates that 320,000 households are in fuel poverty, and it is, of course, therefore, a significant problem that affects Wales, and even those not in fuel poverty may also struggle with energy costs, of course.

Now, this may very often result in a choice between heating and eating, with secondary effects related to poor diet, debt and poor housing the visible consequences of fuel poverty. I understand that over 50,000 households in Wales are in debt to electricity suppliers, and over 46,000 households are in debt to gas suppliers. Save the Children conducted a survey in 2012 on how people on low incomes coped with fuel poverty. The results revealed the extent to which high energy costs are hitting the poorest families—those living on less than £12,000 a year—hardest.

Almost half of parents have said that they're considering cutting back on food in order to pay their energy bills over the winter, and almost a third of all parents on the lowest incomes said they won't be able to afford their winter energy bills even if they do cut back on other essentials. Fifty-four per cent of all parents are worried that their children's health will suffer because their house is too cold, and 55 per cent of all parents are worried about being pushed into debt if they can't afford their energy bills. Indeed, half of all families plan to turn the heating off for longer to keep their bills down.

So, what is the Welsh Government doing to mitigate fuel poverty? The Warm Homes and Energy Conservation Act 2000 required the Welsh Government to draw up a plan for the elimination of fuel poverty by 2018. In 2003, the first strategy for eliminating poverty was published, and the central approach of it, I suppose, remains in place. The central approach of that strategy involves funding the installation of insulation technologies in homes deemed to qualify, and ensuring people take up all the benefits that they're entitled to. The Welsh Government has two main schemes for upgrading households in Wales: Arbed, to co-ordinate and invest in social housing, and Nest, to support investment and advice for households in the private sector.

Fuel poverty, of course, is very important in terms of public health. It is responsible for a number of excess deaths—we know of the excess death rate of nearly 2,000 during the winter of 2012-13—and it also contributes to the exacerbation of other health issues, such as respiratory conditions, cancer and blood circulation problems.

Nawr, mae'n hysbys bod tua chwarter yr aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd—mae 31 y cant o denantiaid tai cymdeithasol yn byw mewn tlodi tanwydd. Wrth gwrs, mae'r codiadau sylweddol mewn prisiau ynni ers casglu rhai o'r ffigurau hynny, rwy'n siŵr, yn debygol o wneud yr amcangyfrif yn sylweddol is nag ydyw, mewn gwirionedd. Mae'r gynghrair tlodi tanwydd yn amcangyfrif bod 320,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd, a'i fod, felly, wrth gwrs yn broblem fawr sy'n effeithio ar Gymru, a gall hyd yn oed y sawl nad ydynt mewn tlodi tanwydd hefyd gael trafferth gyda chostau ynni, wrth gwrs.

Yn awr, gall hyn yn aml iawn arwain at ddewis rhwng gwresogi a bwyta, gydag effeithiau eilaidd sy'n gysylltiedig â deiet gwael, dyled a thai gwael yn ganlyniadau gweladwy o dlodi tanwydd. Deallaf fod mwy na 50,000 o gartrefi yng Nghymru mewn dyled i gyflenwyr trydan, ac mae dros 46,000 o aelwydydd mewn dyled i gyflenwyr nwy. Cynhaliodd Achub y Plant arolwg yn 2012 ar sut mae pob ar incwm isel yn ymdopi â thlodi tanwydd. Dangosodd y canlyniadau i ba raddau y mae'r teuluoedd tlotaf—pobl sy'n byw ar lai na £12,000 y flwyddyn—yn cael eu taro galetaf gan gostau ynni uchel.

Mae bron hanner y rhieni wedi dweud eu bod yn ystyried cwtogi ar fwyd er mwyn talu eu biliau ynni yn ystod y gaeaf, a dywedodd bron traean o'r holl rieni ar yr incwm isaf na fyddant yn gallu fforddio eu biliau ynni yn ystod y gaeaf hyd yn oed os ydynt yn torri yn ôl ar hanfodion eraill. Mae pum deg pedwar y cant o'r holl rieni yn poeni y bydd iechyd eu plant yn dioddef oherwydd bod eu cartref yn rhy oer, ac mae 55 y cant o'r holl rieni yn poeni y byddant yn cael eu gwthio i ddyled os na allant fforddio eu biliau ynni. Yn wir, mae hanner yr holl deuluoedd yn bwriadu troi'r gwres i ffwrdd am gyfnod hwy i gadw eu biliau i lawr.

Felly, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i liniaru tlodi tanwydd? Mae Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio cynllun ar gyfer dileu tlodi tanwydd erbyn 2018. Yn 2003, cafodd y strategaeth gyntaf ar gyfer dileu tlodi ei chyhoeddi, ac mae ei dull canolog, mae'n debyg, yn dal mewn grym. Dull canolog y strategaeth honno yw ariannu'r gwaith o osod technolegau inswleiddio mewn cartrefi yr ystyrir eu bod yn gymwys, a sicrhau bod pobl yn manteisio ar yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae gan Lywodraeth Cymru ddau brif gynllun ar gyfer uwchraddio aelwydydd yng Nghymru: Arbed, i gydlynu a buddsoddi mewn tai cymdeithasol, a Nyth, i gefnogi buddsoddiad a chyngor ar gyfer aelwydydd yn y sector preifat.

It's now widely recognised that the targets for eliminating fuel poverty will not be met. Energy prices have consistently risen over the past few years, and this has undone much of the progress that had been made. The Welsh Government as well has simply not had the powers available to tackle rising fuel bills, and in this context retrofitting is only ever going to be a mitigating act. The schemes for retrofitting themselves have been streamlined due to financial pressures, and as a result Nest has focused on the poorest households, thus missing many of those households where in-work poverty and poor housing form a formidable combination.

So, there are three aspects to fuel poverty that I'd like to discuss this afternoon: the need for more powers to the Assembly here so that we can begin to get to grips with the energy market and energy prices, which is the main driver of the rise in fuel poverty; specific problems as well of fuel poverty in rural and post-industrial areas particularly, caused largely by poor energy infrastructure; and, thirdly, the need for an ambitious plan of upgrading the quality of Welsh housing and stimulating the green economy.

We cannot properly protect Welsh consumers from price rises without obtaining further energy powers and the ability to regulate the energy market. In Wales, we pay an average of between 5 per cent and 10 per cent more for our energy than elsewhere. This is due largely to poor energy infrastructure, particularly, as I mentioned earlier, for rural and post-industrial areas, but also the failure of competition to work in the market, and poor digital infrastructure, meaning that those who are digitally excluded very often can't access the best deal. There is a general sense that switching isn't the answer, leading to monopoly-type practices of many energy companies. Energy companies have made excessive profits through what some would describe as poor practices. We've seen examples of misselling of tariffs and failures to be transparent over prices, and also failures to pass on falls in the wholesale cost of energy, but being very quick, in some cases, to pass on price rises.

So, why would we want the devolution of powers over all aspects of energy, including consumer matters? Well, it's so that we can legislate, for example, to put an end to companies' powers to disconnect any home from gas or electricity, and therefore putting energy companies on the same footing as water companies, for example. We also need to simplify tariffs to end complexity in the market, and enable people to have confidence in switching suppliers. We need to reduce barriers to entry for small energy-producing companies and co-operatives, and specifically provide finance for co-operatives aiming to supply renewable energy, including examining ways that housing associations can finance microgeneration technologies in both existing and new housing stock.

Mae wedi ei gydnabod yn eang erbyn hyn na fydd y targedau ar gyfer dileu tlodi tanwydd yn cael eu cyrraedd. Mae prisiau ynni wedi codi'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn wedi dadwneud llawer o'r cynnydd a wnaed. Nid oes pwerau wedi bod ar gael ychwaith i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â chynnydd mewn biliau tanwydd, ac yn y cyd-destun hwn, gweithred liniarol fyddai ôl-osod ar y gorau. Mae'r cynlluniau ôl-osod eu hunain wedi eu cwtogi oherwydd pwysau ariannol, ac o ganlyniad mae Nyth wedi canolbwyntio ar y cartrefi tlotaf, gan gollu llawer o'r cartrefi hynny lle mae tlodi mewn gwaith a thai gwael yn creu cyfuniad sy'n anodd ei drechu.

Felly, mae tair agwedd ar dlodi tanwydd yr hoffwn eu trafod y prynhawn yma: yr angen am fwy o bwerau yma i'r Cynulliad fel y gallwn ddechrau mynd i'r afael â'r farchnad ynni a phrisiau ynni, sef prif sbardun y cynnydd mewn tlodi tanwydd; problemau penodol tlodi tanwydd hefyd mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol yn arbennig, a achosir yn bennaf gan seilwaith ynni gwael; ac, yn drydydd, yr angen am gynllun uchelgeisiol o uwchraddio ansawdd tai yng Nghymru ac ysgogi'r economi werdd.

Ni allwn ddiogelu defnyddwyr Cymru'n briodol rhag cynnydd mewn prisiau heb gael pwerau ynni pellach a'r gallu i reoleiddio'r farchnad ynni. Yng Nghymru, rydym yn talu cyfartaledd o rhwng 5 y cant a 10 y cant yn fwy am ein hynni nag mewn mannau eraill. Mae hyn yn bennaf oherwydd seilwaith ynni gwael, yn arbennig, fel y soniais yn gynharach, ar gyfer ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol, ond hefyd y ffaith nad oes cystadleuaeth ar waith yn y farchnad, a seilwaith digidol gwael, sy'n golygu nad yw'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn aml iawn yn gallu cael gafael ar y fargen orau. Mae ymdeimlad cyffredinol nad cyfnewid cyflenwyr yw'r ateb, sy'n arwain at lawer o gwmnïau ynni yn defnyddio arferion sy'n nodweddiadol o fonopoli. Mae cwmnïau ynni wedi gwneud elw gormodol yn sgîl yr hyn y byddai rhai yn ei ddisgrifio yn arferion gwael. Rydym wedi gweld enghreifftiau o gam-werthu tariffau a diffyg tryloywder gyda phrisiau, a hefyd methiant i rannu'r elw â'r cwsmer wrth i gostau cyfanwerthu ynni ddisgyn, ac eto, mewn rhai achosion, yn fwy na pharod i basio'r gost ymlaen wrth i brisiau godi.

Felly, pam y byddem am ddatganoli pwerau dros bob agwedd ar ynni, gan gynnwys materion defnyddwyr? Wel, er mwyn i ni allu deddfu, er enghraifft, i roi terfyn ar bwerau cwmnïau i ddatgysylltu nwy neu drydan o unrhyw gartref, a thrwy hynny roi cwmnïau ynni ar yr un telerau â chwmnïau dŵr, er enghraifft. Mae angen hefyd inni symleiddio tariffau er mwyn rhoi diwedd ar gymhlethdod yn y farchnad, a galluogi pobl i fod yn hyderus wrth gyfnewid cyflenwyr. Mae angen i ni leihau rhwystrau mynediad i gwmnïau cynhyrchu ynni bach a mentrau cydweithredol, a darparu cyllid yn benodol ar gyfer cwmnïau cydweithredol gyda'r nod o gyflenwi ynni adnewyddadwy, gan gynnwys edrych ar ffyrdd y gall cymdeithasau tai gyllido technolegau microgynhyrchu yn y stoc dai bresennol a newydd fel ei gilydd.

There are many ways that the market could be regulated to better protect people in Wales: as I said, for example, putting energy companies on the same footing as water companies, so that they're forbidden from disconnecting customers; regulations over social tariffs and the requirement for companies to offer these to vulnerable people; and extending regulations against misselling of tariffs to online forms of marketing. We need to address energy company misbehaviour over direct debit tariffs as well, and there's a number of other areas I think that we should be taking to task.

There are, as I suggested, many specific problems related to fuel poverty in rural and post-industrial areas that are due largely to poor infrastructure. We know that poor energy infrastructure means that many homes in Wales are off grid—almost 20 per cent—and therefore will typically pay more for their energy. There is no regulator, of course, for off-grid fuels, which I think is a key issue that needs to be addressed. Rural poverty in itself is very often well hidden and isolated in pockets, and this means that it may not be recognised by measures such as the Welsh index of multiple deprivation. Therefore, these areas may not be seen as in poverty, and thus ineligible for some of the schemes that I mentioned earlier.

Digital exclusion, as I touched upon, means that many households don't have access to the best tariffs, which more often than not are available online only. In rural areas, fuel poverty is more closely associated, as well, with the quality of housing stock, which can remain poor, and schemes such as Nest may only be available when the household is on benefits, and as I suggested, this excludes those on low wages who are, of course, in work.

Now, there are excellent examples of third sector schemes for the bulk buying of fuel and these should be supported and steps looked at to ensure that they are extended. As part of our wider ambition on fuel poverty, we should be looking to extend eligibility for assistance in retrofitting to the working poor, which will help tackle fuel poverty in many areas. Greater efforts in improving infrastructure, such as broadband, will also have therefore a positive effect, and the regulatory powers I mentioned earlier would enable us to incorporate off-grid fuels into the responsibilities of Ofgem.

Mae llawer o ffyrdd o reoleiddio'r farchnad er mwyn amddiffyn pobl yn well yng Nghymru: fel y dywedais, er enghraifft, rhoi cwmnïau ynni ar yr un telerau â chwmnïau dŵr, fel bod modd eu gwahardd rhag datgysylltu cwsmeriaid; rheoliadau dros dariffau cymdeithasol a'r gofyniad i gwmnïau gynnig hyn i bobl fregus; ac ymestyn rheoliadau yn erbyn cam-werthu tariffau i ddulliau marchnata ar-lein. Mae angen i ni fynd i'r afael â chamweithredoedd cwmnïau ynni ynghylch tariffau debyd uniongyrchol hefyd, ac mae nifer o feysydd eraill y credaf y dylem fod yn mynd i'r afael â nhw.

Fel yr awgrymais, mae nifer o broblemau penodol sy'n ymwneud â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol sydd yn bennaf oherwydd isadeiledd gwael. Mae'n hysbys, oherwydd seilwaith ynni gwael, fod llawer o gartrefi yng Nghymru heb eu cysylltu â'r grid—bron 20 y cant—ac felly fel arfer byddant yn talu mwy am eu hynni. Wrth gwrs, nid oes rheoleiddiwr ar gyfer tanwydd oddi ar y grid, a chredaf fod hyn yn fater allweddol y mae angen rhoi sylw iddo. Mae tlodi gwledig yn ei hun yn aml iawn wedi ei guddio'n dda ac mewn llecynnau anghysbell, ac mae hyn yn golygu efallai na fydd yn cael ei gydnabod gan fesurau megis y mynegai amddifadedd lluosog. Felly, efallai na fydd yr ardaloedd hyn yn cael eu cydnabod fel ardaloedd tlawd, ac felly byddant yn anghymwys ar gyfer rhai o'r cynlluniau a grybwyllais yn gynharach.

Mae allgàu digidol, y soniais amdano cynt, yn golygu nad oes mynediad i lawer o aelwydydd i'r tariffau gorau, sy'n amlach na pheidio ar gael ar-lein yn unig. Mewn ardaloedd gwledig, mae tlodi tanwydd yn fwy cysylltiedig hefyd ag ansawdd y stoc dai, a all aros yn dlawd, ac efallai y bydd cynlluniau fel Nyth ddim ond ar gael pan fydd yr aelwyd yn derbyn budd-daliadau, ac fel yr awgrymais, mae hyn yn allgàu pobl ar gyflogau isel sydd, wrth gwrs, mewn gwaith.

Yn awr, mae enghreifftiau rhagorol o gynlluniau trydydd sector ar gyfer swmp-brynu tanwydd a dylai'r rhain gael eu cefnogi a dylid edrych ar gamau i sicrhau eu bod yn cael eu hymestyn. Fel rhan o'n huchelgais ehangach ar dlodi tanwydd, dylem fod yn awyddus i sicrhau bod rhagor o weithwyr tlawd yn gymwys i dderbyn cymorth ôl-osod, er mwyn trechu tlodi mewn llawer o ardaloedd. Byddai rhagor o ymdrechion i wella seilwaith, fel band eang, hefyd yn cael effaith gadarnhaol, a byddai'r pwerau rheoleiddio y soniais amdanynt yn gynharach yn ein galluogi i wneud Ofgem yn gyfrifol am danwydd oddi ar y grid.

Now, the third theme is, of course, establishing a plan for the upgrading of Welsh housing stock, and although it would take time, I think we need to do more to build on Arbed and Nest. We need the kind of ambition that says that we have a plan to upgrade the entire housing stock here in Wales, and that, of course, would help develop our green economy as well. Nest, for example, has been providing retrofitting of older homes for those groups who qualified for assistance during the Assembly's fuel poverty strategy. However, due to energy price rises, as I said earlier, fuel poverty has carried on rising, and so changes to the scheme have meant the focus has been on those on low incomes, living in the worst homes in the private sector, with F or G ratings. This has led to many people on low wages missing out on assistance. The scheme has also suffered with difficulty in providing advice to people due to a lack of resources, although this has maybe improved somewhat. Arbed has specifically worked with social housing providers to upgrade social housing, aiming to stimulate local supply chains and adopt the kind of large projects needed for economies of scale. It's had reasonable success, but ultimately, of course, it doesn't go far enough.

Research by Friends of the Earth and WWF has suggested that we need to improve around 400,000 houses in Wales—which equates to a third of the current housing stock that we have—over the next 10 years to a level that cuts carbon emissions by more than 60%, if we are to meet some of the targets set by the Welsh Government. Improving 4,800 houses a year for 10 years, as we are currently doing, will not come close to achieving what is actually required. Now, the Government has aimed for all social housing to meet the Welsh housing quality standard, but of course we know that that target will not be met for some considerable time.

The Welsh Government's efforts are somewhat dwarfed here by the Scottish Government, which plans a £2 billion investment over 10 years towards upgrading the Scottish housing sector. Now, that's over twice what the combined estimate of Welsh Government and private sector activity is. So, they're demonstrating a way forward here. We need something as ambitious, I think, and along that level of scale as well, so that we can really get to grips with the issue here in Wales. It doesn't necessarily mean more money from Welsh Government. What matters here, I think, is that we clearly have an ambition, that we clearly have a long-term plan—20 or 30 years, depending on the availability of resources—and it needs to involve all departments working together.

Y drydedd thema, wrth gwrs, yw sefydlu cynllun ar gyfer uwchraddio stoc dai Cymru, ac er y byddai'n cymryd amser, credaf fod angen i ni wneud mwy i adeiladu ar gynlluniau Arbed a Nyth. Mae arnom angen y math o uchelgais sy'n dweud bod gennym gynllun i uwchraddio'r stoc dai gyfan yma yng Nghymru, ac, wrth gwrs, byddai hynny'n helpu i ddatblygu ein heconomi werdd hefyd. Mae Nyth, er enghraifft, wedi bod yn darparu ôl-osod mewn cartrefi hŷn i'r grwpiau hynny a oedd yn gymwys i dderbyn cymorth yn ystod strategaeth tlodi tanwydd y Cynulliad. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r cynnydd mewn prisiau ynni, fel y dywedais yn gynharach, mae tlodi tanwydd wedi parhau i gynyddu, ac felly mae newidiadau i'r cynllun wedi golygu bod y ffocws wedi bod ar y rhai sydd ar incwm isel, sy'n byw yn y cartrefi gwaethaf yn y sector preifat, gyda chyfradd F neu G. Mae hyn wedi arwain at lawer o bobl ar gyflogau isel yn colli allan ar gymorth. Mae'r cynllun hefyd wedi dioddef gydag anhawster o ran darparu cyngor i bobl oherwydd diffyg adnoddau, er bod hyn efallai wedi gwella rhywfaint. Mae Arbed wedi gweithio yn benodol gyda darparwyr tai cymdeithasol i uwchraddio tai cymdeithasol, gyda'r nod o ysgogi cadwyni cyflenwi lleol a mabwysiadu'r math o brosiectau sydd eu hangen i sicrhau arbedion maint. Mae wedi bod yn weddol lwyddiannus, ond yn y pen draw, wrth gwrs, nid yw'n mynd yn ddigon pell.

Mae ymchwil gan Gyfeillion y Ddaear ac WWF wedi awgrymu bod angen i ni wella tua 400,000 o dai yng Nghymru—sy'n cyfateb i un rhan o dair o'r stoc dai bresennol sydd gennym—dros y 10 mlynedd nesaf i lefel sy'n torri allyriadau carbon gan fwy na 60%, os ydym am gyrraedd rhai o'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid yw gwella 4,800 o dai y flwyddyn am 10 mlynedd, fel rydym yn ei wneud ar hyn o bryd, yn mynd i ddod yn agos at gyflawni'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd. Yn awr, nod y Llywodraeth yw i'r holl dai cymdeithasol gyrraedd safon ansawdd tai Cymru, ond wrth gwrs, rydym yn gwybod na fydd y targed yn cael ei gyrraedd am gryn amser.

Mae ymdrechion Llywodraeth Cymru yn fychan iawn o gymharu â Llywodraeth yr Alban, sy'n bwriadu buddsoddi £2 biliwn dros 10 mlynedd tuag at uwchraddio sector tai yr Alban. Nawr, mae hyn dros ddwywaith cymaint â'r amcangyfrif o weithgarwch Llywodraeth Cymru a'r sector preifat gyda'i gilydd. Felly, maent yn dangos y ffordd ymlaen yma. Credaf fod arnom angen rhywbeth yr un mor uchelgeisiol, ac ar raddfa debyg, hefyd, er mwyn i ni wir fynd i'r afael â'r mater yma yng Nghymru. Nid yw o reidrydd yn golygu mwy o arian oddi wrth Lywodraeth Cymru. Credaf mai'r hyn sy'n bwysig yma yw ei bod yn amlwg bod gennym uchelgais, ei bod yn amlwg bod gennym gynllun tymor hir—20 neu 30 mlynedd, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael—ac mae angen sicrhau bod pob adran yn gweithio gyda'i gilydd.

For example, communities and local government could work with third sector organisations and social housing to promote more bulk buying and switching. Measures could be introduced to ensure that landlords in the private sector have to upgrade their homes, and this could be included in the regulation of the private rented sector, potentially. The health service could work on ensuring that advice about warm homes and the various schemes to upgrade housing is available in GP surgeries, and doctors could be encouraged to advise their patients on warm homes as a public health message. The business department, of course, could be providing more support for green jobs and using the skills budget to train NEETs in the skills necessary for these jobs.

Now, £2.4 billion pounds, that's the estimated cost in Wales to take 95% of people out of fuel poverty. It's within our reach, especially in the context of borrowing powers, of course, which could potentially help in this respect. So, we need to be looking, I think, more seriously at an ambitious, longer term plan that really gets to grips—way, way over and above the level of investment that we're seeing now. I've said it before and I'll say it again: tackling fuel poverty does deliver social, environmental and economic wins for Wales. It's the holy grail of sustainable development. So, let's meet the fuel poverty challenge with the ambition and the intent that the scale of the challenge not only deserves, but also demands.

17:55

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i Llyr Huws Gruffydd am y cyfle i gyfrannu at y ddadl.

I want to concentrate on two issues because I think the environment committee has carried out a lot of good work in this area. Whilst recognising the two schemes that Llyr referred to—Nest and Arbed—I wonder whether the Welsh Government has actually considered whether there is a need to incentivise those people who are actually perhaps in a position to finance some of these improvements themselves. For example, my party has put forward at UK level the suggestion that perhaps there should be a council tax incentive if in fact people carried out those works over a 10-year period, if they were able to improve energy efficiency by two bands.

The other point I'd like to pick up on is that, not only is there an issue with the energy companies and the way that they structure the market, but clearly there are companies now, some of which are based in Wales, that are actually taking advantage of people who are in fuel poverty and who are vulnerable. I had a case recently where a pensioner was asked to pay £300 for energy advice. I referred that to trading standards, but, clearly, we should be taking more direct and robust action with regard to the activities of some of these companies, many of which, as I say, are located in Wales.

17:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Farming and Food to reply—Rebecca Evans.

Er enghraifft, gallai cymunedau a llywodraeth leol gydweithio â sefydliadau yn y trydydd sector a thai cymdeithasol er mwyn hyrwyddo mwy o swmp-brynu a newid. Gallai mesurau gael eu cyflwyno i sicrhau bod yn rhaid i landlordiaid yn y sector preifat uwchraddio eu cartrefi, a gallai hyn gael ei gynnwys yn rheoliad y sector rhentu preifat, o bosibl. Gallai'r gwasanaeth iechyd weithio ar sicrhau bod cyngor am gartrefi cynnes a gwahanol gynlluniau i uwchraddio tai ar gael mewn meddygfeydd teulu, a gellid annog meddygon i gynghori eu cleifion ar gartrefi cynnes fel neges iechyd y cyhoedd. Gallai'r adran fusnes, wrth gwrs, roi mwy o gefnogaeth i swyddi gwyrdd a defnyddio'r gyllideb sgiliau i hyfforddi NEETs yn y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi hyn.

Yn awr, mae angen £2.4 biliwn, dyna'r amcangyfrif o'r gost yng Nghymru i gymryd 95% o bobl allan o dlodi tanwydd. Mae o fewn ein cyrraedd, yn enwedig yng nghyd-destun pwerau benthyca, wrth gwrs, a allai o bosibl fod o gymorth yn hyn o beth. Felly, credaf fod angen inni edrych yn fwy o ddifrif ar gynllun hirdymor uchelgeisiol, sydd yn wir yn mynd i'r afael—llawer yn uwch na lefel y buddsoddiad rydym yn ei weld yn awr. Rydw i wedi dweud hyn o'r blaen, ac fe'i dywedaf eto: mae trechu tlodi tanwydd yn sicrhau elw cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i Gymru. Dyma yw greal sanctaidd datblygu cynaliadwy. Felly, gadewch i ni wynebu her tlodi tanwydd gyda'r uchelgais a'r bwriad y mae'r her nid yn unig yn eu haeddu, ond hefyd yn eu mynnu.

Thank you to Llyr Huws Gruffydd for the opportunity to contribute to the debate.

Rwyf am ganolbwyntio ar ddau fater oherwydd fy mod yn meddwl bod y pwyllgor amgylchedd wedi gwneud llawer o waith da yn y maes. Gan gydnabod y ddau gynllun y cyfeiriodd Llyr atynt—Nyth ac Arbed—tybed a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried mewn gwirionedd a oes angen cymell y bobl hynny sydd mewn gwirionedd mewn sefyllfa o bosibl i ariannu rhai o'r gwelliannau hyn eu hunain. Er enghraifft, mae fy mhlaid wedi cyflwyno ar lefel y DU yr awgrym efallai y dylid cael cymhelliant treth gyngor pe bai pobl mewn gwirionedd yn gwneud y gwaith hwnnw dros gyfnod o 10 mlynedd, pe baent yn gallu gwella effeithlonrwydd ynni o ddau fand.

Y pwynt arall yr hoffwn ei godi yw, nid yn unig y mae problem gyda'r cwmnïau ynni a'r ffordd y maent yn strwythuro'r farchnad, ond yn amlwg mae cwmnïau yn awr, a rhai ohonynt wedi eu lleoli yng Nghymru, sydd mewn gwirionedd yn cymryd mantais ar bobl sydd mewn tlodi tanwydd ac sy'n fregus. Roedd gen i achos yn ddiweddar lle y gofynnwyd i bensïynwr dalu £300 am gyngor ynni. Cyfeiriais hynny at safonau masnach, ond, yn amlwg, dylem fod yn cymryd camau mwy uniongyrchol a chadarn o ran gweithgarwch rhai o'r cwmnïau hyn, y mae llawer ohonynt, fel y dywedais, wedi eu lleoli yng Nghymru.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i ateb—Rebecca Evans.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank Llyr Gruffydd for providing this opportunity for me to set out what the Welsh Government is doing to tackle fuel poverty in Wales, and also thank Aled Roberts for his thoughtful contribution to the debate as well.

We know only too well the extent of the challenge that we face in Wales to reduce the number of people who are living in fuel poverty. The powers that we need to tackle fuel poverty are not fully devolved to the Welsh Government, as Llyr has pointed out. The UK Government's welfare reforms are having a significant impact on some of the poorest and most vulnerable people in Wales, putting further pressure on already stretched household budgets. Combined with the high cost of energy, the rural nature of Wales and the high proportion of homes that are hard to heat and expensive to improve, mean that tackling fuel poverty in Wales is no easy task. We're committed to doing everything that we can to tackle fuel poverty and to ensure that action to tackle fuel poverty is firmly embedded within wider action across the Welsh Government to tackle poverty.

Through the Well-being and Future Generations (Wales) Act 2015, this Government will ensure that we continue to improve the wellbeing of all our citizens and make Wales a more socially, economically and environmentally sustainable place to live, and not just now but also for future generations. We know that improving the energy efficiency of our housing stock and prioritising support to households on the lowest incomes and living in the most deprived areas is the most effective way to tackle fuel poverty in the longer term. We've taken a different approach to the UK Government, which has ended its grants-funded support for home energy efficiency improvements. We believe that investing public funding in improving the energy efficiency of low-income households is the right thing to do to tackle fuel poverty and protect the most vulnerable in society.

Our commitment is underlined by our decision to not just maintain our energy efficiency and fuel poverty budgets, but to significantly increase them, despite wider cuts to Government funding. This year alone, we will invest over £53 million in our energy efficiency programme. Our programme, which includes the Welsh Government Nest and Arbed schemes and funding for local authority area-based schemes, is making a real difference across the whole of Wales. We've improved homes in every local authority area, rural and urban, on and off gas. In 2013-14 alone, we improved over 9,000 homes. These improvements are estimated to deliver an average energy bill saving of over £470 per household per year, making a real difference to low-income households, whether by heating their home for longer or increasing their disposable income for other essentials. Our schemes are not just delivering energy bill savings and making the heating of homes more affordable; they're delivering the jobs and training opportunities that are needed in our poorest communities to help keep people out of fuel poverty in the future.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i Llŷr Gruffydd am roi'r cyfle hwn i mi nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru, a diolch hefyd i Aled Roberts am ei gyfraniad meddylgar at y ddadl hefyd.

Gwyddom yn rhy dda beth yw maint yr her sy'n ein hwynebu yng Nghymru i leihau nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Nid yw'r pwerau sydd eu hangen arnom i drechu tlodi tanwydd wedi eu datganoli'n llawn i Lywodraeth Cymru, fel y nododd Llŷr. Mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn cael effaith sylweddol ar rai o'r bobl dlotaf a mwyaf bregus yng Nghymru, gan roi pwysau pellach ar gyllidebau aelwydydd sydd eisoes dan bwysau. Ynghyd â chost uchel ynni, mae natur wledig Cymru a chyfran uchel o gartrefi sy'n anodd eu gwresogi ac yn ddrud i'w gwella, yn golygu nad yw trechu tlodi tanwydd yng Nghymru yn dasg hawdd. Rydym yn ymrwymedig i wneud popeth y gallwn i drechu tlodi tanwydd ac i sicrhau bod y camau gweithredu i drechu tlodi tanwydd yn cael eu hymgorffori'n gadarn o fewn gweithredoedd ehangach ar draws Llywodraeth Cymru i drechu tlodi.

Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd y Llywodraeth hon yn sicrhau ein bod yn parhau i wella lles ein holl ddinasyddion ac yn gwneud Cymru yn lle mwy cynaliadwy i fyw yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol, ac nid yn unig yn awr, ond hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn gwybod bod gwella effeithlonrwydd ynni ein stoc dai a blaenoriaethu cymorth i aelwydydd ar yr incwm isaf sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yw'r ffordd fwyaf effeithiol o drechu tlodi tanwydd yn y tymor hwy. Rydyn ni wedi mynd ati mewn ffordd wahanol i Lywodraeth y DU, sydd wedi terfynu ei chefnogaeth cymorth grant ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Credwn mai buddsoddi arian cyhoeddus mewn gwella effeithlonrwydd ynni ar aelwydydd incwm isel yw'r peth iawn i'w wneud er mwyn trechu tlodi tanwydd ac amddiffyn y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas.

Pwysleisir ein hymrwymiad gan ein penderfyniad nid yn unig i gadw ein cyllidebau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, ond i'w cynyddu'n sylweddol, er gwaethaf y toriadau ehangach i gyllid y Llywodraeth. Eleni yn unig, byddwn yn buddsoddi dros £53 miliwn yn ein rhaglen effeithlonrwydd ynni. Mae ein rhaglen, sy'n cynnwys cynlluniau Nyth ac Arbed Llywodraeth Cymru a chyllid ar gyfer cynlluniau yn seiliedig ar ardal awdurdod lleol, yn gwneud gwahaniaeth go iawn ar draws Cymru gyfan. Rydym wedi gwella cartrefi ym mhob ardal awdurdod lleol, gwledig a threfol, sy'n defnyddio nwy ac fel arall. Yn 2013-14 yn unig, bu i ni wella dros 9,000 o gartrefi. Amcangyfrif bod y gwelliannau hyn yn sicrhau arbedion cyfartalog o dros £470 ar fil ynni pob cartref bob blwyddyn, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i deuluoedd incwm isel, p'un ai drwy wresogi eu cartref am gyfnod hirach neu gynyddu eu hincwm gwario ar gyfer hanfodion eraill. Mae ein cynlluniau nid yn unig yn sicrhau arbedion ar filiau ynni ac yn gwneud gwresogi tai yn fwy fforddiadwy; maent yn sicrhau'r swyddi a chyfleoedd hyfforddiant sydd eu hangen yn ein cymunedau tlotaf i helpu i gadw pobl allan o dlodi tanwydd yn y dyfodol.

Since 2012, our schemes have created over 500 new jobs and work experience opportunities and delivered over 60,000 hours of training. Our schemes have maximised the number of households that we can support by successfully levering funding into Wales from the energy company obligation. In 2013-14, our Nest scheme alone secured over £3.9 million of this funding. Whilst we've been successful in attracting energy company obligation funding to Wales, we want to challenge the energy suppliers to do more. That's why the Minister for Natural Resources is meeting with each of the big energy suppliers. He is challenging each of them to focus on what they can deliver for Wales and how they can support the action and investment that this Government is making to tackle fuel poverty.

We know that our schemes are delivering on tackling fuel poverty, tackling carbon emissions, regenerating communities and delivering jobs and growth, but we also want to understand more about their impact on health and wellbeing. We're investing in research to anonymously link data on home energy improvements with health outcome data, with the aim of producing conclusive evidence of the health impact of our home energy efficiency improvements.

We've recently appointed an analyst to take forward this work, which will continue over the next three years. We also want to understand more about the characteristics of households that are most at risk of living in a cold home and would benefit most from the energy efficiency improvement schemes. We will shortly be procuring research on this, and the tackling poverty external advisory group has been involved in the development of the specification and will provide us with advice on the findings of this research.

So, to conclude, the Welsh Government is committed to tackling fuel poverty and improving the wellbeing of the people of Wales. Our commitment is supported by the unprecedented levels of investment that we're making in our energy efficiency programme and significant achievements that we've delivered to date.

Ers 2012, mae ein cynlluniau wedi creu dros 500 o swyddi newydd a chyfleoedd profiad gwaith a darparu dros 60,000 awr o hyfforddiant. Mae ein cynlluniau wedi sicrhau'r niferoedd mwyaf o aelwydydd y gallwn eu cefnogi trwy ddenu cyllid yn llwyddiannus i mewn i Gymru o rwymedigaeth cwmni ynni. Yn 2013-14, mae ein cynllun Nyth ar ben ei hun wedi sicrhau dros £3.9 miliwn o'r cyllid hwn. Er ein bod wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu cyllid rhwymedigaeth cwmni ynni i Gymru, rydym eisiau herio'r cyflenwyr ynni i wneud mwy. Dyna pam y mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol yn cwrdd â phob un o'r cyflenwyr ynni mawr. Mae'n herio pob un ohonynt i ganolbwyntio ar yr hyn y gallant ei gyflawni i Gymru a sut y gallant gefnogi'r camau gweithredu a'r buddsoddiad y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud er mwyn trechu tlodi tanwydd.

Gwyddom fod ein cynlluniau'n llwyddo i drechu tlodi tanwydd, mynd i'r afael ag allyriadau carbon, adfywio cymunedau a darparu swyddi a thwf, ond rydym hefyd yn awyddus i ddeall mwy am eu heffaith ar iechyd a lles. Rydym yn buddsoddi mewn ymchwil i gysylltu data diennw ar welliannau ynni yn y cartref â data canlyniadau iechyd, er mwyn cynhyrchu tystiolaeth derfynol o'r effaith y mae ein gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn ei chael ar iechyd.

Rydym wedi penodi dadansoddwr i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, a fydd yn para am y tair blynedd nesaf. Rydym hefyd eisiau deall mwy am nodweddion yr aelwydydd sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn cartref oer ac a fyddai'n elwa fwyaf o'r cynlluniau gwella effeithlonrwydd ynni. Byddwn yn caffael ymchwil ar hyn yn fuan, ac mae'r grŵp cynghori allanol ar drechu tlodi wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r fanyleb a bydd yn rhoi cyngor ar ganfyddiadau'r ymchwil hwn.

Felly, i gloi, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i drechu tlodi tanwydd a gwella lles pobl Cymru. Mae ein hymrwymiad yn cael ei gefnogi gan y lefelau digyffelyb o fuddsoddiad rydym yn ei wneud yn ein rhaglen effeithlonrwydd ynni a'r llwyddiannau sylweddol rydym wedi eu cyflwyno hyd yma.

18:01

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. That concludes today's proceedings.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:01.

Diolch yn fawr. Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

The meeting ended at 18:01.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)